# Cyfraith Bwyd

## Canllawiau Ymarfer (Cymru)
## (Cyhoeddwyd Hydref 2025)
## Asiantaeth Safonau Bwyd

## Cynnwys

***Pennod 1 Cyflwyniad*** ... 1

***Pennod 2 Gweinyddu, cysylltu a chydlynu*** ... 2

*2.1 Cyflwyniad* ... 2

*2.2 Gofynion cyffredinol* ... 2

2.2.1 Setiau data ... 2

*2.3 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni wedi'u dogfennu* ... 2

2.3.1 Y weithdrefn cymeradwyo sefydliadau busnesau bwyd ... 2

2.3.2 Y weithdrefn dilysu rheolaethau ... 2

2.3.2.1 Monitro darpariaeth gwasanaeth ... 3

2.3.2.2 Monitro rheolaethau swyddogol ... 4

2.3.2.3 Monitro camau dilynol a gwaith gorfodi ... 5

2.3.2.4 Monitro Systemau Gwybodaeth Reoli (MIS) ... 6

2.3.3 Gweithdrefn a/neu drefniadau ar gyfer gwrthdaro buddiannau ... 6

2.3.4 Y weithdrefn wybodaeth ... 7

2.3.5 Y weithdrefn gofrestru ... 7

2.3.6 Y weithdrefn digwyddiadau a rhybuddion bwyd ... 8

2.3.7 Y weithdrefn cwynion corfforaethol ... 8

2.3.8 Y weithdrefn cwynion bwyd ... 8

2.3.9 Y weithdrefn offer ... 8

2.3.10 Y weithdrefn orfodi ... 8

2.3.11 Y weithdrefn rheoli ac ymchwilio i achosion a brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ... 9

2.3.12 Y weithdrefn diogelwch TG ... 9

2.3.13 Polisi samplu ... 9

2.3.14 Polisi gorfodi ... 10

2.3.15 Polisi cwynion ... 11

2.3.16 Cynllun wrth gefn ... 11

2.3.17 Rhaglen hyfforddi ... 11

2.3.18 Cynllun gwasanaeth ... 12

2.3.18.1 Cyflwyniad ... 12

2.3.18.2 Fformat y cynllun gwasanaeth ... 12

2.3.18.3 Datblygu'r cynllun gwasanaeth ... 13

2.3.19 Rhaglen Rheolaethau Swyddogol ... 14

2.3.20 Rhaglen samplu ... 15

*2.4 Dirprwyo rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill* ... *16*

2.4.1 Dirprwyo i swyddogion awdurdodi ... 16

2.4.2 Dirprwyo i Awdurdodau Cymwys eraill ... 16

*2.5 Cyswllt lleol, rhanbarthol a chenedlaethol* ... *16*

2.5.1 Trefniadau cyswllt ... 16

2.5.2 Cyswllt â'r ASB ... 17

2.5.2.1 Uwchgyfeirio ymholiadau technegol i'r ASB neu un o asiantaethau eraill y llywodraeth 18

2.5.3 Cyswllt mewn mannau cyrraedd ... 18

2.5.4 Grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol ... 19

*2.6 Cofrestru sefydliadau busnesau bwyd* ... *19*

2.6.1 Rhyddid gwybodaeth a diogelu data ... 19

2.6.2 Ffeiliau cofnodion sefydliadau ... 19
2.6.3 Cadw cofnodion ... 20
2.6.3.1 Cadw cynlluniau HACCP ... 20

*2.7 Cymeradwyo sefydliadau ... 21*
2.7.1 Ceisiadau am gymeradwyaeth ... 21
2.7.2 Ffeiliau'r Awdurdod Cymwys ... 21

*2.8 Prif awdurdod ac awdurdod cartref ... 22*
2.8.1 Cynllun prif awdurdod ... 23
2.8.2 Awdurdod cartref ... 23

*2.9 Darparu gwasanaethau dewisol ... 23*

***Pennod 3 Awdurdodiad, cymwysterau a chymhwysedd ... 25***

*3.1 Cyflwyniad ... 25*

*3.2 Penodi swyddogion ... 25*
3.2.1 Swyddog bwyd arweiniol ... 25
3.2.2 Awdurdodi swyddogion ... 26
3.2.2.1 Goruchwyliaeth briodol ... 26
3.2.2.2 Deddfwriaeth ... 26
3.2.3 Cymwysterau ... 26
3.2.3.1 Cymwysterau â chyfyngiadau ... 28
3.2.3.2 Cymwysterau â chyfyngiadau – hylendid bwyd ... 29
3.2.3.3 Cymwysterau â chyfyngiadau – safonau bwyd ... 29
3.2.3.4 Cywerthedd cymwysterau ... 30
3.2.4 Cymhwysedd ... 31
3.2.4.1 Asesiad cymhwysedd ... 31
3.2.4.2 Asesiad o gymhwysedd swyddog bwyd arweiniol ... 31
3.2.4.3 Swyddogion yn symud o un Awdurdod Cymwys i un arall ... 32

*3.3 Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus arall ... 32*
3.3.1 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ... 32
3.3.1.1 Mathau o DPP ... 33
3.3.1.2 Dulliau o gyflawni DPP ... 34
3.3.1.3 Tystio a chofnodi DPP ... 35

*3.4 Swyddogion sy'n cynnal rheolaethau mewnforio mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin ... 35*
3.4.1 Arolygwyr pysgod swyddogol ... 36

***Pennod 4 Cynnal rheolaethau swyddogol ... 37***

*4.1 Cyflwyniad ... 37*

*4.2 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau swyddogol ... 37*
4.2.1 Hylendid bwyd a safonau bwyd ... 37
4.2.1.1 Ffynonellau gwybodaeth a chudd-wybodaeth ... 37
4.2.2 Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'r cynllun sgorio ymyriadau ... 37
4.2.2.1 Grwpiau risg sy'n agored i niwed ... 38
4.2.3 Cynhyrchu cynradd ... 39
4.2.4 Rheolaethau swyddogol cychwynnol ... 39
4.2.4.1 Asesiad bwrdd gwaith cychwynnol ... 39
4.2.4.2 Penderfynu pryd i gynnal y rheolaeth swyddogol gychwynnol ... 39
4.2.4.3 Dulliau a thechnegau priodol ar gyfer rheolaethau swyddogol cychwynnol ... 40

4.2.5 Rheolaethau swyddogol dyledus ... 41

*4.3 Dulliau a thechnegau wrth gynnal rheolaethau swyddogol ... 41*

4.3.1 Dulliau a thechnegau ar gyfer hylendid bwyd ... 42

4.3.2 Rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol a gynhelir o bell ... 43

4.3.2.1 Holiaduron ... 43

4.3.3 Samplu, dadansoddi ac archwilio ... 44

4.3.3.1 Caffael samplau ... 44

4.3.3.2 Atal halogi ... 44

4.3.3.3 Parhad tystiolaeth/olrheiniadwyedd gan Awdurdodau Cymwys ... 44

4.3.3.4 Parhad tystiolaeth/olrheiniadwyedd yn y labordy ... 44

4.3.3.5 Tystysgrif a ddyfernir gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd ... 45

4.3.3.6 Ceisiadau am wybodaeth gan weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr ... 46

4.3.3.7 Hawl i ail farn ... 46

4.3.3.8 Samplau i'w dadansoddi ... 46

4.3.3.9 Samplau i'w dadansoddi – rhannu samplau ... 46

4.3.3.10 Samplau i'w dadansoddi – maint y sampl ... 47

4.3.3.11 Samplau i'w dadansoddi – cynwysyddion ar gyfer samplau ... 47

4.3.3.12 Samplau i'w dadansoddi – storio a chludo samplau ... 48

4.3.3.13 Samplau i'w dadansoddi – hysbysiad o ganlyniadau ... 48

4.3.3.14 Samplau i'w harchwilio ... 48

4.3.3.15 Samplau i'w harchwilio – trefnu ... 49

4.3.3.16 Samplau i'w harchwilio – maint y samplau ... 49

4.3.3.17 Samplau i'w harchwilio – trin, cludo a storio ... 49

4.3.3.18 Samplau i'w harchwilio – hysbysiad o ganlyniadau ... 50

4.3.3.19 Sbesimenau ysgarthol ... 50

4.3.3.20 Ymchwiliad gwyddonol ar samplau bwyd sy'n destun cwynion ... 50

4.3.4 Arolygiadau ... 51

4.3.4.1 Arolygiadau hylendid bwyd ... 51

4.3.4.2 Arolygiadau safonau bwyd ... 52

4.3.4.3 Cwblhau arolygiad ... 52

*4.4 Cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ... 53*

4.4.1 Rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau ... 53

4.4.1.1 Cyffredinol ... 53

4.4.1.2 Peryglon ... 54

4.4.1.3 Gwastraff arlwyo rhyngwladol ... 54

4.4.1.4 Gwybodaeth berthnasol ... 54

4.4.1.5 Rheolaethau swyddogol a gwaith gorfodi ... 55

4.4.1.6 Llong wedi'i chofrestru y tu allan i'r DU ... 55

4.4.1.7 Llongau ac awyrennau milwrol y DU ... 55

4.4.1.8 Rheolaethau swyddogol ar longau ... 56

4.4.1.9 Rheolaethau swyddogol ar longau – penderfyniad i gynnal rheolaethau a'u hamlder 56

4.4.1.10 Rheolaethau swyddogol ar longau – cynnal rheolaethau swyddogol ar longau ... 58

4.4.1.11 Rheolaethau swyddogol ar longau – camau gweithredu ar ôl cwblhau'r rheolaeth swyddogol 58

4.4.1.12 Rheolaethau swyddogol ar longau – cysylltu â'r Adran Forwrol a Gwylwyr y Glannau 59

4.4.1.13 Rheolaethau swyddogol ar longau – Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ... 59

4.4.1.14 Rheolaethau swyddogol ar longau – prif awdurdod ac awdurdod cartref ... 59

4.4.1.15 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – paratoi ... 59

4.4.1.16 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – penderfyniad i gynnal rheolaethau swyddogol 61

4.4.1.17 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – cynnal rheolaethau swyddogol ar awyrennau 62
4.4.1.18 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – prif awdurdod ac awdurdod cartref ........... 64
4.4.2 Y gofyniad ar gyfer gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP 64
4.4.2.1 Hyblygrwydd HACCP ........ 64
4.4.2.2 Systemau rheoli diogelwch bwyd ........ 65
4.4.2.3 Gorfodi ........ 65

*4.5 Rheolaethau answyddogol ........ 65*
4.5.1 Cyngor, addysg, a hyfforddiant ........ 65

*4.6 Cofnodion o reolaethau swyddogol a rheolaethau nad ydynt yn rhai swyddogol ........ 66*
4.6.1 Cyfathrebu â busnesau sydd â sawl safle ........ 67
4.6.2 Ffurflenni templed ........ 67

*4.7 Rheolaethau mewnforio ........ 67*
4.7.1 Gweithdrefnau ar gyfer bwyd a fewnforir ........ 68
4.7.1.1 Nodi a chofnodi mewnforwyr bwyd mewndirol ........ 68
4.7.1.2 Nodi bwyd a fewnforir mewn mannau cyrraedd ........ 69
4.7.1.3 Manylion mannau cyrraedd ........ 69
4.7.1.4 Swyddog enwebedig ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio ........ 69
4.7.1.5 Ffurflenni data ........ 70
4.7.2 Monitro llwythi ........ 70
4.7.2.1 Dim presenoldeb parhaol mewn mannau cyrraedd ........ 70
4.7.2.2 Cofnodion llwythi ac archwiliadau ........ 70
4.7.3 Bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid ........ 71
4.7.3.1 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 ........ 71
4.7.3.2 Deddfwriaeth arall ........ 71
4.7.3.3 System Rhybuddio Cynnar (EWS) ........ 71
4.7.3.4 Gwiriadau cyn-allforio i wlad y tu allan i Brydain Fawr ........ 72
4.7.4 Cyswllt/atgyfeiriadau ........ 72

***Pennod 5 Digwyddiadau, rhybuddion a throseddau bwyd ........ 74***

*5.1 Cyflwyniad ........ 74*

*5.2 Rheoli digwyddiadau a rhybuddion bwyd ........ 74*
5.2.1 Cysylltiadau digwyddiadau bwyd ........ 74
5.2.2 Camau gweithredu gan yr Awdurdod Cymwys – ymatebion i gyswllt cyn y digwyddiad gan yr ASB 74
5.2.3 Rhoi gwybod am ddigwyddiadau bwyd i'r ASB ........ 74
5.2.4 Gwybodaeth a geir yn lleol a allai ddynodi problem ehangach ........ 75
5.2.5 Dadansoddi gwraidd y broblem ........ 76

*5.3 Cyswllt â gwledydd y tu allan i'r DU ........ 76*
5.3.1 System Rhybuddio Cyflym y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid ........ 76
5.3.2 Cyfathrebu â gwledydd y tu allan i'r DU ........ 76
5.3.3 Datgelu gwybodaeth i wledydd y tu allan i'r DU ........ 76
5.3.4 Defnyddio tystiolaeth dramor mewn achos troseddol ........ 76

*5.4 Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd ........ 77*
5.4.1 Rhoi gwybod am amheuon o droseddau bwyd i'r Uned ........ 78

***Pennod 6 Gorfodi ........ 79***

*6.1 Cyflwyniad ... 79*

*6.2 Pwerau mynediad ... 79*
6.2.1 Pwerau Mynediad, Arolygu ac Atafaelu a Deddf Hawliau Dynol 1998 ... 79
6.2.2 Hysbysiadau Cod B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) ... 80

*6.3 Camau gorfodi ... 80*
6.3.1 Hierarchaeth y camau gorfodi ... 81
6.3.2 Cyngor ac addysg ... 81
6.3.3 Penderfynu ar gamau gorfodi priodol ... 81

*6.4 Hysbysiadau hylendid bwyd a safonau bwyd ... 82*
6.4.1 Cyflwyniad ... 82
6.4.2 Pryd i ddefnyddio hysbysiad ... 82
6.4.2.1 Pryd i beidio â defnyddio hysbysiad ... 82
6.4.3 Drafftio hysbysiadau ... 83
6.4.4 Mesurau o'r un effaith ... 83
6.4.5 Terfynau amser ... 84
6.4.5.1 Ymestyn terfynau amser ... 85
6.4.6 Dulliau o gyflwyno hysbysiad ... 85
6.4.7 Apeliadau ... 86
6.4.8 Trafodaethau eraill gyda'r Awdurdod Cymwys ... 90
6.4.9 Iawndal ... 90
6.4.10 Cydymffurfiaeth ... 90
6.4.11 Gorfodi ... 91
6.4.12 Cyhoeddi hysbysiadau ... 92
6.4.12.1 Hysbysiadau templed ... 92
6.4.12.2 Canllawiau eraill ... 92

*6.5 Hysbysiadau Camau Unioni ... 92*
6.5.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Camau Unioni ... 93
6.5.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Camau Unioni ... 93
6.5.3 Drafftio Hysbysiadau Camau Unioni ... 93
6.5.4 Tynnu Hysbysiad Camau Unioni yn ôl ... 94
6.5.5 Apeliadau ... 94
6.5.6 Ffurflenni templed ... 94

*6.6 Gweithdrefnau Gwahardd ... 94*
6.6.1 Cyflwyniad ... 94
6.6.2 Gweithdrefnau gwahardd o ran hylendid a gweithdrefnau gwahardd ... 94
6.6.3 Gweithdrefnau gwahardd brys o ran hylendid (HEPN) a Gweithdrefnau Gwahardd Brys (EPN) 95
6.6.4 Cyflwr Risg Iechyd /Risg ar Fin Digwydd o Niwed i Iechyd ... 96
6.6.4.1 Cyflwr Risg Iechyd – HEPN/HEPO ... 96
6.6.4.2 Cyflwr Risg Iechyd – EPN/EPO ... 96
6.6.5 Meini prawf ar gyfer gweithredu – gweithdrefnau gwahardd hylendid/gweithdrefnau gwahardd ... 97
6.6.5.1 Gwahardd defnyddio safleoedd ... 97
6.6.5.2 Gwahardd defnyddio offer ... 97
6.6.5.3 Gwahardd defnyddio proses ... 98
6.6.6 Ceisio cyngor ychwanegol ... 98
6.6.7 Gohirio gweithredu ar unwaith ... 98
6.6.8 Gwahardd person ... 98
6.6.9 Achosion llys sy'n ymwneud â gweithdrefnau gwahardd ... 99

6.6.9.1 Y dystiolaeth sydd ei hangen ........ 99
6.6.9.2 Cais i'r Llys ........ 99
6.6.9.3 Camau i'w cymryd cyn y gwrandawiad ........ 99
6.6.9.4 Gwybodaeth i'w rhoi i'r Llys ........ 100
6.6.10 Cyflwyno hysbysiadau a gorchmynion gwahardd ........ 100
6.6.10.1 Dulliau o gyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn ........ 100
6.6.10.2 Gosod yr hysbysiad neu'r gorchymyn ar y safle ........ 101
6.6.11 Tynnu neu ddifrodi hysbysiadau neu orchmynion heb awdurdod ........ 102
6.6.12 Mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn gwahardd ........ 102
6.6.13 Codi hysbysiad neu orchymyn ........ 103
6.6.13.1 Codi hysbysiadau a gorchmynion gwahardd ........ 103
6.6.13.2 Codi gorchmynion gwahardd yn erbyn personau ........ 104
6.6.13.3 Apeliadau – gwrthod codi gorchymyn gwahardd ........ 104
6.6.14 Iawndal ........ 104

*6.7 Cadw ac atafael ........ 105*
6.7.1 Cyflwyniad ........ 105
6.7.2 Bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd ........ 105
6.7.2.1 Hylendid bwyd ........ 105
6.7.2.2 Safonau bwyd ........ 105
6.7.2.3 Rhagdybiaeth ei fod yn fwyd ........ 106
6.7.3 Ymdrin â sypiau, lotiau neu lwythi bwyd ........ 106
6.7.4 Cymryd camau heb arolygu ........ 107
6.7.5 Cadw bwyd ........ 107
6.7.5.1 Lleoliad cadw'r bwyd ........ 107
6.7.5.2 Hysbysiad Cadw Bwyd ........ 108
6.7.5.3 Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl ........ 108
6.7.6 Atafael bwyd ........ 108
6.7.6.1 Trefniadau ar gyfer trin neu brosesu ........ 108
6.7.6.2 Atafael bwyd – Proses ........ 109
6.7.6.3 Rhybudd condemnio bwyd ........ 110
6.7.7 Dinistrio neu gael gwared ar fwyd ........ 110

*6.8 Gweithdrefnau gwirfoddol ........ 111*
6.8.1 Gofynion cyffredinol ........ 111
6.8.2 Gwaharddiadau gwirfoddol ........ 111
6.8.3 Ildio/dinistrio gwirfoddol ........ 112

*6.9 Erlyn ........ 112*
6.9.1 Cyflwyniad ........ 112
6.9.2 Terfyn amser ar gyfer erlyniad ........ 113

*6.10 Gwiriadau dilynol ........ 113*

*6.11 Gorfodi mewn sefydliadau yn amodol ar gymeradwyaeth ........ 113*
6.11.1 Cyflwyniad ........ 113
6.11.2 Hysbysiadau bod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi'i hatal neu ei thynnu'n ôl ........ 114
6.11.3 Apeliadau yn erbyn atal neu dynnu gymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl 115
6.11.4 Hysbysiadau cadw ........ 115
6.11.4.1 Hysbysiadau cadw ........ 115
6.11.5 Ffurflenni templed ........ 115

*6.12 Gorfodi mewn perthynas â bwyd a fewnforir ..... 116*
6.12.1 Pwerau gorfodi ar gyfer bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid a fewnforir ..... 116
6.12.1.1 Cadw ..... 116
6.12.1.2 Llwythi bwyd sy'n niweidiol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu sydd yn anniogel ..... 116
6.12.1.3 Llwythi bwyd nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd ..... 117
6.12.1.4 Triniaethau arbennig ..... 117
6.12.1.5 Ailddosbarthu llwythi ..... 118
6.12.1.6 Apeliadau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 ..... 118
6.12.1.7 Darpariaethau eraill ..... 118
6.12.2 Pwerau gorfodi ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid (POAO) a fewnforir ..... 119
6.12.3 Canllawiau pellach ..... 119

*6.13 Sefydliadau'r Goron ..... 119*
6.13.1 Cyflwyniad ..... 119
6.13.2 Pwerau mynediad a rheolaethau swyddogol ..... 119
6.13.2.1 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ..... 119
6.13.2.2 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ..... 120
6.13.2.3 Cynnal rheolaethau swyddogol a pha mor aml y cynhelir y rhain ..... 120
6.13.3 Categorïau safleoedd y Goron ..... 120
6.13.3.1 Ffotograffau ..... 122
6.13.4 Gorfodi ..... 122
6.13.4.1 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 ..... 122
6.13.4.2 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ..... 122
6.13.4.3 Sefyllfa gweision sifil neu lywodraeth unigol ..... 123
6.13.4.4 Hysbysiadau Statudol ..... 123
6.13.4.5 Cyswllt â'r Prif Awdurdod/yr ASB ..... 123

***Pennod 7 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (pysgod cregyn) ..... 124***

*7.1 Cyflwyniad ..... 124*

*7.2 Eithriad y farchnad leol (symiau bach) ..... 124*

*7.3 Ardaloedd cynhyrchu ac ailosod ..... 125*
7.3.1 Dosbarthu a monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod ..... 125
7.3.2 Trosglwyddo grawn molysgiaid dwygragennog byw (LBMs) i ardaloedd cynhyrchu wedi'u dosbarthu ..... 125

*7.4 Trefniadau cyswllt ar gyfer pysgod cregyn ..... 126*

*7.5 Dogfen gofrestru ar gyfer symud LBMs ac eithriadau ..... 126*
7.5.1 Dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs ..... 126
7.5.2 Archwilio dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs ..... 127
7.5.3 Gwirio a monitro dogfennau cofrestru ..... 127

*7.6 Camau gweithredu ar ôl gwaith samplu rheolaethau swyddogol nad yw'n cydymffurfio ..... 128*
7.6.1 Hysbysiad Cau Ardal Gynhyrchu Dros Dro (Hysbysiadau Cau) ..... 128

*7.7 Adrodd am weithgarwch cynaeafu anghyfreithlon ..... 129*

*7.8 Safonau ar gyfer canolfannau puro ..... 129*

*7.9 Nodau adnabod ar bysgod cregyn ..... 130*

*7.10 Templedi a chanllawiau ychwanegol ..... 130*

***Pennod 8 Canllawiau pwnc-benodol*** ........ ***131***

*8.1 Cyflwyniad* ........ *131*

*8.2 Materion sy'n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd* ........ *131*
8.2.1 Cyflwyniad ........ 131
8.2.2 Awdurdod Cymwys ........ 131
8.2.3 Cwmpas cymeradwyo ........ 131
8.2.4 Cyflenwad uniongyrchol o feintiau bach o bysgod ........ 132
8.2.5 Canllawiau ychwanegol ........ 132

*8.3 Materion yn ymwneud â chig* ........ *132*
8.3.1 Cig – Cymeradwyo sefydliadau ........ 132
8.3.2 Gorfodi mewn sefydliadau cig ........ 132
8.3.2.1 Sefydliadau sydd wedi'u cydleoli ........ 132
8.3.2.2 Sefydliadau annibynnol ........ 133
8.3.2.3 Cig o anifeiliaid hela gwyllt ........ 133
8.3.3 Eithriadau cymeradwyo ........ 133
8.3.3.1 Lladd ar y fferm a thorri symiau bach o ddofednod a lagomorffiaid ........ 133
8.3.4 Cynhyrchion cig, briwgig a pharatoadau cig – Torri cig ........ 135
8.3.5 Lladd da byw gartref ........ 135
8.3.6 Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr (LTTC) ........ 135
8.3.7 Canllawiau bwyd Halal ........ 135

*8.4 Materion yn ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth amrwd* ........ *135*
8.4.1 Cyflwyniad ........ 135
8.4.2 Gorfodi ........ 136
8.4.3 Gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu llaeth yfed amrwd a hufen i'w hyfed neu eu bwyta'n uniongyrchol gan bobl ........ 137
8.4.4 Cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio ........ 137
8.4.5 Gofynion iechyd ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd ........ 137
8.4.6 Meini prawf a safonau ar gyfer llaeth amrwd ........ 138
8.4.7 Gofynion tymheredd ar gyfer llaeth a ddefnyddir i weithgynhyrchu cynhyrchion llaeth ........ 138
8.4.8 Trin llaeth amrwd neu gynhyrchion llaeth â gwres ........ 138
8.4.9 Profi ffosffadas ('phosphatase') ........ 139
8.4.10 Labelu cawsiau wedi'u gwneud o laeth amrwd ........ 139
8.4.11 Statws 'heb TB swyddogol' a deddfwriaeth hylendid llaeth ........ 139
8.4.11.1 Cwmpas ........ 139
8.4.11.2 Cyflwyniad ........ 139
8.4.11.3 Materion gorfodi Awdurdodau Cymwys ........ 140
8.4.11.4 Hysbysiad CCDC i'r Awdurdod Cymwys am berson â TB buchol wedi'i gadarnhau 143
8.4.11.5 Cysylltiadau a gwybodaeth bellach ........ 144

*8.5 Materion yn ymwneud â chanolfannau pacio wyau* ........ *144*
8.5.1 Cyflwyniad ........ 144
8.5.2 Cwmpas y rheoliadau ........ 144
8.5.3 Gofynion hylendid penodol ar gyfer wyau cregyn ........ 145
8.5.4 Marchnata wyau ........ 146

*8.6 Materion yn ymwneud â chynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif* ........ *146*
8.6.1 Cyflwyniad ........ 146
8.6.2 Cwmpas y rheoliadau ........ 146
8.6.3 Mathau o safleoedd cymeradwy ........ 147
8.6.4 Wyau budr ........ 147

8.6.5 Allgyrchu (‘centrifuging’) neu falu ... 147
8.6.6 Gofynion labelu ... 148
8.6.7 Pasteureiddio a thrin â gwres ... 148
8.6.8 Manylebau dadansoddol ... 148
8.6.9 Rheoli tymheredd ... 148
8.6.10 Storio a chludo ... 148

*8.7 Symiau bach ... 149*
8.7.1 Symiau bach o gynhyrchion cynradd ... 149

*8.8 Bwyd ar gyfer grwpiau penodol ... 150*
8.8.1 Canllawiau ... 150

*8.9 Darpariaethau rheoli tymheredd ... 150*
8.9.1 Cyflwyniad ... 150
8.9.2 Dull cyffredinol o wirio tymheredd ... 151
8.9.3 Cymryd mesuriadau tymheredd ... 153
8.9.4 Lefelau goddefiant ... 153
8.9.5 Gwirio a graddnodi thermomedrau mesur a ddefnyddir at ddibenion gorfodi ... 153
8.9.6 Oeri offer ymlaen llaw ... 154
8.9.7 Paratoi samplau ar gyfer mesur tymheredd ... 154
8.9.8 Mesur tymheredd cynnyrch ... 154
8.9.9 Offer a ddefnyddir i fesur tymheredd cynnyrch wedi’i oeri ... 155
8.9.10 Bwyd sy’n gynhesach na’r tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn oer ... 155
8.9.11 Bwyd sy’n oerach na’r tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn boeth ... 155
8.9.12 Gwyriadau oddi wrth y tymheredd ... 156

*8.10 Dŵr potel ... 156*
8.10.1 Canllawiau ... 157

*8.11 Gwastraff bwyd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 157*
8.11.1 Cyflwyniad ... 157
8.11.2 Gwastraff arlwyo ... 157
8.11.3 Rheolaethau swyddogol ar fusnesau bwyd ... 158
8.11.4 Gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 158
8.11.5 Bwyd anifeiliaid – bwydydd blaenorol a chyd-gynhyrchion ... 158
8.11.6 Bwyd anifeiliaid – rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 159
8.11.7 Bwyd anifeiliaid – gwastraff arlwyo ... 159
8.11.8 Ymchwiliadau mawr ... 160

*8.12 Gwerthu o bell/archebu drwy’r post ... 160*
8.12.1 Cyflwyniad ... 160
8.12.2 Gwerthu bwyd o bell o’r DU ... 161
8.12.3 Gwerthu bwyd o bell o’r tu allan i’r DU ... 161
8.12.4 Canllawiau eraill ... 161

*8.13 Nodiadau canllaw ychwanegol i Awdurdodau Cymwys ... 161*

*Rhestr termau ... 162*

***Atodiad 1: Templed cynllun gwasanaeth ... 177***

***Atodiad 2: Cofrestru ... 183***

*A2.1 Cofrestru sefydliadau bwyd ... 183*
A2.1.1 Pwy sy’n weithredwr busnes bwyd? ... 183

A2.1.2 Gofyniad i gofrestru sefydliad busnes bwyd ... 183
A2.1.3 Dulliau cofrestru ... 183
A2.1.4 Defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill ... 184
A2.1.5 Cynhyrchu cynradd ... 184
A2.1.6 Llongau pysgota ... 184

*A2.2 Eithriadau rhag cofrestru ... 184*
A2.2.1 Graddau o drefnu a pharhad gweithgareddau ... 184
A2.2.2 Sefydliadau cymeradwy ... 185
A2.2.3 Eithriadau eraill ... 185
A2.2.4 Siart lif cofrestru ... 186
A2.2.5 Camau i'w cymryd ar ôl i ffurflen gofrestru ddod i law ... 187
A2.2.6 Cydnabod cais i gofrestru ... 188
A2.2.7 Newidiadau i weithrediadau sefydliadau bwyd ... 188
A2.2.8 Newid perchnogaeth ar ôl cofrestru ... 188

*A2.3 Gweithrediadau aml-safle a lloeren ... 190*
A2.3.1 Cofrestriad unigol ar gyfer sefydliadau cysylltiedig lluosog ... 190
A2.3.2 Gorfodi a goruchwylio safleoedd lluosog sy'n gweithredu o dan un cais cofrestru ... 191
A2.3.3 Enghreifftiau o pryd y gellir cofrestru sefydliad bwyd unigol ... 191
A2.3.4 Enghreifftiau o pryd na fydd cofrestru sefydliad bwyd unigol yn gymwys ... 192

*A2.4 Sefydliadau busnes bwyd symudol ... 193*
A2.4.1 Llongau a chychod ... 193
A2.4.2 Awyrennau ... 193
A2.4.3: Trenau a bysys ... 193
A2.4.4: Marchnadoedd ... 194

*A2.5 Sefydliadau bwyd symudol ... 194*
A2.5.1 Gofynion cofrestru ... 194
A2.5.2 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Cymwys ... 194
A2.5.3 Trosglwyddo cyfrifoldeb rhwng Awdurdodau Cymwys ... 195
A2.5.4 Trefn arferion gorau ar gyfer sgorio sefydliadau bwyd symudol ... 195
A2.5.5 Busnes bwyd symudol ag unedau lluosog ... 196
A2.5.6 Sgorio risg sefydliadau symudol ... 196

*A2.6 Mathau eraill o sefydliadau ... 196*
A2.6.1 Busnesau bwyd sy'n gweithredu o safleoedd domestig fel arlwywyr cartref a lletai gwely a brecwast 196
A2.6.2 Gofal cartref/gofal byw â chymorth ... 197
A2.6.3 Banciau bwyd ... 197
A2.6.4 Broceriaid bwyd ... 197
A2.6.5 Gwerthu dros y rhyngrwyd ... 197
A2.6.6 Sefydliadau busnesau bwyd dros dro ... 198
A2.6.7 Peiriannau gwerthu ... 198
A2.6.8 Sefydliadau anfasnachol ... 198

***Atodiad 3: Canllawiau ar Adran 4 o'r Cynllun Sgorio Ymyriadau Hylendid Bwyd ... 199***

*A3.1 Lefel y gydymffurfiaeth (gyfredol) – gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd ... 199*

*A3.2 Lefel y gydymffurfiaeth (gyfredol) – gofynion strwythurol ... 204*

*A3.3 Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli ... 209*

# Pennod 1 Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae'r Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Canllawiau Ymarfer) wedi'u:

- cyhoeddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)
- cyfeirio at Awdurdodau Cymwys (awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd) sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol
- llunio gyda'r bwriad o gynorthwyo Awdurdodau Cymwys i gyflawni eu dyletswydd statudol i orfodi cyfraith bwyd
- llunio gyda'r bwriad o ategu ansawdd, cysondeb, effeithiolrwydd a phriodoldeb rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain

Maent yn ategu'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd statudol (y Cod), ac yn rhoi cyngor cyffredinol ar y dull o orfodi'r gyfraith lle gallai ei bwriad fod yn aneglur.

Mae'r canllawiau a geir yn y ddogfen hon:

- wedi'u rhoi'n ddiffuant ac maent yn cyd-fynd â dealltwriaeth yr ASB o ofynion cyfreithiol perthnasol
- yn ystyried argymhellion a wnaed gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Iechyd a Diogelwch Bwyd – Archwilio a Dadansoddi (DGF), a hynny'n dilyn unrhyw archwiliad o systemau rheoli bwyd y Deyrnas Unedig (DU)
- yn darparu dolenni i ystod o ganllawiau

Dylid ystyried bod pob cyfeiriad at ddeddfwriaeth yn y Canllawiau Ymarfer o bosib yn destun gwelliant neu ddirymiad ac, oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau rheoleiddiol yn cyfeirio at gyfraith a gymathwyd ('assimilated law').

Cyfrifoldeb yr Awdurdodau Cymwys yw sicrhau eu bod yn cyfeirio'n gywir at y fersiynau cyfredol o ddeddfwriaeth berthnasol wrth gynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain.

Oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau at benodau ac adrannau yn y Cod yn cyfeirio at y rhannau perthnasol o'r Canllawiau Ymarfer. Yn ogystal, mae rhestr termau gyda diffiniadau o'r termau a'r talfyriadau a ddefnyddir drwy gydol y Canllawiau Ymarfer.

Nid yw'r canllawiau a geir yn y Canllawiau Ymarfer yn ganllawiau statudol. Mae unrhyw enghreifftiau yn ddarluniadol ac nid yn gynhwysfawr.

# Pennod 2 Gweinyddu, cysylltu a chydlynu

## 2.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 2 yn ymdrin â'r canlynol:

- y drefn ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol
- y trefniadau gweinyddol, gan gynnwys dynodi Awdurdodau Cymwys, cofrestru sefydliadau busnesau bwyd a'u cymeradwyo
- trefniadau cysylltu i sicrhau:
    - cydlynu effeithlon ac effeithiol rhwng Awdurdodau Cymwys, cyrff dirprwyedig, ac adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am reolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhain
    - cysondeb ac effeithiolrwydd rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ledled y DU
- osgoi achosion o wrthdaro buddiannau
- gweithdrefnau dilysu rheolaethau

## 2.2 Gofynion cyffredinol

### 2.2.1 Setiau data

Rhaid i Awdurdodau Cymwys roi rhestrau perthnasol o setiau data i'r ASB, ac ar hyn o bryd mae'r rhestr yn cynnwys:

- hylendid bwyd
- safonau bwyd
- bwyd wedi'i fewnforio
- safleoedd bwyd cymeradwy
- mesurau diogelu bwyd wedi'i fewnforio
- y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

## 2.3 Gofynion sy'n ymwneud â gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni wedi'u dogfennu

### 2.3.1 Y weithdrefn cymeradwyo sefydliadau busnesau bwyd

Pwrpas y weithdrefn cymeradwyo sefydliadau busnesau bwyd ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd (FBOs) yw sicrhau bod gan FBOs weithdrefn i'w dilyn wrth wneud cais i gymeradwyo eu sefydliad. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cyfeirio at y Canllawiau Cymeradwyo Sefydliadau.

### 2.3.2 Y weithdrefn dilysu rheolaethau

Diben y weithdrefn dilysu rheolaethau (y cyfeirir ati'n aml fel y weithdrefn monitro fewnol) yw sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

yn cael eu cynnal yn gyson ac yn effeithiol. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn:

- yn darparu mesurau i gadarnhau:
  - bod y camau a gymerir gan swyddogion yn ystod ac yn dilyn rheolaeth swyddogol neu weithgareddau swyddogol eraill, gan gynnwys mewn mannau cyrraedd, yn briodol ac yn gyson â gweithdrefnau a pholisïau'r Awdurdodau Cymwys, a chanllawiau perthnasol eraill
  - sut y gellir diwygio'r rhaglen rheoliadau swyddogol arfaethedig i ganiatáu ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, sefydliadau busnesau bwyd sy'n newydd ac sydd wedi cau, a sefydliadau busnesau bwyd y mae eu sgôr risg wedi newid
  - bod swyddogion yn ymwybodol o ganllawiau cyhoeddedig eraill y diwydiant sy'n berthnasol i'r busnesau o fewn ardal yr Awdurdod Cymwys, a bod ganddynt fynediad atynt
  - bod swyddogion yn rhoi sylw dyledus i Ganllawiau Arferion Da cyhoeddedig
  - y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol, y rhoddir sylw dyledus i'r Cod a 'Gwybodaeth a sgiliau ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol yn effeithiol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gweithgareddau eraill' yr ASB (y Safon Cymhwysedd), ac yr ystyrir canllawiau perthnasol eraill
  - defnydd priodol o ffurflenni 'pro forma' perthnasol (gan gynnwys hysbysiadau gorfodi)

#### 2.3.2.1 Monitro darpariaeth gwasanaeth

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cymwys, yn ôl Erthygl 12(2) o Reoliad (UE) 2017/625, fod â gweithdrefnau dilysu rheolaethau. Fel rhan o'r gweithdrefnau hyn, bydd Awdurdodau Cymwys yn cynnal gwiriadau i wirio cydymffurfiaeth â dyletswyddau cyfreithiol, canllawiau swyddogol a'u gweithdrefnau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni eu hunain. Argymhellir bod:

- gwaith monitro yn hyblyg, yn gymesur, yn amrywiol, wedi'i dargedu, ac wedi'i deilwra yn ôl personél a/neu risgiau, gan ddileu gofynion diangen ar reolwyr
- ymarferion cysondeb, o fewn ac ar draws Awdurdodau Cymwys, yn cael eu cynnal er mwyn galluogi cymharu asesiadau swyddogion. Gallai'r rhain gynnwys:
  - sgoriau risg
  - penderfyniadau gorfodi
- gwaith monitro yn canolbwyntio ar wiriadau a gwelliannau ansoddol (yn hytrach na gwiriadau meintiol ar nifer y gweithgareddau a gyflawnir), er enghraifft monitro tueddiadau mewn proffiliau risg busnes ac ansawdd y rheolaethau swyddogol a gynhelir gan swyddogion
- dull monitro 'seiliedig ar risg' yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, mwy o bwyslais ar feysydd hysbys sy'n peri problemau (fel problemau gyda

swyddog penodol neu fusnesau risg uwch) yn hytrach na gwiriad canrannol anhyblyg o'r holl ffeiliau
- rhai gweithgareddau monitro arferol yn cael eu dirprwyo i annog yr holl staff i fynd ati i hunan-fonitro a chynnal adolygiadau o waith ei gilydd fel cymheiriaid, er enghraifft, llythyrau, hysbysiadau a diweddaru ffeiliau.

Mae gweithgareddau monitro'n cynnwys:

- adolygu adroddiadau ar sgoriau risg diweddar, fel y gall rheolwyr nodi ac ymchwilio'n gyflym i'r rhesymau pam mae unrhyw fusnes yn dal i fod yn fusnes risg uchel oherwydd cyfres o reolaethau swyddogol
- rheolaethau swyddogol cyfnodol a gynhelir yng nghwmni swyddog arall
- adolygiadau o'r gwaith papur yn sgil rheolaeth swyddogol
- cyfarfodydd arferol o'r llwyth achosion
- cymryd rhan mewn cynlluniau adolygu gan gymheiriaid a/neu gynlluniau archwilio rhwng awdurdodau (IAA) perthnasol a chadarn, y gellir eu defnyddio:
  - at ddibenion cysondeb gorfodi
  - i nodi arferion da y gellir eu mabwysiadu
  - i nodi unrhyw feysydd i'w gwella

#### 2.3.2.2 Monitro rheolaethau swyddogol

Mae'r Cod yn nodi bod angen monitro'r rheolaethau swyddogol a'r gweithgareddau swyddogol eraill a gynhelir. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod cofnodion yn ddigon manwl a chywir, a bod modd cael gafael arnynt yn rhwydd, a hynny er mwyn:

- dangos i ba raddau mae busnesau bwyd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd berthnasol
- galluogi swyddogion dilynol sy'n cynnal rheolaethau swyddogol i fod yn ymwybodol o hanes cydymffurfio busnes
- llywio pob cam o ddull gorfodi graddol
- darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer camau gorfodi ffurfiol
- galluogi monitro effeithiol, er enghraifft drwy wirio bod:
  - rheolaethau swyddogol yn seiliedig ar risg, fel nad yw'r rheolaethau swyddogol ar gyfer busnesau risg is yn cael blaenoriaeth o flaen y rhai â risg uwch, a/neu ar draul dilyn hynt a mynd i'r afael â phroblemau parhaus mewn busnesau risg uwch
  - rheolwyr llinell yn monitro ac yn mynd i'r afael yn effeithiol ag achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n digwydd dro ar ôl tro neu sy'n hirhoedlog
  - cofnodion (electronig neu gopi caled) o'r rheolaethau swyddogol yn ddigonol i lywio rheolaethau swyddogol a chamau gweithredu dilynol
  - yr adroddiadau ar reolaethau swyddogol sydd wedi'u hysgrifennu â llaw yn ddarllenadwy
  - gofynion cyfreithiol wedi'u gwahaniaethu'n glir oddi wrth gyngor

- unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig yn nodi, lle bo’n berthnasol, y camau dilynol a’r amser a ganiateir ar gyfer gwaith adfer
- camau priodol wedi’u cymryd gan Awdurdodau Cymwys mewndirol mewn perthynas â bwyd wedi’i fewnforio, gan gynnwys cysylltu rhwng awdurdodau

### 2.3.2.3 Monitro camau dilynol a gwaith gorfodi

Mae rhan o’r weithdrefn dilysu rheolaethau yn cynnwys monitro camau dilynol a gwaith gorfodi. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau:

- bod unrhyw gamau gorfodi a gymerir yn unol â pholisïau gorfodi lleol, canllawiau cenedlaethol ac yn briodol i ddifrifoldeb a dyfalbarhad y troseddau
- bod unrhyw benderfyniadau i wyro oddi wrth y dull a ragnodir yn y polisi gorfodi yn cael eu hystyried yn briodol, a bod y rhesymau’n cael eu dogfennu
- bod y broses gyfreithiol briodol ar gyfer yr ystod o opsiynau gorfodi ffurfiol yn cael ei dilyn yn llym
- bod hysbysiadau ffurfiol yn cael sylw amserol (hynny yw, yn syth ar ôl y dyddiad dod i ben), gan dybio y bydd gwaith gorfodi yn digwydd pe bai diffyg cydymffurfio yn parhau
- bod achosion a nodwyd o ddiffyg cydymffurfio difrifol a sgoriau risg gwael mynych yn cael sylw
- eu bod yn nodi methiant i fabwysiadu dull graddol o orfodi a/neu’n defnyddio’r ystod lawn o offer gorfodi
- eu bod yn nodi pan fydd symptomau o ddiffyg cydymffurfio wedi cael eu trin (er enghraifft, ateb tymor byr) yn hytrach na mynd i’r afael â’r achos gwreiddiol, gan arwain at broblemau mynych a pharhaus

Argymhellir hefyd fod Awdurdodau Cymwys yn ystyried:

- cynadleddau achos rheolaidd rhwng rheolwyr a staff, er enghraifft, i drafod cynnydd cydymffurfio pob busnes risg uchel ym maes pob swyddog
- cynnwys adran ‘adolygiad gorfodi’ ar ffurflenni/ffeiliau rheolaethau swyddogol er mwyn i swyddogion allu rhoi rhesymau byr dros unrhyw gamau sydd wedi/heb gael eu cymryd, a hynny er mwyn hysbysu swyddogion sy’n ymgymryd â rheolaethau swyddogol dilynol ac i hwyluso gwiriadau rheolwyr o gysondeb yn erbyn y polisi gorfodi lleol
- ymgynghori â gwasanaethau cyfreithiol yn gynnar wrth gymryd camau gorfodi ffurfiol i sicrhau y gall achosion fodloni’r holl feini prawf o ran tystiolaeth a gweithdrefnau, ac i osgoi her dechnegol ddiangen i achosion sydd â sail gadarn
- datblygu rhestrau gwirio ffurfiol ar gyfer gwaith gorfodi i sicrhau bod y broses briodol yn cael ei gwirio cyn y cymerir pob un o’r camau gorfodi ffurfiol
- bod swyddogion yn trefnu ac yn cofnodi ymweliadau dilynol/gwiriadau cydymffurfio yn erbyn hysbysiadau/camau ffurfiol, er mwyn sicrhau eu bod

yn cael eu cynnal yn brydlon (a, lle bo'n briodol, fod y busnes yn cael gwybod am y dyddiadau hyn yn yr adroddiad rheolaethau swyddogol perthnasol neu'r llythyr eglurhaol mewn perthynas â'r hysbysiad)

#### 2.3.2.4 Monitro Systemau Gwybodaeth Reoli (MIS)

Mae cronfeydd data cyflawn, cyfoes, cywir a dibynadwy o fusnesau bwyd lleol yn hanfodol i alluogi Awdurdodau Cymwys i wybod am yr holl fusnesau perthnasol sydd wedi'u lleoli yn eu hardal ac i ddarparu'r sail ar gyfer rhaglenni cynhwysfawr o reolaethau swyddogol sy'n seiliedig ar risg. Mae rhan o'r weithdrefn gwirio rheolaethau yn cynnwys monitro cronfeydd data i sicrhau y gellir dilyn newidiadau mewn defnydd a pherchnogaeth busnesau, cau busnesau a busnesau newydd.

Fel rhan o'r gwaith monitro hwn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn:

- rhoi prosesau ar waith i fonitro'n rheolaidd gywirdeb cronfa ddata'r safleoedd, a'r cofnodion ynghylch camau gweithredu/gwybodaeth a fewnbynnir ar gyfer pob busnes
- cynnal gwiriadau achlysurol i nodi unrhyw anghysondebau rhwng cofnodion ffeiliau a chofnodion cronfa ddata o fanylion rheolaethau swyddogol, gweithgareddau a chamau gorfodi
- cynnal gwiriadau croesgyfeirio rheolaidd o fusnesau sydd ar gronfa ddata'r safleoedd yn erbyn rhestrau eraill o fusnesau lleol, er enghraifft:
  - hysbysebu ar beiriannau chwilio ar-lein
  - tudalennau cyfryngau cymdeithasol
  - cronfeydd data mewnol eraill yr Awdurdod Cymwys er enghraifft, cynllunio, ardrethi busnes a rheolaeth adeiladu
  - asiantaethau perthnasol eraill, er enghraifft, y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol (VMD) a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
  - Sicrwydd Tractor Coch
  - cynlluniau sicrwydd perthnasol eraill a weithredir gan y diwydiant

### 2.3.3 Gweithdrefn a/neu drefniadau ar gyfer gwrthdaro buddiannau

Diben y weithdrefn a/neu'r trefniadau ar gyfer gwrthdaro buddiannau yw sicrhau bod y swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal y rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn rhydd rhag unrhyw wrthdaro buddiannau. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn a/neu'r trefniadau:

- yn nodi sut mae swyddogion awdurdodedig sy'n cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill:
  - yn rhydd rhag unrhyw wrthdaro buddiannau
  - yn ymwybodol o'r gwrthdaro buddiannau posib a all godi drwy hyrwyddo gwasanaethau'r Awdurdodau Cymwys
- yn atal swyddogion awdurdodedig rhag darparu eu gwasanaethau preifat eu hunain i fusnesau, yn eu hamser eu hunain, o fewn ardal yr Awdurdod

Cymwys sy'n eu cyflogi neu o fewn ardaloedd Awdurdodau Cymwys eraill sy'n cysylltu â'r awdurdod cyflogi ar faterion gorfodi
- yn atal hyrwyddo gwasanaethau'r Awdurdodau Cymwys yn unig, os oes darparwyr eraill yn yr ardal sy'n cynnig y gwasanaethau hynny, neu os yw'r gwasanaethau'n cael eu cynnig gan sefydliad gwahanol o'r tu allan i'r ardal
- yn golygu nad yw gwrthdaro buddiannau posib neu wirioneddol yn codi o ganlyniad i gyfrifoldebau prif awdurdod, gwasanaethau dewisol y codir tâl amdanynt neu drefnu contractau allanol ar gyfer gwasanaethau
- yn cynnwys prosesau fel bod penderfyniadau gorfodi'n rhydd rhag unrhyw wrthdaro buddiannau
- yn cynnwys manylion am y camau i'w cymryd lle nodir gwrthdaro buddiannau neu'n darparu cyfeiriad at ddogfennau arall lle gellir dod o hyd i'r manylion hyn

### 2.3.4 Y weithdrefn wybodaeth

Diben y weithdrefn wybodaeth yw sicrhau bod unrhyw anghywirdebau mewn gwybodaeth a gyhoeddwyd yn cael eu cywiro'n briodol. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn:

- yn cwmpasu'r broses ar gyfer nodi anghywirdebau a rheoli'r rheiny sy'n cael eu dwyn i'w sylw
- yn ymdrin â'r broses ar gyfer cywiro'r anghywirdebau a sut mae defnyddwyr a busnesau'n cael gwybod am hyn

### 2.3.5 Y weithdrefn gofrestru

Diben y weithdrefn gofrestru yw sicrhau bod proses glir a chyson i weithredwyr busnesau bwyd ei dilyn. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn a/neu'r trefniadau:

- yn caniatáu i weithredwyr busnesau bwyd gyflwyno ffurflen gofrestru sy'n gyflawn ac yn gywir o leiaf 28 diwrnod cyn i'r busnes ddechrau masnachu neu cyn i weithrediadau bwyd ddechrau
- yn darparu ffurflen gofrestru sydd ar gael i weithredwyr busnesau bwyd ac sy'n eu galluogi i roi manylion llawn yr holl weithgareddau a gynhelir
- yn cofnodi dyddiad dod i law y ffurflen wybodaeth
- yn manylu ar y camau i'w cymryd ar ôl i ffurflenni cofrestru sydd wedi'u cwblhau ddod i law, gan gynnwys rhoi gwybod i Awdurdodau Cymwys eraill lle mae gweithgareddau y tu allan i gylch gwaith gorfodi neu awdurdodaeth yr Awdurdodau Cymwys sy'n eu derbyn
- yn cynnwys manylion ynghylch sut y mae'r Awdurdod Cymwys, lle bo'n berthnasol, yn cael gwybodaeth sydd wedi'i hepgor o ffurflen gofrestru, a'r amgylchiadau lle mae ffurflenni cofrestru'n cael eu gwrthod neu eu dychwelyd i weithredwyr busnesau bwyd

### 2.3.6 Y weithdrefn digwyddiadau a rhybuddion bwyd

Wrth ddatblygu gweithdrefnau digwyddiadau bwyd a pheryglon bwyd, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn ystyried canllawiau'r ASB ar ddiogelwch bwyd, olrheiniadwyedd, a'r trefniadau ar gyfer galw a thynnu cynhyrchion yn ôl.

### 2.3.7 Y weithdrefn cwynion corfforaethol

Diben y weithdrefn cwynion corfforaethol yw sicrhau bod cwynion am y darpariaethau ar gyfer rheolaethau swyddogol, a gweithgareddau cysylltiedig Awdurdod Cymwys, yn cael eu cofnodi ac yr ymchwilir iddynt. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn:

- ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn eu hardal
- yn sicrhau yr ymchwilir i gwynion a geir am yr Awdurdod Cymwys, yn unol â chanllawiau perthnasol
- yn ei gwneud yn ofynnol i gofnod gael ei wneud o'r holl gwynion a geir a'r camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Cymwys mewn ymateb i'r cwynion hynny

### 2.3.8 Y weithdrefn cwynion bwyd

Diben y weithdrefn cwynion bwyd yw sicrhau bod cwynion am fwyd a sefydliadau busnesau bwyd yn cael eu hasesu a'u cofnodi, ac yr ymchwilir iddynt. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn:

- yn manylu ar sut y bydd pobl sy'n cwyno yn cael eu diogelu rhag dial, gwahaniaethu, neu fathau eraill o driniaeth annheg o ganlyniad i'w cwyn (er enghraifft, chwythwyr chwiban)
- yn manylu ar sut y bydd data personol pobl sy'n cwyno yn cael ei ddiogelu

### 2.3.9 Y weithdrefn offer

Diben y weithdrefn offer yw sicrhau bod offer ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi'n gywir, ac na chaiff ei ddefnyddio unwaith y canfyddir ei fod yn ddiffygiol. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn yn darparu tystiolaeth o gynnal a chadw a graddnodi.

### 2.3.10 Y weithdrefn orfodi

Diben y weithdrefn orfodi yw sicrhau bod unrhyw wiriadau dilynol, neu gamau gorfodi a gymerir gan yr Awdurdod Cymwys, yn seiliedig ar risg ac yn gymesur. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn:

- yn arwain at gamau gorfodi'n cael eu cymryd gan eu swyddogion awdurdodedig sy'n rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson ag arferion da
- yn darparu cyfarwyddiadau i swyddogion ar sut i gymryd camau gorfodi ar gyfer yr holl opsiynau sydd ar gael
- yn ystyried y canlynol wrth benderfynu ar y camau priodol i'w cymryd:
  - hierarchaeth y camau gorfodi
  - y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron

- polisi gorfodi'r Awdurdod Cymwys
- Cod y Rheoleiddwyr
- lefel y risgiau i ddiogelwch defnyddwyr sy'n deillio o ddiffyg cydymffurfio
- a yw camau ffurfiol er budd y cyhoedd
- sensitifrwydd defnyddwyr ynghylch y mater, gan arwain at golli defnyddwyr
- colli hyder neu golled economaidd i'r diwydiant
- y potensial i fwydydd nad ydynt yn cydymffurfio gael eu dosbarthu'n eang gan effeithio ar nifer mawr o ddefnyddwyr
- hanes cydymffurfio
- partneriaethau â Phrif Awdurdodau
- partneriaethau ag Awdurdodau Cartref

### 2.3.11 Y weithdrefn rheoli ac ymchwilio i achosion a brigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd

Diben y weithdrefn rheoli ac ymchwilio i frigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yw sicrhau, pan fydd amheuaeth neu pan roddir gwybod am achosion neu frigiadau o achosion o'r fath, y byddant yn cael eu rheoli ac yr ymchwilir iddynt. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn:

- yn cwmpasu'r gwaith ymchwilio i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r holl sefydliadau perthnasol
- yn cael ei datblygu yn unol â chanllawiau
- yn ei gwneud yn ofynnol cadw pob cofnod sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i frigiadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd am 6 blynedd

### 2.3.12 Y weithdrefn diogelwch TG

Diben y weithdrefn diogelwch TG yw sicrhau bod mesurau diogelwch TG effeithiol ar waith. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y weithdrefn a/neu'r trefniadau:

- yn lleihau'r risg o lygredigaeth ('corruption') neu golli gwybodaeth a gedwir ar gronfeydd data
- yn darparu mesurau diogelwch rhesymol i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad at ddata a gedwir ar gronfeydd data a diwygio'r data hwnnw
- yn arwain at gynnal arferion data da a chynnal ansawdd data

### 2.3.13 Polisi samplu

Diben y polisi samplu yw nodi dull yr Awdurdod Cymwys o samplu bwyd. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y polisi:

- wedi'i gyhoeddi ac ar gael yn rhwydd i fusnesau a defnyddwyr

- yn nodi dull yr Awdurdod Cymwys mewn sefyllfaoedd penodol, fel:
  - cadw gwyliadwriaeth
  - monitro bwyd wedi'i fewnforio
  - busnesau sydd â chynllun arolygu a gyhoeddwyd gan y prif awdurdod
  - rheolaethau swyddogol
  - cwynion
  - ymchwiliadau arbennig
  - rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a gydlynir
- yn cwmpasu'r holl samplau a gymerir
- yn manylu ar y ffactorau a ystyriwyd wrth lunio eu rhaglen samplu, gan gynnwys unrhyw faterion cenedlaethol neu leol sy'n berthnasol i ddefnyddwyr ac a fydd yn dylanwadu ar lefel y gwaith samplu a gynhelir
- yn amlinellu pwy fydd yn ymgymryd â'r gwaith samplu

### 2.3.14 Polisi gorfodi

Diben y polisi gorfodi yw nodi sut mae'r Awdurdod Cymwys yn mynd ati i gynnal gwaith gorfodi, gan gwmpasu pob maes o gyfraith bwyd y mae ganddo ddyletswydd i'w gorfodi, gan gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio'r holl opsiynau gorfodi sydd ar gael. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y polisi:

- ar gael yn rhwydd i weithredwyr busnesau bwyd a defnyddwyr
- yn manylu ar y dull gorfodi, pryd ac o dan ba amgylchiadau y mae'r Awdurdod Cymwys yn debygol o gymryd camau gorfodi, a hynny mewn perthynas â'r ystod o gamau gorfodi sydd ar gael
- yn manylu ar y dull ar gyfer cynnal ailymweliadau, ac eithrio os yw hyn eisoes wedi'i ddogfennu mewn polisi neu weithdrefn arall sy'n ofynnol o dan y Cod
- yn ystyried unrhyw gyngor a chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr ASB ac unrhyw asiantaeth berthnasol arall
- yn peidio â defnyddio nifer yr hysbysiadau gwella a gyflwynwyd na nifer y prosesau cyfreithiol, er enghraifft erlyniadau, fel dangosydd o berfformiad
- yn mynd i'r afael ag amgylchiadau lle yr Awdurdod Cymwys ei hun yw'r gweithredwr busnes bwyd ar gyfer sefydliad, a bod achosion difrifol o dorri cyfraith bwyd mewn sefydliad o'r fath yn dod i'r golwg. Rhoddir gwybod i Brif Weithredwr yr Awdurdod Cymwys am y fath amgylchiadau yn ddi-oed

Gall polisi gorfodi cyfraith bwyd Awdurdod Cymwys fod yn rhan o bolisi cyffredinol, neu gall fod wedi'i gyfuno â pholisïau gorfodi eraill, cyhyd â bod cymhwysedd y polisi i orfodi cyfraith bwyd yn glir.

Gall yr ASB gyhoeddi cyfathrebiadau i Awdurdodau Cymwys ar y canlynol:

- polisïau gorfodi newydd a/neu ddiwygiedig
- gwybodaeth am faterion diogelwch bwyd
- materion eraill sy'n gysylltiedig â gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol

Argymhellir bod gan Awdurdodau Cymwys drefniadau ar waith i bennu pa gamau sy'n briodol pan gânt gyfathrebiadau o'r fath, ac i dynnu sylw eu swyddogion awdurdodedig atynt, yn ôl yr angen.

### 2.3.15 Polisi cwynion

Diben y polisi cwynion yw nodi sut y caiff cwynion am fwyd a sefydliadau busnesau bwyd eu trin. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y polisi'n arwain at ymchwilio i gwynion sy'n dod i law yn unol â'r Cod, canllawiau perthnasol a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Cymwys.

### 2.3.16 Cynllun wrth gefn

Diben y cynllun wrth gefn yw nodi beth fyddai'r Awdurdod Cymwys yn ei wneud mewn argyfwng. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y cynllun:

- yn rhoi manylion yr Awdurdodau Cymwys ac asiantaethau eraill a fydd yn rhan ohono
- yn nodi pwerau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cymwys a'r asiantaethau hynny
- yn manylu ar y sianeli a'r gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng yr Awdurdodau Cymwys a'r asiantaethau dan sylw
- yn cynnwys trefniadau ar gyfer achlysuron pan fydd swyddogion awdurdodedig yn absennol, er enghraifft, os mai dim ond un swyddog sydd wedi'i awdurdodi i ymgymryd â rheolaethau penodol, gallai'r trefniadau hyn gynnwys rhoi awdurdod dros dro i swyddogion mewn Awdurdodau Cymwys eraill ymgymryd â'r swyddogaethau hyn

### 2.3.17 Rhaglen hyfforddi

Diben y rhaglen hyfforddi yw sicrhau bod swyddogion awdurdodedig sy'n ymgymryd â rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn cael hyfforddiant priodol. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y rhaglen:

- yn nodi sut y bydd swyddogion awdurdodedig sy'n ymgymryd â rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn derbyn hyfforddiant priodol a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), i ganiatáu iddynt gyflawni eu dyletswyddau'n fedrus ac mewn modd sy'n briodol i lefel eu hawdurdodiad
- yn nodi'r broses ar gyfer adolygu anghenion hyfforddiant a DPP, fel bod swyddogion awdurdodedig yn cadw eu meysydd cymhwysedd yn gyfredol
- yn cynnwys y broses ar gyfer nodi anghenion hyfforddi ychwanegol
- yn cael ei llywio gan, ac yn mynd i'r afael ag, unrhyw feysydd a nodwyd lle nad yw cymhwysedd swyddog awdurdodedig yn ddigonol iddo gyflawni ei rôl bresennol neu estyn y rôl i feysydd gwaith newydd
- yn cynnwys hyfforddiant ar bynciau a amlinellir ym Mhennod 1 o Atodiad II i Reoliad (UE) 2017/625

- yn cynnwys, lle bo’n briodol, hyfforddiant i swyddogion awdurdodedig sy’n cynnal gwiriadau ffisegol ar gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid (POAO) mewn Safleoedd Rheolaethau’r Ffin (BCPs) ar y pynciau a nodir ym mhennod 3
- yn manylu sut y caiff cofnodion cymwysterau, hyfforddiant a DPP parhaus eu cynnal

Gellir cynnwys y rhaglen hyfforddi hon yn y weithdrefn awdurdodi.

### 2.3.18 Cynllun gwasanaeth

#### 2.3.18.1 Cyflwyniad

Mae cynlluniau gwasanaeth yn rhan bwysig o’r broses i sicrhau bod blaenoriaethau a safonau cenedlaethol yn cael sylw ac yn cael eu cyflenwi’n lleol. Mae cynlluniau gwasanaeth hefyd yn helpu Awdurdodau Cymwys i wneud y canlynol:

- dilyn egwyddorion rheoleiddio da
- canolbwyntio ar faterion cyflenwi allweddol a chanlyniadau
- darparu cyswllt hanfodol â chynllunio corfforaethol ac ariannol
- gosod amcanion ar gyfer y dyfodol
- nodi problemau mawr sy’n croesi ffiniau gwasanaethau
- darparu modd o reoli a chymharu perfformiad
- darparu gwybodaeth am y gwasanaethau mae awdurdod yn eu cyflenwi i randdeiliaid, gan gynnwys busnesau a defnyddwyr

Wrth ddatblygu cynllun gwasanaeth, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn nodi’n glir y cyfnod y mae’r cynllun yn ei gwmpasu, a pha drefniadau sydd wedi’u rhoi ar waith ar gyfer adolygu a diweddaru’r cynllun yn rheolaidd.

#### 2.3.18.2 Fformat y cynllun gwasanaeth

Mae cynlluniau gwasanaeth yn fynegiant o ymrwymiad yr Awdurdod Cymwys ei hun i ddatblygu’r gwasanaeth bwyd. Maen nhw hefyd yn cael eu defnyddio gan yr ASB i asesu sut mae’r Awdurdod Cymwys yn darparu’r gwasanaeth. Oherwydd hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn darparu gwybodaeth am y rheolaethau swyddogol a gynhelir mewn fformat cyffredin, fel y nodir yn Atodiad 1.

Gallai cynlluniau gwasanaeth hefyd fod o ddefnydd i Awdurdodau Cymwys eraill a fydd yn gweld bod fformat cyffredin yn hwyluso’r gwaith o ddadansoddi a chymharu eu perfformiad cymharol yn fawr.

Mae Atodiad 1 yn darparu strwythur ar gyfer fformat cyffredin sy’n cynnwys penawdau pennod a phwnc, a disgrifiad cyffredinol o gynnwys pob un. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fwriad i ddileu hyblygrwydd yr Awdurdod Cymwys i gynnwys eitemau ychwanegol o dan benawdau penodol.

Cydnabyddir bod gan Awdurdodau Cymwys gynlluniau gwasanaeth ers blynyddoedd lawer ac efallai bod ganddynt arddulliau neu dempledi corfforaethol y maent yn dymuno eu cynnal. Cydnabyddir hefyd fod rhai Awdurdodau Cymwys yn ymgymryd â’r prosesau cynllunio ac adolygu ar wahanol adegau a’u bod yn cyhoeddi

canlyniadau'r adolygiad mewn dogfen ar wahân. Mae rhai yn cynnwys eu cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth bwyd fel rhan o gynllun ehangach o wasanaethau'r awdurdod. Pan fydd cynlluniau gwasanaeth bwyd yn rhan o gynlluniau corfforaethol ehangach, argymhellir bod modd adnabod manylion y bwyd ar wahân yn eu dogfennau cynllunio.

Mewn achosion lle mae sawl awdurdod yn uno fel un awdurdod, argymhellir eu bod yn sicrhau bod y manylion a nodir yn Atodiad 1 wedi'u cynnwys a bod modd eu hadnabod ar wahân yn nogfennau cynllunio'r awdurdod unedol newydd.

Pan fydd gwasanaeth gorfodi yn cael ei rannu rhwng awdurdodau, argymhellir bod y manylion a nodir yn Atodiad 1 yn adnabyddadwy yn nogfennau cynllunio pob awdurdod.

**2.3.18.3 Datblygu'r cynllun gwasanaeth**

Diben y cynllun gwasanaeth yw nodi sut mae'r Awdurdod Cymwys yn bwriadu cynnal a neilltuo adnoddau ar gyfer rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn ei ardal mewn perthynas â chyfraith bwyd y mae ganddo ddyletswydd i'w gorfodi. I gefnogi hyn, argymhellir bod y cynllun:

- yn destun adolygiadau perfformiad ansoddol a meintiol o'r ddarpariaeth o leiaf unwaith y flwyddyn, a bod y rhain yn cael eu dogfennu
- wedi'i deilwra i gyd-fynd â'r gynulleidfa (er enghraifft adroddiad cryno ar gyfer aelodau), ond argymhellir hefyd fod fersiwn ar gael sy'n cyd-fynd â'r fformat cyffredin yn Atodiad 1
- yn nodi sut ac ar ba lefel y caiff rheolaethau swyddogol eu cynnal, yn unol â'r Cod
- yn adlewyrchu'r gofynion a nodir ym mharagraff chwech o God y Rheoleiddwyr, sy'n sicrhau bod eu dull o gynnal gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw
- yn ystyried unrhyw gyngor a gyhoeddwyd gan yr ASB ac asiantaethau perthnasol eraill
- yn cwmpasu pob cam o'r gadwyn fwyd a sectorau'r diwydiant bwyd, lle bo'n berthnasol
- ar gael yn rhwydd i weithredwyr busnesau bwyd a defnyddwyr
- wedi'i lunio yn unol â'r canllawiau a nodir yn Atodiad 1, gan ystyried, a, lle bo'n berthnasol, gan gyfeirio at y canlynol:
    - pob mater o ran gorfodi cyfraith bwyd (gan gynnwys rheolaethau mewnforio) ac ystyried y galw am adnoddau a'r adnoddau sydd ar gael (gan gynnwys unrhyw ddiffyg) i gynnal y rhaglen rheolaethau swyddogol a gynlluniwyd, gan gynnwys capasiti a darpariaeth y tu allan i oriau
    - sut mae sefydliadau busnesau bwyd newydd yn cael eu hadnabod a sut y dylid eu cynnwys yn rhaglen rheolaethau swyddogol arfaethedig yr Awdurdod Cymwys

- sut mae ansawdd gwasanaeth yr Awdurdod Cymwys yn cael ei asesu a'i fonitro, gan gynnwys nodi anghywirdebau yn y gronfa ddata, adolygu targedau blynyddol, a nodi problemau o ran cysondeb a chymhwysedd
- manylion unrhyw amrywiadau wrth fodloni'r cynllun, o gymharu â blynyddoedd blaenorol, a sut y bwriedir mynd i'r afael â hyn
- datganiad mewn perthynas â pholisi samplu'r Awdurdod Cymwys, gan gynnwys sail y rhaglen samplu
- manylion ar sut mae rhaglenni samplu/rheolaethau swyddogol a gweithgareddau gorfodi yn cael eu datblygu a'u gweithredu, gan ystyried y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol lle bo'n berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth am unrhyw weithgareddau penodol a gymerwyd i'w gweithredu (gallai hyn fod yn rhestr bwled syml o weithgareddau a gynlluniwyd)
- pa ffynonellau gwybodaeth lleol a/neu ranbarthol y mae'r Awdurdod Cymwys wedi'u hystyried wrth gynllunio eu rheolaethau swyddogol
- manylion cynlluniau'r Awdurdod Cymwys ar gyfer gwelliant parhaus
- manylion y trefniadau sydd wedi'u rhoi ar waith ar gyfer adolygu a diweddaru'r cynllun yn rheolaidd
- pa arian grant, os o gwbl, sydd ar gael gan yr ASB, sydd wedi'i ddyrannu i'r Awdurdod Cymwys a'i ddefnyddio ganddo

Gall yr ASB argymell bod Awdurdodau Cymwys yn adolygu eu cynllun gwasanaeth, er enghraifft, i ddarparu ar gyfer gwaith astudiaethau dichonoldeb, cynlluniau peilot neu brosiectau 'canfod llwybr' cymeradwy. Bydd yr ASB yn sôn wrth Awdurdodau Cymwys am unrhyw waith perthnasol a allai effeithio ar gynlluniau gwasanaeth, fel y gellir eu hadolygu.

### 2.3.19 Rhaglen Rheolaethau Swyddogol

Diben y rhaglen rheolaethau swyddogol yw nodi rhaglen rheolaethau swyddogol yr Awdurdod Cymwys sy'n seiliedig ar risg, ac sy'n cynnwys pob sefydliad busnes bwyd y mae'r Awdurdod Cymwys yn gyfrifol amdano. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y rhaglen:

- yn cynnwys pob sefydliad busnes bwyd cofrestredig a chymeradwy
- yn seiliedig ar y cynlluniau sgorio risg perthnasol (hylendid bwyd a safonau bwyd) a bennir yn unol â Phennod 4 o'r Cod
- yn ystyried Siarter y Rheoleiddwyr Ffermydd, lle bo'n berthnasol
- yn darparu mecanweithiau i swyddogion awdurdodedig:
  - ystyried cyngor sicr y prif awdurdodau
  - dilyn cynlluniau arolygu
- yn defnyddio gwybodaeth a roddir iddynt gan weithredwyr busnesau bwyd mewn cysylltiad â chofrestru sefydliadau busnesau bwyd neu wneud cais i'w cymeradwyo er mwyn pennu pryd i gynnal rheolaethau swyddogol
- â digon o adnoddau

Gall ardaloedd Awdurdod Cymwys haen sengl ddewis seilio eu rhaglen rheolaethau swyddogol arfaethedig ar y cynllun sgorio risg hylendid bwyd neu safonau bwyd o dan y Cod. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys sy’n arfer yr opsiwn hwn yn sicrhau:

- bod rheolaethau swyddogol yn ystyried hylendid bwyd a safonau bwyd
- nad yw rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal yn llai aml nag y byddent wedi’u cynnal pe bai’r ddau gynllun wedi’u defnyddio
- bod asesiad risg hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael ei gwblhau a’i gofnodi

### 2.3.20 Rhaglen samplu

Diben y rhaglen samplu yw nodi manylion gweithgareddau samplu bwyd yr Awdurdod Cymwys sy’n seiliedig ar risg. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y rhaglen:

- yn ystyried prif amcanion samplu bwyd:
  - diogelu iechyd
  - canfod gweithgareddau camarweiniol a thwyllodrus
  - cydymffurfio â gofynion labelu
  - rhoi cyngor i weithredwyr busnesau bwyd
  - hyrwyddo masnach deg ac atal arferion gwael
- yn seiliedig ar risg ac yn ystyried:
  - y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y busnes bwyd i sicrhau cydymffurfiaeth a’i hanes cydymffurfio
  - cyfrifoldebau prif awdurdod, awdurdod cartref neu awdurdod gwreiddiol yr Awdurdod Cymwys
  - yr angen i sicrhau bod darpariaethau cyfraith bwyd yn cael eu gorfodi
  - a oes gweithgynhyrchwyr bwyd yn yr ardal a graddau’r gwaith rheoli a monitro a gynhelir gan weithgynhyrchwyr ar gyfer pob nam posib
  - a oes unrhyw ganolfannau dosbarthu yn dosbarthu bwyd i ardal eang
  - y math o ychwanegion bwyd y mae gweithredwyr busnesau bwyd (er enghraifft, gweithgynhyrchwyr bwyd, a mewnforwyr) yn eu defnyddio yn yr ardal
  - a yw rhaglenni samplu cenedlaethol yn tynnu sylw at unrhyw fathau o fwyd sy’n ymwneud â safleoedd penodol yn yr ardal
  - blaenoriaethau/arolygon cenedlaethol neu ranbarthol ar fwyd wedi’i fewnforio a Chynllun Rheoli Cenedlaethol y DU
  - pryderon cenedlaethol a rhyngwladol sy’n dod i’r amlwg
  - pryderon defnyddwyr a busnesau lleol
  - difrifoldeb effaith unrhyw nam penodol ar y bwyd, gan gynnwys pa mor debygol y bydd y nam yn codi, y patrwm bwyta sy’n berthnasol i’r bwyd, graddau a dosbarthiad y broblem a’r cam yn y gadwyn gynhyrchu a dosbarthu lle gall y broblem ddigwydd neu lle y gellid ei chanfod yn haws

- yn ystyried bwyd wedi'i fewnforio, yn benodol:
  - unrhyw ofynion statudol ar gyfer samplu a nodir mewn cyfraith a gymathwyd
  - unrhyw rai o raglenni samplu Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA)/ASB y cytunwyd arnynt
  - unrhyw waith samplu sy'n ofynnol yn dilyn rhybudd bwyd, hysbysiad drwy'r System Rhybuddio Cynnar (EWS) neu hysbysiad perthnasol
  - gwybodaeth o unrhyw grŵp cyswllt rhanbarthol, arolwg samplu lleol neu arolwg samplu arall
  - unrhyw fwyd wedi'i fewnforio lle nad oes hanes na gwybodaeth hysbys am y cynnyrch
  - blaenoriaethau lleol, gan gynnwys cwynion defnyddwyr sy'n ymwneud â bwyd wedi'i fewnforio
- wedi'i chynllunio i osgoi bwydydd sydd eisoes yn cael eu hystyried yn ehangach, er enghraifft, y rhai a samplwyd fel rhan o reolaethau ar fwyd wedi'i fewnforio mewn BCPs

## 2.4 Dirprwyo rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

### 2.4.1 Dirprwyo i swyddogion awdurdodi

Mae angen dirprwyo'r pŵer i awdurdodi swyddogion yn briodol i'r swyddog awdurdodi. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn bodloni eu hunain bod pwerau wedi'u dirprwyo'n briodol, a bod y trefniadau dirprwyo hyn wedi'u cofnodi, er enghraifft, yng nghyfansoddiad yr Awdurdod Cymwys.

### 2.4.2 Dirprwyo i Awdurdodau Cymwys eraill

Efallai y bydd Awdurdodau Cymwys yn gallu defnyddio swyddogion awdurdodedig o Awdurdodau Cymwys eraill i gynnal eu rheolaethau swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol eraill gan ddefnyddio'r darpariaethau a ddarperir gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Argymhellir hefyd fod Awdurdodau Cymwys yn ceisio cyngor gan eu timau cyfreithiol cyn dirprwyo unrhyw swyddogaethau i Awdurdod Cymwys arall.

## 2.5 Cyswllt lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

### 2.5.1 Trefniadau cyswllt

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys ymateb i geisiadau gan Awdurdodau Cymwys eraill neu'r ASB am wybodaeth neu gymorth. Wrth ystyried pryd y gall Awdurdodau Cymwys ofyn am wybodaeth neu gymorth, gallai enghreifftiau gynnwys:

- atgyfeiriadau o faterion neu bryderon gorfodi trawsffiniol
- atgyfeiriadau o gwynion bwyd a hysbysir i'r Awdurdod Cymwys
- gwybodaeth i helpu i gydlynu gwaith gorfodi/gweithgareddau rheoli clefydau heintus

- gwybodaeth i helpu Awdurdodau Cymwys sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid i sicrhau bod cofrestrau o sefydliadau busnesau bwyd anifeiliaid yn gyflawn ac yn gywir o ran busnesau sy'n cynhyrchu neu'n rhoi cynhyrchion ar y farchnad i'w defnyddio mewn bwyd anifeiliaid

Ar ôl i gais neu atgyfeiriad ddod i law, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cymryd y camau canlynol:

- cydnabod bod yr ohebiaeth wedi dod i law a rhoi gwybod i'r Awdurdod Cymwys gwreiddiol fod y mater yn cael sylw
- ymchwilio a/neu gymryd camau gorfodi priodol, yn ôl yr angen
- hysbysu'r Awdurdod Cymwys gwreiddiol am unrhyw gamau a gymerwyd
- sicrhau bod ymatebion i geisiadau yn agored, yn dryloyw ac yn cael eu darparu heb oedi gormodol
- diweddau'r Awdurdod Cymwys gwreiddiol ar y cynnydd, yn enwedig pan fo camau'n mynd rhagddynt, ac na fydd y canlyniad yn hysbys am beth amser

### 2.5.2 Cyswllt â'r ASB

Mae awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd wedi'u dynodi'n Awdurdodau Cymwys i gynnal rheolaethau swyddogol, a gweithgareddau swyddogol eraill ar gyfer bwyd, ar y materion hynny nad ydynt yn rhan o gylch gwaith yr ASB.

Mae'r ASB yn gyfrifol am y canlynol:

- cymeradwyo sefydliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n nodi rheolau hylendid penodol ar hylendid bwydydd (gan gynnwys marchnadoedd cyfanwerthu cig), lle mae rheolaeth yn syrthio i filfeddyg swyddogol, a chynnal gwaith gorfodi mewn sefydliadau o'r fath o weithgareddau cymeradwy a gynhelir mewn sefydliadau lle mae rheolaethau'n syrthio i filfeddyg swyddogol, ond nad ydynt eu hunain yn galw am oruchwyliaeth gan filfeddyg swyddogol. Er enghraifft, briwgig, paratoadau cig, cig wedi'i wahanu'n fecanyddol, cynhyrchion cig, brasterau anifeiliaid wedi'u rendro a chriwsion ('greaves'), stumogau, pledrennau a choluddion wedi'u trin, gelatin a/neu golagen
- cynnal rheolaethau hylendid llaeth swyddogol ar ddaliadau cynhyrchu llaeth
- gwaith gorfodi mewn perthynas â'r materion a reoleiddir gan Atodlen 6 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, i'r graddau y mae'n gymwys mewn perthynas â llaeth buwch amrwd y mae'n fwriad iddo gael ei yfed yn uniongyrchol gan bobl
- cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol ar gyfer cynhyrchwyr wyau sy'n cartrefu dros 350 o ieir *Gallus gallus*
- dilysrwydd, olrheiniadwyedd a threfniadau labelu cynhyrchion y sector gwin, a gwaith gorfodi mewn perthynas â chynhyrchion y farchnad

gyfanwerthu a'r sector gwin a gynhyrchir yn y DU (gan gynnwys gwinllannoedd a gwindai)

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys gysylltu â'r ASB mewn perthynas â sefydliadau sy'n ddarostyngedig i gael eu cymeradwyo gan yr ASB.

#### 2.5.2.1 Uwchgyfeirio ymholiadau technegol i'r ASB neu un o asiantaethau eraill y llywodraeth

Mae'r dull canlynol ar gyfer uwchgyfeirio ymholiadau wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd a'r Grŵp Safonau a Gwybodaeth Bwyd i Awdurdodau Cymwys ei ddilyn cyn uwchgyfeirio ymholiad i'r ASB, sef bod angen cysylltu:

- o fewn eich Awdurdod Cymwys
- â'ch grwpiau cyswllt bwyd rhanbarthol
- â Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru), y Panel Arbenigwyr Hylendid Bwyd, y Grŵp Safonau a Labelu Bwyd, neu'r Grŵp Swyddogion Arweiniol Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol
- â'r ASB drwy e-bostio lasupportwales@food.gov.uk

Bydd y grŵp perthnasol yn ffurfio safbwynt. Fodd bynnag, os na cheir cytundeb barn, caiff ei gyfeirio at yr ASB.

Er cysondeb, argymhellir hefyd fod ymholiadau neu geisiadau yn cael eu postio er gwybodaeth ar yr Hyb Gwybodaeth.

### 2.5.3 Cyswllt mewn mannau cyrraedd

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys sydd â mannau cyrraedd neu gyfleusterau storio dros dro allanol (ETSF) gysylltu â sefydliadau lleol perthnasol. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys, lle bo'n briodol:

- Awdurdodau Cymwys cyfagos (yn enwedig ar gyfer porthladdoedd a byrddau ar y cyd, sy'n dod o dan awdurdodaeth mwy nag un Awdurdod Cymwys, gan gynnwys cynghorau sir ar gyfer rhai cyfrifoldebau Safonau Masnach)
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)
- Llu'r Ffiniau
- timau'r Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau sydd mewn Perygl (CITES)
- APHA
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Asiantaeth Ymchwil Bwyd a'r Amgylchedd (FERA)
- gweithredwr y porthladd
- asiantau mewnforio
- gweithredwyr Cyfleusterau Storio Dros Dro Mewnol (ITSF)
- gweithredwyr ETSF
- Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau

- yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)
- prif awdurdodau perthnasol

### 2.5.4 Grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol

Argymhellir bod grwpiau cyswllt rhanbarthol a lleol yn:

- trafod materion o ddehongli a chysondeb cyfreithiol â chydweithwyr yn y grŵp cyswllt bwyd lleol neu ranbarthol a'r prif awdurdod, yr awdurdod cartref neu'r awdurdod gwreiddiol os yw'n briodol
- osgoi gwneud penderfyniadau unochrog ar ddehongliadau heb geisio barn Awdurdodau Cymwys eraill
- cynnal cyswllt rheolaidd i sicrhau bod y cyngor a roddir gan grwpiau o brif awdurdodau neu awdurdodau cartref sy'n gwasanaethu busnesau bwyd sy'n masnachu yn yr un sector o'r diwydiant yn gyson
- gofyn am gynrychiolaeth gan Ddadansoddwr Cyhoeddus a/neu Archwiliwr Bwyd Awdurdod Cymwys
- gofyn am gynrychiolaeth gan yr ASB, Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, yr Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy, yr Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd (Clefydau Trosglwyddadwy/Iechyd yr Amgylchedd), ac arbenigwyr eraill yn ôl yr angen
- gofyn am gynrychiolaeth gan gyrff dirprwyedig eraill

## 2.6 Cofrestru sefydliadau busnesau bwyd

Mae canllawiau ar gofrestru sefydliadau busnesau bwyd i'w gweld yn Atodiad 2.

### 2.6.1 Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Byddai Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gymwys mewn perthynas â chofnodion busnesau bwyd. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod eu polisïau diogelu data yn ystyried cofrestriadau a chymeradwyaethau busnesau bwyd, gan gynnwys eu rhesymau dros ddal data a chyflenwi data i asiantaethau eraill at ddibenion sicrhau iechyd y cyhoedd a gorfodi cyfraith bwyd yn effeithiol.

Os oes gan Awdurdodau Cymwys unrhyw amheuon ynghylch rhyddhau data neu wybodaeth, gallant geisio cyngor cyfreithiol a/neu gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### 2.6.2 Ffeiliau cofnodion sefydliadau

Argymhellir bod y cofnodion hyn yn cynnwys:

- gwybodaeth am unrhyw offer, prosesau neu nodweddion arbennig a wneir gan y busnes ar gyfer eu gweithgareddau bwyd
- copïau o unrhyw ohebiaeth gyda'r busnes
- copïau o ganlyniadau dadansoddi/archwilio samplau bwyd

- system ar gyfer tynnu sylw at faterion o bwys, gan gynnwys manylion unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio i'w hadolygu wrth gynnal rheolaethau swyddogol yn y dyfodol
- mewn perthynas â sefydliadau a arolygwyd at ddibenion hylendid bwyd, asesiad o gydymffurfiaeth y busnes â gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP), lle bo'n briodol
- gwybodaeth am hyfforddiant hylendid a wnaed a chymwysterau sydd gan weithwyr, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant ar weithredu'r system rheoli diogelwch bwyd
- gwybodaeth o ran a yw'r busnes yn mewnforio bwyd a/neu ai'r busnes yw'r gyrchfan gyntaf fewndirol ar ôl ei fewnforio
- mewn perthynas â safleoedd a archwiliwyd at ddibenion safonau bwyd:
  - bodolaeth unrhyw system ansawdd sydd wedi'i dogfennu ac asesiad ohoni
  - manylion am fusnesau eraill sy'n cynhyrchu neu'n mewnforio ar gyfer y busnes

### 2.6.3 Cadw cofnodion

Mae'r Cod yn nodi bod cofnodion sy'n ymwneud â sefydliadau busnesau bwyd, gan gynnwys y rhai sydd wedi rhoi'r gorau i fasnachu, yn cael eu cadw am o leiaf chwe blynedd, oni bai bod angen eu cadw'n hirach. Dyma enghreifftiau o resymau pam y gellir cadw cofnodion am gyfnod hirach:

- maent yn destun ymgyfreitha
- maent yn destun adolygiad gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol
- mae polisi rheoli dogfennau'r Awdurdod Cymwys yn pennu cyfnod hirach
- mae ymyriad nesaf y sefydliad i fod i gael ei gynnal y tu hwnt i'r cyfnod cadw lleiaf o chwe blynedd. Yn yr achos hwnnw argymhellir parhau i gadw cofnodion a chynnwys:
  - yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i fodloni safon data'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)
  - yr wybodaeth sy'n angenrheidiol i'r ASB gyflawni ei dyletswydd i gadw rhestrau cenedlaethol
  - manylion am y math o weithgareddau a wneir gan y busnes, gan gynnwys unrhyw offer, prosesau neu nodweddion arbennig, lle bo'n berthnasol
  - manylion unrhyw faterion o bwys, gan gynnwys manylion unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio, i'w hadolygu wrth gynnal rheolaethau swyddogol yn y dyfodol

#### 2.6.3.1 Cadw cynlluniau HACCP

Argymhellodd yr ymchwiliad cyhoeddus i'r brigiad o achosion o E.coli O157 yn Ne Cymru yn 2005 y dylai swyddogion gael copi o gynllun rheoli diogelwch bwyd/HACCP busnes, a gedwir ar ffeil sefydliad y busnes, ym mhob arolygiad.

Y prif bryder gyda'r argymhelliad hwn oedd cadw elfennau craidd y cynllun. Ystyrir bod cadw'r pwyntiau rheoli critigol o gynllun HACCP busnes, yn hytrach na'r cynllun cyfan, yn ddigonol i sicrhau bod swyddogion awdurdodedig wedi edrych ar berfformiad busnes dros amser ac nad oeddent wedi methu arwyddion o berygl o reolaethau swyddogol blaenorol.

## 2.7 Cymeradwyo sefydliadau

Darperir canllawiau ar gymeradwyo sefydliadau busnesau bwyd yn y canllawiau i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol ar gymeradwyo sefydliadau.

### 2.7.1 Ceisiadau am gymeradwyaeth

O dan Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, mae'n ofynnol i Awdurdodau Cymwys fod â dull electronig i weithredwyr busnesau bwyd geisio cymeradwyaeth ar gyfer sefydliadau bwyd.

Gellir cwblhau ceisiadau am gymeradwyaeth yn electronig a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cymwys perthnasol ar-lein gan ddefnyddio gwefan GOV.UK.

### 2.7.2 Ffeiliau'r Awdurdod Cymwys

Er mwyn sicrhau cysondeb yng nghynnwys a strwythur ffeiliau a gynhyrchir ar gyfer sefydliadau sydd angen cymeradwyaeth, argymhellir bod gan Awdurdodau Cymwys ffeil wedi'i strwythuro'n briodol, ar ffurf copi caled neu wedi'i chadw'n electronig, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am y sefydliad.

Dyma enghraifft o'r hyn y gallai ffeil gymeradwyo ei chynnwys, fel y bo'n berthnasol ac yn briodol i'r sefydliad:

- y ffurflen gais
- cynllun(iau) o'r sefydliad sy'n nodi:
  - gosodiad y sefydliad
  - lleoliad yr offer
  - llifau gwaith ar gyfer pob llinell gynhyrchu
  - y system dosbarthu dŵr yn y sefydliad, gan gynnwys yr holl allanfeydd a phwyntiau samplu
  - y cynllun draenio
  - rheoli plâu – mannau abwydo a/neu faglu yn y sefydliad a'r mannau allanol
- crynodeb o'r sefydliad (dim mwy nag un ochr o ddalen A4) sy'n disgrifio'n gryno pa fath o sefydliad ydyw, y cynhyrchion a gynhyrchir, cyfaint y cynnyrch, y math o fasnach, nifer y gweithwyr, y rhif cymeradwyo, ar gyfer beth mae wedi'i gymeradwyo, manylion busnesau eraill sy'n cynhyrchu neu sy'n mewnforio ar gyfer y busnes
- cofnod o benderfyniadau, er enghraifft ar gategorïau dethol o ystyriaethau cymeradwyo ac eithriadau cymeradwyo, lle bo'n berthnasol
- rhaglen waith wedi'i chynllunio i sicrhau cymeradwyaeth
- dogfen hysbysiad cymeradwyo sy'n nodi:

- manylion y gweithgareddau y mae'r gymeradwyaeth yn ymwneud â nhw
- rhif cymeradwyo
- dosbarthiad
- cyfarwyddiadau hylendid arbennig
- unrhyw ran-ddirymiadau ('derogations') penodol i'r sefydliad sydd wedi'u rhoi
- unrhyw amodau neu gyfyngiadau eraill a bennir gan yr Awdurdod Cymwys

- unrhyw drefniadau sy'n dderbyniol i'r Awdurdod Cymwys
- yr holl wybodaeth a dogfennaeth berthnasol, gan gynnwys:
  - labeli a dogfennau masnachol sy'n dwyn y nod adnabod
  - llythyr sy'n nodi cyfranogiad yr Awdurdod Cymwys yn y broses o gynllunio a gweithredu hyfforddiant hylendid staff y sefydliad
  - adroddiadau ymyrryd mewn trefn gronolegol
  - gohebiaeth â'r sefydliad mewn trefn gronolegol
  - copïau o hysbysiadau neu gamau ffurfiol eraill a gymerwyd, mewn trefn gronolegol
  - copi o gynllun brys y cwmni ar gyfer galw a thynnu cynhyrchion yn ôl, a'r system olrhain gan gynnwys enwau, rhifau ffôn, personél allweddol o fewn y cwmni
- canlyniadau'r holl samplau a gymerwyd gan yr Awdurdod Cymwys
- lleoliad unrhyw gyfleusterau oddi ar y safle
- copïau o unrhyw ddogfennau eraill a ddarparwyd gan, neu a gopïwyd yn, y safle cymeradwy, gan gynnwys:
  - dogfennaeth HACCP
  - gwybodaeth am gyflenwyr
  - rhestr cynnyrch
  - cofnodion o'r prosesau
  - enwau a manylion cyswllt rheolwyr ac unigolion cyswllt allweddol
  - ffotograffau a delweddau digidol, yn ôl yr angen
  - cynlluniau samplu deunydd crai, cynnyrch a dŵr a chanlyniadau profion*
  - cynlluniau a chanlyniadau samplu eraill, er enghraifft, samplu amgylcheddol*

***** Pan fydd gweithredwyr busnesau bwyd yn defnyddio cynlluniau neu ddulliau samplu amgen yn unol ag Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 2073/2005 ar y meini prawf microbiolegol ar gyfer bwydydd, argymhellir bod gwiriad yr Awdurdodau Cymwys o'r dull amgen arfaethedig yn cael ei gadw ar ffeil.

## 2.8 Prif awdurdod ac awdurdod cartref

### 2.8.1 Cynllun prif awdurdod

Mae'r egwyddorion ynghylch prif awdurdodau wedi'u nodi yn rhannau 1 a 2 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau (RESA) 2008. Mae'n gynllun statudol a weinyddir gan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynhyrchion (OPSS) ar ran Gweinidogion Cymru, ac mae dolenni i ganllawiau perthnasol isod:

- Canllawiau statudol prif awdurdodau
- Canllaw i swyddogion gorfodi
- Canllaw i reoleiddwyr cenedlaethol

Gellir defnyddio'r Gofrestr o Brif Awdurdodau i ganfod a oes gan fusnesau bartneriaeth â phrif awdurdod.

Daeth yr ASB yn rheoleiddiwr cefnogol ar gyfer prif awdurdodau ar 1 Hydref 2017 yn dilyn newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Menter 2016. Gall prif awdurdodau geisio cymorth gan reoleiddwyr cefnogol mewn perthynas â darparu cyngor fel prif awdurdod neu ddatblygu a rheoli cynllun arolygu.

### 2.8.2 Awdurdod cartref

Mae'r ASB yn hyrwyddo Egwyddor yr Awdurdod Cartref, sy'n cael ei llywodraethu gan Ddatganiad Ymrwymiad ar y Cyd, wedi'i lofnodi gan yr OPSS, y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH), ym mis Mehefin 2011.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ceisio cynnal a chefnogi elfennau hanfodol y dirwedd reoleiddio. Mae hefyd yn ceisio rhesymoli a symleiddio'r systemau presennol ar gyfer cefnogaeth broffesiynol a chyfathrebu ymhlith rhwydweithiau, gan sicrhau bod modd datblygu fframwaith cydlynol ar gyfer ymgysylltu â busnesau.

Mae awdurdodau cartref yn gweithredu mewn sefyllfaoedd pan nad oes gan fusnes bartneriaeth â phrif awdurdod, ond lle mae angen clir o hyd i gydlynu gweithgarwch rheoleiddio mewn perthynas â'r busnes hwnnw.

Mae Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn rhoi pwyslais arbennig ar nwyddau a gwasanaethau sy'n deillio o fusnes o fewn ardal Awdurdod Cymwys ei hun, mewn ymdrech i reoleiddio'r busnes wrth y ffynhonnell, gan arwain at effeithlonrwydd yn y system reoleiddio yn ei chyfanrwydd.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys, sy'n ystyried rhoi cyngor neu gymryd camau gorfodi mewn perthynas â busnesau bwyd sydd ag awdurdod cartref, yn ystyried a oes angen iddynt gysylltu â'r awdurdod cartref cyn gwneud hynny.

## 2.9 Darparu gwasanaethau dewisol

Gall Awdurdodau Cymwys godi tâl am ddarparu gwasanaethau dewisol[1], fel darparu hyfforddiant neu gyngor busnes, ac eithrio at ddibenion masnachol.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn sicrhau:

[1] Adran 93(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003

- bod y canlynol ar gael yn rhwydd:
  - eu ffioedd a'u taliadau[2]
  - manylion sut y cyfrifwyd eu ffioedd a'u taliadau ac esboniad ynghylch a fydd cydymffurfiaeth yn effeithio ar ffioedd a thaliadau, lle bo'n briodol[3]
  - beth yw prif nodweddion y gwasanaeth(au)[4]
  - unrhyw delerau ac amodau sy'n berthnasol i ddarparu'r gwasanaeth[5]
  - manylion ar sut i gwyno am y gwasanaeth a ddarperir[6]
- bod eu gweithdrefn a/neu drefniadau gwrthdaro buddiannau yn nodi sut y bydd swyddogion awdurdodedig yn parhau i fod yn rhydd rhag gwrthdaro buddiannau wrth ddarparu gwasanaethau dewisol y codir tâl amdanynt
- eu bod yn ei gwneud hi'n glir, lle bynnag y darperir manylion y gwasanaethau hyn, fod darparwyr eraill ar gael ar gyfer y gwasanaethau hyn
- bod gweithredwr y busnes bwyd yn cytuno i ddarparu'r gwasanaeth cyn iddo gael ei ddarparu, a'i fod yn ymwybodol bod gwneud hynny'n wirfoddol
- eu bod yn ei gwneud hi'n glir i weithredwr y busnes bwyd, ar lafar ac yn ysgrifenedig, os yw'n briodol, fod y gwasanaethau hyn ar wahân i reolaeth swyddogol neu weithgareddau swyddogol eraill

[2] Rheoliad 8(1)(l) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
[3] Paragraff 6.2 o God y Rheoleiddwyr
[4] Rheoliad 8(1)(m) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
[5] Rheoliad 8(1)(i) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009
[6] Paragraff 6.2 o God y Rheoleiddwyr

# Pennod 3 Awdurdodiad, cymwysterau a chymhwysedd

## 3.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 3 yn ymdrin â’r canlynol:

- cymwysterau a chymhwysedd swyddogion sy’n cynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill, ac unrhyw weithgareddau eraill sy’n gysylltiedig â’r rhain, fel rheolaethau answyddogol
- darpariaethau sy’n ymwneud â hyfforddiant swyddogion mewn rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

## 3.2 Penodi swyddogion

Mae Erthygl 5(1)(e) o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cymwys fod â, neu fod â mynediad at, ddigon o swyddogion â’r cymwysterau a’r profiad addas, a hynny fel y gellir cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn effeithlon ac yn effeithiol.

I gefnogi hyn, gall Awdurdodau Cymwys:

- sefydlu trefniadau rhanbarthol neu draws-ranbarthol fel bod modd i Awdurdodau Cymwys eraill gynnal rheolaethau swyddogol a/neu weithgareddau swyddogol ar ran yr Awdurdod Cymwys
- cyflogi staff dros dro neu gontractwyr

Mantais trefniadau rhanbarthol neu draws-ranbarthol yw eu bod yn cefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd o ran trosglwyddo gwybodaeth rhwng ac o fewn Awdurdodau Cymwys a rhanbarthau.

### 3.2.1 Swyddog bwyd arweiniol

Mae’r Cod yn nodi y gellir penodi un neu fwy o swyddogion bwyd arweiniol sydd â’r cymwysterau a’r cymwyseddau priodol.

I gefnogi hyn, gall Awdurdodau Cymwys benodi swyddogion bwyd arweiniol ar wahân sydd â chyfrifoldeb am hylendid bwyd, safonau bwyd, rheolaethau mewnforio bwyd, hylendid bwyd ar lefel cynhyrchu cynradd a/neu ar gyfer tasgau penodol, er enghraifft:

- datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau wedi’u dogfennu
- rheoli’r ymateb i ddigwyddiad a rhybudd
- casglu ac adrodd ar ddata

Yn ogystal, gall swyddog bwyd arweiniol Awdurdod Cymwys gael ei gyflogi gan Awdurdod Cymwys arall, ar yr amod ei fod yn gymwys ar gyfer y rôl a’r gweithgareddau y bydd wedi’i awdurdodi i’w cynnal.

Gellir rhannu enw a manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) y swyddog bwyd arweiniol â’r ASB drwy anfon e-bost at lasupportwales@food.gov.uk a chofnodi’r wybodaeth ar Rwydwaith Rhannu’r ASB. Gellir diweddaru’r manylion ar y llwyfan hon hefyd os bydd manylion y swyddog bwyd arweiniol yn newid.

### 3.2.2 Awdurdodi swyddogion

#### 3.2.2.1 Goruchwyliaeth briodol

Mae'r Cod yn nodi y rhoddir goruchwyliaeth briodol i swyddogion, yn seiliedig ar eu profiad, eu cymhwysedd a'u cymwysterau. Bydd hyn yn golygu bod rhai swyddogion, fel y rhai sy'n newydd i'r Awdurdod Cymwys neu sy'n ymgymryd â gweithgareddau newydd, yn destun mwy o oruchwyliaeth na swyddogion eraill.

Er enghraifft, pan fydd swyddog, nad oes ganddo gymhwyster addas, yn cael ei awdurdodi am y tro cyntaf i gynnal rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau â sgôr risg categori E, gall swyddog, sydd â chymhwyster addas ac sy'n gymwys, adolygu canlyniad y rheolaethau swyddogol y mae wedi'u cynnal a'r sgôr risg mae wedi'i rhoi, a hynny er mwyn sicrhau ei bod yn briodol.

#### 3.2.2.2 Deddfwriaeth

Mae'r Cod yn nodi bod swyddogion, yn seiliedig ar y gweithgareddau y maent yn eu cynnal, wedi'u hawdurdodi'n benodol o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu ar gyfer awdurdodi swyddogion, yn ysgrifenedig, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig i weithredu mewn materion sy'n codi o dan y Ddeddf neu'r Rheoliadau a wnaed oddi tani. Fodd bynnag, nid yw rhai deddfwriaethau, er enghraifft, Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, wedi'u gwneud o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ac maent yn cynnwys pwerau gorfodi penodol, y byddai angen i swyddogion gael eu hawdurdodi'n benodol oddi tanynt, ac y byddai angen cyfeirio atynt mewn dogfennau awdurdodi, gan gynnwys cymwysterau swyddogion.

### 3.2.3 Cymwysterau

Mae'r Cod yn nodi, lle nad oes gan swyddog gymhwyster addas (fel y'i rhestrir yn adrannau 3.2.3.1, 3.2.3.2 a 3.2.3.3 o'r Cod), y gellir ei awdurdodi i gynnal y gweithgareddau, yn nhabl 1 isod, os gall y swyddog ddangos ei fod yn gymwys i gynnal y gweithgareddau hynny.

Er mwyn cefnogi Awdurdodau Cymwys i benderfynu a yw swyddogion yn gymwys, mae tabl 1 hefyd yn nodi'r gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd.

**Tabl 1: Gweithgareddau perthnasol ar gyfer swyddogion nad oes ganddynt gymhwyster addas o fewn y Safon Cymhwysedd**

| Gweithgaredd | Gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd |
|---|---|
| Samplu | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin<br>• Gweithgaredd C3: Samplu<br>• Is-weithgaredd C3.1: Cymryd samplau anffurfiol<br>• Is-weithgaredd C3.2: Cymryd samplau ffurfiol |

| **Gweithgaredd** | **Gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd** |
|---|---|
| Addysgu, cynghori a hyfforddi | • Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin<br>• Gweithgaredd C1: Addysgu, cynghori a hyfforddi |
| Casglu gwybodaeth, gan gynnwys asesiad bwrdd gwaith cychwynnol o sefydliadau busnesau bwyd newydd | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin |
| Casglu, prosesu a rhannu cudd-wybodaeth | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin |
| Monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin<br>• Gweithgaredd F3: Monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn |
| Camau anffurfiol | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin<br>• Gweithgaredd E1: Camau anffurfiol |
| Cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol dyledus mewn sefydliadau â sgôr risg categori D sy'n cydymffurfio i raddau helaeth, a sefydliadau â sgôr risg categori E, sef y rhai:<br>• nad ydynt yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na gofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin<br>• â sgôr o 10 neu lai ar gyfer 'y math o fwyd a'r dull trin a thrafod'<br>• â sgôr o 0 ar gyfer 'y dull prosesu' | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'r dull a'r technegau ar gyfer y rheolaethau swyddogol a gynhelir, a all gynnwys:<br>– Gweithgaredd B1: Gweithgareddau sy'n benodol i hylendid bwyd<br>– Is-weithgaredd C2: Arolygu ac archwilio busnesau |
| Cynnal rheolaethau hylendid bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau heblaw'r rheiny sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd, sef y rhai:<br>• nad ydynt, ar sail yr asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, ac yn unol ag adran 4.2.4.2 o'r Cod, yn destun rheolaethau swyddogol cychwynnol o fewn 28 diwrnod<br>• nad ydynt yn destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 na gofynion Rheoliad | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'r dull a'r technegau ar gyfer y rheolaethau swyddogol a gynhelir, a all gynnwys:<br>– Gweithgaredd B1: Gweithgareddau sy'n benodol i hylendid bwyd<br>– Is-weithgaredd C2: Arolygu ac archwilio busnesau |

| Gweithgaredd | Gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd |
|---|---|
| (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin | |
| Cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol dyledus mewn sefydliadau sydd â sgôr risg gynhenid o 4 o leiaf, a sgôr asesu cydymffurfiaeth o 3 o leiaf | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'r dull a'r technegau ar gyfer y rheolaethau swyddogol a gynhelir, a all gynnwys:<br>– Gweithgaredd B2: Gweithgareddau sy'n benodol i safonau bwyd<br>– Is-weithgaredd C.2: Arolygu ac archwilio busnesau<br>– Gweithgaredd C6: Asesu cynhyrchion, labelu a gwybodaeth arall<br>– Is-weithgaredd C6.3: Asesu labelu cynhyrchion a gwybodaeth am gynhyrchion |
| Cynnal rheolaethau safonau bwyd swyddogol cychwynnol mewn sefydliadau y rhagwelir, o'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, y bydd ganddynt sgôr risg gynhenid o 5 | • Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'r dull a'r technegau ar gyfer y rheolaethau swyddogol a gynhelir, a all gynnwys:<br>– Gweithgaredd B2: Arolygiadau safonau bwyd<br>– Is-weithgaredd C2: Arolygu ac archwilio busnesau<br>– Gweithgaredd C6: Asesu cynhyrchion, labelu a gwybodaeth arall<br>– Is-weithgaredd C6.3: Asesu labelu cynhyrchion a gwybodaeth am gynhyrchion |

#### 3.2.3.1 Cymwysterau â chyfyngiadau

Mae'r Cod yn nodi, pan fydd gan swyddog gymhwyster â chyfyngiad, fod yn rhaid cyfyngu ar ei awdurdodiad i arfer pwerau a dyletswyddau cyfreithiol nes y gall y swyddog ddangos ei fod yn gymwys i gynnal y gweithgareddau cyfyngedig perthnasol.

### 3.2.3.2 Cymwysterau â chyfyngiadau – hylendid bwyd

Er mwyn cefnogi Awdurdodau Cymwys i benderfynu a yw swyddogion yn gymwys i gynnal y gweithgareddau cyfyngedig, mae tabl 2 yn nodi'r gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd.

**Tabl 2: Gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd ar gyfer gweithgareddau cyfyngedig**

| Gweithgaredd cyfyngedig | Gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd |
|---|---|
| Arolygu bwyd i bennu a yw'n addas | Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin.<br>Gweithgaredd C6: Asesu cynhyrchion, labelu a gwybodaeth arall.<br>Is-weithgaredd C6.1: Asesu a yw cynhyrchion bwyd yn ddiogel ac yn addas i'w bwyta gan bobl. |
| Atafaelu a chadw bwyd | Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin.<br>Gweithgaredd E2: Camau gorfodi ffurfiol.<br>Is-weithgaredd E2.3: Cadw, atafaelu ac ildio bwyd yn wirfoddol. |
| Ymgymryd â swyddogaethau rheoli mewnforion ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd | Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin.<br>Gweithgaredd F1: Rheolaethau mewnforio.<br>Is-weithgaredd F1.1: Rheolaethau mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd. |
| Gwasanaethu RAN | Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin.<br>Gweithgaredd E2: Camau gorfodi ffurfiol. |
| Cyflwyno Hysbysiadau Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid (HEPN) | Gweithgaredd A: Gweithgareddau cyffredin.<br>Gweithgaredd E2: Camau gorfodi ffurfiol.<br>Is-weithgaredd E2.2: Gweithdrefnau gwahardd. |

### 3.2.3.3 Cymwysterau â chyfyngiadau – safonau bwyd

Mae'r Cod yn nodi y gall swyddogion, sydd ag un neu fwy o'r cymwysterau canlynol, a ddyfarnwyd gan Fwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB), y Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST) neu Fwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB), os ydynt yn gymwys, gael eu hawdurdodi i orfodi darpariaethau rheoliad 9 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 mewn perthynas â darparu gwybodaeth am alergenau mewn bwydydd heb eu pecynnu ymlaen llaw a bwyd sy'n cael ei becynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr:

- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd
- Tystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd ag Ardystiad Arolygu Bwyd

- Tystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd

Er mwyn cefnogi Awdurdodau Cymwys wrth bennu a yw swyddogion yn gymwys i orfodi darpariaethau rheoliad 9 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, mae’r rhestr isod yn nodi’r gweithgareddau perthnasol o fewn y Safon Cymhwysedd cyn belled ag y maent yn ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau mewn bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw a bwyd sy’n cael ei becynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr:

- Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin
- Gweithgaredd B6: Asesu cynhyrchion, labelu a gwybodaeth arall
- Is-weithgaredd B6.3: Asesu labelu cynhyrchion a gwybodaeth am gynhyrchion

### 3.2.3.4 Cywerthedd cymwysterau

Mae’r Cod yn nodi, pan fydd gan ddarpar swyddogion gymwysterau nad ydynt wedi’u cynnwys yn y rhestr o gymwysterau addas, gan gynnwys y rheiny a gafwyd o wledydd nad ydynt yn y DU, fod yn rhaid i’r Awdurdod Cymwys sicrhau bod y cymwysterau hynny’n gywerth cyn awdurdodi’r swyddog.

O dan yr amgylchiadau hyn, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys, y cyflogwr neu’r darpar swyddog yn cysylltu’n uniongyrchol â’r cyrff dyfarnu perthnasol i gael asesiad o gywerthedd yn erbyn y cymhwyster addas perthnasol (efallai y bydd ffioedd yn daladwy).

Mae’r cyrff dyfarnu perthnasol yn cynnwys:

- CIEH
- CTSI
- IFST
- Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban (REHIS)
- SFSORB

Mae’n rhaid i’r cyrff hyn roi gwybod i’r ASB am unrhyw benderfyniad ynghylch yr asesiad o gywerthedd y cymhwyster.

Gall swyddogion presennol a darpar swyddogion hefyd feddu ar gymwysterau a/neu brofiad a gafwyd mewn gwlad y tu allan i’r DU, sydd o safon debyg iawn i gymwysterau’r DU ac sy’n rhoi’r un wybodaeth a sgiliau (cymhwysedd) i raddau helaeth i unigolion. Er enghraifft, mae unigolyn yn ceisio cyflogaeth yn y DU fel Dadansoddwr Cyhoeddus, Archwiliwr Bwyd, neu swyddog awdurdodedig, a hynny ar ôl ennill cymwysterau a phrofiad gwaith perthnasol yn ei wlad gartref.

Yn yr amgylchiadau hyn, gellir ystyried cymwysterau a phrofiad na chafwyd yn y DU, a gellir gwneud ymholiadau gyda’r cyrff proffesiynol a/neu ddyfarnu perthnasol os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y maes hwn cyn cadarnhau penodiad.

Gellir pennu cywerthedd cymwysterau nad ydynt yn rhai’r DU hefyd gan Ganolfan Wybodaeth Genedlaethol y Deyrnas Unedig ar gyfer cydnabod a gwerthuso cymwysterau a sgiliau rhyngwladol.

### 3.2.4 Cymhwysedd

Mae cymhwysedd yn cydnabod y gellir ymestyn awdurdodiad swyddog wrth iddo ennill gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd.

Mae'r Cod yn nodi, cyn cael eu hawdurdodi, fod yn rhaid i swyddogion a swyddogion bwyd arweiniol ddangos eu bod yn gymwys ar gyfer y gweithgareddau sy'n berthnasol i'w rôl a'r rheiny y byddant yn cael eu hawdurdodi i'w cyflawni.

Er mwyn cefnogi Awdurdodau Cymwys i bennu a yw swyddog yn gymwys, mae'r ASB wedi cyhoeddi Safon Cymhwysedd sy'n nodi'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer gweithgareddau perthnasol y gellir awdurdodi swyddogion i'w cyflawni. Rhaid i unrhyw safon cymhwysedd amgen fod yn gyfwerth.

#### 3.2.4.1 Asesiad cymhwysedd

Mae'r Cod yn nodi bod cymhwysedd yn cael ei bennu gan swyddogion arweiniol drwy asesiad priodol.

Gall swyddogion, heblaw am y swyddog bwyd arweiniol, os ydynt yn gymwys, asesu cymhwysedd a gwneud argymhellion i'r swyddog bwyd arweiniol. Fodd bynnag, y swyddog bwyd arweiniol sy'n gyfrifol am bennu a yw swyddog yn gymwys.

Gall Awdurdodau Cymwys ddefnyddio unrhyw un o'r canlynol fel tystiolaeth o sut mae swyddogion yn dangos eu bod yn gymwys i ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w hawdurdodiad:

- cymwysterau academaidd a phroffesiynol
- manylion hanes cyflogaeth, gan gynnwys swyddogaethau a gyflawnwyd, cyfrifoldeb a arferwyd, a phrofiad a gafwyd
- manylion rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gynhelir o dan oruchwyliaeth swyddog cymwys
- tystiolaeth o gwblhau cyrsiau hyfforddi'n llwyddiannus, gan gynnwys cyrsiau byr ac e-ddysgu, er enghraifft, ar faterion sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol, HACCP, neu sancsiynau gorfodi
- arolygiadau/ymweliadau a wneir ar y cyd, dan oruchwyliaeth swyddog cymwys
- ar ôl cynnal darn penodol o waith, er enghraifft, drafftio hysbysiadau, cynhyrchu datganiadau tystion, casglu tystiolaeth, adeiladu elfennau o ffeil erlyn, neu gynnal gwaith samplu yn ôl protocol penodol
- perfformiad boddhaol o weithgareddau fel rhan o weithdrefnau gwerthuso/monitro perfformiad mewnol
- gwneud unrhyw un o'r pethau a awgrymir yn adran 3.3.1.2

#### 3.2.4.2 Asesiad o gymhwysedd swyddog bwyd arweiniol

Mae'r Cod yn nodi bod cymhwysedd swyddogion bwyd arweiniol yn cael ei bennu drwy asesiad priodol.

Gall rheolwr priodol, fel rheolwr gwasanaeth neu uwch-swyddog sy'n gyfrifol am wasanaeth bwyd yr Awdurdod Cymwys, gynnal yr asesiad o gymhwysedd y swyddog bwyd arweiniol.

Gall swyddog bwyd arweiniol cymwys o Awdurdod Cymwys arall hefyd asesu cymhwysedd y swyddog bwyd arweiniol.

Er mwyn cefnogi Awdurdodau Cymwys i bennu cymhwysedd swyddogion bwyd arweiniol, mae'r Safon Cymhwysedd yn darparu cymwyseddau ar gyfer gweithgareddau y gellir eu hawdurdodi i'w cyflawni yn eu rôl, gan gynnwys gweithgareddau penodol swyddogion arweiniol. Mae'r gweithgareddau penodol hyn yn cynnwys:

- D1.3: Ymchwilio i ddigwyddiadau a rhybuddion a ddaw i law, adrodd amdanynt a'u rheoli
- F6.1: Datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau wedi'u dogfennu
- F6.2: Casglu/goruchwylio ac adrodd ar ddata

Mae'r Cod yn cydnabod y gall mwy nag un person gyflawni rôl y swyddog bwyd arweiniol. Oherwydd hyn, nid yw pob swyddog bwyd arweiniol o reidrwydd yn dangos y cymwyseddau ar gyfer yr holl weithgareddau uchod.

Er mwyn rhoi sicrwydd pellach wrth asesu cymhwysedd swyddogion bwyd arweiniol, argymhellir bod swyddogion bwyd arweiniol yn cymryd rhan mewn archwiliadau rhwng awdurdodau ac adolygiadau gan gymheiriaid. Bydd hyn o gymorth wrth ddatblygu dulliau cyson o asesu cymhwysedd.

#### 3.2.4.3 Swyddogion yn symud o un Awdurdod Cymwys i un arall

Pan fydd swyddog yn symud o un Awdurdod Cymwys i un arall, argymhellir bod yr Awdurdodau Cymwys yn cydweithredu ac yn cynorthwyo i wirio a throsglwyddo gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol mewn perthynas â chymwysterau, asesiad o gymhwysedd, hyfforddiant a chofnodion DPP.

Yn ogystal, pan fydd swyddog wedi symud o un Awdurdod Cymwys i un arall, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys newydd yn darparu hyfforddiant cynefino ffurfiol, gan gynnwys ymgyfarwyddo â'i bolisïau a'i weithdrefnau.

## 3.3 Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus arall

Mae'r ASB yn cydnabod yr angen i bob swyddog ddiweddaru neu adnewyddu eu gwybodaeth a'u cymhwysedd er mwyn addasu i'r amgylchiadau newidiol y maent yn gweithio ynddynt, ac i swyddogion sy'n dechrau ym maes gorfodi cyfraith bwyd am y tro cyntaf, neu swyddogion sy'n dychwelyd i orfodi cyfraith bwyd ar ôl seibiant, ddatblygu eu gwybodaeth a'u cymhwysedd.

Mae deunyddiau hyfforddi a chyrsiau e-ddysgu ar gael drwy Rwydwaith Rhannu'r ASB ac ar wefan Regulators' Companion.

### 3.3.1 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

DPP yw'r dull a ddefnyddir gan swyddogion, gan gynnwys swyddogion bwyd arweiniol, i gynnal, gwella ac ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac i ddatblygu'r rhinweddau personol a'r cymwyseddau i gyflawni eu rôl. Mae llawer o broffesiynau'n diffinio DPP fel dull strwythuredig o ddysgu i helpu i sicrhau cymhwysedd i ymarfer,

gan gael gwybodaeth, a magu sgiliau a phrofiad ymarferol. Gall DPP gynnwys unrhyw weithgaredd dysgu perthnasol, boed yn ffurfiol a strwythuredig neu'n anffurfiol a hunangyfeiriedig.

Yn sylfaenol i gynllun DPP mae'r angen i unigolion gymryd perchnogaeth o ddatblygiad eu gyrfa.

#### 3.3.1.1 Mathau o DPP

Mae Rheoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gael hyfforddiant ar y pynciau a nodir ym Mhennod 1 o Atodiad II ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Cymwys sy'n deillio o'r Rheoliadau hyn.

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i'r rhai sy'n cynnal rheolaethau bwyd swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill ymgymryd ag o leiaf 20 awr o DPP bob blwyddyn. Gallai blwyddyn DPP fod yn flwyddyn galendr neu'n gyfnod treigl o 12 mis.

Er bod y Cod yn nodi isafswm oriau, efallai y bydd angen oriau ychwanegol yn dibynnu ar brofiad swyddogion unigol a'u maes/meysydd awdurdodi, unrhyw anghenion hyfforddi penodol neu ddiffyg mewn cymhwysedd a nodwyd yn eu hadolygiadau blynyddol.

Mae'r Cod yn darparu ar gyfer treulio o leiaf 10 awr o DPP ar bynciau a amlinellir ym Mhennod 1 o Atodiad II i Reoliad (UE) 2017/625 ac ar rwymedigaethau'r Awdurdod Cymwys sy'n deillio o'r rheoliad hwn, sy'n berthnasol i'r gweithgareddau y mae swyddogion wedi'u hawdurdodi i'w cyflawni.

Gall enghreifftiau o hyfforddiant a DPP ar bynciau a amlinellir ym Mhennod 1 o Atodiad II i Reoliad (UE) 2017/625 gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- ymarferion cysondeb wrth sgorio risg
- gwahanol dechnegau rheoli, fel arolygu, gwirio, sgrinio, sgrinio wedi'i dargedu, samplu, dadansoddi labordy, profi a diagnosis
- gweithdrefnau rheoli
- gofynion cyfraith bwyd
- asesiad o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith bwyd
- peryglon wrth gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd
- y gwahanol gamau o gynhyrchu, prosesu a dosbarthu a'r risgiau posib i iechyd pobl, a lle bo'n briodol ar gyfer iechyd anifeiliaid a phlanhigion, lles anifeiliaid a'r amgylchedd
- gwerthuso'r trefniadau ar gyfer rhoi gweithdrefnau HACCP ar waith
- systemau rheoli fel rhaglenni sicrhau ansawdd y mae gweithredwyr busnesau bwyd yn eu rheoli a'u hasesiad i'r graddau y maent yn berthnasol i ofynion cyfraith bwyd
- systemau ardystio swyddogol
- trefniadau wrth gefn ar gyfer argyfyngau
- achosion cyfreithiol a goblygiad rheolaethau swyddogol
- archwiliad o ddeunydd ysgrifenedig, dogfennol a chofnodion eraill, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â phrofion cymharol rhwng labordai, achredu ac asesu

risg, a all fod yn berthnasol i asesu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd; gall hyn gynnwys agweddau ariannol a masnachol
- gweithdrefnau a gofynion rheoli ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn i'r DU
- unrhyw faes arall sy'n angenrheidiol i sicrhau bod rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625

Gall y 10 awr sy'n weddill gynnwys materion nad ydynt yn gysylltiedig â bwyd i gefnogi swyddogion a swyddogion arweiniol wrth gynnal, gwella neu ehangu eu cymhwysedd. Gall enghreifftiau o hyfforddiant a DPP perthnasol gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- fynychu cyrsiau hyfforddi/cynadleddau nad ydynt yn gysylltiedig â rheolaethau swyddogol ond sy'n cefnogi datblygiad proffesiynol, er enghraifft, y rhai sy'n gysylltiedig â sgiliau ymchwilio
- presenoldeb yn y llys
- ymgymryd â gweithgareddau dysgu o bell neu e-ddysgu perthnasol, er enghraifft, y rhai sy'n gysylltiedig â chasglu tystiolaeth

### 3.3.1.2 Dulliau o gyflawni DPP

Mae'r enghreifftiau isod i gyd yn ddulliau i swyddogion allu cyflawni DPP, ac maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- fynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol, gan gynnwys dysgu o bell neu weithgareddau e-ddysgu
- hyfforddiant gan swyddogion profiadol, cymwys eraill
- adolygu astudiaethau achos a deunydd darllen
- mynychu cynadleddau neu gyfarfodydd sy'n cynnwys elfen o ddysgu
- darllen i ddeall fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol
- cynnal neu ddatblygu sgiliau arbenigol
- cysgodi swyddog sydd wedi dangos y cymwyseddau perthnasol
- cymryd rhan mewn archwiliad neu genhadaeth canfod ffeithiau DGF
- cysgodi cydweithwyr profiadol (mewnol neu allanol) i ddatblygu gwybodaeth am broses arbenigol, fel gwneud caws; cynhyrchion cig; cynhyrchion pysgod cregyn/pysgodfeydd
- cymryd rhan mewn astudiaethau achos sy'n seiliedig ar senarios, fel llunio hysbysiadau neu sgorio risg
- awduro erthyglau perthnasol ar gyfer cyfnodolion/papurau a adolygir gan gymheiriaid
- ysgrifennu canllawiau ar gyfraith bwyd neu ofynion deddfwriaethol eraill
- paratoi a chyflwyno cyflwyniadau i gydweithwyr neu fusnesau ar ofynion deddfwriaethol, yn enwedig newidiadau newydd i ddeddfwriaeth
- trafodaethau priodol â chydweithwyr a/neu weithredwyr busnesau bwyd ar ofynion cyfreithiol/camau gorfodi sy'n cynnwys elfen o ddysgu

#### 3.3.1.3 Tystio a chofnodi DPP

Er mwyn tystio'r rhan fwyaf o waith DPP, mae'n debygol y dilynir yr arfer sefydledig o gael ardystiad gan ddarparwr hyfforddiant. Fodd bynnag, gall mathau eraill o dystiolaeth ategol hefyd dystio gwaith DPP, er enghraifft, wrth gyhoeddi mewn cyfnodolyn a adolygir gan gymheiriaid.

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid cadw cofnod o hyfforddiant a DPP. Gellid defnyddio'r cofnodion hyn fel rhan o'u hadolygiad blynyddol o anghenion hyfforddiant a DPP. Gellir cyfuno adolygiadau o'r fath, lle bo'n briodol, ag arfarniadau blynyddol.

Argymhellir bod cofnodion hyfforddiant a DPP yn cynnwys, o leiaf, yr wybodaeth ganlynol:

- dyddiad y gweithgaredd
- y math o weithgaredd/disgrifiad o'r gweithgaredd
- yr oriau a dreuliwyd ar weithgaredd
- copi o ardystiad neu gydlofnod gan swyddog bwyd arweiniol, neu swyddog arall a all ddangos y cymwyseddau perthnasol ar gyfer y gweithgaredd penodol a wnaed

## 3.4 Swyddogion sy'n cynnal rheolaethau mewnforio mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Mae'r Cod yn nodi ystod o weithgareddau y gall swyddogion, os ydynt yn gymwys, eu cyflawni mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin.

I gefnogi hyn, argymhellir, o leiaf, fod y gweithgareddau a'r is-weithgareddau canlynol o fewn y Safon Cymhwysedd yn berthnasol i reolaethau swyddogol a thasgau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill:

- Gweithgaredd A: Cymwyseddau cyffredin
- Gweithgaredd E2: Rheolaethau mewnforio
- Is-weithgaredd E2.1: Rheolaethau mewnforio wrth y man cyrraedd
- Gweithgaredd B5: Samplu
- Is-weithgaredd B5.1: Cymryd samplau ffurfiol
- Is-weithgaredd B5.2: Cymryd samplau anffurfiol
- Is-weithgaredd E2.2: Rheolaethau mewnforio ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd (ar gyfer arolygwyr pysgod swyddogol yn unig)

Pan fydd Awdurdod Cymwys yn awdurdodi swyddog i ymgymryd â gwaith gorfodi, byddai'r gweithgareddau gorfodi o fewn y Safon Cymhwysedd hefyd yn berthnasol, er enghraifft:

- Gweithgaredd D1: Camau gorfodi anffurfiol
- Gweithgaredd D2: Camau gorfodi ffurfiol
- Is-weithgaredd D2.2: Cadw, atafaelu ac ildio cynhyrchion yn wirfoddol

### 3.4.1 Arolygwyr pysgod swyddogol

Mae’r Cod yn nodi, pan fydd Safle Rheolaethau’r Ffin wedi’i gymeradwyo ar gyfer mewnforio unrhyw gynhyrchion pysgodfeydd, infertebratau dyfrol, molysgiaid dwygragennog byw (LBMs), echinodermau byw, tiwnigogion byw, a gastropodau morol byw y mae’n fwriad iddynt gael eu bwyta gan bobl, y gall yr Awdurdod Cymwys benodi swyddogion iechyd yr amgylchedd sydd wedi’u hyfforddi’n addas, neu bersonau eraill sydd wedi’u hyfforddi’n briodol i gynnal rheolaethau swyddogol neu dasgau penodol sy’n gysylltiedig â gweithgareddau swyddogol eraill, i fod yn arolygwyr pysgod swyddogol.

Byddai gan unrhyw arolygwr pysgod swyddogol o’r fath holl bwerau milfeddyg swyddogol mewn perthynas â’r cynhyrchion hynny wedyn[7].

[7] Rheoliad 12(4) o Reoliadau Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig 2011

# Pennod 4 Cynnal rheolaethau swyddogol

## 4.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 4 yn ymdrin â'r canlynol:

- cynnal rheolaethau swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r rhain, fel rheolaethau answyddogol

## 4.2 Pa mor aml y dylid cynnal rheolaethau swyddogol

### 4.2.1 Hylendid bwyd a safonau bwyd

Pan fo Awdurdod Cymwys yn gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol a gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a/neu fwyd anifeiliaid mewn sefydliad, gall benderfynu a yw'n briodol i swyddogion gwmpasu un neu fwy o'r meysydd hyn yn ystod un ymweliad â sefydliad, er nad oes angen rheolaeth swyddogol o dan y rhaglen rheolaethau swyddogol berthnasol a gynlluniwyd.

#### 4.2.1.1 Ffynonellau gwybodaeth a chudd-wybodaeth

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i swyddogion ystyried gwybodaeth a chudd-wybodaeth a gyflenwir gan drydydd partïon wrth bennu sgoriau ymyriadau ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. Gall enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth gynnwys:

- Awdurdodau Cymwys eraill
- prif awdurdodau neu awdurdodau cartref
- archwiliadau gan drydydd partïon
- ffynonellau eraill, fel cyrff masnach

Ceir canllawiau pellach ar rôl cudd-wybodaeth yn y model gweithredu safonau bwyd yn y Canllawiau ar y Model Gweithredu Safonau Bwyd.

Mae Pennod 5 yn rhoi canllawiau ar Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yr ASB a sut i rannu gwybodaeth â'r Uned pe bai unrhyw gudd-wybodaeth a geir yn awgrymu twyll bwyd posib.

### 4.2.2 Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a'r cynllun sgorio ymyriadau

Y cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd, a nodir yn y Cod, yw sail y CSHB, a weithredir gan yr holl Awdurdodau Cymwys yng Nghymru sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol mewn perthynas â hylendid bwyd. Rhoddir canllawiau ar hyn yn y canllawiau statudol ar weithredu'r CSHB

Dyma'r elfennau o'r cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd sy'n berthnasol i gyfrifo sgôr y CSHB:

- lefel y gydymffurfiaeth (gyfredol) â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd
- lefel y gydymffurfiaeth (gyfredol) â gofynion strwythurol
- hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli

Darperir canllawiau ychwanegol ar sgorio pob un o'r tair elfen uchod yn Atodiad 3.

Dylai system rheoli diogelwch bwyd busnes ystyried sut y gellir rheoli croeshalogi, gan gynnwys unrhyw halogiad sy'n gysylltiedig ag alergenau a nodwyd wrth baratoi bwyd yn benodol ar gyfer defnyddwyr sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd. Yn ogystal, dylai'r system rheoli diogelwch bwyd gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ar reoli alergenau. Mae Rheoliad 5 ar alergenau yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 yn ymwneud â labelu bwyd a gwybodaeth am fwyd. Gan mai gofynion safonau bwyd yw'r rhain, ni ddylent ffurfio rhan o asesiad CSHB. Er bod y risg o halogiad sy'n gysylltiedig ag alergenau yn cael ei sgorio fel rhan o'r sgôr safonau bwyd, dylid ei hystyried o hyd fel rhan o arolygiad hylendid a thynnu sylw'r gweithredwr busnes bwyd (neu gynrychiolydd) at unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd.

#### 4.2.2.1 Grwpiau risg sy'n agored i niwed

Mae'r cynllun sgorio ymyriadau hylendid bwyd yn nodi bod yn rhaid rhoi sgôr ychwanegol o 22 pan fydd sefydliadau'n ymwneud â chynhyrchu neu weini bwydydd risg uchel y bwriedir iddynt gael eu bwyta'n benodol gan ddefnyddwyr sy'n debygol o gynnwys grŵp o fwy nag 20 o bobl sy'n agored i niwed.

Mae'r sgôr ychwanegol hon, a ddefnyddir fesul achos, yn seiliedig ar farn broffesiynol swyddog ynghylch a yw bwydydd risg uchel wedi'u 'bwriadu'n benodol' ar gyfer grŵp risg sy'n agored i niwed ac a ydynt i'w bwyta gan fwy nag 20 o bobl.

Yn y cyd-destun hwn, 'grwpiau risg sy'n agored i niwed' yw'r bobl hynny sy'n debygol o fod yn fwy agored i effeithiau hylendid bwyd gwael fel y rheiny sydd dan 5 oed neu'n hŷn na 65 oed, a phobl sy'n sâl neu sydd â system imiwnedd wan.

Mae rhestr anghyflawn o sefydliadau y gellid, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, eu hystyried o fewn y categori hwn yn cynnwys ysbytai, cartrefi preswyl/nyrsio, cyfleusterau gofal dros nos, a meithrinfeydd/cyfleusterau gofal dydd plant cyn yr ysgol.

Mae enghreifftiau lle na fyddai'r sgôr ychwanegol hon yn cael ei chymhwyso yn cynnwys:

- bwyty sydd, ar adegau, yn gweini grŵp o dros 20 o bensiynwyr. Gan ei bod yn annhebygol y byddai'r busnes yn cynhyrchu bwyd sydd wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer grŵp risg agored i niwed, nid yw wedi'i gynnwys yn y categori hwn
- ysgol sy'n gweini'r un cinio i bob grŵp blwyddyn, gan gynnwys y plant hynny dan 5 oed. Gan ei bod yn annhebygol y byddai'r ysgol yn cynhyrchu bwyd sydd wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer grŵp risg agored i niwed, nid yw wedi'i chynnwys yn y categori hwn
- canolfan chwarae meddal wedi'i chynllunio ar gyfer plant rhwng 1 a 10 oed, sy'n gweini'r un bwyd i bob plentyn. Gan ei bod yn annhebygol y byddai'r busnes yn cynhyrchu bwyd sydd wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer grŵp risg sy'n agored i niwed, nid yw wedi'i gynnwys yn y categori hwn

#### 4.2.3 Cynhyrchu cynradd

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid pennu amlder rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd drwy wneud y defnydd gorau o unrhyw wybodaeth neu gudd-wybodaeth a allai ddangos:

- bod defnyddwyr yn cael eu camarwain
- diffyg cydymffurfio â chyfraith bwyd berthnasol

Ceir enghreifftiau o gudd-wybodaeth leol neu gudd-wybodaeth arall yn y canllawiau ar y drefn gorfodi hylendid bwyd ar gyfer cynhyrchu cynradd.

#### 4.2.4 Rheolaethau swyddogol cychwynnol

##### 4.2.4.1 Asesiad bwrdd gwaith cychwynnol

Mae'r Cod yn nodi, wrth gynnal asesiadau bwrdd gwaith cychwynnol o sefydliadau busnesau bwyd newydd, y gellir defnyddio gwybodaeth a gyflenwir gan y gweithredwr busnes bwyd wrth gofrestru, ac unrhyw wybodaeth arall yr ystyrir ei bod yn berthnasol, i bennu'r perygl posib (hylendid bwyd) neu'r lefel debygol o risg gynhenid (safonau bwyd).

O ran hylendid bwyd, mae'r 'perygl posib' yn ymwneud â rhan 1 o'r system sgorio hylendid bwyd, yn Atodiad 1 i'r Cod. Mae'r sgôr perygl posib yn ystyried y canlynol:

- y math o fwyd a'r dull trin a thrafod
- y dull prosesu
- defnyddwyr sy'n wynebu risg, gan gynnwys ystyried grwpiau risg sy'n agored i niwed

Mae'r sgoriau o'r tair elfen hyn yn rhan 1 o'r system sgorio hylendid bwyd yn cael eu hadio at ei gilydd i roi'r sgôr 'perygl posib' gyffredinol.

O ran safonau bwyd, ceir canllawiau pellach ar bennu'r lefel debygol o risg gynhenid yn y Canllawiau ar y Model Gweithredu Safonau Bwyd.

I gefnogi'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, gall Awdurdodau Cymwys hefyd ystyried gwybodaeth a gesglir drwy gyfathrebu â'r gweithredwr busnes bwyd, yn ogystal â gwybodaeth neu gudd-wybodaeth arall sydd ar gael, gan gynnwys adolygiad o bresenoldeb ar-lein y busnes.

##### 4.2.4.2 Penderfynu pryd i gynnal y rheolaeth swyddogol gychwynnol

Mae'r Cod yn nodi bod rheolaethau swyddogol cychwynnol ar fusnesau bwyd newydd yn cael eu cynllunio fel nad yw'r rhai sydd â pherygl posib is (hylendid bwyd) neu risg gynhenid is (safonau bwyd) yn achosi oedi gormodol wrth gynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol a/neu ddyledus mewn sefydliadau risg uwch a/neu mewn sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio. Nid yw hyn yn berthnasol i sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 neu ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, sy'n cael ymweliad cychwynnol â'r safle cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Os ceir gwybodaeth, fel rhan o'r asesiad bwrdd gwaith cychwynnol, sy'n nodi diffyg cydymffurfio posib mewn sefydliad, gellir defnyddio'r wybodaeth hon i flaenoriaethu'r rheolaeth swyddogol gychwynnol yn y sefydliad hwnnw, er na fyddai hyn o reidrwydd yn effeithio ar sgôr perygl posib (hylendid bwyd) na phroffil risg cynhenid (safonau bwyd) y sefydliad.

Gall Awdurdodau Cymwys hefyd ystyried cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol fel blaenoriaeth lle nad yw'r busnes yn gallu masnachu tan i'r rheolaeth swyddogol gael ei chynnal. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle nad yw'r busnes yn gallu masnachu mewn marchnad heb gynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol.

Yn ogystal, os bydd sefydliad wedi cofrestru 28 diwrnod cyn iddo ddechrau gweithredu, gellir gohirio'r rheolaeth swyddogol gychwynnol tan y bydd wedi dechrau gweithredu.

#### 4.2.4.3 Dulliau a thechnegau priodol ar gyfer rheolaethau swyddogol cychwynnol

Mae'r Cod yn nodi, mewn perthynas â hylendid bwyd, fod yn rhaid i sefydliadau gael archwiliad neu arolygiad corfforol ar gyfer eu rheolaeth swyddogol gychwynnol. Fodd bynnag, gall y sefydliadau canlynol, os bydd asesiad bwrdd gwaith cychwynnol yn darparu sgôr perygl posib rhwng 5 a 29, gael rheolaeth swyddogol sy'n defnyddio unrhyw ddull a thechneg (yn unigol neu gyfuniad ohonynt), a gellir cynnal y rheolaeth yn bersonol neu o bell[8]:

- sefydliadau nad ydynt yn cymryd nac yn dal meddiant corfforol o fwyd i'w ailwerthu i fusnesau eraill (er enghraifft, broceriaid bwyd)
- sefydliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod yn gyffredinol gan ddefnyddwyr fel busnesau bwyd oherwydd nad yw'r prif fusnes neu weithgaredd yn gysylltiedig â bwyd
- rhai sefydliadau sy'n gweithredu o gyfeiriadau preifat

Wrth bennu'r dull a'r technegau i'w defnyddio ar gyfer y rheolaeth swyddogol, gan gynnwys a ddylid ei chynnal yn bersonol neu o bell, mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys ystyried a yw'r dulliau a'r technegau a ddefnyddir:

- yn effeithiol a phriodol o dan yr amgylchiadau
- yn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol
- yn galluogi dilysu'r asesiad bwrdd gwaith

Nid yw hyn yn berthnasol i sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 neu ofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin, sy'n cael ymweliad cychwynnol â'r safle cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

[8] Ni ddylid cynnal rheolaethau swyddogol o bell os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdod Cymwys roi sgôr hylendid bwyd i sefydliad.

Wrth ystyried y dulliau a'r technegau effeithiol a phriodol i'w defnyddio o dan yr amgylchiadau, dylai Awdurdodau Cymwys ystyried canllawiau perthnasol eraill, fel Canllawiau Statudol y CSHB a Chanllawiau'r Broceriaid Bwyd ar gyfer Awdurdodau Lleol. Wrth ystyried canllawiau eraill, gellir pennu'r dulliau a'r technegau ar gyfer rheolaethau swyddogol sy'n effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

### 4.2.5 Rheolaethau swyddogol dyledus

Mae'r Cod yn nodi, yn seiliedig ar yr amlder yn y systemau sgorio hylendid bwyd a safonau bwyd, fod yn rhaid cynnal rheolaethau swyddogol ar fusnesau presennol o fewn 28 diwrnod i'w dyddiad dyledus. Mae'r Cod hefyd yn nodi bod rheolaethau swyddogol mewn busnesau risg uwch a/neu fusnesau nad ydynt yn cydymffurfio, neu'r rhai sy'n debygol o fod yn risg uchel, yn cael blaenoriaeth dros reolaethau swyddogol ar gyfer y busnesau hynny sydd â risg is a/neu sy'n cydymffurfio.

Mae hyn yn golygu bod Awdurdodau Cymwys yn blaenoriaethu rheolaethau swyddogol, fel bod y rhai hynny sy'n ddyledus mewn sefydliadau risg uwch a/neu sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio yn cael eu cynnal cyn y rheiny sydd â risg is ac sy'n cydymffurfio. Fodd bynnag, byddai rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal ym mhob sefydliad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y byddant yn ddyledus.

Cydnabyddir y gall fod amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cymwys, fel dyddiadau cau tymhorol busnesau, sy'n golygu na ellir cynnal y rheolaeth swyddogol ddyledus o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad dyledus. O dan yr amgylchiadau hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn gohirio'r rheolaeth swyddogol ddyledus ond yn ei chynnal cyn gynted â phosib.

## 4.3 Dulliau a thechnegau wrth gynnal rheolaethau swyddogol

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys, wrth bennu'r dulliau a'r technegau i'w defnyddio, ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys pa un fyddai fwyaf effeithiol a phriodol o dan yr amgylchiadau. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn ystyried canllawiau perthnasol eraill, fel canllawiau statudol y CSHB. Wrth ystyried canllawiau perthnasol eraill, gellir pennu'r dulliau a'r technegau ar gyfer rheolaethau swyddogol sy'n effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.


Mae'r dulliau a'r technegau ar gyfer rheolaethau swyddogol a nodir yn y Cod yn ymwneud â chynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol a dyledus. Ni fyddai hyn yn golygu na ellir cynnal rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol gan ddefnyddio dulliau a thechnegau eraill ar adegau eraill, a'u cofnodi yn erbyn y sefydliad, er enghraifft, at ddiben monitro gwaith gorfodi.

Ni ddylid cynnal rheolaethau swyddogol o bell os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Awdurdod Cymwys roi sgôr hylendid bwyd i sefydliad.

### 4.3.1 Dulliau a thechnegau ar gyfer hylendid bwyd

Mae'r siart lif yn Ffigur 1 yn nodi'r dulliau a'r technegau ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol sy'n effeithiol ac yn briodol yn seiliedig ar sgôr risg sefydliad, fel y darperir ym Mhennod 4 o'r Cod.

**Ffigur 1 – Siart lif o'r dulliau a'r technegau ar gyfer hylendid bwyd mewn sefydliadau (ac eithrio'r rhai sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, y rhai sy'n destun gofynion Rheoliad (UE) Rhif 210/2013 ar gymeradwyo sefydliadau sy'n cynhyrchu egin (a ddylai gael archwiliad neu arolygiad corfforol (boed yn llawn neu'n rhannol) waeth beth fo sgôr yr ymyriad) a sefydliadau sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd)**




* Nid yw ymyriad o bell yn briodol os yw'r sefydliad yn aros i gael sgôr CSHB

### 4.3.2 Rheolaethau swyddogol a rheolaethau answyddogol a gynhelir o bell

Mae'r Cod yn nodi, lle bo'n briodol, y gellir defnyddio dulliau a thechnegau o bell ar gyfer rheolaethau swyddogol, cyn belled â'u bod yn effeithiol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

Diffinnir rheolaeth swyddogol o bell fel gweithgaredd nad yw'n cael ei gynnal mewn sefydliad busnes bwyd, sy'n hwyluso'r drefn o gasglu tystiolaeth i wirio cydymffurfiaeth y sefydliad â chyfraith bwyd berthnasol. Gallai hyn gynnwys:

- archwiliad o ddogfennaeth berthnasol wrth y ddesg, a allai gynnwys adolygu ymatebion i arolygon sydd wedi'u cwblhau, yn ogystal ag adolygu systemau rheoli diogelwch bwyd neu gofnodion monitro
- adolygu tystiolaeth ar ffurf fideo a/neu ffotograffau
- fideo-gynadledda
- archwiliad o wefannau, a allai gynnwys, er enghraifft, adolygu'r wybodaeth am fwyd a ddarperir ac unrhyw honiadau a wneir
- unrhyw offer digidol eraill sy'n galluogi gwirio cydymffurfiaeth heb fod ar safle'r sefydliad

Mae'r Cod hefyd yn nodi, lle gellir defnyddio rheolaethau answyddogol, fod modd eu cynnal o bell. Gallai enghreifftiau o reolaethau answyddogol o bell gynnwys:

- darparu cyngor, addysg, a/neu hyfforddiant gan ddefnyddio technoleg o bell, fel gweminarau
- casglu gwybodaeth a chudd-wybodaeth am fusnes drwy dechnoleg o bell

Ceir canllawiau pellach ar reolaethau answyddogol yn adran 4.5 o'r canllawiau hyn.

#### 4.3.2.1 Holiaduron

Gellir ystyried holiaduron, os cânt eu hanfon drwy'r post neu dros e-bost, yn weithgaredd o bell.

Os mai pwrpas yr holiadur yw casglu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefydliad, ac nad yw'n gwirio cydymffurfiaeth, yna gellid ei ystyried yn rheolaeth answyddogol.

I'r gwrthwyneb, os yw'r holiadur yn galluogi Awdurdodau Cymwys i wirio cydymffurfiaeth sefydliad â chyfraith bwyd berthnasol, yna gellid ei ystyried yn rheolaeth swyddogol.

Er mwyn i holiadur wirio cydymffurfiaeth, byddai angen iddo ddarparu tystiolaeth wrthrychol i Awdurdodau Cymwys, fel copi o system rheoli diogelwch bwyd neu gofnodion eraill, y gallant eu harchwilio a'u hystyried i wirio cydymffurfiaeth sefydliad â chyfraith bwyd berthnasol.

Os nad yw holiadur yn galluogi Awdurdodau Cymwys i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd berthnasol, gellir defnyddio'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi a llywio rheolaethau swyddogol. Er enghraifft, gall gwybodaeth a geir drwy holiadur lywio'r angen am arolygiad rhannol a allai, yn dibynnu ar sgôr risg y sefydliad, gael ei gynnal o bell.

### 4.3.3 Samplu, dadansoddi ac archwilio

Mae samplu bwyd a gwaith dadansoddi neu archwilio dilynol yn cyflawni swyddogaeth hanfodol drwy:

- darparu cudd-wybodaeth a thystiolaeth ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd ar farchnad y DU
- cefnogi camau gorfodi i ddiogelu defnyddwyr
- galluogi'r ASB i gyflawni ei rhwymedigaethau statudol fel Awdurdod Cymwys Canolog

Mae'r ddeddfwriaeth (Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013) yn darparu fframwaith ar gyfer samplu gan yr Awdurdod Cymwys, a gynhelir gyda'r bwriad o gymryd camau gorfodi ffurfiol os yw'r canlyniadau'n anfoddhaol.

#### 4.3.3.1 Caffael samplau

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn nodi y gellir caffael samplau naill ai drwy 'brynu' neu 'gymryd'. Mae'r dewis yn ôl disgresiwn y swyddog awdurdodedig, gan ystyried polisi'r Awdurdod Cymwys.

Pan fydd maint neu amlder y gwaith samplu yn arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol i berchennog y bwyd, gallai'r Awdurdod Cymwys gynnig taliad *ex gratia* os na phrynir samplau.

#### 4.3.3.2 Atal halogi

Mae'r Cod yn nodi y dylid atal samplau rhag cael eu halogi. I gefnogi hyn, argymhellir, wrth gaffael samplau, fod yr offerynnau a'r cynwysyddion a ddefnyddir yn lân ac yn sych. Cynghorir hefyd osgoi defnyddio dulliau glanhau a sterileiddio a allai adael gweddillion ar offerynnau neu gynwysyddion (er enghraifft, alcohol), gan y gallai hyn effeithio ar ganlyniadau'r dadansoddiad neu'r archwiliad.

#### 4.3.3.3 Parhad tystiolaeth/olrheiniadwyedd gan Awdurdodau Cymwys

Mae'r Cod yn nodi bod rhaid cynnal a chofnodi parhad tystiolaeth ac olrheiniadwyedd samplau ar bob cam, gan gynnwys wrth drin, storio a chludo'r sampl i'r labordy. I gefnogi hyn, cynghorir bod y manylion canlynol yn cael eu cofnodi ar bob cam:

- dyddiadau ac amserau cludo
- enw'r ceidwaid
- dyddiad ac amser derbyn y sampl yn y labordy
- enw'r person sy'n derbyn y sampl
- manylion y sampl (er enghraifft, tymheredd, rhif y swp)

#### 4.3.3.4 Parhad tystiolaeth/olrheiniadwyedd yn y labordy

Fel arfer, caiff samplau bwyd eu trin mewn labordy bwyd, tra bydd sbesimenau, fel sbesimenau ysgarthol, yn cael eu trin mewn labordy clinigol, sy'n gweithredu'n annibynnol ar yr Awdurdod Cymwys.

Argymhellir bod y Dadansoddwr Cyhoeddus, yr Archwiliwr Bwyd neu'r Microbiolegydd Clinigol yn cael gwybod y gellir defnyddio canlyniadau eu dadansoddiad neu eu harchwiliad fel tystiolaeth yn y llys ac y gallai fod yn rhaid iddynt roi tystiolaeth lafar dan lw yn y llys.

Efallai y bydd gofyn i bersonél arall y labordy roi tystiolaeth mewn erlyniad troseddol mewn perthynas â'r gwaith o drin samplau bwyd a sbesimenau ysgarthol, yn ogystal â'r gwaith o'u profi a'u harchwilio. O ystyried hynny, argymhellir bod unigolion mewn labordai:

- yn cael eu hatgoffa o'r posibilrwydd o gamau cyfreithiol ac, yn benodol, yr angen i drin samplau bwyd a sbesimenau eraill fel tystiolaeth, er mwyn sicrhau parhad tystiolaeth o'r fath
- yn gallu gwneud datganiad ar lw a rhoi tystiolaeth lafar ar lw ynghylch y gwaith o drin, profi ac archwilio

Mae sicrhau parhad yn y labordy yn hanfodol fel bod sicrwydd bod y canlyniad yn ymwneud â'r sampl/sbesimen a gyflwynwyd. Argymhellir sicrhau bod modd i'r labordy ddarparu olrheiniadwyedd llwyr, gan gynnwys cofnodi enwau pawb sydd wedi bod yn rhan o drin ac archwilio'r sampl neu'r sbesimen, a'r camau a gymerwyd ganddynt. I gefnogi hyn, cynghorir bod system ddiogel yn y labordy ar gyfer cofnodi pan fydd y sampl neu'r sbesimen yn cyrraedd, a ble caiff ei storio. Ar gyfer rhai samplau bwyd, efallai y bydd hefyd angen monitro a chofnodi tymheredd y dull cludo wrth dderbyn y sampl yn y labordy.

#### 4.3.3.5 Tystysgrif a ddyfernir gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd

Mae'n ofynnol i Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd roi tystysgrif i'r swyddog a gyflwynodd y sampl sy'n nodi'r canlyniad.[9]

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn trafod â'r Dadansoddwr Cyhoeddus neu'r Archwiliwr Bwyd sut y dylid bodloni'r gofynion hyn, gan gynnwys y modd y gellir rhoi gwybod heb oedi am ganlyniadau sy'n awgrymu risg sylweddol i iechyd y cyhoedd, neu lle mae terfynau amser deddfwriaethol yn berthnasol, fel dŵr mewn dofednod.

Mae'r Tystysgrifau Dadansoddi neu Archwilio (fel y nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013) ar gael ar gyfer samplau ffurfiol ar gais naill ai gan Ddadansoddwr Cyhoeddus neu Archwiliwr Bwyd.

Mae'n ofynnol i'r labordy sy'n cyhoeddi'r adroddiad prawf a'r Dystysgrif Dadansoddi neu Archwilio ddefnyddio dulliau profi sydd wedi'u hachredu i ISO/IEC 17025:2017 (y safon ar gyfer y gofynion cyffredinol mewn perthynas â chymhwysedd labordai profi a graddnodi).[10]

[9] Rheoliad 13(6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 30(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990
[10] Erthygl 37(4) o Reoliad (UE) 2017/625

Yr adroddiad prawf a'r Dystysgrif Dadansoddi neu Archwilio yw'r unig fersiynau awdurdodol o ganlyniadau'r prawf.

#### 4.3.3.6 Ceisiadau am wybodaeth gan weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys fodloni pob cais rhesymol gan weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr i ddarparu gwybodaeth am y sampl a ddewisir, y dull samplu a'r dull archwilio microbiolegol neu ddadansoddi cemegol. Y rheswm dros hyn yw er mwyn galluogi gweithgynhyrchwr neu fewnforiwr y bwyd i asesu'r canlyniad a/neu ailadrodd yr archwiliad neu'r dadansoddiad.

#### 4.3.3.7 Hawl i ail farn

Mae Erthygl 35(1) o Reoliad (UE) 2017/625 yn mynnu bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod gan weithredwyr, y mae eu hanifeiliaid neu eu nwyddau yn destun samplu, dadansoddi, profi, neu ddiagnosis, yng nghyd-destun rheolaethau swyddogol, yr hawl i ail farn arbenigol.

Mae canllawiau ar gyflwyno sampl am ail farn arbenigol a chyflwyno sampl canolwr i Gemegydd y Llywodraeth ar gael ar-lein.

#### 4.3.3.8 Samplau i'w dadansoddi

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i labordy'r dadansoddwr cyhoeddus penodedig fod wedi'i achredu at ddibenion dadansoddi. Mae labordai achrededig yn ymddangos ar y rhestr o labordai swyddogol.

#### 4.3.3.9 Samplau i'w dadansoddi – rhannu samplau

Mae Rheoliad 7(1) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn mynnu bod yn rhaid rhannu samplau sydd i'w dadansoddi yn dair rhan, oni bai:

- bod y sampl yn cynnwys cynwysyddion wedi'u selio a byddai eu hagor, ym marn y swyddog, yn rhwystro dadansoddiad priodol
- bod y swyddog o'r farn nad yw rhannu'r rhannau yn rhesymol ymarferol neu fod gwneud hynny'n debygol o rwystro dadansoddiad priodol

Cyfeirir at y rhannau canlyniadol o'r sampl fel rhannau terfynol.

Mae Rheoliad 7(4) o Reoliadau Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn caniatáu i'r sampl gael ei chyflwyno i'w dadansoddi heb ei rhannu'n dair rhan. Bydd yr amgylchiadau lle gellir defnyddio'r weithdrefn hon yn dibynnu ar y dadansoddiad sydd i'w gynnal, ond gallent gynnwys y canlynol:

- lle nad oes digon o gynnyrch ar gael i gydymffurfio â'r gweithdrefnau yn Rheoliadau 7(1) neu 7(2) o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013
- nid oes ffordd o storio rhan olaf i'w dadansoddi ymhellach, er enghraifft wrth brofi am gig sydd wedi'i rewi'n flaenorol
- lle nad yw bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw ac nad ydynt yn homogenaidd, sy'n golygu ei bod hi'n anodd rhannu'r bwyd yn dair rhan,

fel bod pob rhan yn cynnwys yr un gyfran o bob cynhwysyn, fel cynhyrchion cig â lympiau o gig

Yn ogystal, mae Rheoliad 7(2) o Reoliadau Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn nodi, os yw'r sampl yn cynnwys cynwysyddion heb eu hagor a byddai eu hagor, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn rhwystro dadansoddiad priodol, y gellir rhannu'r sampl drwy neilltuo cynwysyddion yn dair cyfran ('lot'), gyda phob cyfran yn cael ei thrin fel rhan derfynol.

Gall samplu bwydydd sy'n cael eu mewnforio wrth y man cyrraedd hefyd beri anawsterau. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oes angen rhannu sampl ar y safle nac ym mhresenoldeb unrhyw gynrychiolydd ar ran y gwerthwr/perchennog neu'r mewnforiwr, oni bai bod y ddeddfwriaeth y cymerir y sampl oddi tani'n mynnu'n benodol fel arall.

Nid oes angen rhannu'r samplau bwyd a gaiff eu caffael trwy werthiannau o bell, fel archebion ar-lein neu drwy'r post, ym mhresenoldeb gweithredwr y busnes bwyd nac unrhyw gynrychiolydd ar ran gweithredwr y busnes bwyd, oni bai bod y ddeddfwriaeth y cymerir y sampl oddi tani'n mynnu'n benodol fel arall.

Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch sut i samplu bwyd, argymhellir ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus.

#### 4.3.3.10 Samplau i'w dadansoddi – maint y sampl

Mae'r Cod yn nodi bod natur a maint unrhyw sampl a gymerir i'w dadansoddi yn ddigonol fel y byddai'n dal i fod yn bosib, ar ôl ei rhannu'n dair rhan, wneud y dadansoddiad gofynnol.

Bydd natur y samplau'n dibynnu ar y rheswm dros gynnal y dadansoddiad, a bydd y maint yn amrywio yn ôl y cynnyrch a'r math o ddadansoddiad i'w gynnal. Argymhellir ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus pe bai amheuaeth ynghylch y maint sydd ei angen.

Mae'r Cod hefyd yn nodi y dylid ystyried protocolau samplu cenedlaethol, lle maent yn bodoli. Fodd bynnag, cynghorir y gallai fod angen addasu'r protocolau ychydig yn achos llwythi mawr o fwydydd wedi'u mewnforio.

#### 4.3.3.11 Samplau i'w dadansoddi – cynwysyddion ar gyfer samplau

Mae Rheoliad 7(3) o Reoliadau Samplu a Chymwysterau Bwyd (Cymru) 2013 yn nodi, os oes angen, fod pob rhan o'r sampl yn cael ei rhoi mewn cynhwysydd addas a bod pob cynhwysydd yn cael ei selio.

Er mwyn sicrhau uniondeb samplau, argymhellir rhoi samplau o fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw neu ganiau neu becynnau sydd wedi'u hagor mewn cynwysyddion glân, sych, sy'n atal gollyngiadau fel:

- jariau gwydr neu blastig o ansawdd bwyd ag agoriad llydan
- caniau metel gwrthstaen
- bagiau plastig tafladwy o ansawdd bwyd

Argymhellir hefyd fod samplau o ddiodydd alcoholaidd yn cael eu rhoi mewn poteli gwydr.

Yna caiff y cynwysyddion hyn eu selio'n ddiogel ar ôl eu llenwi, fel na allant ollwng na chael eu halogi wrth eu trin yn ôl yr arfer.

Lle bo angen, gellir rhoi'r samplau mewn ail gynhwysydd, fel bag plastig, sydd wedi'i selio yn y fath fodd fel na ellir ymyrryd â'r sampl.

### 4.3.3.12 Samplau i'w dadansoddi – storio a chludo samplau

Mae'r Cod yn nodi bod rhaid storio a chludo rhannau o'r sampl yn briodol i sicrhau eu huniondeb.

I gefnogi hyn, argymhellir bod rhannau olaf o samplau bwyd, sy'n ddarfodus, yn cael eu cadw yn yr oergell neu mewn cyflwr wedi'i rewi, yn ôl yr angen. Bydd y dull storio a ddefnyddir yn wahanol, yn dibynnu a yw'r rhan olaf i'w chyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus, neu ei chadw i'w chyflwyno o bosib i Labordy Cemegydd y Llywodraeth yn unol â Rheoliad 8(2) o Reoliad Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

Gan y gallai fod angen storio'r rhannau olaf sydd wedi'u cadw am sawl mis cyn eu cyflwyno i Labordy Cemegydd y Llywodraeth, mae'n bwysig eu bod yn cael eu storio'n briodol.

Os bydd amheuaeth ynghylch trefniadau storio neu gludo addas ar gyfer samplau i'w dadansoddi, argymhellir ymgynghori â'r Dadansoddwr Cyhoeddus.

Mae'r Cod hefyd yn nodi bod y rhaid i'r rhan olaf gael ei chyflwyno i'r Dadansoddwr Cyhoeddus cyn gynted â phosib ar ôl samplu. Mae hyn yn arbennig o bwysig lle cynhelir profion ar gyfer sylweddau a allai ddirywio neu newid dros amser, er enghraifft, rhai plaladdwyr neu sylffwr deuocsid.

### 4.3.3.13 Samplau i'w dadansoddi – hysbysiad o ganlyniadau

Os bydd amheuaeth, yn dilyn y canlyniadau, fod trosedd yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, mae'r Cod yn nodi y dylid rhoi gwybod i'r gweithgynhyrchwr am y canlyniadau cyn gynted â phosib drwy'r dulliau mwyaf effeithiol.

Er mwyn hysbysu drwy'r dulliau mwyaf effeithiol, gall hyn olygu hysbysu dros y ffôn i ddechrau, gyda'r canlyniadau'n cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig wedi hynny.

Mae'r Cod hefyd yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill gael gwybod am y canlyniadau hefyd. Gallai hyn gynnwys yr Awdurdod Cymwys lle mae'r gweithgynhyrchwr wedi'i leoli, neu brif awdurdod y busnes (lle bo'n berthnasol).

Gellir hefyd roi gwybod am y canlyniadau i bartïon eraill â buddiant, fel y pecynnwr neu, yn achos bwyd wedi'i fewnforio, y mewnforiwr, neu ei asiant.

### 4.3.3.14 Samplau i'w harchwilio

Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn mynnu bod yn rhaid cyflwyno i Archwiliwr Bwyd samplau a gafodd eu caffael o dan Reoliad 12 o'r Rheoliadau hynny, y mae swyddog awdurdodedig yn ystyried y dylid eu harchwilio.

Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn gymwys mewn perthynas â samplau a gafodd eu caffael gan swyddog awdurdodedig o dan Reoliad 13 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, fel pe bai'n sampl a gafodd ei chaffael o dan Adran 29 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i labordy'r Archwiliwr Bwyd fod wedi'i achredu at ddibenion archwilio. Mae labordai achrededig yn ymddangos ar y rhestr o labordai swyddogol.

#### 4.3.3.15 Samplau i'w harchwilio – trefnu

Nid oes angen rhannu samplau i'w harchwilio yn dair rhan, gan fod dosbarthiad an-homogenaidd halogion bacteriol yn golygu na fydd unrhyw ddwy sampl yr un peth. Nid yw'n briodol cadw rhan i'w harchwilio'n ddiweddarach os bydd anghydfod, oherwydd efallai na fydd bacteria'n goroesi wrth gael eu storio am gyfnod hir neu, i'r gwrthwyneb, gallent luosogi'n fawr.

#### 4.3.3.16 Samplau i'w harchwilio – maint y samplau

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i faint unrhyw sampl a gaiff ei chaffael fod yn ddigonol fel y gellir cynnal archwiliad boddhaol.

Bydd y maint yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau, ond fel arfer byddai angen o leiaf 100 gram.

Argymhellir ymgynghori â'r Archwiliwr Bwyd pe bai amheuaeth ynghylch y maint sydd ei angen.

#### 4.3.3.17 Samplau i'w harchwilio – trin, cludo a storio

Mae Rheoliad 9(a) o Reoliadau Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013 yn nodi, os oes angen, fod y sampl yn cael ei rhoi mewn cynhwysydd addas a bod y cynhwysydd yn cael ei selio.

Er mwyn sicrhau uniondeb y sampl, argymhellir yn gyntaf roi samplau o fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw, neu o ganiau neu becynnau bwyd sydd wedi'u hagor, mewn cynwysyddion sterilaidd sy'n atal gollyngiadau, neu fagiau plastig sterilaidd tafladwy. Yna byddai cynwysyddion yn cael eu selio'n ddiogel ar ôl eu llenwi, fel na allant ollwng na chael eu halogi wrth eu trin yn ôl yr arfer.

O ran cynwysyddion a allai gael eu difrodi'n hawdd, neu na ellir eu haddasu i ddangos a fu ymyrraeth, argymhellir eu gosod mewn ail gynhwysydd, fel bag plastig, sydd wedyn yn cael ei selio yn y fath fodd i sicrhau na ellir ymyrryd â'r sampl.

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid rhoi copi o'r label bwyd (os yw ar gael) ac unrhyw fanylion perthnasol eraill i'r Archwiliwr Bwyd wrth gyflwyno'r sampl. Gallai enghreifftiau o fanylion perthnasol gynnwys technegau trin bwyd a/neu ddulliau storio a welwyd mewn perthynas â'r bwyd a samplwyd.

Mae'r Cod hefyd yn nodi bod rhaid trin, storio a chludo samplau'n briodol i sicrhau eu huniondeb.

I gefnogi hyn, argymhellir ceisio cyngor gan yr Archwiliwr Bwyd pe bai amheuaeth ynghylch trin, cludo a/neu storio samplau. Wrth gysylltu â'r Archwiliwr Bwyd cyn

cyflwyno samplau i'r labordy, bydd modd sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn.

### 4.3.3.18 Samplau i'w harchwilio – hysbysiad o ganlyniadau

Os bydd amheuaeth, yn dilyn y canlyniadau, fod trosedd yn gysylltiedig â'r gweithgynhyrchwr, mae'r Cod yn nodi y dylid hefyd roi gwybod i'r gweithgynhyrchwr am y canlyniadau cyn gynted â phosib drwy'r dulliau mwyaf effeithiol.

Er mwyn hysbysu drwy'r dulliau mwyaf effeithiol, gall hyn olygu hysbysu dros y ffôn i ddechrau, gyda'r canlyniadau'n cael eu cadarnhau'n ysgrifenedig wedi hynny.

Mae'r Cod hefyd yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill gael gwybod am y canlyniadau hefyd. Gallai hyn gynnwys yr Awdurdod Cymwys lle mae'r gweithgynhyrchwr wedi'i leoli, neu brif awdurdod y busnes (lle bo'n berthnasol).

Gellir hefyd roi gwybod am y canlyniadau i bartïon eraill â buddiant, fel y pecynnwr neu, yn achos bwyd wedi'i fewnforio, y mewnforiwr, neu ei asiant.

### 4.3.3.19 Sbesimenau ysgarthol

Wrth ymchwilio i achosion o salwch a gludir gan fwyd yr adroddwyd amdanynt neu a amheuir a chael sbesimenau ysgarthol, mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i'r sbesimenau gael eu casglu a'u cludo i'r labordy cyn gynted â phosib ar ôl i'r symptomau ddechrau, gyda manylion yr unigolyn perthnasol wedi'u nodi ar y cynhwysydd ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig.

Mae'n bwysig bod sbesimenau ysgarthol yn cael eu cludo i'r labordy cyn gynted â phosib. Y rheswm am hyn yw efallai na fydd rhai pathogenau pwysig yn goroesi'r newidiadau pH sy'n digwydd mewn sbesimenau ysgarthol nad ydynt yn cael eu danfon yn brydlon i'r labordy, hyd yn oed os cânt eu cludo ar dymheredd oergell. Bydd cyswllt â'r labordy yn helpu i sicrhau bod y sbesimenau'n cael sylw prydlon ar ôl cyrraedd.

Argymhellir hefyd fod gan swyddogion gyflenwad o gynwysyddion addas sy'n atal gollyngiadau.

### 4.3.3.20 Ymchwiliad gwyddonol ar samplau bwyd sy'n destun cwynion

Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn ystyried a oes angen unrhyw ymchwiliad gwyddonol ar fwyd sy'n destun cwyn. Gellir ceisio cyngor gan y Dadansoddwr Cyhoeddus a/neu'r Archwiliwr Bwyd a fydd yn gallu rhoi cyngor ar ffurf yr ymchwiliad gwyddonol, yn enwedig lle mae angen cyfuniad o ddadansoddi ac archwilio.

Os bydd y swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod angen dadansoddi neu archwilio sampl bwyd sy'n destun cwyn, byddai'n cael ei hanfon at y Dadansoddwr Cyhoeddus neu'r Archwiliwr Bwyd, yn ôl yr angen. Pe bai angen unrhyw ymchwiliad arall, byddai'r bwyd yn cael ei anfon at arbenigwr â chymwysterau addas a all roi tystiolaeth rhag ofn y bydd erlyniad yn cael ei wneud.

Gallai'r sawl sydd wedi cael cwyn, neu bartïon eraill sydd â buddiant, ofyn am i'r sampl bwyd sy'n destun y gŵyn fod ar gael i gynorthwyo ymchwiliadau mewnol.

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn cydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol ar yr amod nad yw'n peryglu'r arferion priodol ar gyfer storio, dadansoddi neu archwilio'r sampl na'i gwerth tystiolaethol.

### 4.3.4 Arolygiadau

Mae'r Cod yn nodi, wrth gynnal rheolaethau swyddogol, fel arolygiadau, fod yn rhaid i swyddogion ddefnyddio'u barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau i'w harchwilio, er mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion perthnasol y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni.

#### 4.3.4.1 Arolygiadau hylendid bwyd

Wrth gynnal arolygiadau hylendid bwyd, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod swyddogion, lle bo'n briodol:

- yn cadarnhau a yw bwyd yn cael ei drin a'i gynhyrchu'n hylan, ac yn ddiogel i'w fwyta, gan ystyried unrhyw brosesu dilynol
- yn asesu'r peryglon a achosir gan weithgareddau'r busnes a dealltwriaeth y gweithredwr busnes bwyd o'r peryglon hynny, gan gynnwys, lle bo'n briodol, drafodaeth ynghylch unrhyw beryglon a nodwyd gan y swyddog, nad ydynt wedi'u cynnwys yn systemau'r busnes
- yn cadarnhau, mewn perthynas â chynhyrchu cynradd, fod gweithredwyr busnesau bwyd a'u cyflogeion yn deall y peryglon a achosir gan weithgareddau'r busnes, ac yn asesu a gwirio bod camau atal/unioni angenrheidiol i ddiogelu bwyd sy'n dod i mewn i'r gadwyn fwyd ddynol yn cael eu cymryd
- yn cadarnhau bod gweithredwr y busnes bwyd yn cynnal ei reolaethau a'i wiriadau ei hun, yn seiliedig ar egwyddorion HACCP (ac eithrio yn achos cynhyrchu cynradd) a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol gyda chamau unioni priodol yn cael eu cymryd lle bo angen. Gallai hyn gynnwys:
    - arolygiad ffisegol i bennu a yw rheolaethau critigol wedi'u nodi ac a yw'r rheolaethau ar waith
    - trafodaeth ag unrhyw staff sy'n gyfrifol am fonitro a chymryd camau unioni ar bwyntiau rheoli critigol i gadarnhau bod mesurau rheoli yn effeithiol
    - trafodaeth ynghylch unrhyw fethiant i weithredu neu fonitro unrhyw reolaethau critigol a nodwyd gan y busnes
- yn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith i reoli'r risg o groeshalogi rhwng bwydydd parod i'w bwyta a bwydydd sydd angen eu prosesu ymhellach, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, y rhai sy'n ymwneud â halogiad sy'n gysylltiedig ag alergenau wrth baratoi bwyd yn benodol ar gyfer defnyddwyr sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd
- yn asesu'r risg y bydd y busnes bwyd yn methu â bodloni gofynion hylendid bwyd
- yn asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion olrheiniadwyedd yn Erthygl 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002

- yn cadarnhau tarddiad deunyddiau crai ac unrhyw nodau iechyd neu adnabod cysylltiedig, yn ogystal â nodau adnabod cynhyrchion gorffenedig a'u cyrchfan bwriadedig
- yn gwirio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth benodol i gynnyrch
- yn argymell arferion hylendid bwyd da yn unol â'r adnoddau perthnasol canlynol:
  - canllawiau arferion da
  - canllawiau cydnabyddedig diwydiant y DU
  - Codau Ymarfer y diwydiant
  - codau sector-benodol
  - safonau technegol
- yn hyrwyddo gwelliannau parhaus mewn safonau hylendid drwy fabwysiadu arferion da
- yn tynnu sylw gweithredwyr busnesau bwyd at y canllawiau arferion hylendid bwyd da (a restrir uchod)

#### 4.3.4.2 Arolygiadau safonau bwyd

Wrth gynnal arolygiadau safonau bwyd, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod swyddogion:

- yn ystyried bodolaeth ac effeithiolrwydd systemau rheoli a ddyluniwyd i sicrhau y bodlonir gofynion safonau bwyd a, phan fydd y fath systemau rheoli ar waith, brofi eu heffeithiolrwydd
- yn asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion o ran cyfansoddiad, cyflwyniad a gwybodaeth am fwyd, gan gynnwys alergenau, drwy archwilio hysbysebion, labeli, disgrifiadau, bwydlenni, honiadau, ryseitiau a chofnodion eraill
- yn asesu cydymffurfiaeth â'r gofynion olrheiniadwyedd a geir yn Erthygl 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, fel y'u darllenir gyda Rheoliad (UE) Rhif 931/2011 ar y gofynion olrheiniadwyedd ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid
- yn asesu cydymffurfiaeth â manylebau cyflenwyr
- yn asesu'r risg y bydd y busnes bwyd yn methu â bodloni gofynion safonau bwyd
- yn argymell arferion da yn unol â chodau perthnasol y diwydiant a safonau technegol perthnasol eraill

#### 4.3.4.3 Cwblhau arolygiad

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i swyddogion drafod unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd â gweithredwr y busnes bwyd neu gynrychiolydd. I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod swyddogion:

- ar gais, yn cynghori gweithredwr y busnes bwyd ac yn trafod y sgôr risg a roddwyd i'w fusnes

- yn ystyried a fyddai dulliau a thechnegau pellach wrth gynnal rheolaethau swyddogol, neu reolaethau answyddogol, yn briodol, er enghraifft addysg neu hyfforddiant

## 4.4 Cynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill

Mae Erthygl 9 o Reoliad (UE) 2017/625 yn mynnu bod rhaid cynnal rheolaethau swyddogol heb rybudd ymlaen llaw, ac eithrio pan fydd angen rhoi rhybudd a bod modd cyfiawnhau hynny ar gyfer y rheolaeth sydd i'w chynnal.

Mae enghreifftiau o achosion pan fydd angen rhoi rhybudd a bod modd cyfiawnhau hynny yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- pan mai pwrpas y rheolaeth swyddogol yw gweld proses benodol ar waith, ac nad oes modd gweld y broses honno heb roi rhybudd
- pan fydd angen i weithredwr y busnes bwyd neu berson arall fod ar gael, ac nad yw fel arfer yn bresennol
- pan fydd natur y rheolaethau swyddogol yn mynnu bod angen rhoi hysbysiad ymlaen llaw, er enghraifft, gweithgareddau archwilio sy'n mynd y tu hwnt i archwilio dogfennaeth sydd ar gael yn rhwydd yn y sefydliad
- pan ddefnyddir dulliau a thechnegau o bell, ac na ellir cynnal y rheolaeth swyddogol yn effeithiol heb roi rhybudd

Argymhellir bod swyddogion yn arfer disgresiwn wrth ystyried a oes angen hysbysu ymlaen llaw ac a oes cyfiawnhad priodol dros wneud hynny. Ar ben hynny, argymhellir bod y cyfiawnhad hwnnw'n cael ei gofnodi yn unol â gofynion Pennod 2 o'r Cod, wedi'i arwain gan y nod cyffredinol o sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

### 4.4.1 Rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau

Bwriad yr adran hon yw darparu canllawiau pellach i alluogi swyddogion i ystyried agweddau ychwanegol sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau. Nid yw'r adran hon yn berthnasol i'r canlynol:

- llongau pysgota sy'n gweithredu ar lefel cynhyrchu cynradd – mae canllawiau penodol ar gynhyrchu cynradd ar gael ar gyfer y llongau hyn
- llongau sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 – mae canllawiau penodol ar gael ar gymeradwyo sefydliadau

#### 4.4.1.1 Cyffredinol

Mae'r diffiniad o safle yn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn cynnwys unrhyw long neu awyren. Fodd bynnag, nid yw Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn sy'n nodi gofynion rheoli tymheredd penodol yn gymwys i'r dulliau cludo hyn. Nodir y gofynion tymheredd perthnasol ar gyfer llongau ac awyrennau ym Mhennod IV o Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

#### 4.4.1.2 Peryglon

O ran y mathau o beryglon a allai fod yn bresennol ar fwrdd llong/awyren, gallai'r rhain fod yn sylweddol wahanol i'r rhai a allai fod mewn safleoedd sefydlog. Er enghraifft, gallai gynnwys peryglon sy'n deillio o'r canlynol:

- gwahanol ffynonellau dŵr a'r modd o'i storio mewn tanciau ar fwrdd y llong/awyren
- arferion y llong a'r awyren wrth weithredu 24 awr y dydd
- y ffaith nad yw rhai darpariaethau ar gael, heblaw pan fydd y llong/awyren yn y porthladd
- mannau storio cyfyngedig ar gyfer darpariaethau (sych, wedi'u hoeri, ac wedi'u rhewi)
- oedran a chyflwr y llong/awyren
- cynllun sefydlog cyfleusterau cynhyrchu bwyd na ellir ei ehangu na'i newid oherwydd materion strwythurol a diogelwch

Yn y bôn, mae'r amgylchedd ar fwrdd llongau yn gymuned gaeedig, weithiau am gyfnodau hir yn ystod mordeithiau, sy'n cyflwyno problemau penodol mewn perthynas â'r peryglon sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd a chanlyniadau posib halogiad. Ar longau teithwyr mawr, er enghraifft, gallai presenoldeb bwyd sydd wedi'i halogi gan facteria neu docsinau gwenwyn bwyd fod yn ddinistriol, ymhlith y teithwyr a'r criw fel ei gilydd. Hyd yn oed ar longau llai, neu longau â chriwiau llai, gallai achos o wenwyn bwyd gael effaith sylweddol ar y gallu i hwylio'r llong yn ddiogel oherwydd gall aelodau hanfodol o'r criw fod yn rhy sâl i weithredu.

Mae graddfa cynhyrchu bwyd ar fwrdd llongau yn amrywio'n fawr, o longau teithwyr mawr a llongau cargo â nifer mawr o griw a theithwyr (er enghraifft, mae gan rai llongau mordeithio dros 3,000 o deithwyr a 1,200 o griw) i longau llai â chriw o 10 i 15 unigolyn.

#### 4.4.1.3 Gwastraff arlwyo rhyngwladol

Caiff y drefn o waredu gwastraff arlwyo rhyngwladol i'w dirlenwi ei reoleiddio gan Reoliadau Sgil-Gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi risgiau sylweddol i iechyd anifeiliaid os na chaiff y gwastraff hwn ei drin yn effeithiol mewn safleoedd tirlenwi.

#### 4.4.1.4 Gwybodaeth berthnasol

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys gael yr holl wybodaeth berthnasol gan bartïon perthnasol eraill. Gall enghreifftiau o wybodaeth berthnasol gynnwys:

- manylebau/cyflenwyr bwyd
- canlyniadau sampl dŵr
- dadansoddiad o'r peryglon (HACCP)
- cofnodion tymheredd bwyd
- cofnodion hyfforddi'r sawl sy'n trin bwyd

#### 4.4.1.5 Rheolaethau swyddogol a gwaith gorfodi

Yn ogystal â darpariaethau'r Cod mewn perthynas â chynnal rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau, argymhellir bod adroddiadau ar reolaethau swyddogol hefyd yn cael eu copïo i unrhyw gynghorwyr diogelwch bwyd a gyflogir gan y gweithredwr llongau neu'r cwmni awyrennau.

Mae'r Cod hefyd yn nodi, wrth gyflwyno hysbysiadau mewn perthynas â llongau ac awyrennau, fod rhaid i swyddogion gysylltu â'r cwmni rheoli neu'r asiant trin/morgludo.

I gefnogi hyn, cynghorir y dylid atgoffa swyddogion sy'n ystyried cyflwyno hysbysiadau nad yw 'gweithredwr busnes bwyd' drwy gyfraith achosion o reidrwydd yn golygu 'perchennog', gan mai'r person sy'n cynnal y busnes bwyd ydyw. Fe allai fod y cwmni sy'n rhedeg gweithredwr llongau neu gallai fod yn gwmni sy'n cael ei gyflogi i weithredu'r busnes bwyd. Bydd angen i swyddogion awdurdodedig gadarnhau pwy yw gweithredwr y busnes bwyd ym mhob achos.

#### 4.4.1.6 Llong wedi'i chofrestru y tu allan i'r DU

Bydd cyfathrebiadau â gwledydd eraill y tu allan i'r DU am ddigwyddiadau yn cael eu gwneud trwy'r ASB. Os yw'r llong neu'r awyren wedi'i chofrestru mewn gwlad nad yw'n rhan o'r DU, argymhellir rhoi manylion llawn y digwyddiad i'r ASB er mwyn caniatáu iddo gael ei godi gyda'r Awdurdodau Cymwys yn y wlad berthnasol. Ceir canllawiau pellach ar adrodd am ddigwyddiadau ym mhennod 5.

#### 4.4.1.7 Llongau ac awyrennau milwrol y DU

Mae'r Cod yn nodi mai dim ond awyrennau milwrol a ddefnyddir i symud personél milwrol sydd wedi'u cynnwys mewn rhaglenni rheolaethau swyddogol. Yn ogystal, nid oes unrhyw weithgareddau busnes bwyd yn digwydd ar gychod hwylio'r lluoedd arfog.

Wrth gynnal rheolaethau swyddogol ar longau ac awyrennau milwrol y DU, cynghorir swyddogion awdurdodedig i wneud y canlynol:

- cyfeirio at bennod 6 mewn perthynas ag ystyriaethau diogelwch, gan fod llongau ac awyrennau milwrol yn cael eu hystyried yn safleoedd Grŵp 3
- rhoi gwybod ymlaen llaw am ymweliad arfaethedig
- rhoi gwybod i arweinwyr iechyd yr amgylchedd y gwasanaeth unigol a'r prif awdurdod perthnasol am faterion diogelwch a nodwyd yn ystod y rheolaeth swyddogol sy'n ymwneud â llongau ac awyrennau milwrol y DU
- ystyried diben llongau ac awyrennau milwrol, a chydnabod y gallai cynllun y gegin fod yn gyfyngedig am resymau gweithredol
- rhoi ystyriaeth ddyledus i bolisi, gweithdrefnau ac arferion milwrol
- ystyried y rhannau perthnasol o Gyhoeddiad Gwasanaeth ar y Cyd 456 – Llawlyfr Arlwyo'r Gwasanaethau Amddiffyn

Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn cysylltu â'r prif awdurdod perthnasol ar gyfer y Llynges Frenhinol, y Llu Awyr Brenhinol a'r Fyddin, mewn perthynas â chanllawiau gweithdrefnol a chyn unrhyw ymweliad arfaethedig â llong, awyren neu

ganolfan filwrol. Gellir dod o hyd i fanylion y prif awdurdod perthnasol ar gofrestr y prif awdurdod.

#### 4.4.1.8 Rheolaethau swyddogol ar longau

Mae llongau neu gychod eraill yn cwmpasu nifer mawr o wahanol fathau o gychod, a chynhelir amrywiaeth o weithrediadau bwyd ar fwrdd y cychod. Mae rhai llongau'n gwasanaethu aelodau o'r cyhoedd, er enghraifft, fferïau a llongau mordeithio, tra bo rhai eraill yn gweithredu gyda chriw parhaol neu led-barhaol ar fwrdd y llong ac mae'r bwyd yn cael ei baratoi iddyn nhw ei fwyta yn unig.

Yn ogystal â'r rhaglen rheolaethau swyddogol arfaethedig ar gyfer sefydliadau ar y tir, mae Awdurdodau Cymwys hefyd yn cynnal rheolaethau swyddogol ar longau. Fel arfer, byddai rheolaethau swyddogol o'r fath yn cael eu cynnal pan fydd llongau yn y porthladd.

Nid yw swyddogion yr Awdurdodau Cymwys fel arfer yn cynnal rheolaethau swyddogol ar longau tra byddant ar y môr. Fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau pan na ellir cynnal rheolaethau swyddogol ond pan fydd llongau'r ffatri wedi'u hangori ar y môr.

Er y gall un Awdurdod Cymwys gymeradwyo llong, nid oes dim i atal swyddog awdurdodedig o Awdurdod Cymwys arall rhag cynnal rheolaeth swyddogol ar y llong, cyn belled â'i fod yn fodlon ar y canlynol:

- mae ganddo'r awdurdod cyfreithiol priodol
- mae wedi cysylltu â'r Awdurdod Cymwys sydd wedi cymeradwyo'r llong
- mae'r Awdurdod Cymwys sy'n cymeradwyo yn ystyried bod y rheolaeth swyddogol yn angenrheidiol

Mae angen Tystysgrif Glanweithdra Llong ar longau sy'n cynnal teithiau rhyngwladol o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005, a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mae'r arolygiad ar gyfer y tystysgrifau hyn yn cynnwys arolygu'r gweithrediadau bwyd yn erbyn set o safonau technegol y bwriedir iddynt fod yn berthnasol yn fyd-eang (Llawlyfr Technegol y WHO), ond prif ddiben y rhain yw diogelu rhag clefydau a chyflyrau sy'n peri pryder i iechyd y cyhoedd.

I fod yn glir, mae'r rheolaethau swyddogol y cyfeirir atynt yn yr adran hon at ddibenion diogelwch bwyd yn hytrach na glanweithdra llongau. Fodd bynnag, pan fydd gorgyffwrdd posib rhwng y ddau, cyfeirir at yr arferion gorau i gyd-fynd â'r ddau.

Nid oes dim yn y Cod na'r canllawiau hyn sy'n diystyru nac yn peryglu dyletswyddau Awdurdodau Cymwys i arolygu llongau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Reoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005, eu safonau technegol cysylltiedig, a Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Llongau) 1979.

#### 4.4.1.9 Rheolaethau swyddogol ar longau – penderfyniad i gynnal rheolaethau a'u hamlder

Mae'r Cod yn nodi bod y penderfyniad i gynnal rheolaethau swyddogol ar longau at ddibenion diogelwch bwyd yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- a yw'r gweithrediad bwyd yn gwasanaethu aelodau o'r cyhoedd (p'un a ydynt yn talu ai peidio)
- a yw porthladd cartref y llong yn y DU

Wrth ystyried y cwestiynau hyn, os gellir ateb 'ydy' i'r ddau:

- byddai'r llong yn destun rheolaeth swyddogol mewn modd sy'n gymesur â safleoedd bwyd mewndirol
- byddai amlder y rheolaethau swyddogol yn seiliedig ar y sgoriau ymyrryd a nodir yn y Cod
- byddai'r rheolaeth swyddogol yn cael ei chofnodi ar System Gwybodaeth Reoli'r Awdurdod Cymwys ac yn rhan o'i ddatganiadau i'r ASB

Os mai 'nac ydy' yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau hyn:

- mater i bob Awdurdod Cymwys fydd penderfynu a yw'n ystyried bod rheolaeth swyddogol mewn perthynas â diogelwch bwyd yn briodol, ar unrhyw adeg benodol, yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:
  - y math o long a'i maint, er enghraifft llongau cargo cyffredinol, llongau teithwyr, fferïau teithwyr, llongau mordeithio
  - porthladd cofrestru
  - oed, cyflwr a hanes y llong
  - niferoedd criw a theithwyr, proffil a throsiant
  - patrwm masnachu'r llong, amserlen a phorthladdoedd galw blaenorol
  - hyder mewn systemau rheoli diogelwch bwyd a dŵr
  - y ddogfennaeth sydd ar gael
  - adroddiadau arwyddocaol diweddar am broblemau cysylltiedig â bwyd ar y llong
  - tystysgrifau o reolaethau swyddogol blaenorol a'r lefel cydymffurfio flaenorol – gallai'r rhain gynnwys tystysgrifau arolygu a gyhoeddwyd gan Awdurdodau Cymwys y tu allan i'r DU
- gellir cofnodi'r rheolaeth swyddogol ar System Gwybodaeth Reoli'r Awdurdod Cymwys a gall fod yn rhan o'i ddatganiadau i'r ASB

Os mai 'nac ydy' yw'r ateb i'r ddau gwestiwn:

- ni fyddai fel arfer yn briodol cynnal rheolaethau swyddogol mewn perthynas â diogelwch bwyd
- gellir cynnal arolygiadau o hyd at ddibenion glanweithdra'r llong, yn unol â'r tair senario a nodir yn Atodiad 2 o Lawlyfr Technegol y WHO, ond ni fyddent yn rhan o ddatganiadau'r Awdurdod Cymwys i'r ASB

Byddai penderfyniadau ynghylch ymweliadau â llongau eraill, fel cychod hwylio hyfforddi, sydd wedi'u lleoli mewn porthladdoedd penodol yn cael eu gwneud ar sail nifer y llongau, amodau lleol a gwybodaeth a gafwyd trwy reolaethau swyddogol blaenorol.

Gellir arolygu llongau hefyd at ddibenion hyfforddi cyn belled â bod pwrpas yr ymweliad yn cael ei egluro i'r meistr, a'i fod yn cytuno i arolygiad o'r fath gael ei gynnal.

Argymhellir hefyd fod gweithredwyr llongau yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau o ran darparu gwybodaeth i'r Awdurdodau Cymwys.

### 4.4.1.10 Rheolaethau swyddogol ar longau – cynnal rheolaethau swyddogol ar longau

Mae'r Cod yn nodi, wrth gynnal rheolaethau swyddogol ar longau, fod rhaid i swyddogion bennu cwmpas y gweithgareddau busnes bwyd sy'n digwydd ar y llong ac yna ddefnyddio barn broffesiynol i bennu pa weithgareddau a gaiff eu harchwilio i roi sicrwydd bod gofynion perthnasol y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni.

I gefnogi hyn, argymhellir bod trafodaethau cychwynnol â meistr y llong, neu gynrychiolydd, yn cynnwys ystyried unrhyw ddogfennaeth sydd ar gael.

Wrth gynnal rheolaethau swyddogol ar longau, gall swyddogion awdurdodedig ystyried y canlynol:

- manylebau a ffynonellau bwyd a dŵr
- cludiant i'r llong, llwytho a storio dilynol
- y math o long
- y cyfleusterau, gan gynnwys offer, a ddefnyddir ar gyfer paratoi, cynhyrchu a storio bwyd
- y cyfleusterau storio, dulliau dosbarthu ac ansawdd y dŵr a ddefnyddir yn y mannau bwyd neu sydd ar gael at ddibenion yfed
- digonolrwydd gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a fydd yn dibynnu ar y math o long
- y gofynion tymheredd bwyd yn Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004
- y gweithgareddau trin bwyd a gynhelir
- gwybodaeth y sawl sy'n trin bwyd am hylendid bwyd/ei statws iechyd ei hun
- samplu bwyd a dŵr
- y trefniadau ar gyfer gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol
- gweithdrefnau rheoli plâu
- unrhyw adroddiadau anffafriol neu achosion/brigiadau o achosion hysbys o salwch gastrig

Pan fydd tystiolaeth neu amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio, efallai y bydd angen i swyddogion archwilio rhannau perthnasol o'r llong wrth gynnal y rheolaeth swyddogol.

### 4.4.1.11 Rheolaethau swyddogol ar longau – camau gweithredu ar ôl cwblhau'r rheolaeth swyddogol

Mae'r Cod yn nodi, yn dilyn rheolaeth swyddogol, fod yn rhaid rhoi gwybod i berchennog y llong, yn ogystal ag Awdurdodau Cymwys ac asiantaethau perthnasol eraill, am ganlyniad y rheolaeth.

Mae'r Awdurdod Cymwys sy'n derbyn yr wybodaeth yn ei defnyddio i sicrhau, os oes angen, fod camau dilynol yn cael eu cymryd, ac nad yw rheolaethau swyddogol yn cael eu cynnal fwy nag unwaith y flwyddyn, oni bai bod cyfiawnhad clir dros wneud hynny.

Mae hefyd yn arfer dda anfon copi o'r adroddiad at yr Awdurdod Cymwys, yn y DU, a oedd wedi cynnal unrhyw reolaeth swyddogol flaenorol, er mwyn iddo weld pa gamau gweithredu, os o gwbl, a oedd wedi digwydd o ganlyniad i'w reolaeth swyddogol flaenorol ar y llong.

#### 4.4.1.12 Rheolaethau swyddogol ar longau – cysylltu â'r Adran Forwrol a Gwylwyr y Glannau

Os caiff diffygion difrifol sy'n ymwneud â bodolaeth cyflwr risg iechyd mewn perthynas â diogelwch bwyd a dŵr eu nodi pan fydd llong mewn porthladd (er enghraifft, mae risg o niwed i iechyd, fel y'i diffinnir gan reoliad 7(2) a rheoliad 8(4) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, naill ai'n bodoli neu ar fin codi), yna cynghorir ystyried cysylltu â Llywodraeth Cymru i gychwyn camau i gadw'r llong. Byddai diffygion o'r fath hefyd yn cael eu hadrodd i Awdurdod Cymwys y wladwriaeth lle mae'r llong wedi'i chofrestru.

#### 4.4.1.13 Rheolaethau swyddogol ar longau – Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Gall llongau, fel fferïau teithwyr, sy'n gweithredu o borthladdoedd y DU, neu sydd wedi'u lleoli ynddynt, ac sy'n fusnesau bwyd cofrestredig, fod o fewn cwmpas y CSHB. Cynghorir bod Awdurdodau Cymwys yn ystyried a yw'n briodol cyhoeddi sgôr CSHB, yn benodol, lle mae gweithredwr y busnes bwyd (y llong) yn gofyn am gael ei gynnwys.

Bydd llongau, fel fferïau teithwyr, sy'n gweithredu o borthladdoedd y DU, neu sydd wedi'u lleoli ynddynt, ac sydd wedi'u cofrestru fel busnes bwyd yng Nghymru, yn dod o dan ofynion Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a rheoliadau cysylltiedig.

Er mwyn gwneud hyn, byddai angen cofrestru llongau gyda'r Awdurdod Cymwys perthnasol fel busnes bwyd a rhoi sgôr ymyriad iddynt yn unol â Phennod 4 o'r Cod.

#### 4.4.1.14 Rheolaethau swyddogol ar longau – prif awdurdod ac awdurdod cartref

Os caiff ei benodi, cynghorir bod y prif awdurdod neu'r awdurdod cartref ar gyfer y gweithredwr llongau (ac eithrio llongau milwrol, a gwmpesir yn adran 4.4.1.7) yn sicrhau bod yr holl ddogfennaeth berthnasol ar gael i gysylltu ag Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill, ac er gwybodaeth iddynt.

#### 4.4.1.15 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – paratoi

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys gael gwybodaeth berthnasol am y cwmni awyrennau a'r awyren er mwyn pennu a ddylid cynnal rheolaeth swyddogol.

I gefnogi hyn, argymhellir cael gafael ar yr wybodaeth ganlynol:

- enw a manylion cyswllt y cwmni awyrennau i ymdrin ag ymholiadau – gallai hyn fod yn gynghorydd diogelwch bwyd a gyflogir gan y cwmni awyrennau
- nifer yr awyrennau, eu math a'u rhifau cofrestru, lle y bo'n briodol
- y llwybrau hedfan – teithiau hir, teithiau byr a'r gwledydd yr eir iddynt
- llawlyfr neu ddogfennau polisi/gweithdrefnau diogelwch bwyd y cwmni awyrennau
- y math o fwydlenni arlwyo a'r bwydydd risg uchel a gaiff eu gweini
- gwybodaeth y sawl sy'n trin bwyd (staff y caban), a all gynnwys nodiadau canllaw/taflenni esboniadol cyfredol a/neu hyfforddiant sy'n gymesur â'r gweithgaredd trin bwyd gan gwmpasu:
  - hylendid personol
  - sut y caiff bwyd ei drin
  - materion croeshalogi sy'n deillio o ddyletswyddau eraill
  - ymwybyddiaeth o blâu
  - y trefniadau ar gyfer rheoli tymheredd bwyd (fel sy'n ofynnol gan Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004) a'i fonitro
  - statws iechyd yr unigolyn ei hun a'r polisi o ran gwahardd staff o'r gwaith
- cofnodion hyfforddi a safon yr hyfforddiant, gan gynnwys ailhyfforddi, pan fo'n briodol
- a yw criw'r caban yn paratoi bwyd ar fwrdd yr awyren
- arlwywyr hediadau, a/neu gwmnïau enwebedig sy'n rhoi prydau at ei gilydd a/neu'n cludo prydau i'r awyren, a ddefnyddir gan bob cwmni awyrennau
- bwydlenni ar gyfer yr hediad – i gynorthwyo wrth asesu a yw bwydydd risg uchel yn cael eu trin a/neu eu paratoi yn yr awyren
- y manylebau sydd ar waith gyda'r arlwywr ar gyfer cyflenwi bwyd i'r awyren a'r tymheredd derbyniol ar gyfer ei ddosbarthu, gan gynnwys ar gyfer bwydydd risg uchel
- manylion y trefniadau diogelwch bwyd a dŵr pan gânt eu cyflenwi i awyren mewn lleoliad nad yw yn y DU
- y cyflenwad dŵr yfed, gan gynnwys manylion am:
  - y ffynhonnell
  - y defnydd o fowserau
  - y trefniadau glanhau/diheintio tanciau storio – gan ystyried amlder ac effeithiolrwydd
- hediadau neu lwybrau sydd â gwasanaeth arlwyo wrth ddychwelyd gan gynnwys arlwyo amlsector, ac o ba feysydd awyr
- y contract rheoli a monitro plâu

- y contractwr glanhau, ynghyd â manylion y contractau, gan gynnwys amserlenni glanhau, a'r trefniadau ar gyfer monitro effeithiolrwydd y drefn lanhau
- adroddiadau dadansoddi/archwilio bwyd a dŵr yfed ar awyrennau gan y cwmni awyrennau
- unrhyw adroddiadau sydd ar gael o archwiliadau y mae'r cwmni awyrennau yn eu cynnal ohono ei hun

Anogir cwmnïau awyrennau, lle bo'n briodol, i wneud y canlynol:

- mabwysiadu codau ymarfer cymeradwy, er enghraifft Canllawiau Diogelwch Bwyd y Byd a gyhoeddir gan y Gymdeithas Gwasanaethau Hedfan Rhyngwladol (IFSA)
- datblygu archwiliadau mewnol o gyflenwyr ac awyrennau
- sicrhau bod unrhyw adroddiadau archwilio ar gael i'r Awdurdodau Cymwys

Gall adroddiadau o'r fath, pan fyddant ar gael, fod yn rhan o wiriadau cychwynnol yr Awdurdodau Cymwys, ynghyd ag ystyriaeth o ganllawiau'r IFSA.

### 4.4.1.16 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – penderfyniad i gynnal rheolaethau swyddogol

Mae'r Cod yn nodi bod y penderfyniad i fynd ar fwrdd awyren yn seiliedig ar:

- unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y cwmni awyrennau
- cadarnhad o ddilysrwydd yr wybodaeth
- unrhyw gŵynion a ddaw i law mewn perthynas â bwyd neu hylendid bwyd gan deithwyr neu griw
- a roddwyd gwybod am unrhyw frigiadau o achosion o salwch a gludir gan fwyd sy'n effeithio ar griw'r awyren

Mewn llawer o achosion, ni fyddai angen cynnal rheolaethau swyddogol ar awyrennau yn rheolaidd os cafwyd digon o wybodaeth gan y cwmni awyrennau a/neu'r prif awdurdod perthnasol, a'i bod wedi'i gwirio.

I ddechrau, byddai swyddogion awdurdodedig yn bodloni eu hunain bod unrhyw wybodaeth a ddarperir gan y cwmni awyrennau ynghylch ei gyflenwyr a'i gyflenwadau bwyd a dŵr yn foddhaol.

Os yw gwybodaeth o'r fath yn foddhaol, efallai na fydd angen mynd ar fwrdd awyren, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn dangos bod mathau penodol o awyrennau ac arferion diogelwch bwyd yn bodloni gofynion perthnasol.

Fodd bynnag, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys mwyaf priodol yn gwirio amodau ac arferion ar fwrdd yr awyren yn rheolaidd, gyda gwiriadau blynyddol yn cael eu gwneud ar sail yr wybodaeth a ddarperir gan y cwmni awyrennau ynghylch materion hylendid bwyd.

Yr Awdurdod Cymwys mwyaf priodol i gynnal y gwiriadau hyn fyddai naill ai'r prif awdurdod ar gyfer y cwmni awyrennau, neu'r Awdurdod Cymwys perthnasol sy'n gorfodi'r gyfraith os nad oes perthynas â phrif awdurdod yn bodoli.

Cynghorir bod gwiriadau a gynhelir yn cadarnhau:

- nad oes unrhyw newidiadau wedi bod i’r arlwywyr ar yr awyren nac i ffynhonnell y cyflenwad dŵr
- bod cynllun HACCP yr arlwywr ar yr awyren yn cael ei weithredu ar fwrdd yr awyren
- bod systemau ar waith ar ôl i fwyd a diod adael y sefydliad sy’n arlwyo ar gyfer yr awyren, a hynny er mwyn darganfod a yw risgiau halogiad (gan gynnwys halogiad microbiolegol, ffisegol, cemegol ac alergenaidd) yn cael eu rheoli hyd nes y gweinir ar y teithwyr

**4.4.1.17 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – cynnal rheolaethau swyddogol ar awyrennau**

Argymhellir cynnal rheolaethau swyddogol:

- cyn i deithwyr fynd ar yr awyren
- ar ôl i’r awyren gael ei glanhau
- pan fydd bwyd ar fwrdd yr awyren
- pan fydd staff y cwmni awyrennau’n gallu darparu cymorth a gwybodaeth

Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn atal rheolaethau swyddogol rhag cael eu cynnal ar adegau eraill, yn ôl yr angen.

Gellir cynnal rheolaethau swyddogol ar awyrennau yn y ganolfan cynnal a chadw hefyd, gan ystyried unrhyw ddogfennaeth, fel manylebau cyflenwi bwyd, hyfforddiant criw’r caban a dogfennau rheoli tymheredd bwyd, a gyflenwir gan y cwmni awyrennau neu ei brif awdurdod.

Mae’r Cod yn nodi, os yw hediadau ar ganol eu taith, mai dim ond os oes angen y cynhelir rheolaethau swyddogol. Y rheswm am hyn yw bod oedi i awyrennau yn gostus, ac oni bai bod risg uniongyrchol i iechyd teithwyr neu griw awyrennau, ni ddylid tarfu ar weithrediadau. Cynghorir Awdurdodau Cymwys i ystyried ymarferoldeb eu rhaglen rheolaethau swyddogol ac ymdrechu i weithio gyda’r criw/staff maes awyr perthnasol i osgoi anawsterau diangen, gan ystyried mai prif amcan cwmni awyrennau yw diogelwch yr awyren, y teithwyr a’r criw.

Pan fo angen i swyddog awdurdodedig fynd ar fwrdd awyren, cynghorir y dylai treulio cyn lleied â phosib o amser ar fwrdd yr awyren, gan y byddai’r rhan fwyaf o weithdrefnau gweithredu safonol wedi’u cynnwys yn nogfennaeth y cwmni awyrennau.

Mae’r Cod hefyd yn nodi, os bydd gwiriadau dogfennol yn achosi unrhyw bryderon, y dylid hysbysu’r pencadlys perthnasol a/neu’r Awdurdod Cymwys perthnasol, fel prif awdurdod y cwmni awyrennau, ac y dylid ystyried cadw mwy o wyliadwriaeth. Gallai enghreifftiau o’r wyliadwriaeth gynyddol gynnwys asesu glendid y gegin neu gynyddu samplu dŵr ar gyfer dadansoddi/archwilio.

Mae prydau awyrennau yn cael eu paratoi yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, cyn gadael, a gallai rhai ohonynt fod ar gyfer hedfan yn ôl. Mae arlwywyr hediadau neu gyflenwyr bwyd eilaidd yn sicrhau bod manylion cynhwysion prydau bwyd ar gael i’r

cwmnïau awyrennau sy'n gwsmeriaid iddynt, a bydd gan griw perthnasol y caban fynediad at yr wybodaeth hon fel y gallant hysbysu teithwyr sydd ag alergeddau neu anoddefiadau bwyd.

Pan fydd criw'r caban yn paratoi bwyd ar fwrdd yr awyren, disgwylir y bydd eu hyfforddiant yn cwmpasu materion croeshalogi posib sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau eraill ar fwrdd yr awyren, fel trin bagiau salwch a glanhau toiledau yn ystod yr hediad.

Mae'r Cod yn nodi, wrth gynnal rheolaethau swyddogol ar fwrdd awyren, fod yn rhaid i swyddogion ddefnyddio'u barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau i'w harchwilio, er mwyn rhoi sicrwydd bod gofynion perthnasol y gyfraith bwyd yn cael eu bodloni.

I gefnogi hyn, wrth gynnal rheolaethau swyddogol ar fwrdd awyren, ac yn dilyn gwiriad dogfennol, gall swyddogion awdurdodedig ystyried/cadarnhau'r materion canlynol:

- arlwywyr hediadau – cadarnhad o'r wybodaeth a gafwyd, ynghylch ffynhonnell prydau bwyd
- cludiant a llwytho'r awyren, gan gynnwys y dull o reoli tymheredd y bwyd yn y cerbyd dosbarthu
- cyfleusterau storio bwyd ar yr awyren, gan gynnwys:
  - y cynwysyddion wedi'u hinswleiddio a/neu'r pecynnau iâ a ddarperir
  - y cyfnod amser mwyaf a nodir cyn gweini a/neu ailgynhesu
  - y math o awyren ac a yw wedi'i bwriadu ar gyfer hediadau pellter hir neu fyr
  - y bwyd a weinir
- a yw bwyd yn cael ei baratoi ar yr awyren a'r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer gweithrediadau o'r fath, er enghraifft:
  - hylendid personol
  - atal croeshalogi
  - darparu menig untro ar gyfer dyletswyddau penodol a weips diheintio
- prydau ar gyfer y daith yn ôl, gan ystyried oes silff y bwyd
- rheoli tymheredd (yn unol â gofyniad Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004) a'i fonitro yn ystod hediadau
- ailgynhesu/coginio
- rheoli plâu
- cyflenwad dŵr – ffynhonnell dŵr, a yw'r dŵr yn yfadwy, a glendid tanciau
- gweithdrefnau ar gyfer glanhau mannau trin bwyd, fel troliau a chartiau
- samplu bwyd a dŵr

Mae canllawiau pellach ar gael ar wefan y Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd.

Yn ogystal, mae ffurflen dempled ar gyfer cwmnïau awyrennau (yr 'Holiadur Diogelwch Bwyd Cwmnïau Awyrennau') ar gael trwy'r Grŵp Iechyd Porthladdoedd

mewn Meysydd Awyr ar yr Hyb Gwybodaeth. Gellir addasu'r ffurflen hon, lle bo'n briodol, cyn belled â bod ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i'r Cod.

#### 4.4.1.18 Rheolaethau swyddogol ar awyrennau – prif awdurdod ac awdurdod cartref

Lle mae trefniadau ar waith, cynghorir bod y prif awdurdod perthnasol neu'r awdurdod cartref yn rhoi gwybodaeth berthnasol i Awdurdodau Cymwys eraill, pan ofynnir amdani.

Argymhellir hefyd fod y prif awdurdod neu'r awdurdod cartref yn sicrhau bod cwmnïau awyrennau'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth ddarparu gwybodaeth.

### 4.4.2 Y gofyniad ar gyfer gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion HACCP

Mae Rheoliad 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd (ac eithrio cynhyrchwyr cynradd, oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo ar gyfer egin) roi gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith, eu gweithredu a'u cynnal, a hynny'n seiliedig ar egwyddorion HACCP.

Mae system rheoli diogelwch bwyd yn rhoi sicrwydd bod y busnes yn gwybod sut i gynhyrchu bwyd diogel, bod ganddo weithdrefnau ar waith i sicrhau hyn, ei fod yn cynhyrchu bwyd diogel yn fynych, a'i fod yn gallu cymryd camau unioni priodol pan fydd pethau'n mynd o chwith.

#### 4.4.2.1 Hyblygrwydd HACCP

Mae Erthygl 5(4) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn nodi, pan fydd Awdurdodau Cymwys yn ystyried gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP a'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos cydymffurfiaeth, fod yn rhaid iddynt ystyried natur a maint y busnes. Yn ogystal, mae Erthygl 5(1) yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sefydlu dogfennau a chofnodion sy'n gymesur â natur a maint y busnes bwyd.

Mae Cronicliad 15 o'r rheoliad yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth gymhwyso'r egwyddorion hyn a rhoi'r fath weithdrefnau ar waith, yn enwedig mewn busnesau bach, lle gallai fod yn anodd cymhwyso HACCP traddodiadol. Y rheswm dros yr hyblygrwydd yw, mewn rhai busnesau bwyd, nad yw'n bosib nodi pwyntiau rheoli critigol ac, mewn rhai achosion, gall arferion hylendid da ddisodli monitro pwyntiau rheoli critigol.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi Hysbysiad y Comisiwn ar weithredu systemau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar HACCP a hyblygrwydd mewn rhai busnesau. Mae canllawiau'r Comisiwn ar hyblygrwydd, yn benodol ar gyfer cynhyrchion/dulliau traddodiadol a gweithgynhyrchu penodol arall, hefyd ar gael ar lwyfan canllawiau'r Comisiwn.

#### 4.4.2.2 Systemau rheoli diogelwch bwyd

Gall busnesau a gweithgynhyrchwyr mwy ddatblygu a defnyddio systemau HACCP traddodiadol. Ond, ar gyfer busnesau bach fel arlwywyr, mae'n bosib y bydd y dull Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB) yn addas.

Gall busnesau bach sy'n gweithgynhyrchu bwyd syrthio rhwng y busnesau hynny lle mae dull SFBB yn addas a busnesau gweithgynhyrchu mwy o faint sydd â chymhwysedd technegol ar y dull HACCP traddodiadol. I gefnogi busnesau bach sy'n gweithgynhyrchu bwyd, mae'r ASB wedi datblygu MyHACCP, sef adnodd gwe rhyngweithiol am ddim, sy'n tywys busnesau bwyd drwy'r broses o nodi peryglon a rheolaethau diogelwch bwyd a chynhyrchu system rheoli diogelwch bwyd ddogfenedig, yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Mae canllawiau ar ddefnyddio MyHACCP ar gael hefyd.

Mae gweithredu'r model cymorth priodol yn gywir yn golygu cydymffurfio â'r gofynion HACCP a nodir yn Erthygl 5 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

#### 4.4.2.3 Gorfodi

Mae'n ofynnol i fusnesau fod â systemau rheoli diogelwch bwyd effeithiol ar waith.

Fodd bynnag, efallai bod rhai busnesau'n gwneud cynnydd tuag at fod â systemau rheoli diogelwch bwyd effeithiol ar waith. O dan yr amgylchiadau hyn, ar gyfer busnesau nad ydynt yn fygythiad i iechyd y cyhoedd, disgwylir y bydd camau gorfodi ffurfiol ond yn cael eu cymryd pan fydd y busnes:

- wedi cael cyfle rhesymol i weithredu trefniadau rheoli diogelwch bwyd
- wedi'i gyfeirio at hyfforddiant priodol, pe bai angen
- wedi'i gyflenwi â chanllawiau priodol

Mae'r dull graddol yn ceisio addysgu busnesau a gwella eu safonau mewn camau y gellir eu cyflawni. Gellir rhannu canllawiau yn y fath fodd fel y gall yr Awdurdod Cymwys a'r busnes gytuno ar faint o gynnydd y dylid ei wneud erbyn yr ymweliad nesaf.

Os oes sgiliau sylfaenol ar goll, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cyfeirio busnesau at ffynonellau priodol lle gallant gael yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, er enghraifft, drwy dynnu sylw at ganllawiau, llyfrau a chyrsiau.

## 4.5 Rheolaethau answyddogol

### 4.5.1 Cyngor, addysg, a hyfforddiant

Diben cyngor, addysg a hyfforddiant yw rhoi canllawiau i fusnesau ar sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfraith bwyd, a gall fod yn rhan allweddol o strategaeth Awdurdod Cymwys i newid ymddygiad a chynyddu cydymffurfiaeth mewn busnesau bwyd. Anogir defnyddio cyngor, addysg a hyfforddiant pryd bynnag y bydd adnoddau'n caniatáu.

Gellir darparu cyngor, addysg a hyfforddiant yn y sefydliad busnes, o bell, neu i ffwrdd o'r sefydliad bwyd, er enghraifft, trwy fforwm busnes neu seminar. Gall

cyngor, addysg a hyfforddiant hefyd gael eu targedu at fathau penodol o fusnesau bwyd neu o amgylch pynciau diogelwch bwyd penodol.

## 4.6 Cofnodion o reolaethau swyddogol a rheolaethau nad ydynt yn rhai swyddogol

Mae'r Cod yn nodi bod cofnodion o reolaethau swyddogol yn cynnwys manylion:

- y swyddog sy'n cynnal y rheolaeth swyddogol
- yr Awdurdod Cymwys
- y busnes bwyd
- y rheolaethau swyddogol a gynhaliwyd
- gweinyddol

I gefnogi hyn, argymhellir, yn ogystal â'r manylion a ddarperir yn adran 4.6 o'r Cod, fod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chynnwys yn y cofnodion ysgrifenedig o dan bob un o'r penawdau hyn:

- manylion y swyddog sy'n cynnal y rheolaeth swyddogol, gan gynnwys:
  - enw a dynodiad
  - manylion cyswllt
- manylion yr Awdurdod Cymwys, gan gynnwys:
  - enw a chyfeiriad yr Awdurdod Cymwys
  - manylion cyswllt y swyddog bwyd arweiniol neu'r rheolwr priodol rhag ofn y bydd anghydfod
- manylion y busnes bwyd, gan gynnwys:
  - enw masnachu a chyfeiriad y busnes, a'r cyfeiriad cofrestredig os yw'n wahanol
  - enw'r gweithredwr busnes bwyd/perchennog busnes bwyd
  - math o fusnes
- manylion y rheolaeth swyddogol a gynhaliwyd, gan gynnwys:
  - disgrifiad o bwrpas y rheolaeth swyddogol
  - y dulliau rheoli (dulliau a thechnegau) a gymhwyswyd
  - cyfraith bwyd benodol y cynhaliwyd y rheolaeth swyddogol oddi tani
  - ardaloedd a gwmpesir yn ystod y rheolaeth swyddogol
  - dogfennau a/neu gofnodion a archwiliwyd
  - samplau a gymerwyd (lle bo'n berthnasol)
  - pwyntiau allweddol a drafodwyd yn ystod y rheolaeth swyddogol
  - canlyniad y rheolaeth swyddogol a'r achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd, gyda gwahaniaeth clir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion
  - lle bo'n briodol, y camau y mae'r Awdurdod Cymwys yn gofyn i'r gweithredwr busnes bwyd eu cymryd

- amserlenni ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio
- lle bo'n briodol, y camau i'w cymryd gan yr Awdurdod Cymwys

- manylion gweinyddol, gan gynnwys:
  - enw'r sawl a welwyd a/neu a gyfwelwyd
  - dyddiad ac amser y rheolaeth swyddogol
  - llofnod y swyddog sy'n cynnal y rheolaeth swyddogol

#### 4.6.1 Cyfathrebu â busnesau sydd â sawl safle

Wrth gynnal rheolaethau swyddogol mewn busnesau bwyd sydd â sawl safle, ystyrir hefyd fodolaeth partneriaethau prif awdurdod neu berthnasoedd awdurdod cartref, a chyfathrebir â'r busnes yn unol â hynny. Er enghraifft, efallai y bydd angen adborth gan Awdurdodau Cymwys ar y cynllun arolygu a gyhoeddir gan brif awdurdod.

Fel arfer, byddai cyfathrebu uniongyrchol rhwng Awdurdodau Cymwys a busnesau bwyd sydd â sawl safle yn digwydd â'r brif swyddfa, oni bai fod y busnes wedi rhoi cyfeiriad arall y dylid anfon gohebiaeth iddo.

#### 4.6.2 Ffurflenni templed

Mae'r Cod yn nodi bod swyddogion yn defnyddio barn broffesiynol i benderfynu pa weithgareddau, mewn sefydliadau busnesau bwyd, sy'n cael eu harchwilio yn ystod rheolaeth swyddogol. Nid oes angen ystyried pob agwedd ar fusnes bwyd ym mhob rheolaeth swyddogol. Er enghraifft, efallai na fydd bob amser angen cynnwys becws neu fwyty mewn archfarchnad a weithredir gan yr archfarchnad honno fel rhan o reolaeth swyddogol o'r archfarchnad. Er y dylid ystyried cwmpas yr arolygiad wrth roi sgôr CSHB.

Bwriedir i ffurflenni, fel ffurflenni arolygu gynorthwyo swyddogion a busnesau drwy gyflwyno dull strwythuredig i'r broses rheolaeth swyddogol sy'n gyson ag arferion sicrhau ansawdd.

### 4.7 Rheolaethau mewnforio

Caiff llawer o fwyd ei fewnforio'n rheolaidd i Brydain Fawr ac mae'n bwysig bod trefniadau effeithiol ar waith i Awdurdodau Cymwys allu archwilio bwyd a fewnforir wrth iddo ddod i mewn drwy fannau rheoli ar y ffin (BCPs) ac yn fewndirol. Mae gan bob Awdurdod Cymwys gyfrifoldebau dros reolaethau bwyd a fewnforir.

Mae cwmpas y Canllawiau Ymarfer yn cynnwys bwydydd a fewnforir nad ydynt yn dod o anifeiliaid (FNAO), yn ogystal â bwydydd a fewnforir sy'n dod o anifeiliaid (POAO) anghyfreithlon. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â'r gweithgareddau rheoli sy'n digwydd mewn mannau rheoli ar y ffin ar gyfer POAO.

Gall BCPs fod wedi'u lleoli mewn porthladdoedd môr, meysydd awyr, neu gysylltiadau rheilffordd rhyngwladol, ac maent ar gyfer POAO a rhai FNAO risg uchel o'r tu allan i Brydain Fawr.

Ac eithrio lle y gwneir gwahaniaeth penodol, mae'r Canllawiau Ymarfer yn gymwys i bob Awdurdod Cymwys, boed yn fewndirol neu mewn mannau cyrraedd, gan

gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (PHAs). At ddiben y Canllawiau Ymarfer, mae 'bwyd a fewnforir' yn golygu bwyd sydd wedi'i fewnforio i Brydain Fawr; ac mae 'man cyrraedd' yn golygu porthladd, maes awyr, neu gysylltiad rheilffordd rhyngwladol lle mae bwyd a fewnforir yn cael ei gyflwyno i Brydain Fawr.

Mae Awdurdodau Cymwys sydd â man cyrraedd yn darparu'r llinell reoli gyntaf ar fwyd a fewnforir er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod rheolaethau hefyd ar waith gan gyflenwyr llongau ETSF, terfynellau rheilffordd rhyngwladol, a safleoedd mewndirol eraill. Y rheswm dros hyn yw nad oes angen cynnal gwiriadau ar symiau sylweddol o FNAO mewn mannau cyrraedd (yn benodol FNAO heb gyfyngiadau, gan y byddai unrhyw FNAO cyfyngedig yn ddarostyngedig i reolaethau). Hefyd, mae'r posibilrwydd y gallai POAO fod wedi dod i mewn i Brydain Fawr yn anghyfreithlon.

Mae mwy o fanylion am rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Cymwys ac Asiantaethau ac Adrannau eraill o'r Llywodraeth i'w gweld ym mhecyn adnoddau'r ASB ar gyfer gorfodi rheolaethau ar fwyd a fewnforir yn fewndirol. Mae'r pecyn adnoddau hwn hefyd yn darparu canllawiau i awdurdodau mewndirol ar fonitro bwyd a fewnforir yn effeithiol.

Mae Defra wedi cynhyrchu Llawlyfr ar BCPs ar gyfer Awdurdodau Cymwys sy'n gyfrifol am POAO a fewnforir mewn BCPs. Mae Defra hefyd wedi darparu canllawiau ar fewnforio ac allforio anifeiliaid byw neu gynhyrchion anifeiliaid.

### 4.7.1 Gweithdrefnau ar gyfer bwyd a fewnforir

Mae'r Cod yn nodi bod rhaglenni rheolaethau swyddogol yn cynnwys bwyd a fewnforir ac yn ystyried pob busnes bwyd yn eu hardal sy'n mewnforio neu'n gwerthu bwyd o'r tu allan i Brydain Fawr yn rheolaidd.

I gefnogi hyn, argymhellir nad yw Awdurdodau Cymwys yn canolbwyntio'n unig ar fusnesau bwyd sy'n arbenigo mewn cyflenwi bwyd i grwpiau lleiafrifol penodol, ond eu bod hefyd yn rhoi sylw i fusnesau eraill sy'n mewnforio neu'n gwerthu bwyd o'r tu allan i Brydain Fawr yn rheolaidd – yn enwedig y rhai sy'n gweithredu fel y gyrchfan gyntaf ar ôl mewnforio. Mae safleoedd o'r fath yn debygol o gynnwys:

- archfarchnadoedd/manwerthwyr arbenigol
- gweithgynhyrchwyr
- warysau

#### 4.7.1.1 Nodi a chofnodi mewnforwyr bwyd mewndirol

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys nodi a chofnodi manylion pob busnes bwyd yn eu hardal sy'n mewnforio bwyd.

Er mwyn helpu i nodi mewnforwyr bwyd, gall Awdurdodau Cymwys wneud y canlynol:

- defnyddio manylion o ffurflenni cofrestru safleoedd bwyd
- cynnal ymarferion bwrdd gwaith gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth fel gwybodaeth leol, cyfeiriaduron ffôn neu chwiliadau ar y we.
- defnyddio gwybodaeth o PHAs

Gellir mireinio cofnodion Awdurdodau Cymwys ymhellach yn dilyn ymweliadau â sefydliadau busnesau bwyd, a/neu gyfathrebu â gweithredwyr busnesau bwyd ac Awdurdodau Cymwys eraill.

#### 4.7.1.2 Nodi bwyd a fewnforir mewn mannau cyrraedd

Mae'r Cod yn nodi y dylai Awdurdodau Cymwys sydd â man cyrraedd fod yn ymwybodol o gyfaint a natur y bwydydd sy'n dod i mewn i'r porthladd.

Er mwyn nodi bwyd a fewnforir, gall Awdurdodau Cymwys wneud y canlynol:

- cysylltu â CThEF ynghylch bwyd a fewnforir yn uniongyrchol o'r tu allan i Brydain Fawr neu borthladdoedd o dan drefniadau T1 (datganiad cludo a wneir i CThEF, gyda T1 yn nodi nad yw'r nwyddau hynny mewn cylchrediad rhydd, sy'n golygu eu bod yn dal i fod dan reolaeth tollau)
- cysylltu â gweithredwyr Cyfleusterau Storio Dros Dro Mewnol (ITSF) i gael copïau o faniffestiau cargo
- cynnal gwiriadau ar hap o ITSF
- defnyddio systemau hysbysu anffurfiol mewn cydweithrediad â mewnforwyr, eu hasiantau neu gwmnïau hedfan a gweithredwyr ITSF.

#### 4.7.1.3 Manylion mannau cyrraedd

Mae'r Cod yn nodi y dylai Awdurdodau Cymwys sydd â mannau cyrraedd gynnal gwybodaeth gyfredol am fannau cyrraedd yn eu hardal.

I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod y manylion canlynol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd:

- gweithredwr y porthladd
- rhanddeiliaid, gan gynnwys mewnforwyr ac asiantau mewnforio yn ogystal â chwmnïau hedfan/gweithredwyr llongau
- ITSF ac ETSF
- math o fasnach (cyfaint, natur, amlder a llwybrau masnach)
- gofynion iechyd a diogelwch y porthladd
- gofynion diogelwch gan gynnwys mynediad i borthladdoedd/ardaloedd tollau

#### 4.7.1.4 Swyddog enwebedig ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio

Er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ag Awdurdodau Cymwys sydd â BCP, rhoddir gwybod am fanylion y swyddog(ion) enwebedig ar gyfer materion bwyd a fewnforir i Dîm Bwyd a Fewnforir yr ASB, drwy anfon e-bost i lasupportwales@food.gov.uk.

Dylid darparu manylion sy'n cynnwys enw a'r wybodaeth gyswllt berthnasol (fel rhif ffôn a chyfeiriad e-bost) y swyddog(ion) enwebedig. Argymhellir hefyd ddarparu cyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer yr Awdurdod Cymwys.

Os bydd unrhyw fanylion yn newid, gellir hysbysu'r rhain gan ddefnyddio'r un cyfeiriad e-bost. Argymhellir gwneud hyn cyn gynted â phosib.

#### 4.7.1.5 Ffurflenni data

Mae'r Cod yn nodi y dylai Awdurdodau Cymwys ddarparu'r wybodaeth neu'r setiau data hynny i'r ASB y gall ofyn amdanynt.

Mewn perthynas â bwyd a fewnforir, gall hyn ymwneud â gwybodaeth:

- am fewnforio bwyd neu gynhyrchion bwyd penodol o wledydd penodol
- sy'n ofynnol gan weinidogion Cymru mewn cysylltiad â materion iechyd anifeiliaid/iechyd y cyhoedd sy'n dod i'r amlwg
- i'w chynnwys yn y Cynllun Rheoli Cenedlaethol Amlflwyddyn[11] neu adroddiadau blynyddol y mae Prydain Fawr yn eu cynhyrchu

### 4.7.2 Monitro llwythi

Mae'r Cod yn darparu, lle mae BCPs wedi'u hawdurdodi ar gyfer rhai nwyddau risg uwch, fod gan Awdurdodau Cymwys fynediad at gyfleusterau lle gellir cynnal arolygiadau ar fwyd a fewnforir. Mae Defra wedi cyhoeddi cyngor penodol pellach ar weithdrefnau gweithredu ar gyfer rhannu cyfleusterau mewn BCPs yn eu llawlyfr.

Argymhellir hefyd fod Awdurdodau Cymwys yn ystyried a oes gan eu swyddogion fynediad i fannau diogel o dan Ddeddf Diogelwch Hedfan a Morwrol 1990. Gellir cael gwybodaeth am hyn gan weithredwr y porthladd.

Cynghorir Awdurdodau Cymwys sydd â mannau cyrraedd nad ydynt wedi'u dynodi i drin rhai cynhyrchion FNAO 'risg uwch' sy'n ddarostyngedig i fesurau diogelu i sicrhau bod gweithredwyr porthladdoedd perthnasol, swyddogion CThEF lleol, neu asiantau/mewnforwyr yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau. Cynghorir hefyd y dylid sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i ddelio ag unrhyw lwythi o'r fath sy'n cyrraedd y man cyrraedd.

#### 4.7.2.1 Dim presenoldeb parhaol mewn mannau cyrraedd

Mae'r Cod yn darparu bod Awdurdodau Cymwys yn cynnal gwiriadau o leiaf unwaith bob tri mis mewn mannau cyrraedd lle nad oes presenoldeb parhaol gan awdurdod cymwys, a lle nad yw'n cael ei ystyried yn fan cyrraedd ar gyfer bwyd.

I gefnogi hyn, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cysylltu â'r canlynol i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am fwyd a fewnforir:

- gweithredwr y porthladd
- asiantaethau perthnasol eraill
- CTHEF
- gweithredwyr masnachol eraill

Gall hyn gynnwys ymweliad neu anfon holiadur.

#### 4.7.2.2 Cofnodion llwythi ac archwiliadau

Mae'r Cod yn darparu bod gwybodaeth sy'n ymwneud â nifer a math y llwythi bwyd, lle bo ar gael, yn cael ei chynnal ynghyd â gwybodaeth berthnasol ar y gwiriadau a

[11] Erthyglau 110 a 111 o Reoliad (UE) 2017/625.

wneir i bennu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Y rheswm dros hyn yw galluogi olrhain llwythi yn effeithiol a sicrhau dulliau monitro mewnol cadarn.

Lle cofnodir gwybodaeth, cynghorir bod lefel y manylder ynghylch archwiliadau bwyd (gan gynnwys y rhai a gynhelir mewn ETSF neu derfynfeydd rheilffordd rhyngwladol) ac archwiliadau gohiriedig yn cynnwys y canlynol:

- unrhyw gyfeirnod adnabod ar gyfer y llwyth a archwiliwyd
- gwlad tarddiad
- gwybodaeth am natur y bwyd
- gwybodaeth am y gwiriadau a gynhaliwyd a, lle bo'n berthnasol, unrhyw gamau gorfodi neu waith samplu a gymerwyd
- manylion yr asiant a/neu'r traddodwr/traddodai.

### 4.7.3 Bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid

Mae'r adran hon yn berthnasol i Awdurdodau Cymwys sydd â man cyrraedd, gwiriadau a gynhelir mewn ETSF neu derfynfeydd rheilffordd rhyngwladol, ac archwiliadau gohiriedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009.

#### 4.7.3.1 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Cafodd rheolaethau mewnforio FNAO eu cysoni gan Reoliad (UE) 2017/625 a Rheoliad (UE) 2019/1793 sy'n nodi'r cynhyrchion FNAO sy'n destun lefelau uwch o reolaethau swyddogol.

Darperir y trefniadau gorfodi ar gyfer y darpariaethau mewnforio hyn gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, a deddfwriaeth gyfochrog yn yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

#### 4.7.3.2 Deddfwriaeth arall

Ar gyfer rhai meysydd, er enghraifft, halogion, mae gofynion penodol ar gyfer bwydydd y gellir eu cymhwyso wrth fannau cyrraedd yn ogystal ag yn fewndirol. Gweithredir y gofynion hyn drwy ddeddfwriaeth ar wahân ond y pwerau i ddelio â bwyd nad yw'n cydymffurfio i'w fewnforio yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Mae canllawiau ar gael ar ddeddfwriaeth halogion.

#### 4.7.3.3 System Rhybuddio Cynnar (EWS)

Mae gan y DU System Rhybuddio Cynnar ar gyfer risgiau sy'n gysylltiedig ag FNAO wedi'i fewnforio. Adnodd canfod risg sy'n dod i'r amlwg yw hwn sy'n ceisio diogelu defnyddwyr y DU rhag y risgiau a allai fod yn gysylltiedig â bwydydd a fewnforir. Mae'n gwneud hyn mewn dwy brif ffordd:

- trwy ragweld peryglon gan gynnwys Salmonela, mycotocsinau, gweddillion plaladdwyr, a sylffitau), ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid penodol o drydydd

gwledydd penodol sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, fel Atodiad I o Reoliad (UE) 2019/1793 neu fesurau diogelu eraill

- rhybuddio Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd ac Awdurdodau Cymwys mewndirol am faterion bwyd a fewnforir sydd newydd eu nodi, yn bennaf FNAO ond yn gynyddol POAO

Mae cudd-wybodaeth o'r EWS yn cael ei rhannu'n fisol i hwyluso gwaith gorfodi wedi'i dargedu lleol, ac argymhellir bod Awdurdodau Cymwys sy'n delio â bwyd a fewnforir yn nodi'r cynigion yn yr wybodaeth hon.

#### 4.7.3.4 Gwiriadau cyn-allforio i wlad y tu allan i Brydain Fawr

Gall gweinidogion Cymru ofyn am wiriadau mewnforio llai ar rai nwyddau a fewnforir o wledydd penodol nad ydynt yn wledydd Prydain Fawr.[12] Cyfyngir trefniadau o'r fath i'r gwledydd hynny lle mae Gweinidog Cymru yn fodlon bod rheolaethau swyddogol effeithiol ar waith i gynnal y gwiriadau cyn-allforio priodol yn syth cyn eu hallforio i'r DU. Rhoddir gwybod i Awdurdodau Cymwys am fanylion cynhyrchion a gwledydd perthnasol y tu allan i Brydain Fawr, fel sy'n briodol.

Gall Gweinidog Cymru ddiddymu'r statws hwn yng ngoleuni gwybodaeth neu brofiad newydd. Pan fydd trefniadau o'r fath ar waith, byddai Awdurdodau Cymwys mewn mannau cyrraedd wirio ardystiad perthnasol i ddilysu sicrwydd o'r fath. Rhoddir ystyriaeth arbennig i lwythi gydag ardystiad gan labordai heb eu hachredu. Pan fydd gan Awdurdodau Cymwys bryderon am unrhyw drefniadau o'r fath yn seiliedig ar wiriadau a gynhaliwyd, byddai'r ASB yn cael gwybod cyn gynted â phosib.

### 4.7.4 Cyswllt/atgyfeiriadau

Mae'r Cod yn darparu, lle mae mannau cyrraedd yn nodi sefyllfaoedd lle mae angen goruchwyliaeth fewndirol ar lwythi, neu pan fydd gwiriadau wrth y man cyrraedd yn datgelu pryderon ynghylch diogelwch bwyd neu safonau bwyd, y dylid cyfeirio'r materion hyn at yr Awdurdod Cymwys mewndirol priodol.

Mae enghreifftiau o'r mathau o sefyllfaoedd a all arwain at atgyfeirio yn cynnwys lle mae:

- llwyth o gynnyrch FNAO, sy'n ddarostyngedig i reolaethau brys neu gyfyngiadau eraill, wedi'i fewnforio'n anghyfreithlon er enghraifft heb gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cymwys ar y man cyrraedd er mwyn i'r gwiriadau gofynnol gael eu cynnal.
- Awdurdodau Cymwys yn y man cyrraedd yn ymwybodol y gallai mewnforion anghyfreithlon o POAO fod wedi'u dosbarthu
- gwiriadau ar fwyd a fewnforir yn datgelu materion labelu na ellir eu gorfodi adeg ei fewnforio
- archwiliad o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 wedi'u gohirio

[12] Erthyglau 73(1), 73(2) a 74 o Reoliad (UE) 2017/625.

- canlyniadau profion anfoddhaol yn dod i law ar gyfer samplau a gymerwyd ar gyfer gwyliadwriaeth arferol ond yn y cyfamser mae'r llwyth wedi'i ryddhau o'r porthladd
- dadansoddiad yn dangos nad yw bwydydd, fel cnau, yn addas i'w bwyta gan bobl ond eu bod yn cael eu cyfeirio i'w defnyddio fel bwyd anifeiliaid
- cynnyrch FNAO 'risg uwch' dan gadw yn cael ei drosglwyddo i gyfleuster ETSF mewndirol i'w oruchwylio hyd nes y bydd canlyniad profion labordy yn dod i law.

Mae'r Cod hefyd yn nodi y gall yr ASB gyfeirio achosion at Awdurdodau Cymwys mewndirol mewn perthynas â POAO a fewnforiwyd yn anghyfreithlon. Fel rheol, daw'r wybodaeth hon i law'r ASB gan Lu'r Ffiniau lle maent wedi atal mewnforion anghyfreithlon a fwriadwyd ar gyfer safleoedd masnachol. Cynghorir Awdurdodau Cymwys sy'n derbyn yr atgyfeiriadau hyn i rannu adborth yn uniongyrchol â'r Llu Ffiniau, lle gofynnir amdano.

# Pennod 5 Digwyddiadau, rhybuddion a throseddau bwyd

## 5.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 5 yn ymdrin â'r canlynol:

- digwyddiadau, peryglon a rhybuddion bwyd
- sut y disgwylir i Awdurdodau Cymwys ymateb a chysylltu ag Awdurdodau Cymwys eraill, adrannau o'r llywodraeth, cyrff dirprwyedig, gweithredwyr busnesau bwyd, yr ASB, asiantaethau perthnasol eraill a gwledydd y tu allan i'r DU
- NFCU yr ASB

## 5.2 Rheoli digwyddiadau a rhybuddion bwyd

### 5.2.1 Cysylltiadau digwyddiadau bwyd

Mae canllawiau ar adrodd am ddigwyddiadau ar gael i Awdurdodau Cymwys. Gellir adrodd am ddigwyddiadau bwyd, lle bo'n briodol, drwy:

- ddefnyddio'r ffurflen adrodd am ddigwyddiad ar-lein neu drwy'r llwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB
- anfon ffurflen adrodd am ddigwyddiad drwy e-bost at Dîm Digwyddiadau Bwyd yr ASB yn wales.foodincidents@food.gov.uk
- ffôn: 07789 926573 (hefyd yn cynnwys y tu allan i oriau gwaith)

### 5.2.2 Camau gweithredu gan yr Awdurdod Cymwys – ymatebion i gyswllt cyn y digwyddiad gan yr ASB

Efallai y bydd digwyddiadau diogelwch bwyd posib yn ei gwneud yn ofynnol i'r ASB gynnal gwaith cwmpasu ac asesu trwy gysylltu â busnesau bwyd yn uniongyrchol. Ar y cam hwn o'r broses, nid yw'r materion hyn yn cael eu dosbarthu fel digwyddiadau diogelwch bwyd. Yn lle hynny, maent yn ddigwyddiadau diogelwch bwyd posib.

Cyn cysylltu â'r busnes, bydd yr ASB yn anfon e-bost at yr Awdurdod Cymwys perthnasol i wirio a yw'n fodlon i'r ASB gysylltu â'r busnes yn uniongyrchol. Bydd yr ASB yn defnyddio'r rhestrau o gysylltiadau sydd ar gael ar Rwydwaith Rhannu'r ASB.

Argymhellir y dylai Awdurdodau Cymwys ymateb o fewn dwy awr, er mwyn gallu gweithredu'n brydlon ar unrhyw faterion posib sy'n ymwneud â diogelwch bwyd. Os na cheir ymateb o fewn yr amserlen hon, bydd yr ASB yn cysylltu â'r busnes bwyd, gan anfon copi o'r neges e-bost at yr Awdurdod Cymwys perthnasol.

Os nad yw'r Awdurdod Cymwys yn ystyried ei bod yn briodol i'r ASB anfon e-bost at y busnes yn uniongyrchol – efallai oherwydd ymchwiliadau parhaus neu gamau cyfreithiol sydd ar y gweill – bydd yr ASB yn gofyn i'r Awdurdod Cymwys gysylltu â'r busnes i sefydlu a yw'r busnes yn derbyn unrhyw gynnyrch yr effeithir arno.

### 5.2.3 Rhoi gwybod am ddigwyddiadau bwyd i'r ASB

Mae'r Codau'n nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys roi gwybod i Dîm Digwyddiadau'r ASB cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o'r canlynol:

- perygl bwyd lleol difrifol
- perygl bwyd difrifol nad yw’n lleol
- gweithredwr busnes bwyd yn tynnu neu alw bwyd yn ôl gan nad yw’n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd Erthygl 19 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002
- digwyddiadau bwyd arwyddocaol ‘nad ydynt yn beryglus’
- brigiad difrifol lleol o achosion o salwch a gludir gan fwyd ar y cyd â hysbysu Canolfan Gwyliadwriaeth Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru
- achosion o dwyll bwyd/troseddau bwyd a amheuir (rhoi gwybod i Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB)

Ar ôl cael hysbysiad o berygl lleol difrifol, gall yr ASB ofyn am wybodaeth ychwanegol i alluogi a llywio asesiad risg gwyddonol ar gyfer datblygu cyngor rheoli risg neu i gyhoeddi hysbysiad rhybudd amserol gan yr ASB.

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn ymateb i’r ASB, lle bo modd o fewn 48 awr i’r cais, neu’n nodi’r amser amcangyfrifedig sydd ei angen i ddarparu ymateb gwybodus. Efallai y bydd ceisiadau’r ASB am wybodaeth mewn perthynas ag ymchwiliad i frigiad o achosion yn gofyn am drefnu ymweliad â safle.

### 5.2.4 Gwybodaeth a geir yn lleol a allai ddynodi problem ehangach

Mae Awdurdodau Cymwys yn gyfrifol am ymchwilio ac ymdrin â bwyd nad yw’n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd yn eu hardaloedd. Gall Awdurdodau Cymwys nodi problemau posibl mewn sawl ffordd fel:

- yn dilyn archwiliad microbiolegol neu ddadansoddiad cemegol o samplau a gyflwynwyd i archwiliwr bwyd neu ddadansoddwr cyhoeddus yn y drefn honno
- o ganlyniad i gwynion gan aelodau’r cyhoedd, naill ai’n uniongyrchol neu drwy drydydd parti, er enghraifft, yr heddlu, Cyngor ar Bopeth
- trwy hysbysiadau gan gwmni gweithgynhyrchu, cymdeithas fasnach, cyfanwerthwr, manwerthwr, mewnforiwr neu arlwywr
- gwybodaeth gan asiantaethau gorfodi mewn gwledydd eraill
- o ganlyniad i hysbysiad gan feddyg teulu am un neu fwy o achosion o glefydau trosglwyddadwy, gan gynnwys salwch a gludir gan fwyd, neu gan yr Ymgynghorydd ar Reoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC), neu Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) – Canolfan Clefydau Trosglwyddadwy, Gwyliadwriaeth a Rheoli (CIDSC)

Ar ôl ymgynghori â’r archwiliwr bwyd a/neu’r dadansoddwr cyhoeddus, dylid cael samplau o fwydydd neu gynhwysion perthnasol a samplau priodol (er enghraifft chŵyd a/neu ysgarthion) gan unrhyw bersonau yr effeithir arnynt lle bo hynny’n bosib, a’u hanfon i’w harchwilio/dadansoddi. Gall yr eitemau hyn fod yn hollbwysig wrth nodi achos y salwch, a gallant hyd yn oed arbed bywydau.

### 5.2.5 Dadansoddi gwraidd y broblem

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys gynnal dadansoddiad o wraidd y broblem pan fyddant yn dod yn ymwybodol bod gweithredwr bwyd wedi galw neu dynnu bwyd o'r farchnad.

Gall y dadansoddiad i wraidd y broblem nodi'r achos cychwynnol, mewn cadwyn achosol, a oedd yn arwain at dynnu neu alw'r bwyd yn ôl; a hefyd, y cam y gellid yn rhesymol weithredu ymyriad i liniaru risg ac atal y diffyg cydymffurfio rhag digwydd eto yn y dyfodol.

Mae ffurflen adrodd dadansoddi gwraidd y broblem a chwrs e-ddysgu ar gyfer gweithredwyr busnesau bwyd ar gael ar wefan yr ASB.

## 5.3 Cyswllt â gwledydd y tu allan i'r DU

### 5.3.1 System Rhybuddio Cyflym y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid

Rhwydwaith sy'n cael ei reoli gan y Comisiwn Ewropeaidd yw'r System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF) i hwyluso cyfathrebu rhwng aelodau'r rhwydwaith wrth ymateb yn gyflym i risgiau uniongyrchol neu anuniongyrchol difrifol i iechyd pobl sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid.

### 5.3.2 Cyfathrebu â gwledydd y tu allan i'r DU

Dylid anfon cyfathrebiadau dilynol mewn perthynas ag ymholiadau o wledydd y tu allan i'r DU i'r ASB gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost priodol:

- Mewnforion: imported.food@food.gov.uk
- Allforion: thirdcountryexports@food.gov.uk
- Digwyddiadau: wales.foodincidents@food.gov.uk

### 5.3.3 Datgelu gwybodaeth i wledydd y tu allan i'r DU

Os bydd amgylchiadau'n codi lle mae angen gwneud hyn, bydd angen ystyried materion cyfrinachedd, diogelu data a hawliau pobl. Dylai'r Awdurdod Cymwys ystyried cynnwys ei gynllun cyhoeddi ei hun o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a chymhwyso'r gyfraith a'r egwyddorion cyffredinol a nodir mewn deddfwriaeth berthnasol a chyfraith achosion. Gwneir hyn orau ar lefel leol, gyda gweinyddwyr lleol yn ymgynghori â'u hadran gyfreithiol eu hunain.

Dylai Awdurdodau Cymwys sicrhau bod unrhyw wybodaeth a ryddheir yn cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol gan gynnwys deddfwriaeth sy'n ymwneud â deddfau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.

### 5.3.4 Defnyddio tystiolaeth dramor mewn achos troseddol

Gellir cael tystiolaeth gan wledydd eraill i'w defnyddio mewn achos troseddol yn y DU. Y prif ddull o gael tystiolaeth dramor i'w defnyddio mewn ymchwiliadau/achos troseddol yn y DU yw trwy Gymorth Cyfreithiol Cydfuddiannol (MLA).

Mae'r DU wedi ymrwymo i nifer o gytundebau dwyochrog rhyngwladol mewn perthynas ag MLA. Mae'r DU hefyd wedi cadarnhau Confensiwn 1959 ar Gymorth

Cyfreithiol Cydfuddiannol mewn Materion Troseddol. Yn ogystal, mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng yr UE a'r DU yn cynnwys darpariaethau ynghylch MLA, sy'n ehangu ar ddarpariaethau Confensiwn 1959.

Pan fo'r DU wedi gwneud cytundeb dwyochrog â gwlad arall mewn perthynas ag MLA, rhaid dilyn y gweithdrefnau a nodir yn y cytundeb hwnnw. Gall y DU ddarparu MLA i unrhyw wlad yn y byd, p'un a oes cytundeb o'r fath ar waith ai peidio.

Gelwir ceisiadau am dystiolaeth o wlad arall yn 'Llythyrau Cais Rhyngwladol' (ILOR) a gwneir ceisiadau yn y DU yn unol â Deddf Trosedd (Cydweithredu Rhyngwladol) 2003 (CICA 2003). O dan ddeddfwriaeth ddomestig, mae angen i geisiadau o'r fath gael eu gwneud naill ai gan awdurdod barnwrol neu, mewn rhai amgylchiadau, gan awdurdod erlyn dynodedig.

Dynodwyd nifer o awdurdodau yn rhinwedd Gorchmynion Dynodi o dan CICA 2003, er enghraifft Erlynwyr y Goron. Yn gyffredinol, gellir anfon ceisiadau yn uniongyrchol at yr awdurdod tramor priodol. Fodd bynnag, mae amgylchiadau lle bydd angen trosglwyddo'r cais trwy awdurdod canolog. Y prif awdurdod canolog sy'n delio ag MLA ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yw Awdurdod Canolog y DU (UKCA).

Cyfeiriad Awdurdod Canolog y DU yw:

UK Central Authority
Public Safety Group
Home Office
6th Floor, Fry Building
2 Marsham Street
Llundain/London
SW1P 4DF
Ffôn: 0207 035 4040
E-bost: UKCA-ILOR@homeoffice.gov.uk

Dim ond at y dibenion a ddarparwyd y gellir defnyddio tystiolaeth a gafwyd trwy MLA. Felly, pe bai awdurdod yn y DU yn dymuno defnyddio gwybodaeth a gafwyd eisoes at bwrpas gwahanol, byddai angen ceisio caniatâd pellach y wlad a anfonodd yr wybodaeth. Yn yr un modd, os yw'r DU wedi cael gwybodaeth gan wlad arall y tu allan i'r broses MLA y mae bellach yn dymuno ei defnyddio fel tystiolaeth mewn achos, bydd angen caniatâd penodol y wladwriaeth a anfonodd yr wybodaeth i'w defnyddio yn y modd hwn, ac efallai y bydd angen cyhoeddi ILOR.

Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ynghylch MLA ar GOV.UK neu os oes gennych ymholiadau penodol, dylid cysylltu ag UKCA.

## 5.4 Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) yr ASB yn gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu defnyddwyr rhag twyll bwyd/bwyd anifeiliaid difrifol a throseddau cysylltiedig o fewn y gadwyn cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid. Gall troseddau bwyd effeithio ar ddiogelwch neu ddilysrwydd bwyd a diod, sy'n niweidiol i ddefnyddwyr, busnesau bwyd a'r diwydiant bwyd ehangach.

Gall Awdurdodau Cymwys ymchwilio i dwyll o fewn y gadwyn cyflenwi bwyd. Mae cudd-wybodaeth gan Awdurdodau Cymwys, gan gynnwys yr hyn sy'n cael ei gofnodi drwy system y Gronfa Ddata Cudd-wybodaeth (IDB), yn cyfoethogi asesiadau cudd-wybodaeth troseddau bwyd yr NFCU. Mae tîm Allgymorth ac Atal yr NFCU hefyd yn darparu canolbwynt ar gyfer ymgysylltu ag Awdurdodau Cymwys trwy Swyddogion Cudd-wybodaeth Rhanbarthol, gan gynnwys cefnogi rhannu gwybodaeth berthnasol ag Awdurdodau Cymwys.

Bydd gorchymyn ymchwilio'r NFCU yn ymchwilio i'r achosion mwyaf difrifol a chymhleth o dwyll bwyd. Wrth benderfynu a ddylid cychwyn neu fabwysiadu ymchwiliad, bydd ffactorau perthnasol a ystyrir gan yr NFCU yn cynnwys graddfa'r droseddu, graddfa'r cynllunio a'r cydlynu, effaith y twyll ar draws rhanbarthau a ffiniau daearyddol, a'r golled ariannol a niwed arall i'r cyhoedd a'r diwydiant.

Mae mwy o fanylion am yr NFCU ar gael ar wefan yr ASB.

### 5.4.1 Rhoi gwybod am amheuon o droseddau bwyd i'r Uned

Gall Awdurdodau Cymwys rannu gwybodaeth gyda'r NFCU drwy:

- anfon e-bost i foodcrime@food.gov.uk
- ffonio'r Uned ar 0800 028 1180
- defnyddio'r ffurflen ar-lein ar gyfer adrodd cudd-wybodaeth
- cyflwyno adroddiad cudd-wybodaeth ar IDB

# Pennod 6 Gorfodi

## 6.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 6 yn ymdrin â'r canlynol:

- pwerau mynediad
- camau gweithredu sydd ar gael i Awdurdodau Cymwys wrth ddelio ag amheuon o achosion o ddiffyg cydymffurfio neu achosion sefydledig o ddiffyg cydymffurfio
- dulliau gorfodi wrth ddelio ag achosion sefydledig o ddiffyg cydymffurfio

## 6.2 Pwerau mynediad

### 6.2.1 Pwerau Mynediad, Arolygu ac Atafaelu a Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae'r hawl i breifatrwydd a pharch at eiddo personol yn egwyddorion allweddol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi effaith bellach iddo.

Mae angen cyfiawnhau pwerau mynediad, arolygu ac atafaelu yn llawn ac yn glir cyn eu defnyddio oherwydd gallent ymyrryd yn sylweddol â phreifatrwydd y deiliad, a dylid ystyried a ellir cyflawni'r amcanion angenrheidiol trwy ddulliau llai ymwthiol. Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig:

- yn arfer eu pwerau'n gwrtais gan barchu unigolion ac eiddo
- mewn amgylchiadau lle cafwyd gwarant a lle mae'n briodol, yn defnyddio grym rhesymol dim ond pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r amgylchiadau

Gellir gweld enghreifftiau o rai deddfwriaethau bwyd sy'n cynnwys pwerau mynediad yn Nhabl 3, isod.

**Tabl 3 – Enghreifftiau o ddarpariaethau sy'n cynnwys pwerau mynediad**

| Deddfwriaeth bwyd | Darpariaethau |
|---|---|
| Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 | Mae Rheoliad 14 o'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i safle i gynnal rheolaethau swyddogol. |
| Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 | Gall Rheoliad 39 o'r Rheoliadau gael ei ddefnyddio gan swyddogion awdurdodedig i fynd i mewn i safle er mwyn pennu a fu unrhyw achos o fynd yn groes i ddarpariaethau mewnforio y rheoliadau hyn mewn perthynas â bwyd. |
| Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 | Mae Rheoliad 33 o'r Rheoliadau hyn yn darparu pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig at ddibenion gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau, gan gynnwys gofynion ar fewnforio cynnyrch POAO. |

| | |
|---|---|
| Deddf Diogelwch Bwyd 1990 | Mae Adran 32 o'r Ddeddf hon yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i safle i gynnal rheolaethau swyddogol. |

Lle mae deddfwriaeth bwyd yn darparu pwerau mynediad, maent fel arfer yn galluogi swyddogion awdurdodedig i fynd â phobl eraill y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol gyda nhw, er enghraifft, Adran 32(4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw swyddog sy'n cynorthwyo'r swyddog awdurdodedig, neu berson â chymwysterau neu sgiliau addas. Gallai hyn hefyd gynnwys arbenigwr mewn maes penodol y mae angen ei bresenoldeb i nodi'r deunydd y chwilir amdano'n gywir neu i gynghori ymhle y mae'r man mwyaf tebygol i ddod o hyd i dystiolaeth benodol a sut i ddelio â hi'n briodol. Nid yw'r darpariaethau hyn yn rhoi unrhyw un o bwerau'r swyddog awdurdodedig i'r person sy'n cyd-fynd ag ef, ond maen nhw'n rhoi hawl i'r person hwnnw fod ar y safle yn ystod rheolaeth swyddogol y swyddog awdurdodedig heb ganiatâd y meddiannydd.

Fodd bynnag, mae Rheoliad 33 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yn cyfyngu ar nifer y bobl eraill a all fynd gyda swyddog awdurdodedig, a hynny hyd at uchafswm o dri.

Gall pwerau mynediad hefyd roi pwerau i swyddog awdurdodedig atafaelu a chadw unrhyw gofnodion y mae gan y swyddog awdurdodedig reswm i gredu y gallai fod eu hangen fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol, er enghraifft, Adran 32(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 16(7) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

#### 6.2.2 Hysbysiadau Cod B Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE)

Nid oes rhwymedigaeth ar swyddogion awdurdodedig i gyhoeddi Hysbysiad Cod B PACE yn rheolaidd wrth ymgymryd â'u dyletswyddau statudol mewn sefydliad bwyd i wirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

Defnyddir Hysbysiad Cod B PACE, sy'n nodi pwerau swyddogion awdurdodedig a hawliau deiliaid, o dan yr amgylchiadau hynny lle mae swyddogion awdurdodedig yn cynnal chwiliad dan gyfarwyddyd.

Gellir diffinio chwiliad dan gyfarwyddyd fel un sy'n chwilio am rywbeth a bennwyd ymlaen llaw sy'n berthnasol i drosedd a amheuir neu a honnir, a gall fod yn briodol fel rhan o ymchwiliad parhaus er enghraifft mewn ymateb i gŵyn lle gallai tystiolaeth o droseddau a amheuir fodoli eisoes.

Yn y pen draw, bydd penderfyniad i gyflwyno Hysbysiad Cod B PACE yn dibynnu ar amgylchiad unigol y mater dan sylw. Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn ceisio arweiniad pellach gan gynghorwyr cyfreithiol eu Hawdurdodau Cymwys eu hunain os oes angen eglurhad pellach.

Gellir gweld Codau Ymarfer PACE gan gynnwys Cod Ymarfer B PACE ar wefan y Swyddfa Gartref.

## 6.3 Camau gorfodi

### 6.3.1 Hierarchaeth y camau gorfodi

Prif amcan unrhyw gamau gorfodi yw sicrhau cydymffurfiaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol a bod y dull a gymerir yn unol â'r 'hierarchaeth orfodi'.

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys ystyried yr ystod lawn o opsiynau gorfodi, a fyddai'n cynnwys:

- addysgu a rhoi cyngor i weithredwyr busnesau bwyd
- camau anffurfiol
- cadw ac atafael
- Hysbysiadau Gwella Hylendid/Hysbysiadau Gwella
- Hysbysiadau Camau Unioni (RANs)
- Hysbysiadau Cosb Benodedig
- HEPNs/Hysbysiadau Gwahardd Brys (EPN)
- erlyniad

### 6.3.2 Cyngor ac addysg

Mae'r arfer o roi cyngor, a chyfathrebu trwy lythyr am faterion gorfodi, yn ddulliau sefydledig o orfodi. Felly anogir mesurau o'r fath pryd bynnag y maent yn debygol o sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfraith bwyd o fewn amser sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau.

### 6.3.3 Penderfynu ar gamau gorfodi priodol

Mae'r Cod yn darparu ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar gamau gorfodi priodol. Argymhellir ystyried y canlynol hefyd:

- sensitifrwydd ynghylch mater, a allai arwain at:
  - golli hyder defnyddwyr
  - colled economaidd i'r diwydiant
- a yw camau ffurfiol er budd y cyhoedd
- y potensial i fwydydd nad ydynt yn cydymffurfio gael eu dosbarthu'n eang, gan effeithio ar nifer fawr o ddefnyddwyr
- asesiad o barodrwydd gweithredwyr busnesau bwyd i ymgymryd â'r gwaith a nodwyd gan y swyddog
- cydweithredu â'r prif awdurdod neu'r awdurdod cartref, os yw'n berthnasol
- unrhyw gyngor prif awdurdod a gyhoeddir ganddo
- Cod Erlynwyr y Goron
- Cod y Rheoleiddwyr

Wrth benderfynu ar gamau gorfodi priodol, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn ystyried a oes partneriaeth rhwng y Brif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref ar waith.

Os oes partneriaeth ar waith, mae angen cyfleu unrhyw fwriad i gyflawni camau o'r fath i weithredwr y busnes bwyd, yr Awdurdod Cynradd a/neu'r Awdurdod Cartref, os oes un. Lle ceir Prif Awdurdod, byddai hysbysiad o'r camau gorfodi arfaethedig yn unol â gofynion statudol cynllun y Brif Awdurdod.

Byddai angen i'r Awdurdod Cymwys ystyried cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan y Brif Awdurdod hefyd, lle bo'n berthnasol.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn ymgynghori â'u hadrannau cyfreithiol eu hunain wrth ystyried camau gorfodi ffurfiol.

Ar ôl penderfynu ar y dull(iau) priodol ar gyfer camau gorfodi, argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn barod i drafod cyngor, penderfyniadau a gohebiaeth gyda gweithredwr y busnes bwyd.

## 6.4 Hysbysiadau hylendid bwyd a safonau bwyd

### 6.4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynghylch defnyddio:

- Hysbysiadau Gwella Hylendid
- Hysbysiadau Gwella
- Hysbysiadau Cosb Ariannol Benodedig
- Hysbysiadau Rhybuddio
- Hysbysiadau Gorfodi
- Hysbysiadau Gwahardd (a gyflwynwyd o dan Reoliadau Gwin 2011)
- Hysbysiadau Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio
- Hysbysiadau Adfer Costau Gorfodi

### 6.4.2 Pryd i ddefnyddio hysbysiad

Mae darpariaethau ar gyfer defnyddio hysbysiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, a gallant fod yn briodol o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol, neu gyfuniad ohonynt, lle:

- bydd camau ffurfiol yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd
- ceir cofnod o ddiffyg cydymffurfiaeth, gyda throseddau yn erbyn y ddeddfwriaeth bwyd
- bydd gan y swyddog awdurdodedig reswm i gredu na fydd dull anffurfiol yn llwyddiannus

#### 6.4.2.1 Pryd i beidio â defnyddio hysbysiad

Mae darpariaethau ar gyfer defnyddio hysbysiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth a'r Cod, ac efallai na fyddant yn briodol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- lle gall y drosedd fod yn un barhaus a dim ond ar un adeg yn unig y byddai hysbysiad yn sicrhau gwelliant, er enghraifft, hylendid personol staff
- mewn sefyllfaoedd dros dro lle mae angen camau gorfodi cyflym, er enghraifft, gŵyl undydd neu ddigwyddiad chwaraeon (gall HEPN fod yn fwy priodol i gyflawni effaith ar unwaith)
- lle mae achos o ddiffyg cydymffurfio ag arfer da ond nid o ran rheoliad priodol
- lle nad yw'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer hysbysiad yn y sefyllfa benodol honno

Mewn amgylchiadau lle na fyddai unrhyw rwymedigaeth ar y gweithredwr bwyd i dynnu cynhyrchion yn ôl o dan Erthygl 19 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, ni ellir defnyddio hysbysiad i fynnu bod cynnyrch yn cael ei dynnu'n ôl.

### 6.4.3 Drafftio hysbysiadau

Argymhellir bod hysbysiadau'n glir ac yn hawdd eu deall.

Efallai y bydd angen i swyddog awdurdodedig sydd wedi penderfynu cyflwyno hysbysiad ystyried a yw un hysbysiad gydag un terfyn amser yn briodol.

Efallai y bydd yn bosib nodi mwy nag un achos o ddiffyg cydymffurfio mewn hysbysiad, ar yr amod:

- bod materion o'r un thema
- y gall y camau sy'n ofynnol gan weithredwr y busnes bwyd unioni'r holl fethiannau a nodwyd ar yr hysbysiad
- bod yr amserlenni ar gyfer cydymffurfio i gyd yr un peth

Mae'n aml yn well bod yn syml, ac mae angen i weithredwr y busnes bwyd allu deall yr hysbysiad. Mae angen i unrhyw amserlenni ar gyfer cydymffurfio adlewyrchu'r camau uwchgyfeirio ar gyfer pob mater.

Efallai y bydd defnyddio nifer o hysbysiadau, pob un â therfyn amser gwahanol, yn fwy priodol lle mae sawl achos o ddiffyg cydymffurfio. Efallai y bydd yn haws trin hysbysiadau ar wahân sydd â therfynau amser ar wahân os oes apêl.

Byddai apêl yn erbyn un hysbysiad yn ymwneud â nifer o droseddau yn arwain at atal yr hysbysiad cyfan nes bod yr apêl wedi cael ei datrys. Yn ogystal, os cydymffurfir ag un achos o ddiffyg cydymffurfio ar yr hysbysiad tra bod achosion eraill yn parhau i fod heb eu datrys, bydd amheuaeth o ran p'un a gydymffurfiwyd â'r hysbysiad ai peidio.

Cyn rhoi hysbysiad sy'n gofyn am waith strwythurol, argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn trafod ac yn cytuno ar fanylion unrhyw waith o'r fath gyda gweithredwr y busnes bwyd, neu berson sy'n gweithredu ar ran gweithredwr y busnes bwyd sydd mewn sefyllfa i awdurdodi'r gwaith.

Fodd bynnag, ni ddylid gohirio rhoi hysbysiad yn ormodol os na ellir dod i gytundeb neu os na ellir cysylltu â pherson cyfrifol.

Cyfrifoldeb gweithredwr y busnes bwyd yw cael unrhyw ganiatâd cynllunio a/neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu angenrheidiol i wneud unrhyw waith adeiladu i wella strwythur y sefydliad.

### 6.4.4 Mesurau o'r un effaith

Pan fydd hysbysiadau yn caniatáu i weithredwr busnes bwyd gyflawni mesurau cyfwerth â'r rhai a nodir yn yr hysbysiad (er enghraifft, Hysbysiadau Gwella), argymhellir trafod unrhyw fesurau cyfatebol yn gyntaf gyda'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad.

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw gais gan weithredwr y busnes bwyd i amrywio’r gwaith, a bod unrhyw fesurau amgen y cytunwyd arnynt yn cael eu cadarnhau yn ysgrifenedig. Yn y pen draw, mater i weithredwr y busnes bwyd yw penderfynu sut y bydd yn cydymffurfio ag amcanion y ddeddfwriaeth.

Cynghorir y dylai’r bobl canlynol yn yr Awdurdod Cymwys ystyried yr anghydfodau:

- swyddog bwyd arweiniol
- pennaeth gwasanaeth
- uwch-reolwr addas arall

Lle nad yw hysbysiadau’n nodi y gellir cyflawni gwaith o’r un effaith, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn parhau i ystyried unrhyw fesurau amgen a awgrymwyd gan weithredwr y busnes bwyd i unioni’r achos o ddiffyg cydymffurfio.

### 6.4.5 Terfynau amser

Mae’n ofynnol i hysbysiadau nodi’n glir y terfyn amser ar gyfer cwblhau’r mesurau neu gost y gosb. Gall y terfyn amser amrywio yn dibynnu ar y math o hysbysiad sy’n cael ei gyflwyno.

Efallai y bydd hysbysiadau yn ei gwneud yn ofynnol:

- cyflwyno isafswm cyfnod amser, er enghraifft mae hysbysiad gwella hylendid o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i roi isafswm cyfnod o 14 diwrnod
- i’r amser fod yn ddim llai na’r amser ar gyfer apelio, er enghraifft mae hysbysiadau cydymffurfio o dan Reoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i’r terfyn amser beidio â dod i ben o fewn y cyfnod apelio o 28 diwrnod
- peidio â chyflwyno isafswm cyfnod amser, er enghraifft hysbysiadau gwella o dan Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014, sydd, os yw’n rhesymol, yn caniatáu ar gyfer cywiro’r achos o ddiffyg cydymffurfio ar unwaith

Gan y gellir cyflwyno apêl yn erbyn y terfyn amser, cynghorir iddynt fod yn realistig, bod modd eu cyfiawnhau, a rhoi ystyriaeth i raddfa a chymhlethdod y mesurau sy’n ofynnol.

Mae’n arfer da trafod a chytuno ar y terfyn amser gyda gweithredwr y busnes bwyd neu gydag unigolyn sy’n gweithredu ar ran gweithredwr y busnes bwyd sydd mewn sefyllfa i gytuno ar derfyn amser, cyn cyhoeddi’r hysbysiad. Fodd bynnag, gall y swyddog awdurdodedig osod terfyn amser heb gytundeb o’r fath os na ellir dod i gytundeb neu os na ellir cysylltu â pherson cyfrifol.

Mae ffactorau i’w hystyried wrth osod terfyn amser yn cynnwys y canlynol:

- risg i iechyd y cyhoedd
- natur y broblem
- yr atebion sydd ar gael

#### 6.4.5.1 Ymestyn terfynau amser

Er bod rhaid cydymffurfio â hysbysiadau o fewn y terfyn amser penodedig, gall Awdurdodau Cymwys ystyried rhoi sylw dyledus i unrhyw anawsterau gwirioneddol a all godi wrth fynd ati i gydymffurfio erbyn y dyddiad cau hwnnw.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Rheoliadau i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â hysbysiad. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhesymol caniatáu estyniad os yw gweithredwr y busnes bwyd wedi darparu rheswm dilys dros yr angen i gael rhagor o amser. Os bydd gweithredwr y busnes bwyd yn gofyn am estyniad i'r terfyn amser a bennir yn yr hysbysiad, argymhellir gwneud hyn yn ysgrifenedig, a dylai ddod i law cyn i'r hysbysiad ddod i ben.

Cyn cyhoeddi hysbysiad newydd, mae angen ystyried a yw'r amodau presennol ar y safle yn dal i gyfiawnhau cyhoeddi hysbysiad pellach. Os yw'r swyddog awdurdodedig yn fodlon bod rheswm dilys dros ymestyn y terfyn amser, argymhellir ei fod yn gwneud nodyn o'r rhesymau dros ei benderfyniad ar ffeil y sefydliad perthnasol. Dylid tynnu'r hysbysiad presennol yn ôl, a chyhoeddi hysbysiad newydd sy'n adlewyrchu'r terfyn amser newydd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth.

Argymhellir na ddylai'r swyddog awdurdodedig byth gyhoeddi hysbysiad o'r fath yn awtomatig. Wrth drafod cais am estyniad, gall y swyddog awdurdodedig ystyried a yw'r ffeithiau'n cyfiawnhau estyniad o'r fath, gan ystyried:

- y rheswm dros y cais
- y camau unioni dan sylw
- y risg i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r broblem pe bai estyniad yn cael ei ganiatáu
- cofnod blaenorol o gydweithrediad gweithredwr y busnes bwyd
- unrhyw gamau gweithredu dros dro y mae gweithredwr y busnes bwyd yn bwriadu eu cymryd i unioni'r diffyg cydymffurfio
- tystiolaeth amlwg o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gofynion a gynhwysir yn yr hysbysiad

Mae'r darpariaethau canlynol yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig gyflwyno hysbysiadau pellach sy'n diwygio'r hysbysiad gwreiddiol:

- Hysbysiadau Gwella o dan Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013
- Hysbysiadau Rhybuddio, Hysbysiadau Gorfodi a Hysbysiadau Gwahardd o dan Reoliadau Gwin 2011
- Hysbysiadau Cydymffurfiaeth, Hysbysiadau Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio a Hysbysiadau Adfer Costau Gorfodi o dan Reoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018

### 6.4.6 Dulliau o gyflwyno hysbysiad

Mae'n ofynnol cyflwyno hysbysiadau yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth benodol, er enghraifft, mae Hysbysiadau Gwella Hylendid i'w cyflwyno yn unol â Rheoliad 28 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Yn gyffredinol, gellir cyflwyno hysbysiad:

- trwy ei gyflwyno i'r person hwnnw
- yn achos cwmni neu gorff corfforedig, trwy ei gyflwyno at yr ysgrifennydd neu'r clerc yn y swyddfa gofrestredig neu'r brif swyddfa, neu trwy ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio ato yn y swyddfa honno
- yn achos unrhyw berson arall – trwy ei adael, neu ei anfon mewn llythyr rhagdaledig wedi'i gyfeirio atynt, yn eu preswylfa arferol neu hysbys ddiwethaf.

Mae'n bwysig adnabod y person (gweithredwr y busnes bwyd) lle bo hynny'n bosib. Fodd bynnag, o dan ambell ddeddfwriaeth, fel Adran 50 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, os nad yw'n ymarferol ar ôl ymchwiliad rhesymol i nodi'r person i gyflwyno'r hysbysiad iddo, caiff yr hysbysiad ei gyfeirio at y 'perchennog' neu'r 'meddiannydd' a'i adael yn y safle a enwir.

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig sy'n cyflwyno hysbysiad yn sicrhau bod y person sy'n gyfrifol am gymryd camau gweithredu hefyd yn cael copi, yn enwedig lle nad gweithredwr y busnes bwyd yw'r rheolwr lleol.

Gellir cyflwyno hysbysiad i berson y tu allan i ardal yr Awdurdod Cymwys ar yr amod bod achos o ddiffyg cydymffurfio o fewn ardal yr Awdurdod Cymwys.

Argymhellir bod hysbysiadau'n cael eu cyflwyno i weithredwr y busnes bwyd gan y swyddog awdurdodedig a lofnododd yr hysbysiad. Fodd bynnag, gall swyddog awdurdodedig gwahanol gyflwyno hysbysiadau os ydynt yn gymwys i egluro pwrpas yr hysbysiad ac unrhyw gamau i'w cymryd ac yn gallu delio ag unrhyw rwystrau.

Gellir anfon y ddogfen yn electronig at y gweithredwr/perchennog er gwybodaeth cyn ei chyflwyno'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen darparu copi caled hefyd er mwyn iddo gael ei gyflwyno'n iawn. Argymhellir cofnodi'r amser y cafodd y ddogfen ei chyflwyno, hyd yn oed pan ddefnyddir y gwasanaeth post, a chadw prawf o bostio.

### 6.4.7 Apeliadau

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer hysbysiadau yn cynnwys mecanweithiau apelio, fel y gall rhywun y mae'r hysbysiad a gyflwynwyd yn effeithio'n negyddol arno, apelio yn ei erbyn.

Mae'n ofynnol i bob hysbysiad nodi'n glir bod hawl i apelio, a darparu manylion ynghylch sut y gellir cyflwyno'r apêl honno gan gynnwys enw a chyfeiriad y llys neu'r corff lleol perthnasol y gellir cyflwyno'r apêl iddo.

Argymhellir gofyn i'r derbynnydd hysbysu'r Awdurdod Cymwys os cyflwynir apêl.

Er y gellir apelio yn erbyn pob hysbysiad, mae'r mecanweithiau ar gyfer apelio yn wahanol, mae angen i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o'r gwahanol fecanweithiau apelio. Gellir gweld trosolwg o'r mecanweithiau hyn yn Nhabl 4 isod.

Mae'r terfyn amser ar gyfer gwneud cais i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) a/neu'r Llys Ynadon yn amrywio yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth benodol y mae hysbysiad wedi'i gyflwyno oddi tani. Argymhellir bod

Awdurdodau Cymwys yn adolygu'r rheolau penodol sy'n llywodraethu'r math o apêl, a'r amserlenni cysylltiedig, cyn cyflwyno hysbysiad.

Mae mwy o wybodaeth am apeliadau i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ac apelio yn erbyn Hysbysiad Gwella o dan Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 ar gael ar www.gov.uk.

**Tabl 4 – Apeliadau**

| **Math o hysbysiad** | **Deddfwriaeth** | **Apêl wedi'i chyflwyno ger bron** | **Amser i apelio** | **Hysbysiad wedi'i ohirio nes i'r apêl gael ei gyflwyno?** |
|---|---|---|---|---|
| Hysbysiadau Gwella Hylendid | Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 | Llys Ynadon | 1 mis neu'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, pa un bynnag sydd fyrraf | Ydy |
| Hysbysiadau Gwella | Deddf Diogelwch Bwyd 1990 | Llys Ynadon neu Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) – yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth benodol sy'n galluogi cyflwyno hysbysiadau gwella o dan Adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. | 1 mis neu'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, pa un bynnag sydd fyrraf | Ydy |
| Hysbysiadau Gwella a wneir o dan ddeddfwriaeth benodol | Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008<br>Rheoliadau Wisgi Scotch 2009 | Llys Ynadon | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y Llys yn cyfarwyddo fel arall |
| Hysbysiadau Gwella | Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013 | Llys Ynadon | 1 mis | Nac ydy, oni bai bod Swyddog neu Lys yn ei atal |
| Hysbysiadau Cydymffurfiaeth | Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 | Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y Tribiwnlys yn cyfarwyddo fel arall |
| Hysbysiad Gwella | Rheoliadau Bwyd Newydd (Cymru) 2017 | Llys Ynadon | 1 mis neu'r cyfnod a bennir yn yr | Ydy |

| **Math o hysbysiad** | **Deddfwriaeth** | **Apêl wedi'i chyflwyno ger bron** | **Amser i apelio** | **Hysbysiad wedi'i ohirio nes i'r apêl gael ei gyflwyno?** |
|---|---|---|---|---|
| | | | hysbysiad, pa un bynnag sydd fyrraf | |
| Hysbysiadau Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio | Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 | Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) | 28 diwrnod | Ydy |
| Hysbysiadau Adfer Costau Gorfodi | Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018 | Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) | 28 diwrnod | Ydy |
| Hysbysiadau Rhybuddio | Rheoliadau Gwin 2011 | Person a enwebir gan yr ASB | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y person a enwebir yn penderfynu fel arall |
| Hysbysiadau Gorfodi | Rheoliadau Gwin 2011 | Person a enwebir gan yr ASB | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y person a enwebir yn penderfynu fel arall |
| Hysbysiadau Gwahardd | Rheoliadau Gwin 2011 | Person a enwebir gan yr ASB | 28 diwrnod | Nac ydy, oni bai bod y person a enwebir yn penderfynu fel arall |

### 6.4.8 Trafodaethau eraill gyda'r Awdurdod Cymwys

Er bod gan weithredwr busnes bwyd hawl i apelio yn erbyn pob hysbysiad, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn barod i drafod y canlynol:

- yr hysbysiad a'i ofynion yn anffurfiol gyda gweithredwr y busnes bwyd, os yw'n dymuno gwneud hynny
- gofynion unrhyw lythyr neu gamau gorfodi eraill

Os bydd gweithredwr busnes bwyd yn codi bod gofynion hysbysiad yn anghyson â dehongliad neu arfer Awdurdodau Cymwys eraill, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn adolygu ac yn ystyried y safbwyntiau hyn.

Argymhellir bod gan Awdurdodau Cymwys brosesau mewnol i ystyried ceisiadau am drafodaethau pellach a'u bod yn gwneud y trefniadau hyn yn hysbys i weithredwyr busnesau bwyd.

Argymhellir cyfeirio unrhyw anghydfodau at y swyddog bwyd arweiniol, neu at uwch-reolwr priodol a enwir gan y swyddog bwyd arweiniol i ddod i benderfyniad.

### 6.4.9 Iawndal

Yn gyffredinol, nid oes darpariaeth ar gyfer iawndal mewn perthynas â hysbysiadau a gyhoeddir gan Awdurdodau Cymwys. Os yw busnes bwyd yn profi colled ariannol o ganlyniad i hysbysiad a gyflwynwyd trwy gamgymeriad, gall fynd ar drywydd iawndal trwy hawliad esgeulustod sifil yn erbyn yr Awdurdod Cymwys. Er enghraifft, gweithredwr busnes bwyd nad yw'n gallu gwerthu bwyd darfodus ('perishable').

Un enghraifft o ble y darperir darpariaethau mewn perthynas ag iawndal yw Hysbysiadau Gwella a gyhoeddir o dan Reoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cymwys dalu iawndal i unigolyn am unrhyw golled a gafodd os oedd yn afresymol rhoi Hysbysiad Atal neu wrthod Tystysgrif Cwblhau.

Gall derbynnydd yr Hysbysiadau Gwella hefyd apelio yn erbyn y penderfyniad i atal iawndal neu swm yr iawndal. Mae'r apêl hon i'r Llys Ynadon a all ddyfarnu iawndal, cynyddu neu ostwng swm yr iawndal neu orchymyn ad-dalu iawndal (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn ôl i'r Awdurdod Cymwys.

### 6.4.10 Cydymffurfiaeth

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad yn gwneud y canlynol:

- trafod â gweithredwr y busnes bwyd a monitro'r gwaith sy'n cael ei gynnal
- annog y gweithredwr i roi gwybod i'r swyddog awdurdodedig pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau
- cadarnhau'n ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd bod y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol

Fodd bynnag, gall swyddog awdurdodedig arall fonitro'r gwaith os nad yw'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad yn gallu gwneud hynny.

### 6.4.11 Gorfodi

Gall methu â chydymffurfio â hysbysiadau arwain at Awdurdodau Cymwys yn cyflwyno achos troseddol.

Mae peidio â chydymffurfio â'r hysbysiadau canlynol yn droseddau:

- Hysbysiadau Gwella Hylendid
- Hysbysiadau Gwella
- Hysbysiadau Gorfodi
- Hysbysiadau Gwahardd

Nid yw peidio â chydymffurfio â'r hysbysiadau canlynol yn droseddau troseddol, ond gall Awdurdod Cymwys gymryd camau troseddol ar gyfer y mater a bennir yn yr hysbysiad:

- Hysbysiad Cosb am Ddiffyg Cydymffurfio
- Hysbysiad Rhybuddio

Cyn cychwyn achos troseddol am y troseddau hyn, byddai'r Awdurdod Cymwys yn ystyried ei bolisi gorfodi ei hun a'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron.

Nid yw Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd) 2018 yn darparu unrhyw droseddau am beidio â chydymffurfio â Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gyflwynir oddi tanynt. Fodd bynnag, os na chydymffurfir â'r hysbysiad, gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb am Cydymffurfiaeth sy'n gosod cosb o hyd at £40,000 ar yr unigolyn sydd wedi methu â chydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfiaeth. Os na thelir y gosb hon, gellir ei hadennill fel dyled sifil neu ar orchymyn y llys.

Gall deddfwriaeth hefyd ddarparu cosbau troseddol am dorri amodau lle gellid defnyddio hysbysiad. Er enghraifft, mae Rheoliad 10 o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 yn darparu troseddau mewn perthynas â rhai gofynion labelu/gwybodaeth am alergenau. Bydd swyddogion awdurdodedig yn gallu dewis rhwng erlyniad troseddol mewn perthynas â'r tramgwydd neu gyflwyno hysbysiad, neu'r ddau.

Wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi hysbysiad, cychwyn erlyniad troseddol neu'r ddau, gellir ystyried:

- y risg i iechyd y cyhoedd
- y dystiolaeth sydd ar gael
- amgylchiadau'r tramgwydd
- y strategaeth orfodi fwyaf effeithiol yn eu barn nhw

Os cyflwynir Hysbysiad Cosb Ariannol Sefydlog neu Hysbysiad Cydymffurfio sy'n ymwneud â bwydydd newydd, maent yn atal achos troseddol rhag cael ei gychwyn. Os bydd gweithredwr y busnes bwyd yn methu â chydymffurfio â'r hysbysiad wedi hynny, gellir cychwyn achos troseddol wedyn.

### 6.4.12 Cyhoeddi hysbysiadau

Mae Rheoliadau Diodydd Gwirodydd 2008 a Rheoliadau Wisgi Scotch 2009 yn nodi, lle cyhoeddir Hysbysiad Gwella o dan y rheoliadau hyn, y bydd yr Awdurdod Cymwys yn datgan ei fod wedi'i gyhoeddi, mewn modd sy'n briodol yn ei farn.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi na ddylid cyhoeddi'r hysbysiad:

- nes bod y cyfnod apelio wedi dod i ben
- nes bod apêl yn erbyn yr hysbysiad wedi'i chlywed
- lle mae'r Awdurdod Cymwys yn ystyried y byddai'n amhriodol gwneud hynny

Os bydd Awdurdod Cymwys yn penderfynu yn erbyn cyhoeddi hysbysiad, argymhellir eu bod yn cadw cofnodion ynghylch pam y gwnaed y penderfyniad hwnnw.

#### 6.4.12.1 Hysbysiadau templed

Mae Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwella a Gwahardd – Ffurflenni Rhagnodedig) 1991 yn darparu ffurflenni rhagnodedig ar gyfer hysbysiadau gorfodi a gyhoeddir o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, er enghraifft, Hysbysiadau Gwella o dan Adran 10 o'r Ddeddf.

Gellir dod o hyd i hysbysiadau templed eraill ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB.

#### 6.4.12.2 Canllawiau eraill

Mae canllawiau pellach ar ddrafftio a defnyddio Hysbysiadau Gwella Hylendid wedi'u cyhoeddi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac maent ar gael trwy'r Hyb Gwybodaeth.

Efallai y bydd yr Awdurdod Cymwys yn dymuno trafod materion gorfodi ar lefel ranbarthol neu trwy'r Hyb Gwybodaeth gydag Awdurdodau Cymwys eraill i weld a oes arfer sefydledig arall y dylid ei ystyried. Gellir ceisio barn gan y Grŵp Ffocws Hylendid Bwyd Cenedlaethol neu'r Grŵp Ffocws Safonau Bwyd a Gwybodaeth gydag achosion yn cael eu cyflwyno trwy'r Grwpiau Cyswllt Rhanbarthol.

## 6.5 Hysbysiadau Camau Unioni

Mae'r adran hon yn trafod defnyddio Hysbysiadau Camau Unioni (RANs) mewn perthynas ag unrhyw sefydliad busnes bwyd o dan Reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Dylai swyddogion awdurdodedig geisio unioni achosion o ddiffyg cydymffurfio drwy gymryd camau gorfodi fesul cam. Pan fo angen, gellir ystyried y darpariaethau ynghylch Hysbysiad Gwella Hylendid a geir yn Rheoliad 6. Dylai swyddogion awdurdodedig ystyried yr opsiynau hyn cyn dechrau cymryd unrhyw gamau gorfodi eraill. Fodd bynnag, gellir defnyddio Hysbysiadau Camau Unioni (RAN) fel y darperir ar eu cyfer gan Reoliad 9 o'r Rheoliadau hyn, pan fo hynny'n briodol.

Os yw swyddog awdurdodedig o'r farn ei bod yn angenrheidiol rhoi RAN oherwydd yr amodau neu'r arferion a ganfyddir, rhaid i'r swyddog awdurdodedig hefyd ystyried a ddylid cadw bwyd yn y sefydliad at ddibenion ei archwilio neu ei atafael. Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud ag atafael a chadw bwyd i'w gweld isod.

### 6.5.1 Pryd i ddefnyddio Hysbysiad Camau Unioni

Mae Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn darparu ar gyfer swyddogion awdurdodedig i gyflwyno Hysbysiad Camau Unioni lle mae'n ymddangos bod gofynion y "Rheoliadau Hylendid", fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau 2006 yn cael eu torri, neu mae arolygiad o dan y "Rheoliadau Hylendid" yn cael ei rwystro. Yn fwy penodol, mae'r ddarpariaeth hon, trwy gyflwyno Hysbysiad Camau Unioni, yn darparu ar gyfer:

- gwahardd y defnydd o unrhyw offer neu unrhyw ran o'r gweithle
- gwahardd, neu osod amodau ar unrhyw broses
- lleihau cyfradd gweithrediadau neu dod â nhw i ben yn gyfan gwbl

Mae amgylchiadau sy'n gallu arwain at gyhoeddi Hysbysiad Camau Unioni o ran sefydliad yn cynnwys:

- unrhyw offer neu unrhyw ran o sefydliad nad yw'n cydymffurfio â gofynion y "Rheoliadau Hylendid" fel y'u diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- yr angen i osod amodau ar unrhyw brosesau, neu i wahardd unrhyw brosesau sy'n mynd yn groes i ofynion y Rheoliadau neu sy'n rhwystro arolygiad iechyd digonol yn unol â'r Rheoliadau
- lle bydd cyfradd gweithrediad y busnes yn niweidiol i'w allu i gydymffurfio â'r Rheoliadau.

Rhaid i'r camau hyn fod yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd a lle mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch bwyd. Gellir defnyddio Hysbysiad Camau Unioni os yw trosedd barhaus yn gofyn am weithredu ar frys oherwydd risg i ddiogelwch bwyd.

### 6.5.2 Pryd i beidio â defnyddio Hysbysiad Camau Unioni

Efallai na fydd Hysbysiadau Camau Unioni yn briodol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- yn achos problemau cynnal a chadw/problemau strwythurol y gellir eu cywiro fel mater nad yw'n un brys lle byddai camau gweithredu anffurfiol neu Hysbysiad Gwella Hylendid yn fwy priodol
- mae angen gwahardd gweithrediadau sefydliad cyfan a'r dull gweithredu mwyaf priodol yw rhoi Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid
- Mae angen atal cymeradwyaeth ar sefydliad sydd wedi'i gymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004

### 6.5.3 Drafftio Hysbysiadau Camau Unioni

Dylid cyflwyno Hysbysiad Camau Unioni cyn gynted ag sy'n ymarferol a nodi pam ei fod yn cael ei gyflwyno – hynny yw nad yw gofynion y Rheoliadau Hylendid yn cael eu bodloni a/neu fod arolygiad o dan y Rheoliadau Hylendid yn cael ei rwystro.

Rhaid i'r canlynol yn yr hysbysiad fod yn glir ac yn hawdd i'w deall:

- y seiliau dros gyflwyno'r hysbysiad
- y mesurau (neu fesurau cyfatebol) y mae'n ofynnol i'r derbynnydd eu cymryd
- y camau sydd eu hangen i unioni'r sefyllfa

Os cyflwynir Hysbysiad Camau Unioni o dan Reoliad 9(1)(a) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, fel pan eir yn groes i ofynion y Rheoliadau Hylendid, rhaid i'r hysbysiad hefyd nodi sut aethpwyd yn groes i'r gofynion

#### 6.5.4 Tynnu Hysbysiad Camau Unioni yn ôl

Cyn gynted ag y bydd y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr Hysbysiad Camau Unioni yn fodlon bod y camau a nodwyd wedi'u cymryd, rhaid tynnu'r hysbysiad yn ôl trwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig arall.

#### 6.5.5 Apeliadau

Mae Rheoliad 20(1)(c) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn caniatáu i unrhyw berson sy'n cael ei dramgwyddo gan benderfyniad swyddog awdurdodedig i wasanaethu Hysbysiad Camau Unioni apelio i'r Llys Ynadon. Y terfyn amser ar gyfer apêl o'r fath yw 1 mis o'r adeg y cyflwynodd y swyddog awdurdodedig yr hysbysiad. Mae'r hysbysiad yn parhau mewn grym nes i'r penderfyniad apelio gael ei bennu. Gall y llys ganslo neu gadarnhau'r hysbysiad. Os yw'r llys yn ei gadarnhau, caiff wneud hynny naill ai yn ei ffurf wreiddiol neu gydag addasiadau.

#### 6.5.6 Ffurflenni templed

Mae'r templedi canlynol ar gael ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB:

- Hysbysiadau Camau Unioni
- Hysbysiad bod Hysbysiad Camau Unioni yn cael ei dynnu'n ôl

## 6.6 Gweithdrefnau Gwahardd

#### 6.6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynghylch defnyddio:

- gweithdrefnau gwahardd brys o ran hylendid a Gorchmynion Gwahardd Hylendid (HPO), o dan Reoliadau 7 ac 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
- gweithdrefnau gwahardd brys a Gorchmynion Gwahardd (PO) o dan Adrannau 11 a 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

#### 6.6.2 Gweithdrefnau gwahardd o ran hylendid a gweithdrefnau gwahardd

Mae HPOs[13] a POs[14] yn cael eu gwneud gan Lys Ynadon yn dilyn euogfarn gweithredwyr busnesau bwyd am drosedd, i wahardd defnyddio:

- proses neu driniaeth at ddibenion y busnes

[13] Rheoliad 7 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[14] Adran 11 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

- y safle neu'r offer at ddibenion y busnes bwyd neu unrhyw fusnes bwyd tebyg
- y safle neu'r offer at ddibenion unrhyw fusnes bwyd

Gall y swyddog awdurdodedig ddwyn i sylw'r Llys Reoliad 7 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11 o'r Ddeddf fel y gellir ystyried HPO/PO yn erbyn gweithredwr y busnes bwyd.

Bydd y Llys yn gwneud gorchymyn os yw'n fodlon bod y safle, yr offer, y driniaeth a/neu'r broses yn bygwth y cyflwr risg iechyd

Gall y Llys hefyd wneud gorchymyn yn gwahardd gweithredwr busnes bwyd rhag rheoli unrhyw fusnes bwyd, neu fath penodol o fusnes bwyd ar yr amod bod gweithredwr y busnes bwyd wedi'i gael yn euog o drosedd a bod y Llys o'r farn ei fod yn briodol o dan amgylchiadau'r achos.

Mae'r canllawiau dedfrydu sy'n ymwneud â throseddau diogelwch bwyd a hylendid yn cynnwys ystyried y gwaharddiad hwn fel rhan o'r broses ddedfrydu. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor Dedfrydu.

#### 6.6.3 Gweithdrefnau gwahardd brys o ran hylendid (HEPN) a Gweithdrefnau Gwahardd Brys (EPN)

Os yw'r cyflwr risg iechyd yn cael ei fygwth mewn perthynas â busnes bwyd a bod risg o niweidio iechyd ar fin digwydd, gall swyddog awdurdodedig gyflwyno HEPN[15] neu EPN[16] ar weithredwr y busnes bwyd. Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gall defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol fod yn fwy priodol.

Os deuir o hyd i'r dystiolaeth briodol, gellir cyflwyno HEPN/EPN ar weithredwr busnes bwyd, wedi'i ddilyn gan gais i Lys Ynadon am Orchymyn Gwahardd Brys o ran Hylendid (HEPO)/Gorchymyn Gwahardd Brys (EPO).

Mae'r hysbysiad yn galluogi ar gyfer cau'r safle ar unwaith, neu atal defnyddio offer, proses neu driniaeth.

Mae deddfwriaeth HEPN/EPN yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig wneud cais i Lys Ynadon am HEPO/EPO o fewn tri diwrnod i HEPN/EPN gael ei gyflwyno. Diwrnod cyflwyno'r hysbysiad yw diwrnod un, neu, fel arall, ni fydd yr HEPN/EPN yn cael effaith.

Mae deddfwriaeth HEPN/EPN hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig roi rhybudd i weithredwr y busnes bwyd o leiaf un diwrnod (24 awr) cyn y diwrnod y mae'r swyddog awdurdodedig yn bwriadu gwneud y cais i'r Llys.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol bod y Llys yn gwrando ar y cais o fewn y tridiau, ond argymhellir gofyn i'r Llys restru'r cais am wrandawiad cyn gynted â phosib. Efallai y bydd iawndal yn daladwy i weithredwr y busnes bwyd am golli busnes os bydd y Llys yn gwrthod caniatáu'r gorchymyn.

---

[15] Rheoliad 8 o Reoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[16] Adran 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Yr Awdurdod Cymwys a wnaeth y cais sy'n gyfrifol am y baich profi. Byddai swyddog awdurdodedig, gan ddefnyddio ei farn broffesiynol, yn penderfynu a yw safle, proses, triniaeth, darn o offer neu'r defnydd ohono yn cynnwys risg ar fin digwydd o niweidio iechyd.

Ar ôl hyn, bydd HEPO/EPO yn disodli HEPN/EPN.

### 6.6.4 Cyflwr Risg Iechyd /Risg ar Fin Digwydd o Niwed i Iechyd

Dim ond os cyflawnir yr 'cyflwr risg iechyd' y gellir defnyddio gweithdrefnau gwahardd a gweithdrefnau gwahardd brys o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

Er mwyn gallu defnyddio gweithdrefnau gwahardd, mae angen bod risg o niwed i iechyd, ond mewn perthynas â gweithdrefnau gwahardd brys, mae angen bod risg ar fin digwydd o niwed i iechyd.

Mewn perthynas â 'risg sydd ar fin digwydd i iechyd', gall y niwed ei hun ddigwydd rywbryd yn y dyfodol, ond mae'n hanfodol dangos y gallai ddigwydd er mwyn i'r weithred lwyddo. Ni fyddai angen i bawb sy'n agored i'r risg o niwed ddioddef y niwed er mwyn iddo fod yn risg sydd ar fin digwydd. Yr amlygiad i'r risg o niwed sy'n caniatáu ar gyfer cymryd camau.

#### 6.6.4.1 Cyflwr Risg Iechyd – HEPN/HEPO

Mewn perthynas â hylendid bwyd, gall y cyflwr risg iechyd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 fodoli os, er enghraifft:

- oes risg uchel o achosi haint a gludir gan fwyd mewn amodau sy'n bodoli mewn safle, neu broses neu driniaeth ddiffygiol
- yw'r safle mewn cyflwr strwythurol gwael iawn
- arweiniodd offer gwael a/neu gynnal a chadw gwael neu lanhau rheolaidd gwael a/neu grynhoad difrifol o wastraff, bryntni neu fater allanol arall at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff bwyd ei halogi

Mae bwydydd sy'n cynnwys lefelau niweidiol posib o ficro-organebau pathogenaidd yn cynrychioli risg sydd ar fin digwydd, a gellir eu hatafael neu eu cadw o dan Reoliad 23 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006. Dylid gwneud hyn trwy ddefnyddio'r pwerau yn Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (gweler hefyd Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â hyn).

Byddai'r broses neu'r driniaeth a amlygodd y bwyd i'r halogiad microbiolegol hwn yn cael ei thrin o dan Reoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, lle bo'n briodol.

#### 6.6.4.2 Cyflwr Risg Iechyd – EPN/EPO

Mae'r 'cyflwr risg iechyd' yn berthnasol yn benodol yng nghyd-destun ceisio naill ai PO o dan Adran 11 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu EPN/EPO at ddibenion Adran 12 o'r Ddeddf.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau a allai olygu bod risg ar fin digwydd i iechyd lle y gall swyddog awdurdodedig ystyried defnyddio pwerau gwahardd:

- proses neu driniaeth sy'n cyflwyno cemegyn teratogenig (un sy'n niweidio ffetws sy'n datblygu yn y groth) i fwyd, a allai achosi niwed i'r ffetws sy'n datblygu, ond na fydd y difrod yn amlwg hyd nes y caiff y babi ei eni
- proses neu driniaeth sy'n cyflwyno cemegyn genotocsig (un sy'n niweidio genynnau neu gromosomau) i fwyd, lle mae'n bosib na fydd yr effeithiau yn dod i'r amlwg hyd nes y bydd plentyn, sydd heb ei eni eto, i fam sydd wedi bwyta'r bwyd dan sylw, yn datblygu tiwmor malaen ('malignant') rywbryd yn y dyfodol.

Mae bwydydd sy'n cynnwys lefelau a allai fod yn niweidiol o gemegion o'r fath yn cynrychioli risg sydd ar fin digwydd, a gellir eu hatafael neu eu cadw o dan Adran 9 Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Byddai'r broses neu'r driniaeth  a amlygodd y bwyd i'r halogiad cemegol hwn yn cael ei thrin o dan Adran 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, lle bo'n briodol.

### 6.6.5 Meini prawf ar gyfer gweithredu – gweithdrefnau gwahardd hylendid/gweithdrefnau gwahardd

Mae'r adrannau canlynol yn enghreifftiau o'r amgylchiadau sy'n gallu dangos bod yr amod risg i iechyd yn bodoli fel a ddiffinnir yn Rheoliad 7(2) Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(2) Deddf Diogelwch Bwyd 1990, hynny yw, mae risg ar fin digwydd o niweidio iechyd, a phryd y gall swyddog awdurdodedig ystyried defnyddio pwerau gwahardd. Dim ond y llysoedd all wneud POs.

#### 6.6.5.1 Gwahardd defnyddio safleoedd

Mae amodau risg iechyd lle y gall fod yn briodol gwahardd defnyddio safle yn cynnwys:

- pla o lygod mawr, llygod, chwilod duon, adar neu fermin eraill, sy'n ddigon difrifol i arwain at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff ei halogi
- cyflwr strwythurol gwael iawn ac offer gwael a/neu arferion cynnal a chadw gwael neu lanhau rheolaidd gwael a/neu grynhoad difrifol o wastraff, bryntni neu fater allanol arall sy'n arwain at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff bwyd ei halogi
- diffygion o ran draenio neu orlifo yn y sefydliad, sy'n ddigon difrifol i arwain at halogi'r bwyd neu risg sylweddol y caiff ei halogi
- safleoedd neu arferion sy'n troseddu'n ddifrifol yn erbyn cyfraith bwyd ac sydd wedi'u cysylltu ag achos o wenwyn bwyd neu sy'n gysylltiedig ag achos
- unrhyw gyfuniad o'r uchod, neu effaith gronnus troseddau sydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn golygu bod yr amod risg i iechyd yn bodoli.

#### 6.6.5.2 Gwahardd defnyddio offer

Mae amodau risg iechyd lle gall fod yn briodol gwahardd offer yn cynnwys:

- defnyddio offer ar gyfer prosesu bwydydd risg uchel nad yw wedi'i lanhau neu ei ddiheintio'n ddigonol neu sydd wedi'i halogi'n ddifrifol ac na ellir ei lanhau yn iawn mwyach.
- defnyddio offer cymhleth at ddau ddiben, fel defnyddio peiriannau pecynnu dan wactod ('vacuum packers') ar gyfer bwyd amrwd a bwyd parod i'w fwyta. Fodd bynnag, gallai defnyddio offer llai cymhleth at ddau ddiben, fel clorian bwyso, fod yn briodol ar yr amod bod y busnes yn gallu dangos y bydd offer o'r fath yn cael ei

lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol rhwng pob defnydd ar gyfer bwyd amrwd a bwyd parod i'w fwyta.

- defnyddio cyfleusterau storio neu gerbydau cludo ar gyfer cynnyrch cynradd lle nad yw'r cyfleusterau storio neu'r cerbydau cludo wedi cael eu glanhau neu eu diheintio yn ddigonol

#### 6.6.5.3 Gwahardd defnyddio proses

Mae amodau risg iechyd lle y gall fod yn briodol gwahardd proses yn cynnwys:

- risg ddifrifol o groeshalogi
- methu â chyrraedd tymheredd prosesu digon uchel
- gweithredu y tu allan i'r meini prawf rheoli critigol, er enghraifft, pH anghywir i gynnyrch a allai ganiatáu i Clostridium botulinum luosi
- defnyddio proses amhriodol ar gyfer cynnyrch

### 6.6.6 Ceisio cyngor ychwanegol

Gall swyddogion awdurdodedig geisio cyngor meddygol arbenigol neu gyngor proffesiynol arall os yw proses neu driniaeth yn cynhyrchu bwyd yr ymddengys ei fod yn cynnwys cemegion neu sylweddau eraill a allai beri risg o niwed ar fin digwydd i iechyd, neu lle mae'r broses neu'r driniaeth dan sylw ei hun yn gofyn am wybodaeth arbenigol arall neu arbenigedd. Mae'r IFST yn cynnal Cyfeiriadur Ymgynghorwyr sy'n cynnwys arbenigwyr mewn meysydd penodol.

Gall swyddog awdurdodedig sy'n arfer hawl mynediad o dan Reoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ddod gydag unrhyw bersonau angenrheidiol eraill, gan gynnwys arbenigwyr.

Os caiff HEPN/EPN ei weini, y swyddog awdurdodedig sydd angen bod yn fodlon bod y cyflwr risg iechyd yn bodoli mewn perthynas â'r busnes bwyd.

### 6.6.7 Gohirio gweithredu ar unwaith

Efallai y bydd amgylchiadau lle nad oes angen cau busnes ar unwaith, er y gallai fod risg ar fin digwydd i iechyd. Er enghraifft, cyflwr safle manwerthu bwyd a allai beri risg sydd ar fin digwydd, ond na fyddai o reidrwydd yn gwarantu cau ar unwaith pe bai'r cyflwr ond yn cael ei ddarganfod ar ddiwedd yr oriau masnachu.

Mewn achos o'r fath, gall y swyddog awdurdodedig benderfynu peidio â gosod gwaharddiad brys pe bai gweithredwr y busnes bwyd yn cymryd y mesurau angenrheidiol i lanhau'r safle dros nos.

Gallai'r risg mewn amgylchiadau o'r fath fod yn fach iawn, gan na fyddai'r safle ar agor i'r cyhoedd. Byddai'r swyddog awdurdodedig yn rhydd i benderfynu y bore canlynol a yw'r angen i weithredu ar y risg sydd ar fin digwydd yn parhau.

### 6.6.8 Gwahardd person

Pan fydd gweithredwr busnes bwyd wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol, gall y swyddog awdurdodedig deimlo ei bod yn briodol gofyn i'r Llys ystyried cyflwyno PO yn erbyn gweithredwr y busnes bwyd, sy'n gwahardd y person rhag rhedeg busnes bwyd.

Gall amgylchiadau pan fo camau o'r fath fod yn briodol gynnwys troseddau ailadroddus fel methiant i lanhau, methu â chynnal a chadw offer, dim ystyriaeth o risgiau iechyd, neu beryglu iechyd trwy ddefnyddio bwyd anniogel yn fwriadol.

### 6.6.9 Achosion llys sy'n ymwneud â gweithdrefnau gwahardd

#### 6.6.9.1 Y dystiolaeth sydd ei hangen

Bydd angen i'r swyddog awdurdodedig gasglu digon o dystiolaeth i gadarnhau unrhyw achos yn y Llys.

Mae'n bwysig bod nodiadau cyfoes, gan gynnwys brasluniau a ffotograffau, yn cael eu cymryd yn ystod rheolaeth swyddogol oherwydd gellir eu defnyddio fel tystiolaeth yn y Llys. Gall samplau o bryfed, baw neu halogion eraill fod yn ddefnyddiol hefyd.

Mae angen i nodiadau swyddog awdurdodedig a wneir yn ystod neu ar ddiwedd ymweliad â sefydliad fod yn gywir ac yn ffeithiol, fel y gallant ddibynnu arnynt yn y Llys.

Er nad oes angen i swyddogion awdurdodedig fod yng nghwmni tyst, fel swyddog arall, gall fod adegau pan fydd adroddiadau gweledol gan drydydd parti fod yn arbennig o berthnasol.

#### 6.6.9.2 Cais i'r Llys

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn trafod camau ffurfiol gyda'i gyfreithiwr ymgyfreitha a chyda Chynghorydd Cyfreithiol y Llys Ynadon lleol. Argymhellir hefyd fod yr Awdurdod Cymwys yn egluro manylion practis y Llys lleol i geisio datrys anawsterau posib o ran cael amser y Llys ar fyr rybudd. Gellir cychwyn hyn trwy gysylltu â Swyddfa Clerc yr Ynadon i sicrhau bod ceisiadau am EPOs a HEPOs yn cael eu cyflymu.

Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth HEPN/EPN, rhoddir gwybod i weithredwr y busnes bwyd os yw swyddog awdurdodedig yn bwriadu gwneud cais am HEPO neu EPO. Mae angen cyflwyno hysbysiad o gais am y gorchymyn i weithredwr y busnes bwyd ar y diwrnod cyn dyddiad y cais, fan bellaf, gan roi manylion yr ymddangosiad yn y Llys.

#### 6.6.9.3 Camau i'w cymryd cyn y gwrandawiad

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn trefnu i fonitro'r safle rhwng cyflwyno'r hysbysiad a'r gwrandawiad Llys. Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad o reidrwydd gynnal y gwaith monitro, ond argymhellir ei fod yn rhoi'r wybodaeth lawn i'r cydweithiwr perthnasol o'r risgiau a'r dystiolaeth a gasglwyd.

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad yn ail-arolygu'r safle ychydig cyn y gwrandawiad (y diwrnod cyn neu ar ddiwrnod y gwrandawiad ei hun yn ddelfrydol). Os nad yw hyn yn bosib, gall swyddog awdurdodedig sydd â phrofiad perthnasol gynnal yr ailarolygiad. Mae'r un peth yn wir os canfuwyd unrhyw achosion o dramgwydd yn ystod y gwaith monitro.

Pwrpas yr ailarolygiad yw casglu tystiolaeth ar gyflwr presennol y safle neu'r offer ar gyfer y gwrandawiad yn y Llys. Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn nodi unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers cyflwyno'r hysbysiad. Er enghraifft, gallai'r amgylchiadau a arweiniodd at gyflwyno'r hysbysiad fod wedi gwaethygu, neu gall amgylchiadau newydd eraill hefyd beri risg i iechyd.

Os yw HPO neu PO[17] yn erbyn gweithredwr busnes bwyd i'w ystyried, mae'n bwysig bod tystiolaeth addas yn cael ei chasglu i'w chyflwyno i'r Llys.

Mae'n bwysig bod swyddogion awdurdodedig yn briffio eu cynghorwyr cyfreithiol yn llawn ar agwedd iechyd y cyhoedd yr achos dan sylw. Gall hyn gynnwys sail iechyd y cyhoedd ar gyfer y gofynion cyfreithiol y mae'r busnes wedi mynd yn groes iddynt. Mae hyn yn caniatáu iddynt gynghori'r Llys ar ddifrifoldeb y cyhuddiadau.

#### 6.6.9.4 Gwybodaeth i'w rhoi i'r Llys

Mae'r wybodaeth y gall fod ei hangen ar y Llys yn cynnwys:

- cyflwr y safle neu'r offer, a hynny ar adeg y drosedd a phan ail-arolygwyd y safle cyn y gwrandawiad
- unrhyw dystiolaeth bod gweithredwr y busnes bwyd wedi bod yn rhan o droseddau mewn mannau eraill, a oedd yn tueddu i ddangos gwendidau mewn rheolaeth

Mae'n arferol i'r rhai sy'n erlyn bennu a fu unrhyw gollfarnau neu rybuddion blaenorol. Os felly, byddai'r sail sy'n erlyn yn cael manylion i'w cyflwyno i'r Llys pe bai'r erlyniad yn llwyddiannus. Gellir defnyddio'r manylion hefyd mewn tystiolaeth os yw gofynion Adran 101 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ynghylch cymeriad drwg y diffynnydd yn cael eu bodloni.

### 6.6.10 Cyflwyno hysbysiadau a gorchmynion gwahardd

#### 6.6.10.1 Dulliau o gyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn

Argymhellir gwneud pob ymdrech i gyflwyno Hysbysiadau a Gorchmynion Gwahardd a wneir o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Diogelwch Bwyd 1990 trwy eu danfon â llaw i weithredwr y busnes bwyd, neu i bob un o'r gweithredwyr/perchnogion yn achos partneriaeth.

Nid oes angen i'r hysbysiadau a'r gorchmynion hyn gael eu cyflwyno gan y swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y camau gweithredu. Fodd bynnag, argymhellir eu bod yn cael eu cyflwyno gan swyddog awdurdodedig sy'n gymwys i egluro pwrpas y gorchymyn neu'r hysbysiadau, fel y camau angenrheidiol y mae angen i weithredwr y busnes bwyd eu cymryd, ac i allu delio ag unrhyw rwystrau a all godi.

Os na ellir rhoi hysbysiad neu orchymyn i weithredwr y busnes bwyd yn bersonol, gellir rhoi copi o'r ddogfen i bwy bynnag sy'n gyfrifol am gydymffurfio â gweithredoedd cau neu wahardd ar unwaith, er enghraifft y rheolwr.

Mae angen i weithredwr y busnes bwyd fod yn ymwybodol o'r rhesymau dros y risg sydd ar fin digwydd. Er bod hyn wedi'i gynnwys yn yr HEPN model a'r EPN rhagnodedig,[18] efallai na fydd gweithredwr y busnes bwyd yn deall pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd i ddileu'r risg sydd ar fin digwydd, ac felly, efallai y bydd angen esboniad pellach gan y swyddog awdurdodedig.

[17] Rheoliad 7 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

[18] Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwella a Gwahardd – Ffurflenni Rhagnodedig) 1991

Os yw'r gweithredwr/perchennog yn bresennol yn y Llys, gall y swyddog awdurdodedig ymgynghori â Chynghorydd Cyfreithiol yr Ynadon i wirio a yw'n bosib cyflwyno gorchymyn cyn i'r gweithredwr/perchennog adael y Llys.

Weithiau gall cyflwyno'r hysbysiad neu'r gorchymyn i nifer o bartneriaid beri anawsterau, yn enwedig pan nad yw partner yn y DU ar y pryd. Cyn gynted ag y bydd yr hysbysiad neu'r gorchymyn yn cael ei gyflwyno'n briodol i unrhyw un o'r partneriaid, mae'n dod i rym.

Os nad yw'n bosib cyflwyno'r ddogfen â llaw, yna bydd angen i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno'r ddogfen drwy'r post. Argymhellir cael prawf o bostio a, lle bo'n bosib, prawf o ddanfon. Mae'n ddefnyddiol cofnodi'r amser y cafodd y ddogfen ei chyflwyno, hyd yn oed pan ddefnyddir y gwasanaeth post.

Gellir anfon y ddogfen yn electronig at y gweithredwr/perchennog er gwybodaeth cyn ei chyflwyno'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae angen darparu copi caled hefyd er mwyn iddo gael ei ystyried wedi'i gyflwyno'n swyddogol.

Pan fydd y ddogfen wedi'i chyflwyno'n gyfreithiol,[19] daw'r gwaharddiad i rym yn syth. Gall hyn ymwneud â defnyddio'r safle neu'r offer at ddibenion unrhyw fusnes bwyd, neu fath penodol o fusnes, proses neu driniaeth bwyd. Yn dilyn cyflwyno HPO neu PO, nid yw'r HEPN neu'r EPN bellach mewn grym.

### 6.6.10.2 Gosod yr hysbysiad neu'r gorchymyn ar y safle

Ar ôl gwneud gorchymyn neu gyflwyno hysbysiad, mae angen arddangos copi o'r gorchymyn neu'r hysbysiad yn glir ar y safle. Mae hyn yn berthnasol o dan Reoliadau 7 ac 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adrannau 11 a 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Pwrpas hyn yw rhoi gwybod i'r cyhoedd ac unrhyw un sy'n defnyddio'r safle ei fod wedi'i gau. Gall hyn hefyd ymwneud â phroses neu ddarn o offer sydd wedi'i wahardd rhag cael ei ddefnyddio.

Argymhellir bod swyddog awdurdodedig sy'n gymwys i esbonio ystyr a phwysigrwydd yr hysbysiad yn gweithredu'r cam hwn. Dim ond os yw'n ofynnol gan yr Awdurdod Cymwys y mae gofyn i dyst fynd gyda'r swyddog awdurdodedig. Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y weithred fod yn rhan o'r broses.

Mae angen i'r swyddog awdurdodedig arddangos copi o'r ddogfen mewn man amlwg ar y safle.[20] Argymhellir, lle bo modd, bod hyn y tu mewn i'r safle, mewn man lle gellir gweld a darllen yr hysbysiad yn glir o'r tu allan – yn ddelfrydol y tu mewn i ffenestr blaen.

---

[19] Rheoliad 28 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 50 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

[20] Rheoliadau 7 ac 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adrannau 11 a 12 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Os nad yw hyn yn bosib, mae angen i'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio ei farn broffesiynol am y lleoliad gorau. Os oes angen, gellir gosod ail gopi o'r ddogfen y tu allan i'r safle gan sicrhau ei bod yn cael ei diogelu rhag y tywydd a fandaliaeth.

### 6.6.11 Tynnu neu ddifrodi hysbysiadau neu orchmynion heb awdurdod

Nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 na Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn cyfeirio at ddifrodi neu ddileu HPO, HEPN, HEPO, PO, EPN, neu EPO. Gellid ystyried gweithredu o'r fath fel rhwystr o dan Reoliad 15 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, oherwydd gellir ystyried dileu neu ddifrodi hysbysiad neu orchymyn yn weithred sy'n rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu wrth gyflawni'r Rheoliadau Hylendid yn fwriadol (wedi'i gyfieithu). Yn yr un modd, mae Adran 33 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn ei gwneud yn drosedd i rwystro unrhyw berson sy'n gweithredu wrth gyflawni'r Ddeddf hon yn fwriadol.

### 6.6.12 Mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn gwahardd

Pan fydd sefydliad yn mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn, gall y troseddau canlynol fod yn berthnasol:

- mae person sy'n mynd yn groes i HPO neu PO yn fwriadol yn euog o drosedd o dan Reoliad 7(5) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(5) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn y drefn honno
- mae person sy'n mynd yn groes i HEPN neu HEPO neu EPN neu EPO yn euog o drosedd o dan Reoliad 8(5) neu (6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 12(5) neu (6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, yn y drefn honno

Lle nodir troseddau, ac ar ôl ystyried polisi gorfodi'r Awdurdodau Cymwys, gellir cyfeirio'r rhain i'w herlyn.

Gall swyddog awdurdodedig gychwyn achos am y drosedd o dan y ddeddfwriaeth briodol trwy gyflwyno gwŷs ('summons') ddrafft i'r Llys Ynadon a gyflwynir wedi hynny i'r diffynnydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddod i wrandawiad cyntaf i gyflwyno eu ple.

Os yw'r swyddog awdurdodedig yn credu bod digon o dystiolaeth i ddangos bod y perchennog/gweithredwr busnes bwyd yn annhebygol o ymateb i wŷs, gellid gwneud cais am warant yn hytrach na gwŷs. Bydd y Llys yn penderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau'r weithred hon ac yn gallu gofyn i'r swyddog awdurdodedig a yw'n credu y dylid cymeradwyo'r warant gyda mechnïaeth. Bydd angen i swyddog awdurdodedig ddefnyddio ei farn broffesiynol ac ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol yn ei benderfyniad.

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn gwneud trefniadau wrth gefn gyda'i adran gyfreithiol, fel na fydd unrhyw oedi cyn gwneud cais gerbron y Llys os bydd sefydliad yn mynd yn groes i hysbysiad neu orchymyn. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cyfeirio at eu polisi gorfodi wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd o ran y sefydliad yn mynd yn groes i reoliadau a/neu hysbysiadau.

### 6.6.13 Codi hysbysiad neu orchymyn

#### 6.6.13.1 Codi hysbysiadau a gorchmynion gwahardd

Nid yw HPO, HEPN neu HEPO, PO, neu EPN neu EPO bellach mewn grym unwaith y bydd Awdurdod Cymwys o'r farn bod y cyflwr risg iechyd wedi'i ddileu ac wedi cyhoeddi tystysgrif.[21]

Mae angen i weithredwr y busnes bwyd wneud cais ysgrifenedig i'r Awdurdod Cymwys am dystysgrif sy'n codi HPO, HEPN neu HEPO, PO neu EPN neu EPO. Argymhellir, ar ôl cael cais o'r fath, y dylai'r swyddog awdurdodedig ail-arolygu'r safle a phenderfynu a ellir codi'r hysbysiad neu'r gorchymyn. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniad hwn gael ei wneud cyn gynted â phosib neu o fewn 14 diwrnod i'r cais.[22] Os yw'r Awdurdod Cymwys o'r farn bod y cyflwr risg iechyd wedi'i ddileu, byddant yn dyroddi'r dystysgrif o fewn tri diwrnod.

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig a gychwynnodd y weithred yn penderfynu a ddylid dyroddi'r dystysgrif ai peidio. Os nad yw'r swyddog awdurdodedig hynny ar gael, gall swyddog awdurdodedig arall sydd â'r cymhwysedd perthnasol wneud y penderfyniad.

Gellir anfon y dystysgrif yn electronig neu ei chyfathrebu ar lafar, gan ganiatáu i'r safle allu ailagor ar unwaith. Gellir dod o hyd i dystysgrifau enghreifftiol yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwella a Gwahardd – Ffurflenni Rhagnodedig) 1991 neu ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB.

Os yw'r swyddog awdurdodedig o'r farn nad yw'r cyflwr risg iechyd wedi'i ddileu, gwneir trefniadau i'r Awdurdod Cymwys ddyroddi hysbysiad[23] o risg barhaus i iechyd o fewn tri diwrnod. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cymwys roi rhesymau pam nad yw'n fodlon bod y cyflwr risg iechyd wedi'i ddileu. Gellir dod o hyd i hysbysiadau enghreifftiol yn Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Gwella a Gwahardd – Ffurflenni Rhagnodedig) 1991 neu ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB.

Os bydd swyddog awdurdodedig yn cynnal rheolaeth swyddogol pellach cyn y gwrandawiad Llys a'i fod yn fodlon nad yw'r cyflwr risg iechyd yn bodoli mwyach, efallai y bydd y swyddog awdurdodedig yn dal i ddymuno parhau â'r cais i ofyn am yr HEPO/EPO. Y rheswm am hyn yw y gall y gwrandawiad i ofyn am yr HEPO/EPO leihau'r tebygolrwydd y bydd y gweithredwr yn gwneud cais am iawndal.

Gellir dyroddi tystysgrif sy'n codi HEPN neu EPN cyn y gellir clywed y cais am HEPO neu EPO, ond gellir parhau i erlyn y gweithredwr/perchennog am y drosedd neu droseddau

[21] Rheoliad 7(6) neu 8(8) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(6) neu 12(8) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel sy'n briodol
[22] Rheoliad 7(7) neu 8(9) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(7) neu 12(9) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel sy'n briodol
[23] Rheoliad 7(7) (b) neu 8(9) (b) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, neu Adran 11(7) (b) neu Adran 12(9) (b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel y bo'n briodol

yn erbyn Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel y bo'n briodol.

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn sicrhau bod y Llys yn cael gwybod yn y sefyllfa hon.

### 6.6.13.2 Codi gorchmynion gwahardd yn erbyn personau

Dim ond trwy gyfarwyddyd y Llys, ar gais gan weithredwr neu berchennog busnes bwyd, y gall HOP neu PO yn erbyn personau a wnaed gan Lys beidio â bod mewn grym.[24] Ni fydd unrhyw gais yn cael ei ystyried o fewn chwe mis i ddyddiad y gorchymyn gwreiddiol.

### 6.6.13.3 Apeliadau – gwrthod codi gorchymyn gwahardd

Mae Rheoliad 20(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 37 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn caniatáu i unrhyw berson apelio yn erbyn penderfyniad Awdurdodau Cymwys i wrthod dyroddi tystysgrif neu godi hysbysiad neu orchymyn gwahardd drwy gyflwyno cwyn i'r Llys Ynadon. Y terfyn amser ar gyfer apêl o'r fath yw mis o'r dyddiad pan gyflwynodd yr Awdurdod Cymwys yr hysbysiad yn nodi eu bod yn gwrthod codi'r gwaharddiad.

Mae angen i'r sawl sy'n cael hysbysiad ar gyfer risg barhaus i iechyd ddeall ei hawl i apelio yn glir. I gefnogi hyn, argymhellir bod yr hysbysiad yn cynnwys manylion yr hawl i apelio ac enw a chyfeiriad y Llys Ynadon perthnasol, neu fod y manylion hyn yn cyd-fynd â'r hysbysiad.

### 6.6.14 Iawndal

Byddai angen i'r Awdurdod Cymwys ddigolledu gweithredwr y busnes bwyd mewn perthynas ag 'unrhyw golled' y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i gyflwyno'r hysbysiad ar gam.[25] Mae unrhyw gwestiwn dadleuol am yr hawl i unrhyw iawndal, neu swm y iawndal sy'n daladwy, i'w benderfynu trwy gymrodeddu ('arbitration').

Gall yr Awdurdod Cymwys asesu swm yr iawndal sy'n ddyledus gan ystyried yr agweddau canlynol, lle bo hynny'n berthnasol:

- am ba hyd y cafodd y broses neu'r driniaeth ei hatal, neu y gwaharddwyd defnyddio safle neu offer ac at ba bwrpas
- colli masnach
- gwerth bwyd sydd wedi difetha
- colli ewyllys da
- colli cyflog
- faint o'r difrod i fasnach y gellir ei drwsio
- rhwymedigaeth y gweithredwr/perchennog i liniaru eu colled eu hunain

[24] Rheoliad 7(6)(b) a 7(8) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 neu Adran 11(6)(b) ac 11(8) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

[25] Rheoliad 8(10) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 12(10) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Fel arall, os yw gweithredwr/perchennog y busnes yn gytûn, gellir defnyddio aseswr colledion.

## 6.7 Cadw ac atafael

### 6.7.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynghylch defnyddio'r pwerau cadw/arolygu ac atafael o dan Reoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a/neu Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae gwybodaeth ynghylch Hysbysiadau Cadw sy'n gymwys i safleoedd cymeradwy i'w gweld yn adran 6.11.4.

### 6.7.2 Bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd

Mae Adran 8 o Ddeddf Diogelwch Bwyd yn darparu bod bwyd sy'n anniogel yn ôl ystyr Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, yn methu â chydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Os nad yw bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd am resymau ac eithrio hylendid, dylid defnyddio Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Mae Adran 9 o'r Ddeddf yn caniatáu cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd i atal defnyddio'r bwyd fel bwyd i'w fwyta gan bobl. Mae angen i Awdurdodau Cymwys ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990 wrth ddefnyddio pwerau o dan Adran 9 o'r Ddeddf.

#### 6.7.2.1 Hylendid bwyd

Pan na fydd bwyd wedi cael ei gynhyrchu, ei brosesu neu ei ddosbarthu yn unol â'r 'Rheoliadau Hylendid'[26], gall swyddog awdurdodedig ddefnyddio Rheoliad 27 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 i atafael y bwyd o dan Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Yn dilyn yr ardystiad sy'n ofynnol gan Reoliad 27, caiff y bwyd ei drin, at ddibenion Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, fel nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd.

Gellir gweld tystysgrif enghreifftiol at y diben hwn ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB

#### 6.7.2.2 Safonau bwyd

Mae'r ddeddfwriaeth ganlynol yn rhoi pwerau penodol o ran atafael a chadw i Awdurdodau Cymwys sy'n cynnal rheolaethau safonau bwyd:

- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010
- Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009
- Rheoliadau Bwyd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2022
- Rheoliadau Tryptoffan mewn Bwyd (Cymru) 2005

[26] Rheoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

- Rheoliadau Wisgi Scotch 2009
- Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008
- Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013
- Rheoliadau Bwyd Newydd (Cymru) 2017

#### 6.7.2.3 Rhagdybiaeth ei fod yn fwyd

Tybir o dan gyfraith bwyd bod yr holl fwyd wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl nes ei fod yn cael ei brofi i'r gwrthwyneb.

Ni fyddai pwerau cadw'n cael eu defnyddio mewn perthynas â bwyd sydd eisoes wedi'i nodi'n glir gan fusnes bwyd fel rhywbeth nad yw wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl.

Gall swyddog awdurdodedig gynorthwyo neu gynghori'r person sy'n gyfrifol am y bwyd fel sy'n briodol. Os oes unrhyw amheuaeth p'un a yw'r bwyd yn cael ei ddefnyddio i'w fwyta gan bobl, tybir ei fod felly. Pe bai gweithredwr busnes bwyd yn dymuno dadlau dros fwriad i'r gwrthwyneb, rhaid i weithredwr y busnes bwyd hwnnw brofi hynny.

### 6.7.3 Ymdrin â sypiau, lotiau neu lwythi bwyd

Mae Erthygl 14(6) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 yn pennu (yn yr iaith wreiddiol): 'any food which is unsafe is part of a batch, lot, or consignment of food of the same class or description, it shall be presumed that all the food in that batch, lot or consignment is also unsafe, unless following a detailed assessment there is no evidence that the rest of the batch, lot or consignment is unsafe'.

Argymhellir, os yw swm o fwyd o wahanol fathau neu sypiau yn cael ei gadw, fod y swyddog awdurdodedig gyhoeddi Hysbysiad Cadw Bwyd ar wahân mewn perthynas â phob math neu swp.

Wrth ystyried p'un a ddylid atafael neu gadw/arolygu swp, lot neu lwyth, gall y swyddog awdurdodedig ystyried y canlynol:

- y dystiolaeth sydd ar gael
- natur yr halogiad
- natur a chyflwr unrhyw gynhwysydd sy'n dal y bwyd
- y risg i iechyd
- swm y bwyd o dan sylw o ran unrhyw samplu sydd wedi'i gynnal

Bydd angen i'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a ddylid cadw neu atafael y swp, y lot neu'r llwyth cyfan. Gellir ceisio cyngor arbenigol priodol os oes angen.

Os caiff swp, lot neu lwyth cyfan ei atafael ac yna daw'n amlwg mai dim ond rhan o'r bwyd sy'n cael ei gadw yr effeithir arno a sydd gofyn ei atafael, gellir rhyddhau gweddill y swp, y lot neu'r llwyth. Efallai y bydd angen ystyried y darpariaethau iawndal o dan Adran 9(7) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 os cymerir y camau gweithredu hyn.

### 6.7.4 Cymryd camau heb arolygu

Mae darpariaethau Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 hefyd yn gymwys i fwyd nad yw wedi'i arolygu.

Gallai hyn fod yn gymwys pan fydd gan y swyddog awdurdodedig sail resymol i amau y byddai bwyta'r bwyd yn debygol o achosi clefyd a gludir gan fwyd neu glefyd trosglwyddadwy arall, neu ei fod wedi'i halogi fel arall fel na fyddai'n rhesymol iddo gael ei fwyta yn y cyflwr hwnnw.

Gall gwybodaeth o ffynhonnell ddibynadwy arall, er enghraifft Awdurdod Cymwys arall, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y CCDC, neu'r ASB, fod yn ddigonol i alluogi swyddog awdurdodedig i weithredu heb arolygu.

Nid oes angen arolygu'r bwyd yn gyfreithiol mewn sefyllfaoedd o'r fath, serch hynny, gallai fod yn synhwyrol gwneud hynny, hyd yn oed os yw at ddibenion adnabod yn unig.

### 6.7.5 Cadw bwyd

Oni bai bod yr amgylchiadau'n gofyn am weithredu ar unwaith, argymhellir bod penderfyniad i gadw bwyd fel arfer ond yn cael ei wneud ar ôl trafod hynny gyda'r perchennog neu'r person sy'n gyfrifol am fwyd ac, os yw'n briodol, gyda'r gweithgynhyrchydd.

Mae angen i swyddogion awdurdodedig arfer barn ofalus, ac efallai y bydd angen iddynt ofyn am gyngor arbenigol, cyn defnyddio eu pwerau i gadw bwyd hyd nes y cynhelir ymchwiliad pellach.

Yn aml gellir adnabod bwyd yr amheuir ei fod yn achosi gwenwyn bwyd yn rhwydd, ac felly gellir gwneud y penderfyniad i gadw'r bwyd yn gymharol hawdd.

#### 6.7.5.1 Lleoliad cadw'r bwyd

Lle bydd y swyddog awdurdodedig wedi cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd, bydd angen defnyddio barn broffesiynol i bennu a yw'r bwyd yn cael ei gadw yn y fan honno, neu ei symud i rywle arall.

Os oes gan y swyddog awdurdodedig unrhyw amheuon am ddiogelwch neu ofal ffisegol y bwyd, mae angen i'r Hysbysiad Cadw Bwyd bennu i ble y dylid symud y bwyd.[27]

Os yw bwyd yn cael ei symud i ardal Awdurdod Cymwys arall, argymhellir bod y swyddog yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Cymwys hwnnw a gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol ar gyfer gwirio'r bwyd tra ei fod yn cael ei gadw.

Ym mhob achos, ond yn enwedig gyda bwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym, mae angen i'r swyddog awdurdodedig weithredu'n gyflym ar bob cam a rhoi gwybodaeth lawn i'r rheiny sy'n gorfod dadansoddi neu archwilio samplau o'r bwyd.

Efallai y bydd angen symud bwyd sydd angen amodau storio arbennig, fel bwyd sydd angen ei oeri, rywle arall, ac os felly byddai'r penderfyniad i orfodi ar gyfer symud y bwyd yn cael ei drafod gyda pherchennog y bwyd.

[27] Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990

Os yw bwyd i'w gadw yn y man mae'n cael ei ganfod, mae angen i'r swyddog awdurdodedig fod yn fodlon y gellir gwneud trefniadau digonol i sicrhau ei fod yn ddiogel. Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn trefnu bod y bwyd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy gydol y cyfnod cadw.

Cyn gwneud trefniadau o'r fath, byddai angen ystyried natur y bwyd, faint o'r bwyd sy'n bodoli, unrhyw risg i iechyd, a phwy sy'n berchen ar y sefydliad lle cedwir y bwyd. Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn osgoi ei adael yng ngofal, neu mewn sefydliad sy'n eiddo i, unrhyw berson a allai gael ei erlyn am drosedd o dan gyfraith bwyd.

Mae angen ystyried yn ofalus y penderfyniad i gadw swp, lot neu lwyth cyfan cyn cyflwyno hysbysiad.

#### 6.7.5.2 Hysbysiad Cadw Bwyd

Mae angen i Hysbysiad Cadw Bwyd gael ei lofnodi gan y swyddog awdurdodedig sy'n penderfynu cadw'r bwyd. Mae angen i Awdurdodau Cymwys ddefnyddio'r Hysbysiad Cadw Bwyd a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990.

#### 6.7.5.3 Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn gweithredu mor gyflym â phosib pan fydd tystiolaeth neu wybodaeth yn dangos y gellir rhyddhau bwyd sydd wedi'i gadw. Mae angen cyflwyno Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol neu o fewn 21 diwrnod i gadw'r bwyd.[28]

Argymhellir bod y penderfyniad i gyhoeddi Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl naill ai yn cael ei wneud gan y swyddog awdurdodedig a gyflwynodd yr hysbysiad neu'r camau gweithredu yn wreiddiol, neu gan swyddog awdurdodedig arall sydd â'r profiad a'r cymhwysedd perthnasol.

Bydd cyflwyno Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl cyn gynted â phosib yn atal y bwyd rhag dirywio ac yn lleihau'r risg i'r Awdurdod Cymwys orfod talu iawndal o dan Adran 9(7) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig a wnaeth y penderfyniad gyflwyno'r hysbysiad. Gall unrhyw swyddog awdurdodedig ei gyflwyno.

Mae angen i Awdurdodau Cymwys ddefnyddio'r Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw Bwyd yn Ôl a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990.

### 6.7.6 Atafael bwyd

#### 6.7.6.1 Trefniadau ar gyfer trin neu brosesu

Wrth ystyried a ddylid atafael bwyd, gall swyddogion awdurdodedig ystyried a all y bwyd dan sylw gael ei drin neu ei brosesu cyn ei fwyta, ac os felly, a fyddai'r bwyd yn bodloni gofynion diogelwch bwyd ar ôl ei drin neu ei brosesu. Ni chaniateir cymysgu bwyd i leihau lefelau uchel o halogion yn unol ag Erthygl 3 o Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1881/2006.

Mae angen i drefniadau ar gyfer trin neu brosesu bwyd o dan yr amgylchiadau hyn fod:

[28] Adran 9(4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

- wedi'u cytuno gan y swyddog awdurdodedig, a'r perchennog neu'r person sy'n rheoli'r bwyd
- yn amodol ar ymrwymiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi

Rhaid i unrhyw drefniant sy'n cynnwys bwyd yn cael ei symud i ardal Awdurdod Cymwys arall i'w drin neu ei brosesu gael ei dderbyn gan yr Awdurdod Cymwys sy'n cael y bwyd cyn llunio'r cytundeb.

Argymhellir gwneud trefniadau i'r Awdurdod Cymwys hwnnw gymryd camau i sicrhau bod y prosesu neu'r driniaeth yn digwydd, gan gynnwys cyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd os yw'n briodol.

Os na all yr Awdurdod Cymwys sy'n cael y bwyd dderbyn cyfrifoldeb am sicrhau bod y bwyd yn cael ei brosesu neu ei drin yn iawn, ni fyddai'r trefniant yn mynd yn ei flaen, oni bai nad oes unrhyw ffordd arall o unioni'r broblem gyda'r cynnyrch bwyd.

### 6.7.6.2 Atafael bwyd – Proses

Oni bai bod paragraffau blaenorol yr adran hon yn berthnasol, neu fod y defnydd o weithdrefnau gwirfoddol yn fwy priodol, mae angen atafael bwyd os oes gan swyddog awdurdodedig dystiolaeth nad yw'n bodloni gofynion diogelwch bwyd.

Os yw tystiolaeth yn dangos bod angen atafaelu bwyd sydd wedi'i gadw, mae'n ofynnol i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno Hysbysiad Condemnio Bwyd, yn rhoi rhybudd o'r bwriad i fynd â'r bwyd gerbron Ynad Heddwch a gwneud cais i'w gondemnio.

Mae'n ofynnol i Ynad Heddwch ymdrin â bwyd sydd wedi'i atafaelu[29] cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ac argymhellir bod hyn yn digwydd o fewn dau ddiwrnod. Os oes angen, gall yr amserlen hon fod yn hirach i sicrhau bod partïon yn gallu bod yn bresennol a chael eu cynrychioli os ydynt yn dewis gwneud hynny. [30]Mae angen i Ynad Heddwch ymdrin â bwyd sy'n mynd yn ddrwg yn gyflym cyn gynted ag y bo modd.

Mae angen rhoi cyfle i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd neu'r perchennog fod yn bresennol a chael ei gynrychioli os ydynt yn dewis gwneud hynny pan fydd yr Ynad Heddwch yn delio â'r bwyd. Argymhellir peidio ag oedi cyn gweithredu os na ellir olrhain na chysylltu â'r perchennog. Mae Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn ei gwneud yn ofynnol bod gan unrhyw un a allai gael eu herlyn yr hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Argymhellir dogfennu bod yr hysbysiad am y gwrandawiad wedi'i roi yn iawn a chadw'r dystiolaeth er mwyn dangos i'r Llys.

Mae angen i swyddog awdurdodedig sicrhau parhad tystiolaeth. Mae angen gwneud hyn p'un a oes erlyniad dilynol ai peidio. Ni ddylid gadael y bwyd heb ei ddiogelu ar ôl iddo gael ei atafael, oherwydd efallai y bydd yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig brofi mai'r bwyd a gyflawnir gerbron yr Ynad Heddwch yw'r bwyd a gafodd ei atafael.

---

[29] Adran 9(3)(b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990

Dim ond os yw'r swyddog awdurdodedig yn hyderus na fydd yn cael ei symud, ei ddefnyddio i'w fwyta gan bobl, na'r dystiolaeth yn cael ei dinistrio y caniateir gadael y bwyd.

Byddai'r ffaith bod bwyd wedi'i gondemnio gan Ynad Heddwch yn dwyn perswâd mewn unrhyw erlyniad. Fodd bynnag, ni fyddai hyn ar ei ben ei hun o reidrwydd yn sefydlu trosedd. Mae'n dal yn angenrheidiol i achos gael ei brofi y tu hwnt i amheuaeth resymol. Yn hyn o beth, gall tystysgrifau dadansoddi neu archwiliad fod o werth.

#### 6.7.6.3 Rhybudd condemnio bwyd

Mae angen rhoi Hysbysiad Rhybudd Condemnio Bwyd i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd ar ôl i'r penderfyniad i atafaelu bwyd gael ei wneud. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi manylion amser a lleoliad yr ymddangosiad gerbron Ynad Heddwch. Mae'r hysbysiad hwn yn weinyddol yn unig, ac felly gall unrhyw swyddog awdurdodedig ei lofnodi.

Nid oes angen i'r swyddog awdurdodedig sy'n cyflwyno'r hysbysiad feddu ar yr un cymwysterau â'r swyddog awdurdodedig a benderfynodd gadw neu atafael y bwyd. Fodd bynnag, mae angen i swyddog awdurdodedig fod yn ddigon cymwys i egluro pwrpas yr hysbysiad ac i ddelio ag unrhyw rwystr.

Gellir rhoi gwybod i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd, fel perchennog y bwyd, trwy ddosbarthu'r hysbysiad yn bersonol, dros ffacs, dros y ffôn, mewn e-bost, neu drwy ddulliau cyfathrebu cyflym eraill.

Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn achosion o atafael, oherwydd yr hawl a roddir gan Adran 9(5) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae hyn yn rhoi hawl i unrhyw berson a allai gael ei erlyn am werthu neu gynhyrchu bwyd anniogel ddod gerbron Ynad Heddwch, i gael gwrandawiad ac i alw tystion.

Pan gaiff bwyd ei atafaelu, argymhellir cyhoeddi hysbysiad ysgrifenedig o'r atafaeliad cyn gynted â phosib a chynnwys manylion am y math o fwyd a faint o fwyd a atafaelwyd, gan gynnwys unrhyw nodau, codau neu ddyddiadau arbennig.

Pan fydd y swyddog awdurdodedig yn bwriadu i Ynad Heddwch ymdrin â'r bwyd, mae'n ofynnol rhoi Hysbysiad Rhybudd Condemnio Bwyd i'r person sy'n gyfrifol am y bwyd. Argymhellir rhoi'r hysbysiad, lle bo modd, hefyd i berchennog y bwyd os yw'n wahanol i'r person sy'n gyfrifol.

Mae angen i Awdurdodau Cymwys ddefnyddio'r Hysbysiad Rhybudd Condemnio Bwyd a nodir yn Rheoliadau Cadw Bwyd (Ffurflenni Rhagnodedig) 1990.

### 6.7.7 Dinistrio neu gael gwared ar fwyd

Mae'r Awdurdod Cymwys yn gyfrifol am sicrhau bod bwyd sydd wedi'i gondemnio o dan Adran 9(6) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu a ildiwyd yn wirfoddol yn cael ei ddinistrio neu ei waredu'n briodol.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau bod trefniadau'n ar waith i'r bwyd gael ei oruchwylio nes y gellir delio ag ef yn y modd priodol. Os yw'n debygol y bydd rhywfaint o oedi cyn ei ddinistrio neu ei waredu, gellid difetha'r bwyd er mwyn atal unrhyw bosibilrwydd ei fod yn dychwelyd i'r gadwyn fwyd.

Yn achos dinistrio bwyd, mae angen i'r Awdurdod Cymwys ystyried gofynion deddfwriaeth berthnasol ar waredu gwastraff. Os nad yw'n bosib dinistrio'r bwyd yn llwyr, mae angen i Awdurdodau Cymwys sicrhau bod y bwyd wedi'i ddifetha i lefel fel na allai'r bwyd fyth gael ei ddefnyddio eto yn y gadwyn fwyd, er enghraifft trwy wasgu tuniau i'w gwaredu mewn safle tirlenwi trwyddedig addas.

Argymhellir cael copi o'r hysbysiad trosglwyddo gwastraff a'i gadw ar ffeil ar gyfer unrhyw fwyd a waredir gan gontractiwr gwaredu gwastraff trwyddedig o dan y trefniadau hyn.

## 6.8 Gweithdrefnau gwirfoddol

### 6.8.1 Gofynion cyffredinol

Gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol fel dewis arall yn lle camau gweithredu ffurfiol a gall naill ai swyddog awdurdodedig neu weithredwr busnes bwyd eu hawgrymu.

Argymhellir, lle defnyddir gweithdrefnau gwirfoddol, fod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau:

- eu bod yn ystyried y risgiau pe na bai busnes yn cydymffurfio â'r cytundeb gwirfoddol, gan nad oes cosb gyfreithiol yn erbyn gweithredwr am beidio â chadw ato, er y gallai camau gorfodi ffurfiol ar gyfer diffyg cydymffurfio barhau i fod yn opsiwn
- y byddai'r amgylchiadau wedi caniatáu i'r swyddog awdurdodedig gymryd camau gorfodi ffurfiol pe na chytunwyd ar y trefniant gwirfoddol
- bod gweithredwr y busnes bwyd yn cytuno bod achos o ddiffyg cydymffurfio
- y rhoddir y cytundeb gwirfoddol yn ysgrifenedig a chaiff ei lofnodi gan y swyddog awdurdodedig a gweithredwr y busnes bwyd
- bod y ddogfen yn nodi'n glir ei fod yn gytundeb gwirfoddol, gan sicrhau nad yw gweithredwr y busnes bwyd yn cael ei gamarwain i gredu ei fod yn hysbysiad ffurfiol
- bod y cytundeb gwirfoddol yn nodi'r achos o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys cyfeiriadau deddfwriaethol
- bod y cytundeb gwirfoddol yn nodi'n glir yr hyn y mae'r gweithredwr yn cytuno iddo (er enghraifft, yn gwahardd defnyddio safle)
- bod y cytundeb gwirfoddol yn nodi'n glir nad oes apêl ffurfiol na hawl i iawndal
- y cynghorir gweithredwr y busnes bwyd i geisio cyngor cyfreithiol cyn llofnodi
- os nad yw gweithredwr y busnes bwyd yn bresennol, fod gan unrhyw reolwr sy'n cytuno i'r trefniadau gwirfoddol awdurdod y gweithredwr i gytuno ar gamau gweithredu o'r fath

### 6.8.2 Gwaharddiadau gwirfoddol

Mae gwaharddiadau gwirfoddol yn golygu bod gweithredwr y busnes bwyd yn ymrwymo i beidio â defnyddio safle, offer, proses neu driniaeth a nodir yn y cytundeb gwirfoddol, fel y bo'n briodol, i gael gwared ar gyflwr risg iechyd.

Gellir defnyddio gwaharddiadau gwirfoddol pan:

- fo gweithredwr busnes bwyd yn cytuno bod cyflwr risg iechyd yn bodoli (er enghraifft, mae risg o niwed i iechyd ar fin digwydd)

- fyddai'r swyddog awdurdodedig wedi gallu defnyddio HEPN neu EPN

Wrth ddyroddi gwaharddiad gwirfoddol, mae angen i'r swyddog awdurdodedig ystyried a oes risg y bydd defnydd o safle, offer, proses neu driniaeth yn parhau, heb wybodaeth a/neu gytundeb i'r swyddog awdurdodedig. Pe bai gweithrediad parhaus yn achosi digwyddiad bwyd, gellid beirniadu'r Awdurdod Cymwys am beidio â defnyddio pwerau statudol.

Pan fydd gweithredwr busnes bwyd yn cytuno ar waharddiad gwirfoddol, argymhellir bod y ddogfennaeth ysgrifenedig yn cynnwys ymrwymiad gan weithredwr y busnes bwyd i beidio ag ailagor na defnyddio'r offer, y broses na'r driniaeth heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y swyddog awdurdodedig.

Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn sicrhau bod gwiriadau rheolaidd ar waith yn y sefydliad er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y gwaharddiad gwirfoddol hwn.

### 6.8.3 Ildio/dinistrio gwirfoddol

Gellir defnyddio ildio/dinistrio gwirfoddol i gael gwared ar fwyd nad yw'n addas i'w fwyta gan bobl o'r gadwyn fwyd. Gellir ei ddefnyddio pan fydd perchennog y bwyd yn cytuno nad yw'r bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl.

Argymhellir rhoi derbynneb ar gyfer bwyd sy'n cael ei ildio'n wirfoddol i'r Awdurdod Cymwys i'w ddinistrio, sy'n:

- cadarnhau bod y bwyd wedi'i ildio'n wirfoddol i'r Awdurdod Cymwys i'w ddinistrio (gyda'r rhesymau dros hyn)
- cael ei lofnodi a'i gyd-lofnodi gan y swyddog awdurdodedig a'r person sy'n ildio'r bwyd
- cynnwys lle i gofnodi'r amser, y lleoliad, a'r dull o ddinistrio'r bwyd
- cael ei gadw gan yr Awdurdod Cymwys

Fel rhan o'r ildiad gwirfoddol, argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn sicrhau cytundeb gan y perchennog i dalu'r treuliau rhesymol ar gyfer dinistrio neu waredu. Os na wneir hyn, yr Awdurdod Cymwys fydd yn talu'r treuliau.

Gall defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol hefyd gyfrannu at amddiffyniad mewn unrhyw erlyniad dilynol. Gellid dadlau, er enghraifft, nad oedd y bwyd wedi'i halogi cymaint nes bod yn rhaid ei atafael.

Gall y ffaith bod Ynad Heddwch wedi condemnio bwyd ddwyn perswâd mewn unrhyw erlyniad, ond ni fyddai o reidrwydd yn sefydlu trosedd. Byddai dal angen profi achos y tu hwnt i amheuaeth resymol.

## 6.9 Erlyn

### 6.9.1 Cyflwyniad

Cyn cychwyn achos erlyn am droseddau cyfraith bwyd, mae angen i'r Awdurdod Cymwys sicrhau:

- ei fod wedi ystyried ei bolisi gorfodi ei hun a Chod Erlynwyr y Goron

- y ceir tystiolaeth o'r diffyg cydymffurfio
- bod parhad tystiolaeth yn cael ei gynnal

#### 6.9.2 Terfyn amser ar gyfer erlyniad

Lle mae Awdurdodau Cymwys yn penderfynu erlyn, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn cychwyn achos o fewn unrhyw amserlen a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol. Er enghraifft, mae Rheoliad 16 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ac Adran 34 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn nodi na fydd unrhyw erlyniad yn cychwyn ar ôl tair blynedd o gyflawni'r drosedd, neu flwyddyn o'i darganfod gan yr erlynydd, pa un bynnag sydd gynharaf.

## 6.10 Gwiriadau dilynol

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cymwys gymryd camau priodol i sicrhau bod gweithredwr y busnes bwyd yn unioni unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio ac yn atal achosion pellach o'r fath.[31]

Gellir defnyddio gwiriadau dilynol i sicrhau bod achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi'u datrys. Mae'r Cod yn amlinellu pryd y dylid cynnal gwiriadau dilynol. Gall swyddogion hefyd ystyried y canlynol:

- cam(au) gweithredu sy'n ofynnol yn dilyn y rheolaeth swyddogol gynharach
- hanes cydymffurfio
- agwedd gweithredwr y busnes bwyd tuag at ddiogelwch bwyd
- dyddiad y rheolaeth swyddogol nesaf

Gellir cymryd camau priodol yn gorfforol neu o bell i wirio bod cydymffurfiaeth wedi'i chyflawni, a gallai hyn gynnwys camau gweithredu fel:

- ailymweliadau corfforol â'r busnes bwyd
- adolygu gwybodaeth a ddarperir gan y busnes o bell yn dilyn rheolaeth swyddogol, er enghraifft, ffotograffau a/neu ddogfennaeth
- samplu
- casglu gwybodaeth/cudd-wybodaeth

Rhaid i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth benderfynu ar amseriad unrhyw wiriad dilynol yn dilyn y rheolaeth swyddogol gynharach, ynghyd ag amlder y gwiriad dilynol a allai fod yn ofynnol. Rhaid i'r math o wiriad(au) dilynol, eu hamseriad a'u hamlder fod yn rhesymol, yn gymesur, yn seiliedig ar risg ac yn gyson.

## 6.11 Gorfodi mewn sefydliadau yn amodol ar gymeradwyaeth

#### 6.11.1 Cyflwyniad

Yn ogystal â'r pwerau gorfodi y manylir arnynt uchod, mae pwerau eraill ar gael i swyddogion awdurdodedig o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid

[31] Erthygl 138 o Reoliad (UE) 2017/625

a Bwyd (Cymru) 2009 mewn perthynas â sefydliadau y mae'n rhaid eu cymeradwyo o dan Reoliad 853/2004.

Darperir pwerau i dynnu'n ôl, neu atal, cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 gan Erthygl 138(2)(j) o Reoliad (UE) 2017/625.

Effaith uniongyrchol atal neu dynnu cymeradwyaeth sefydliad yn ôl yw na ellir defnyddio'r sefydliad ar gyfer unrhyw weithgareddau a fyddai'n golygu bod rhaid ei gymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, neu i roi POAO ar farchnad y DU.

Mae hefyd gan Awdurdodau Cymwys bwerau i gyflwyno RANs mewn sefydliadau sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) 853/2004, gan gynnwys y sefydliadau hynny y mae angen cymeradwyaeth arnynt ond nad ydynt wedi'u cymeradwyo eto. Wrth ganfod achos o ddiffyg cydymffurfio mewn sefydliadau (y mae'n rhaid eu cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004), argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys yn archwilio opsiynau gorfodi eraill i reoli'r peryglon bwyd cyn ystyried atal neu dynnu'n ôl.

Nid yw diffyg cydymffurfio o reidrwydd yn rheswm digonol i gyfiawnhau atal neu ddileu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn syth. Lle bo'n briodol, gellir rhoi cyfle rhesymol i weithredwr y busnes bwyd sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae canllawiau manwl ar dynnu cymeradwyaeth yn ôl ac atal cymeradwyaeth i'w gweld yn y ddogfen Cymeradwyo Sefydliadau: Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol

### 6.11.2 Hysbysiadau bod cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol wedi'i hatal neu ei thynnu'n ôl

O dan Erthygl 138(3) o Reoliad (UE) 2017/625, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cymwys hysbysu gweithredwr y busnes bwyd yn ysgrifenedig o'i benderfyniad i atal neu dynnu cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad yn ôl.

Byddai'r hysbysiad hwn yn:

- nodi'r rhesymau dros atal neu dynnu'n ôl
- nodi'r materion sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion y Rheoliad
- ei gwneud yn glir na ellir ymgymryd â gweithgareddau sydd gofyn eu cymeradwyo
- rhoi gwybod i weithredwr y busnes bwyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, gan gynnwys gwybodaeth am y terfyn amser[32], a darparu cyfeiriad y Llys Ynadon lle gellir gwneud apêl o'r fath

Rhaid cadw copïau o hysbysiadau mewn ffeiliau Awdurdod Cymwys. Dylai'r Awdurdod Cymwys hysbysu'r ASB pan fydd cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol sefydliad wedi cael ei hatal neu ei thynnu'n ôl (edrychwch ar Bennod 2)

[32] Rheoliad 12(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

### 6.11.3 Apeliadau yn erbyn atal neu dynnu gymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl

Mae gan weithredwr busnes bwyd yr hawl i apelio i Lys perthnasol yn erbyn penderfyniad i dynnu neu atal cymeradwyaeth neu gymeradwyaeth amodol yn ôl. Mae hawliau apelio yn ddarostyngedig i Reoliad 12 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Ni all y sefydliad barhau i weithredu tra bo apêl yn cael ei phenderfynu. Mae'r cyfnod amser hwn yn weithredol o'r dyddiad y cyflwynir hysbysiad o'r penderfyniad i'r person perthnasol, waeth a yw'n atal neu'n tynnu cymeradwyaeth yn ôl.

### 6.11.4 Hysbysiadau cadw

Darperir pwerau i gyflwyno Hysbysiadau Cadw mewn perthynas â sefydliadau y mae gofyn eu cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 gan reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Rhaid i gamau o'r fath fod yn gymesur â'r risg i iechyd y cyhoedd a'u defnyddio dim ond lle mae angen gweithredu ar unwaith i sicrhau diogelwch bwyd.

Os cyflwynir RAN oherwydd yr amodau neu'r arferion a ganfuwyd wrth arolygu sefydliad sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004, ystyrir hefyd a yw bwyd yn y sefydliad yn cael ei gadw at ddibenion archwilio drwy Hysbysiad Cadw o dan Reoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

#### 6.11.4.1 Hysbysiadau cadw

Mae Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw unrhyw fwyd at ddibenion archwilio, gan gynnwys cymryd samplau, drwy gyflwyno Hysbysiad Cadw.

Mae Hysbysiad Cadw Rheoliad 9 yn wahanol i hysbysiad a gyflwynir o dan Adran 9 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Dim ond mewn sefydliad sy'n gweithredu mewn modd sy'n gofyn am gymeradwyaeth neu sydd wedi'i gymeradwyo y gellir ei weini.

Mae amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno Hysbysiad Cadw Bwyd yn cynnwys lle mae arwyddion neu amheuon bod bwyd mewn sefydliad yn anniogel ac felly mae angen archwilio.

Os yw'r swyddog awdurdodedig yn fodlon nad oes angen cadw'r bwyd mwyach caiff, mae'n ofynnol tynnu'r hysbysiad perthnasol yn ôl drwy gyfrwng hysbysiad ysgrifenedig pellach.

### 6.11.5 Ffurflenni templed

Mae'r templedi canlynol i'w cael ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB:

- Hysbysiad cadw
- Hysbysiad i Dynnu'r Gorchymyn Cadw

Mae ffurflenni enghreifftiol ar gyfer tynnu cymeradwyaeth yn ôl neu atal cymeradwyaeth ar gael hefyd ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB.

## 6.12 Gorfodi mewn perthynas â bwyd a fewnforir

### 6.12.1 Pwerau gorfodi ar gyfer bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid a fewnforir

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn rhoi pwerau gorfodi i Awdurdodau Cymwys wrth gyflawni rheolaethau swyddogol ar fwyd nad yw'n dod o anifeiliaid (FNAO) o du allan i'r DU, naill ai ar y man cyrraedd neu'n fewndirol.

#### 6.12.1.1 Cadw

Pan fydd gan swyddog awdurdodedig, at ddibenion archwilio mewn mannau cyrraedd, neu archwiliad gohiriedig mewn Cyfleuster Storio Dros Dro Allanol (ETSF), terfynfeydd rheilffordd rhyngwladol neu fan cyrraedd arall, amheuon am gydymffurfiaeth, hunaniaeth neu gyrchfan benodol llwyth, mae Erthygl 65 o Reoliad (UE) 2017/625 a Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu i'r cynnyrch gael ei gadw hyd nes y ceir canlyniadau unrhyw archwiliad sy'n gysylltiedig â'r rheolaethau swyddogol.

Pan fo swyddog awdurdodedig wedi cadw llwyth bwyd yn ddibynnol ar unrhyw ganlyniadau archwilio, mae'n ofynnol iddo roi gwybod i'r person/mewnforiwr sy'n gyfrifol am y llwyth bwyd yn ysgrifenedig, gan gyflwyno hysbysiad o dan Reoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Mae'n ofynnol i'r hysbysiad nodi na ddylid symud y bwyd o'r lle a nodir, hyd nes bod y swyddog awdurdodedig wedi ystyried canlyniadau'r archwiliad yn iawn.

Nid yw Erthygl 65 o Reoliad (UE) 2017/625 a Rheoliad 31 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn pennu terfyn amser ar gyfer archwilio ac ymchwilio i lwythi. Fodd bynnag, argymhellir cwblhau archwiliadau a/neu gyfnodau cadw o'r fath cyn gynted ag sy'n bosib er mwyn osgoi tarfu'n afresymol ar y masnachu.

Pan gyflwynir samplau i'w dadansoddi neu eu harchwilio, a bod y llwyth yn cael ei gadw gan ddibynnu ar y canlyniadau, argymhellir bod yr Awdurdodau Cymwys yn rhoi gwybod i'r dadansoddwr neu'r archwiliwr o'r ffaith honno a sicrhau bod y llwyth yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel.

Cynghorir hefyd fod y mewnforiwr neu asiant y mewnforiwr yn cael gwybod am ganlyniadau'r dadansoddiad/archwiliad cyn gynted â phosib a'u bod yn cael copi o'r dystysgrif dadansoddi/archwilio.

Mae angen trefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd sy'n cael ei gadw yn cael ei storio'n briodol, yn enwedig er mwyn atal croeshalogi nwyddau eraill.

#### 6.12.1.2 Llwythi bwyd sy'n niweidiol i iechyd pobl neu anifeiliaid neu sydd yn anniogel

Mae Erthygl 67 o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo rheolaethau swyddogol yn nodi bod llwyth yn niweidiol i iechyd pobl neu'n anniogel, ei fod yn cael ei ynysu neu ei roi mewn cwarantîn hyd nes y ceir unrhyw benderfyniad pellach.

Mae angen i'r Awdurdod Cymwys gadw'r llwyth dan fesurau swyddogol hyd nes iddo gael ei ddinistrio, neu hyd nes iddo fod yn destun triniaeth arbennig yn unol ag Erthygl 71(1) a 71(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

Mae angen ymdrin â bwyd sydd i'w ddinistrio neu ei waredu mewn modd sy'n sicrhau nad oes unrhyw bosibilrwydd y bydd yn ailymuno â'r gadwyn fwyd. Dylid cadw copïau o nodiadau gwaredu gwastraff  ar ffeil.

#### 6.12.1.3 Llwythi bwyd nad ydynt yn cydymffurfio â chyfraith bwyd

Os yw'n ymddangos i swyddog awdurdodedig wrth arolygu neu archwilio bwyd, nad yw swp, lot neu lwyth yn cydymffurfio â chyfraith bwyd, mae Rheoliad 32 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 yn caniatáu, ar ôl clywed gan y gweithredwr sy'n gyfrifol amdano, i'r swyddog awdurdodedig gyflwyno hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol:

- dinistrio'r llwyth perthnasol yn unol ag Erthygl 67 o Reoliad (UE) 2017/625
- bod y bwyd yn destun triniaeth arbennig yn unol ag Erthygl 71 o Reoliad (UE) 2017/625
- ailddosbarthu'r bwyd y tu allan i Brydain Fawr yn unol ag Erthygl 72 o Reoliad (UE) 2017/625
- bod y bwyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwahanol i'r dibenion gwreiddiol.

Yn ymarferol, bydd angen llunio'r opsiynau a bennir yn yr hysbysiad ar ôl ymgynghori'n briodol gyda'r person sy'n mewnforio'r bwyd, neu ei gynrychiolydd.

Gall unrhyw benderfyniad ynghylch cymeradwyo defnydd amgen o nwyddau a wrthodwyd gael ei lywio gan unrhyw ganllawiau perthnasol ar briodoldeb y defnydd amgen neu ail-allforio.

#### 6.12.1.4 Triniaethau arbennig

Gall triniaeth arbennig gynnwys:

- triniaeth neu brosesu i sicrhau bod bwyd yn unol â gofynion:
  - cyfraith y DU
  - y wlad y tu allan i'r DU lle caiff y bwyd ei ailddosbarthu iddi
- triniaeth mewn unrhyw fodd addas arall at ddibenion heblaw am fwyta gan bobl neu anifeiliaid

Lle caniateir triniaeth arbennig, mae angen cysylltu ag unrhyw Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill i sicrhau bod y prosesu angenrheidiol wedi'i gynnal.[33] Gellir defnyddio'r broses hon hefyd lle mae cynnyrch nad yw'n cydymffurfio yn cael ei fewnforio'n benodol er mwyn cael ei drin i gydymffurfio â chyfraith y DU.

Gall triniaeth arbennig gynnwys dadhalogi, lle bo hynny'n briodol, ond nid ei wanedu.

[33] Erthygl 71(2)(b) o Reoliad (UE) 2017/625

#### 6.12.1.5 Ailddosbarthu llwythi

Dim ond o dan yr amodau canlynol y gellir ailddosbarthu llwyth y tu allan i Brydain Fawr[34]:

- mae'r gyrchfan wedi'i chytuno gyda gweithredwr y busnes bwyd sy'n gyfrifol am y llwyth
- mae'r gweithredwr wedi rhoi gwybod i Awdurdod Cymwys y wlad cyrchfan y tu allan i'r DU pam y cafodd ei wrthod i'w fewnforio i Brydain Fawr.
- mae Awdurdod Cymwys y wlad cyrchfan y tu allan i'r DU (os nad yw'r un peth â'r wlad tarddiad y tu allan i'r DU) wedi hysbysu'r Awdurdod Cymwys perthnasol yn y DU o'i barodrwydd i dderbyn y llwyth

Mae'n ofynnol cadw'r llwyth yn swyddogol hyd nes y caiff ei ailddosbarthu.

Mae Erthygl 69 o Reoliad (UE) 2017/625 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ailddosbarthu ddigwydd cyn pen 60 diwrnod ar ôl i'r Awdurdod Cymwys hysbysu'r gweithredwr o gyrchfan y llwyth. Fodd bynnag, gellir ymestyn y cyfnod hwn i gael canlyniadau gan ail farn arbenigol, cyn belled â nad oes unrhyw effaith andwyol ar iechyd pobl. Fel arall, bydd y llwyth yn cael ei ddinistrio.

Pan fydd cynnyrch yn cael ei ailddosbarthu, rhaid rhoi hysbysiadau sy'n nodi'r cynnyrch a'i gyrchfan terfynol i'r ASB, a fydd wedyn yn hysbysu Cyllid a Thollau EF.

#### 6.12.1.6 Apeliadau yn erbyn hysbysiadau a gyflwynir o dan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009

Dylid rhoi gwybod i'r mewnforiwr am benderfyniad yr Awdurdod Cymwys trwy hysbysiad ysgrifenedig.

Mae hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cymwys a ddarperir gan Reoliad 33 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Mae'n ofynnol apelio yn erbyn yr hysbysiad cyn pen mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad.

#### 6.12.1.7 Darpariaethau eraill

Gall mewnforio bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd hefyd fod yn destun darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd, sy'n cynnwys pwerau cadw ac atafaelu.

Wrth benderfynu ar y camau i'w cymryd, mae angen i swyddogion awdurdodedig ystyried:

- Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009
- Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013
- unrhyw Reoliadau Rheoli Brys perthnasol, a allai ddarparu pwerau cadw penodol a darpariaethau hysbysu mewn perthynas â rhai bwydydd

[34] Erthygl 72 o Reoliad (UE) 2017/625

#### 6.12.2 Pwerau gorfodi ar gyfer cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid (POAO) a fewnforir

Pan ddarganfyddir mewnforion anghyfreithlon o gynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid yn fewndirol mewn ardal/safle y tu allan i reolaeth Tollau, yr Awdurdodau Cymwys lleol ar gyfer yr ardal honno sy’n gyfrifol am gamau gorfodi.

Pan fo swyddog awdurdodedig yn dymuno cadw unrhyw gynhyrchion POAO sydd wedi’u darganfod yn fewndirol, er mwyn ymchwilio ymhellach i bennu a ydynt yn ddiogel neu’n cydymffurfio, gellir ceisio cydweithrediad gwirfoddol yn y lle cyntaf.

Mewn sefyllfaoedd lle nad yw hyn yn bosib, darperir darpariaethau gorfodi o dan Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Cymru) 2011.

#### 6.12.3 Canllawiau pellach

Mae canllawiau pellach ar y darpariaethau gorfodi sy’n ymwneud â bwyd a fewnforir, gan gynnwys gweithdrefnau, hysbysiadau a ffurflenni, ar gael ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu’r ASB.

### 6.13 Sefydliadau’r Goron

#### 6.13.1 Cyflwyniad

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth am y dull gorfodi ar safleoedd y Goron ac mewn safleoedd sydd ym meddiant yr heddlu. Nid yw’n berthnasol i safleoedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) nac Ymddiriedolaethau’r GIG oherwydd nad ydynt yn safleoedd y Goron.

#### 6.13.2 Pwerau mynediad a rheolaethau swyddogol

##### 6.13.2.1 Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Gellir defnyddio’r pwerau mynediad o dan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 ar gyfer materion safonau bwyd, mewn perthynas â safleoedd yr heddlu a’r rhan fwyaf o safleoedd y Goron (oni bai bod gweinidogion Cymru yn ardystio na ddylid gallu arfer pwerau mynediad mewn perthynas â safleoedd a gedwir neu a ddefnyddir gan y Goron) i ymchwilio i gwynion ac i gynnal rheolaethau swyddogol yn yr un modd ag y maent yn ei wneud mewn unrhyw fusnes bwyd arall. Felly mae gan swyddogion awdurdodedig y pŵer i gael mynediad i safleoedd yr heddlu a’r rhan fwyaf o safleoedd y Goron.

Fodd bynnag, nid yw darpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys i’w Fawrhydi y Brenin nac i Ddug Cernyw yn bersonol, nac i safleoedd a feddiannir ganddynt yn eu swyddi preifat fel eu preswylfeydd preifat yn Sandringham neu Highgrove.

Yn ogystal, gall Gweinidog Cymru fod wedi rhoi tystysgrif diogelwch cenedlaethol i ardystio na ellir arfer pwerau mynediad o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Os yw swyddog awdurdodedig yn ceisio mynediad i safleoedd y Goron ac yn cael ei hysbysu bod tystysgrif o’r fath wedi’i dyfarnu, mae gan y swyddog yr hawl i weld y dystysgrif neu gopi ohoni.

### 6.13.2.2 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Mae cwmpas Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ymestyn i safleoedd yr heddlu, safleoedd y Goron ac i bobl yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron. Felly mae gan swyddogion awdurdodedig y pŵer i fynd i mewn i safleoedd yr heddlu a safleoedd y Goron i ymchwilio i gwynion ac i gynnal rheolaethau swyddogol yn yr un modd ag y maent yn ei wneud mewn unrhyw fusnes bwyd arall.

Gellir defnyddio'r pwerau mynediad o dan Reoliad 14 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â safleoedd y Goron, gan nad yw'r Rheoliadau'n cynnwys yr eithriadau penodol ar gyfer rhai aelodau o'r Teulu Brenhinol neu rai preswylfeydd Brenhinol a roddir gan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn defnyddio disgresiwn wrth arfer eu pwerau mewn perthynas â safleoedd y Goron, ac yn ymarferol, yn ceisio mabwysiadu'r un dull o orfodi Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Cymru) 2006 yn safleoedd y Goron ag y maent yn ei wneud mewn perthynas â Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

### 6.13.2.3 Cynnal rheolaethau swyddogol a pha mor aml y cynhelir y rhain

Mae busnesau bwyd yn safleoedd y Goron a safleoedd yr heddlu, ac eithrio cyfleusterau arlwyo dros dro neu mewn caeau mewn gwersylloedd hyfforddi milwrol, yn cael eu cynnwys yn rhaglen yr Awdurdod Cymwys o reolaethau swyddogol gynlluniedig yn unol â'r Cod.

Byddai ceginau parhaol sy'n gwasanaethu gwersylloedd hyfforddi milwrol yn destun rheolaethau swyddogol ar adegau y maent yn cael eu defnyddio, o fewn ffiniau cyfyngiadau diogelwch a fydd yn dibynnu ar y sefydliad sy'n defnyddio'r cyfleuster ar y pryd.

Nid yw ceginau maes symudol yn destun ymyriadau gan yr Awdurdod Cymwys.

### 6.13.3 Categorïau safleoedd y Goron

At ddibenion cael mynediad, mae safleoedd y Goron yn perthyn yn fras i dri chategori, er y gall safleoedd symud o un categori i'r llall rhwng rheolaethau swyddogol.

**Grŵp 1** – yn cynnwys safleoedd a leolir ar dir y Goron lle na cheir unrhyw oblygiadau diogelwch fel arfer, er enghraifft bwytai mewn amgueddfeydd neu Barciau Brenhinol. Dylid ymdrin â'r safleoedd hyn fel unrhyw fusnes bwyd arall.

Fel arfer nid oes angen trefnu rheolaeth swyddogol ymlaen llaw ar gyfer safle Grŵp 1.

**Grŵp 2** – yn cynnwys safleoedd â mynediad sy'n cael ei reoli ond lle nad oes llawer o oblygiadau diogelwch fel arfer. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd y llywodraeth a'r heddlu'n perthyn i'r categori hwn. Maent yn debyg i lawer o fusnesau preifat sydd â systemau diogelwch.

Rhaid trefnu ymweliadau cychwynnol â safleoedd Grŵp 2 ymlaen llaw. Gellir cynnal ymweliadau wedi hynny heb roi gwybod ymlaen llaw, ond argymhellir cytuno ar drefniadau ar gyfer ymweliadau dilynol yn ystod yr arolygiad cyntaf a'u cadarnhau'n ysgrifenedig.

**Grŵp 3** – yn cynnwys safleoedd lle nad yw'n bosib cael mynediad dirybudd oherwydd goblygiadau diogelwch a/neu ddiogelwch personol y swyddog awdurdodedig, er enghraifft Lluoedd Arfog EF, sefydliadau amddiffyn a diogelwch cenedlaethol, carchardai a chanolfannau remánd, a rhannau o safleoedd yr heddlu sy'n darparu ar gyfer carcharorion.

Dylid ymweld â safleoedd Grŵp 3 trwy drefnu hynny ymlaen llaw bob tro gyda'r cyswllt priodol yn y sefydliad perthnasol, er enghraifft swyddog diogelwch y sefydliad amddiffyn, y prif swyddog neu gynrychiolwr enwebedig yn un o sefydliadau Lluoedd Arfog EF, Llywodraethwr sefydliad gwasanaeth carchar, neu'r swyddog â gofal am safleoedd yr heddlu. Bydd hyn yn golygu y gall y swyddog awdurdodedig gael mynediad heb oedi gormodol. Gellir atgoffa'r person cyswllt o'r pŵer i gael mynediad os yw swyddog awdurdodedig o'r farn fod yr apwyntiad a gynigir yn rhy bell ymlaen llaw.

Bydd swyddogion awdurdodedig sydd heb dderbyn cliriad diogelwch yn destun gweithdrefnau rheoli ymwelwyr ac yn cael eu hebrwng drwy'r amser. Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn cario cerdyn adnabod sy'n cynnwys llun ohonynt.

Gall fod adegau pan na fydd yn bosib cynnal rheolaeth swyddogol neu barhau â rheolaeth swyddogol mewn safleoedd Grŵp 3. Ni fyddai unrhyw gyfyngiad rhesymol o'r fath yn cael ei ystyried yn rhwystr.

Os yw'n ofynnol, mae angen rhoi enw, dyddiad geni, a rhif cerdyn neu bàs (os oes un) y swyddog a rhif cofrestru cerbyd y swyddog ymlaen llaw cyn ymweld â safle Grŵp 3.

Os nad yw Awdurdod Cymwys yn siŵr sut i ddosbarthu safle penodol sy'n dod o dan yr adran hon, argymhellir ei drin fel safle Grŵp 3 a'i adolygu yn ddiweddarach, os oes angen.

Os bydd digwyddiad fel brigiad o achosion o wenwyn bwyd yn codi, gall fod yn ofynnol i swyddog ymweld â safle ar fyr rybudd, er ei bod fel arfer yn ofynnol rhoi rhybudd ymlaen llaw. Mae'n hanfodol ffonio safleoedd Grŵp 3 i roi gwybod iddynt fod y swyddog ar y ffordd, a gall arbed amser o ran cael mynediad i safleoedd Grŵp 2. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd fel arfer yn dderbyniol rhoi rhybudd byr iawn am ymweliad o'r fath.

Mae angen i swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol o faterion cyfrinachedd wrth ymweld â'r rhannau hynny o safleoedd lle mae carcharorion yn byw. Gellir trafod y fath faterion wrth drefnu'r ymweliad.

Mae rheolaethau swyddogol i fod yn gyfyngedig i ardaloedd a ddefnyddir gan y busnes bwyd neu lle cedwir cofnodion sy'n ymwneud â'r busnes, oni bai fod yr ymweliad yn ymwneud ag ymchwilio i achos o salwch a gludir gan fwyd a'i bod yn ofynnol arolygu mannau eraill fel rhan o'r ymchwiliad.

Ni ddylai ymweliad rwystro nac ymyrryd â gweithgareddau milwrol.

Bydd angen i swyddogion awdurdodedig gydymffurfio â gofynion diogelwch y sefydliad perthnasol, gan gynnwys archwilio bagiau a gwirio hunaniaeth.

#### 6.13.3.1 Ffotograffau

Argymhellir, cyn cymryd unrhyw ffotograffau, gwneud unrhyw frasluniau (*sketches*) neu gymryd mesuriadau ar safleoedd Grŵp 3, fod y swyddog awdurdodedig yn trafod y fath faterion â'r swyddog sy'n ei hebrwng ac ystyried unrhyw ofynion eraill.

Oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol er mwyn darlunio achos posib o dorri gofynion y ddeddfwriaeth, argymhellir peidio â chynnwys unigolion mewn ffotograffau ar safleoedd Grŵp 3. Yn ogystal, os tynnir lluniau mewn carchar neu sefydliad cadw, ni ddylid gallu adnabod unrhyw unigolyn.

### 6.13.4 Gorfodi

#### 6.13.4.1 Deddf Diogelwch Bwyd 1990

Mae Adran 54(2) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn nodi nad yw'r Goron yn atebol yn droseddol os yw'n mynd yn groes i'r Ddeddf neu'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion a wneir oddi tani. Mae hyn yn golygu na ellir erlyn y Goron os yw'n mynd yn groes i'r Ddeddf.

Fodd bynnag, gall Awdurdod Cymwys wneud cais, yn Is-adran Mainc y Brenin yn yr Uchel Lys, am ddatganiad bod unrhyw weithred neu anwaith ('omission') y Goron, sy'n gyfystyr â mynd yn groes i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 neu Reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, yn anghyfreithlon.

Mae angen ystyried hunaniaeth perchennog y busnes bwyd dan sylw yn ofalus os bydd cwestiwn gweithredu o dan gyfraith bwyd yn codi.

Gellir erlyn arlwywyr contract sy'n gweithredu ar safle'r Goron gan nad ydynt yn ddarostyngedig i'r eithriad hwn. Mae angen ystyried yn ofalus hefyd y cwestiwn ynghylch methiant pwy a achosodd y tramgwydd.

Er y gellir erlyn arlwywyr contract sy'n gweithredu ar safle'r Goron, gallai'r Goron ei hun fod yn gyfrifol am fethiannau strwythurol.

Rhaid cyfeirio unrhyw gais o dan Adran 54(2) at weinidogion Cymru neu Bennaeth yr Adran a'i anfon at Gyfreithiwr yr Adran Lywodraeth berthnasol.

Byddai'r wŷs yn cael ei hanfon at brif swyddog corff Llywodraeth Anadrannol.

#### 6.13.4.2 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

Yn wahanol i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, nid yw Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn eithrio'r Goron os yw'n mynd yn groes i'r rheoliadau. Mae hyn yn golygu y gellir erlyn y Goron os yw'n mynd yn groes i'r rheoliadau.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn defnyddio disgresiwn wrth arfer eu pwerau mewn perthynas â safleoedd y Goron, ac yn ymarferol, yn ceisio mabwysiadu'r un dull o orfodi Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â safleoedd y Goron ag y maent yn ei wneud mewn perthynas â Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

#### 6.13.4.3 Sefyllfa gweision sifil neu lywodraeth unigol

Er bod y Goron yn rhydd rhag cael ei herlyn o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, gellir erlyn unigolion yng ngwasanaeth cyhoeddus y Goron yn yr un modd ag unrhyw berson arall.

Felly, gallai methu â chydymffurfio â darpariaethau cyfraith bwyd arwain at y risg o erlyn gwas sifil neu was llywodraeth unigol.

Argymhellir nad yw Awdurdodau Cymwys yn ystyried erlyn gwas sifil neu lywodraeth unigol yn lle cymryd camau yn erbyn y Goron. Dim ond os byddai'r amgylchiadau wedi arwain at erlyn unigolyn yn achos unrhyw fusnes arall y byddai camau gweithredu'n cael eu hystyried.

#### 6.13.4.4 Hysbysiadau Statudol

Nid yw cyflwyno EPN ynddo'i hun yn golygu bod y sawl sy'n ei gael yn atebol yn droseddol. Felly gellir cyflwyno hysbysiadau o'r fath i'r Goron lle mai'r Goron yw gweithredwr y busnes bwyd dan sylw.

Dylid cyflwyno EPNs i weinidog Cymru neu'r Pennaeth Adran priodol ac anfon copi i'r Cyfreithiwr fel y disgrifir yn adran 6.12.4.1.

Er mwyn gallu gweithredu ar hysbysiadau o'r fath heb oedi gormodol, argymhellir eich bod yn eu copïo hefyd i'r person sy'n gyfrifol am y safle bwyd dan sylw, er enghraifft Llywodraethwr carchar, neu Brif Swyddog sefydliad milwrol.

Gall Awdurdodau Bwyd wneud cais yn y ffordd arferol i Lys Ynadon am EPO ar safle cyfan neu ran o safle'r Goron, neu i atal gweithrediad proses neu driniaeth benodol neu ddefnydd o ddarn o offer mewn busnes sy'n cael ei redeg gan y Goron.

Er y gall Llys Ynadon osod EPO, ni all osod PO. Dim ond mewn achosion lle ceir euogfarn o dan y gyfraith fwyd berthnasol y gellir gwneud PO.

Gall gweithredwr y busnes bwyd yn safle'r Goron apelio yn y ffordd arferol i Lys Ynadon yn erbyn Hysbysiad Gwella, a gall hefyd ymddangos ei fod yn dadlau yn erbyn gosod EPO.

Gall y Goron hefyd apelio yn erbyn gwrthod rhoi tystysgrif sy'n codi EPO.

Gall Awdurdod Cymwys wneud cais am ddatganiad yn yr Uchel Lys os yw busnes sy'n cael ei redeg gan y Goron yn methu â chydymffurfio â PO.

#### 6.13.4.5 Cyswllt â'r Prif Awdurdod/yr ASB

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn rhoi gwybod am unrhyw anawsterau a wynebir wrth orfodi cyfraith bwyd yn safleoedd y Goron i'r prif awdurdod, neu, os nad oes prif awdurdod neu os nad yw'n gallu helpu, i'r ASB.

# Pennod 7 Materion sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (pysgod cregyn)

## 7.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 7 yn ymdrin â'r canlynol:

- rheolaethau swyddogol a gwaith gorfodi sy'n ymwneud â molysgiaid dwygragennog byw (LBMs) byw, ac agweddau ar y canlynol:
  - Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rhif 853/2004
  - Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 2073/2005
  - Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/624
  - Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627 ynghylch LBMs

Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag LBMs yn gymwys i echinodermau byw, tiwnigogion ('tunicates') byw, a gastropodau morol byw, ac eithrio'r darpariaethau ar buro. Nid yw'r gofynion dosbarthu yn berthnasol i gregyn bylchog, gastropodau morol byw a *Holothuroidea* nad ydynt yn bwydo drwy hidlo.

## 7.2 Eithriad y farchnad leol (symiau bach)

Nid yw Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys i gyflenwi symiau bach o gynhyrchion cynradd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol nac i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol. Ar gyfer LBMs, mae swm bach yn cyfateb i gyfanswm o ddim mwy na 25 tunnell a gynaeafir mewn blwyddyn galendr. Gall yr uchafswm a gynaeafir mewn blwyddyn gynnwys gwahanol rywogaethau cyn belled â nad yw'r cyfanswm ar gyfer pob rhywogaeth na'r cyfanswm cyffredinol yn uwch. Mae manylion y lwfansau wedi'u nodi yn Nhabl 5.

**Tabl 5 – Lwfansau ar gyfer symiau bach o LBMs**

| **Rhywogaeth** | **Uchafswm blynyddol** |
|---|---|
| Cocos – *Cerastoderma edule* | 25.0 tunnell |
| Wystrys – *Ostrea edulis* a *Crassostrea gigas* | 5.0 tunnell |
| Cregyn y Brenin – *Pecten maximus* | 5.0 tunnell |
| Cregyn y Frenhines – *Aequipecten opercularis* | 10.0 tunnell |
| Cregyn gleision – *Mytilus spp.* | 20.0 tunnell |
| LBMs eraill | 10.0 tunnell |
| Gastropodau morol | 20.0 tunnell |

Er eu bod wedi'u heithrio o ofynion manwl Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, mae'n ofynnol i gynaeafwyr sy'n cyflenwi symiau bach gydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd ac olrhain.[35] Mae'r gofynion olrhain cyffredinol ar gyfer POAO yn Rheoliad (EU) Rhif 931/2011 hefyd yn gymwys.

Er mwyn i gynaeafwyr symiau bach fodloni gofynion diogelwch bwyd, dylai gweithredwyr busnesau bwyd ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig ag LBMs fel halogiad microbiolegol, halogiad feirysol, biotocsinau morol a halogiad cemegol a sicrhau bod risgiau o'r fath dan reolaeth.

Nid yw'r gofynion hyn yn berthnasol i folysgiaid dwygragennog byw a gesglir at ddefnydd domestig preifat a gall Awdurdodau Cymwys ystyried ei bod yn rhesymol tybio, oni bai bod arwydd i'r gwrthwyneb, bod unigolion sy'n casglu symiau bach sy'n dod i gyfanswm o lai na 5kg mewn diwrnod yn casglu at ddefnydd domestig preifat. Mae'r lefelau hyn ar gyfer LBMs 'cyfan' ac yn cynnwys pwysau'r gragen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal Awdurdodau Cymwys rhag mynd ar drywydd achosion lle mae amheuaeth o weithgarwch twyllodrus neu lle gallai iechyd y cyhoedd fod mewn perygl.

## 7.3 Ardaloedd cynhyrchu ac ailosod

### 7.3.1 Dosbarthu a monitro ardaloedd cynhyrchu ac ailosod

Yr ASB sy'n gyfrifol am ddosbarthu ardaloedd cynhyrchu ac ailosod LBMs. Darperir dosbarthiad yr ardaloedd hyn yn dilyn cais am ddosbarthiad (a ofynnir amdano gan y cynaeafwr a'r awdurdod lleol), ac ar ôl i'r ardal fodloni'r gofynion cyfreithiol perthnasol a'r rhai ym mhrotocol yr ASB ar gyfer dosbarthu ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys cwblhau arolwg ar lanweithdra (os oes angen) a gwaith samplu dosbarthu cychwynnol.

Cyhoeddir rhestr o feysydd cynhyrchu ac ailosod LBMs dosbarthedig a chynlluniau samplu ar wefan yr ASB.

### 7.3.2 Trosglwyddo grawn molysgiaid dwygragennog byw (LBMs) i ardaloedd cynhyrchu wedi'u dosbarthu

Gellir trosglwyddo grawn LBMs o ardaloedd nad ydynt wedi'u dosbarthu fel ardaloedd cynhyrchu i'w 'tyfu ymlaen' o fewn ardal gynhyrchu o unrhyw ddosbarth. Dylai LBMs o'r fath fod yn 'bysgod cregyn grawn' go iawn (pysgod cregyn sy'n rhy fach i'w marchnata). Mewn pysgodfeydd rheoleiddiedig at ddibenion cadwraeth o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967, dim ond ar gymeradwyaeth deiliad y Gorchymyn Rheoleiddio ar gyfer y bysgodfa honno y gellir gwneud trosglwyddiadau ac mewn trafodaeth â'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod o ran bioddiogelwch.

Caniateir trosglwyddo 'grawn pysgod cregyn', ar yr amod eu bod yn aros yn yr ardal gynhyrchu ddosbarthedig am gyfnod o ddim llai na chwe mis cyn iddynt gael eu cynaeafu i'w bwyta gan bobl. Fe'i cyfyngir i hadu ardaloedd newydd neu ail-hadu ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig presennol. Os caiff ardaloedd newydd eu hadu,

[35] Erthyglau 14 a 18 Rheoliad (CE) Rhif 178/2002

mae'n ofynnol eu dosbarthu cyn y gellir cynaeafu. Mae'n rhaid i gynaeafwyr roi gwybod i'r Awdurdod Cymwys perthnasol os ystyrir unrhyw symudiadau o'r fath.

## 7.4 Trefniadau cyswllt ar gyfer pysgod cregyn

Er mwyn gorfodi'r rheoliadau'n effeithiol, mae'n hanfodol fod Awdurdodau Cymwys cyfagos, gan gynnwys Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd, yn cynnal trefniadau cyswllt effeithiol.

Argymhellir bod pob grŵp gweithredu lleol ar gyfer pysgod cregyn yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol perthnasol eraill, gan gynnwys:

- Prif Swyddog Pysgodfeydd Awdurdod Pysgodfeydd a Chadwraeth y Glannau
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- labordai profi swyddogol

Gall aelodaeth o'r grŵp gweithredu lleol ar bysgod cregyn hefyd gynnwys pysgotwyr neu gasglwyr pysgod cregyn yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Cymwys perthnasol. Mae swyddogaeth y grŵp yn debygol o amrywio yn ôl y diwydiant pysgod cregyn lleol.

Argymhellir bod grwpiau gweithredu lleol ar bysgod cregyn yn ystyried cynnal cyfarfodydd cyfnodol gydag aelodau o'r diwydiant pysgod cregyn lleol, yn enwedig os oes anawsterau o ran gorfodi neu ddehongli'r rheoliadau.

Gall swyddogaethau'r grŵp gynnwys:

- nodi ardaloedd cynhyrchu ac ailosod LBMs dosbarthedig lleol (os oes rhai) (gan weithio gyda'r diwydiant)
- trefniadau ar gyfer dogfennau cofrestru i symud pysgod cregyn byw
- trefniadau ar gyfer cyhoeddi Hysbysiad Cau Ardal Gynhyrchu Dros Dro (Hysbysiadau Cau) sy'n cwmpasu dyfroedd o fwy nag un ardal Awdurdod Cymwys
- trefniadau ar gyfer israddio statws dosbarthu dros dro yn unol â chanllawiau ar gyfer grwpiau gweithredu lleol (LAGs) ar ymdrin â chanlyniadau E.coli uchel, canlyniadau biotocsin a digwyddiadau llygrydd – dosbarthu a monitro molysgiaid dwygragennog byw (canllawiau LAG)
- trefniadau ar gyfer cadw/galw LBMs yn ôl y mae Hysbysiad Cau yn effeithio arnynt neu lle mae angen prosesu pellach yn dilyn israddio dros dro
- gweithdrefnau hysbysu lleol effeithiol i roi gwybod i bartïon sydd â buddiant am y camau a gymerwyd o dan ganllawiau LAG
- trefniadau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng amryw asiantaethau a sefydliadau i gynorthwyo gyda nodi/rhagweld problemau posib

## 7.5 Dogfen gofrestru ar gyfer symud LBMs ac eithriadau

### 7.5.1 Dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs

Mae'r Cod yn nodi, oni bai eu bod wedi'u heithrio, fod yn rhaid i bob casglwr LBMs (gan gynnwys Pectinidae byw, echinodermau, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw a Holothuroidea) sydd i'w rhoi ar y farchnad, ddarparu dogfen gofrestru sy'n nodi pob swp y maent yn ei gynaeafu.

Argymhellir llenwi'r ddogfen gofrestru ar gyfer symud LBMs wrth lanio. Mae'n ofynnol i'r ddogfen gofrestru gyd-fynd â'r swp o'r ardal gynaeafu ddosbarthedig (neu yn achos Pectinidae, gastropodau nad ydynt yn bwydo drwy hidlo ac echinodermau o'r ardal o'r môr y caiff eu cynaeafu ynddi) a rhwng sefydliadau, hyd at a chan gynnwys yr adeg y mae'r swp yn cyrraedd ardal ailosod, canolfan buro neu ganolfan ddosbarthu neu sefydliad prosesu.[36]

Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd gadw copïau o ddogfennau cofrestru ar gyfer pob swp a anfonir ac a dderbynnir am o leiaf ddeuddeg mis ar ôl ei anfon neu ei dderbyn, neu gyfnod hirach fel y nodir gan yr Awdurdod Cymwys.[37]

### 7.5.2 Archwilio dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs

Mae'r Cod yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys gynnal archwiliadau rheolaidd o'r defnydd o ddogfennau cofrestru a'r ffordd y cânt eu llenwi i wirio eu cywirdeb. Gellir archwilio'r dogfennau fel rhan o reolaeth swyddogol canolfannau dosbarthu neu buro neu sefydliadau prosesu. Fodd bynnag, gellir cynnal gwiriadau ar unrhyw ran o'r gadwyn olrhain.

Mae'n ofynnol i'r ddogfen gofrestru gynnwys gwybodaeth benodol a bod yn ddarllenadwy.[38] Mae hefyd yn ofynnol i weithredwr y busnes bwyd gofnodi'r dyddiad derbyn ar y ddogfen gofrestru yn y ganolfan ddosbarthu neu'r ganolfan buro, yr ardal ailosod neu'r sefydliad prosesu pan ddaw'r swp i law.

Mae'r un gofynion yn berthnasol i sypiau o Pectinidae (cregyn bylchog) a gastropodau nad ydynt yn bwydo trwy hidlo a gynaeafir o'r tu allan i ardaloedd cynhyrchu dosbarthedig. Er nad yw statws dosbarthu'r ardal gynhyrchu (dosbarth A, B neu C) yn briodol, dylid disgrifio lleoliad yr ardal gynhyrchu mor fanwl ag sy'n ymarferol neu drwy rif cod, er enghraifft, cyfesurynnau'r Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Môr neu gyfeiriadau grid yr Arolwg Ordnans.

Dylai Awdurdodau Cymwys fod yn ymwybodol y gall dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs gael eu cwblhau ar ran y casglwr, er enghraifft, gan 'asiant', ar yr amod bod yr holl wybodaeth ofynnol sy'n ymwneud â'r swp wedi'i chwblhau'n briodol. Mae'n ofynnol i'r cynaeafwr neu gynaeafwyr cyflenwi allu cefnogi'r datganiad a wneir ar y ddogfen gofrestru gan yr 'asiant'. Efallai y bydd Awdurdodau Cymwys am ystyried diwygio eu ffurflenni cofrestru ar gyfer symud LBMs i adlewyrchu'r gweithgaredd hwn.

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd fod yn ymwybodol o fanteision masnachol camddefnyddio'r weithdrefn dogfennau cofrestru, er enghraifft, drwy awgrymu bod LBMs wedi'u cymryd o ddyfroedd ag ansawdd microbiolegol uwch.

### 7.5.3 Gwirio a monitro dogfennau cofrestru

Nid yw'n bosib i Awdurdodau Cymwys fonitro pob glaniad yn eu hardal, na chanfod camddefnydd o ddogfennau cofrestru trwy ganolbwyntio adnoddau ar samplu yn

[36] Atodiad III, Adran VII, Pennod I a IX o Reoliad (CE) Rhif 853/2004
[37] Atodiad III, Adran VII, Pennod I, Paragraff (6) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004
[38] Atodiad III, Adran VII, Pennod I, Paragraff (4) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004

unig. Cynghorir Awdurdodau Cymwys i ymgyfarwyddo â’r gweithgareddau masnachol mewn porthladdoedd yn eu hardal leol a gweithredu rhywfaint o fonitro ar laniadau LBMs a physgod cregyn eraill, er enghraifft cregyn bylchog. Gellir cyflawni hyn trwy gyswllt effeithiol a chyfnodol ag arolygiaethau statudol eraill, fel Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Gall arolygiaethau statudol o’r fath ddarparu gwybodaeth hanfodol arall er mwyn helpu i wirio’r wybodaeth sydd wedi’i chynnwys mewn dogfennau cofrestru a gweithgareddau cynaeafwyr, er enghraifft natur dymhorol y cynaeafu, isafswm meintiau glanio, gwiriadau ar b’un a gafodd pysgod cregyn eu cynaeafu o dan y trwyddedau priodol.

Mae Awdurdodau Cymwys i sicrhau mai dim ond pysgod cregyn sydd â’r dogfennau cofrestru priodol ar gyfer symud LBMs y mae sefydliadau’n eu derbyn. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys sy’n derbyn pysgod cregyn o’r tu allan i’w hardal Awdurdod Cymwys yn cysylltu â’r Awdurdod Cymwys priodol wrth archwilio dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs i wirio manylion.

Yn ogystal â chyswllt lleol, argymhellir bod gan Awdurdodau Cymwys weithdrefnau ar waith hefyd i gynorthwyo olrhain a gwirio dilysrwydd dogfennau cofrestru y maent wedi’u dyroddi. Er enghraifft, defnyddio un neu gyfuniad o daflenni carbon lliw y gellir eu rhwygo i ffwrdd a/neu stampiau boglynnog (‘embossed’) yr Awdurdod Cymwys ar y cyd â chyfeirnodau unigryw ar ddogfennau, er mwyn helpu i sicrhau nad yw dogfennau cofrestru yn hawdd eu ffugio. Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn ddoeth cyfyngu ar nifer y dogfennau a roddir i bob cynaeafwr neu ofyn am weld dogfennau sydd wedi’u llenwi’n flaenorol er mwyn helpu i fonitro neu dracio cynhyrchion yn effeithiol at ddibenion olrhain a dilysu.

Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd y broses ddilysu, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cynnwys manylion y cynaeafwyr y dyroddwyd y dogfennau cofrestru iddynt a’r ardaloedd cynhyrchu y mae’r cynaeafwr angen y dogfennau cofrestru ar eu cyfer.

## 7.6 Camau gweithredu ar ôl gwaith samplu rheolaethau swyddogol nad yw’n cydymffurfio

### 7.6.1 Hysbysiad Cau Ardal Gynhyrchu Dros Dro (Hysbysiadau Cau)

Mae’r Cod yn nodi, lle mae’r canlynol yn peri risg i iechyd pobl, fod yn rhaid i Awdurdodau Cymwys gymryd camau prydlon:

- mae canlyniadau LBM *E.coli* wedi’u cofnodi uwchlaw’r trothwy
- derbynnir canlyniadau sy’n hafal i neu’n uwch na therfynau biotocsinau morol rheoleiddiol
- yn achos unrhyw ddigwyddiad llygredd, sy’n debygol o gael effaith andwyol ar LBMs mewn ardal gynhyrchu ddosbarthedig

Mae canllawiau ar roi mesurau rheoli tymor byr ar waith i ddiogelu iechyd y cyhoedd i’w gweld yng nghanllawiau LAG yr ASB.

Mae'r Cod yn nodi, lle defnyddir Hysbysiad Cau, y dylid ei gyhoeddi'n gyflym i hysbysu partïon â buddiant. Argymhellir bod pob gweithredwr busnes bwyd hysbys yn eu hardal, sydd naill ai â dogfennau cofrestru eisoes wedi'u dyroddi, neu sydd ag eithriad, yn cael gwybod am yr Hysbysiad Cau a'i effaith. Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy anfon copi o'r Hysbysiad Cau at bob parti hysbys sydd â buddiant.

Argymhellir bod Hysbysiadau Cau yn cael eu harddangos mewn man amlwg lle y gellid disgwyl yn rhesymol i fusnesau bwyd a chasglwyr achlysurol sy'n cynaeafu LBMs eu gweld.

Mae enghraifft o Hysbysiad Cau Ardal Gynhyrchu Dros Dros (molysgiaid dwygragennog byw/pysgod cregyn) ar gael ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB.

Lle mae Hysbysiad Cau wedi'i gyhoeddi, argymhellir anfon copi at yr ASB yn shellfish.wales@food.gov.uk a Wales.foodincidents@food.gov.uk.

Byddai unrhyw berson sy'n mynd yn groes i'r Hysbysiad Cau neu'n methu â chydymffurfio ag ef yn cyflawni trosedd.[39]

## 7.7 Adrodd am weithgarwch cynaeafu anghyfreithlon

Mae'n drosedd gosod LBMs ar y farchnad sydd wedi'u cynaeafu o ardaloedd nad ydynt wedi'u dosbarthu, neu sy'n anaddas am resymau diogelwch bwyd. Mae hefyd yn anghyfreithlon i fusnesau bwyd roi cregyn bylchog a gastropodau nad ydynt yn bwydo trwy hidlo a gynaeafir o'r tu allan i ardaloedd dosbarthedig ar y farchnad, oni bai eu bod yn bodloni gofynion diogelwch bwyd ar gyfer meini prawf halogiad microbiolegol,[40] biotocsinau morol[41] neu gemegol[42].

Mae'n rhaid i Awdurdodau Cymwys fonitro ardaloedd cynaeafu o fewn eu cylch gwaith, gan gynnwys ardaloedd y mae Hysbysiadau Cau yn effeithio arnynt, er mwyn sicrhau nad yw cynaeafu anghyfreithlon yn digwydd. Pan fydd Awdurdodau Cymwys yn dod yn ymwybodol o achosion o'r fath, fe'u cynghorir i ystyried gwyliadwriaeth briodol a gwaith gorfodi dilynol.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn meithrin perthnasoedd gwaith agos ag arolygiaethau lleol eraill, fel IFCAs, Awdurdod Trwyddedu Meistri Gangiau a rheoleiddwyr lleol eraill a allai helpu i frwydro yn erbyn cynaeafu anghyfreithlon, er enghraifft, trwy wyliadwriaeth, hysbysu am weithgarwch pysgota mewn dyfroedd o dan gyfyngiadau neu helpu i wirio gwybodaeth mewn dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs.

Rhaid rhoi gwybod am bob achos o gynaeafu anghyfreithlon i NFCU yr ASB.

Gall Awdurdodau Cymwys hefyd gysylltu â NFCU i gael rhagor o gyngor ar wyliadwriaeth a gwaith gorfodi.

## 7.8 Safonau ar gyfer canolfannau puro

[39] Rheoliad 17(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[40] Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 2073/2005
[41] Rheoliad (CE) Rhif 853/2004
[42] Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1881/2006

Mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn amlinellu'r gofynion strwythurol a'r gofynion hylendid ar gyfer canolfannau puro.

Mae canllawiau ar gael i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol ar arolygu systemau puro ar gyfer molysgiaid dwygragennog byw yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gynorthwyo rheolaethau swyddogol yr Awdurdod Cymwys mewn sefydliadau puro.

## 7.9 Nodau adnabod ar bysgod cregyn

Efallai y bydd Awdurdodau Cymwys yn dymuno dewis swp neu lwyth o siop fanwerthu neu fwyty o bryd i'w gilydd fel rhan o'r gwaith monitro ar ddefnydd marciau adnabod pysgod cregyn. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn olrhain y swp neu'r llwyth yn ôl trwy neuadd arwerthiant, canolfan buro neu ganolfan ddosbarthu neu sefydliad prosesu, i'r casglwyr gwreiddiol er mwyn sefydlu bod cofnodion sy'n ymwneud ag olrheiniadwyedd y swp a'r nod adnabod yn eu lle. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn cydweithredu ag Awdurdodau Cymwys eraill yn ystod unrhyw wiriad ar hap drwy'r gadwyn gynhyrchu a dosbarthu.

Cofiwch: bydd manwerthwyr yn cadw'r label/tagiau adnabod sydd ynghlwm wrth ddeunydd pecynnu LBMs nad ydynt mewn pecynnau maint defnyddwyr unigol am o leiaf 60 diwrnod[43] ar ôl rhannu'r cynnwys er mwyn helpu i olrhain cynnyrch pe bai adroddiad o salwch.

Os bydd unrhyw wiriadau'n awgrymu nad yw dogfennau olrhain, fel y dogfennau cofrestru ar gyfer symud LBMs, nodau adnabod neu gofnodion, yn cael eu defnyddio yn unol â'r rheoliadau, dylai'r Awdurdod Cymwys gynnal ymchwiliad i bennu lle nad yw'r gweithdrefnau wedi'u dilyn yn briodol. Mewn achosion o'r fath, dylent hefyd ystyried cymryd camau gorfodi priodol a chynyddu amlder gwiriadau ar hap drwy'r gadwyn ddosbarthu nes eu bod yn fodlon bod y gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn.

## 7.10 Templedi a chanllawiau ychwanegol

Mae'r templedi canlynol i'w cael ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB:

- Dogfen Gofrestru LBM/Pysgod Cregyn Byw enghreifftiol
- Hysbysiad enghreifftiol ar gyfer cau ardal(oedd) cynhyrchu (molysgiaid dwygragennog byw/pysgod cregyn) dros dro

Mae mwy o ganllawiau ynghylch dosbarthu pysgod cregyn ar gael ar wefan yr ASB.

[43] Atodiad III, Adran VII, Pennod VII, Paragraff 3 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004

# Pennod 8 Canllawiau pwnc-benodol

## 8.1 Cyflwyniad

Mae Pennod 8 yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â'r canlynol:

- cynhyrchion pysgodfeydd
- cig
- llaeth amrwd a chynhyrchion llaeth
- canolfannau pecynnu wyau
- cynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif
- bwyd ar gyfer grwpiau penodol
- darpariaethau rheoli tymheredd
- dŵr potel
- gwastraff bwyd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP)
- gwerthu o bell/archebu drwy'r post

Mae'r ASB wedi cynhyrchu canllawiau manwl ar gymeradwyo sefydliadau: canllawiau i awdurdodau lleol a chanllawiau arolygu hylendid bwyd cynhyrchu cynradd a allai fod o gymorth i swyddogion awdurdodedig wrth ymdrin â rhai pynciau yn y bennod hon.

## 8.2 Materion sy'n ymwneud â chynhyrchion pysgodfeydd

### 8.2.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Cymwys ar gymhwyso a gorfodi materion cynhyrchion pysgodfeydd o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004, Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627.

### 8.2.2 Awdurdod Cymwys

Mae Awdurdodau Cymwys yn gyfrifol am orfodi'r rheoliadau ar eu lefel leol, ac felly'n cymeradwyo sefydliadau cynhyrchion pysgodfeydd, yn cofrestru rhai marchnadoedd a chychod pysgota, ac fel arall yn gorfodi'r rheoliadau.

### 8.2.3 Cwmpas cymeradwyo

Nid yw darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys i fanwerthu oni nodir yn benodol. Felly nid oes angen cymeradwyo sefydliad manwerthu sy'n cyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i'r defnyddiwr terfynol. Fodd bynnag, byddai angen cymeradwyaeth pan gynhelir gweithrediadau i gyflenwi cynhyrchion pysgodfeydd i sefydliadau eraill oni bai bod y cyflenwad hwnnw i sefydliadau manwerthu eraill yn unig a'i fod yn weithgarwch ymylol, lleol a chyfyngedig.

Mae'n ofynnol i longau ffatri a rhewi, arwerthiannau a marchnadoedd cyfanwerthu gael eu cymeradwyo a'u harolygu'n rheolaidd i wirio a ydynt yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, hylendid, rheolyddion tymheredd a gofynion strwythurol, ac i sicrhau eu bod yn ddarostyngedig i Reoliad (CE) Rhif 853/2004, Atodiad III, Adran VIII, Penodau I a II.

#### 8.2.4 Cyflenwad uniongyrchol o feintiau bach o bysgod

Nid yw'r Rheoliadau'n gymwys i gyflenwi symiau bach o gynhyrchion pysgodfeydd (cynhyrchion cynradd) yn uniongyrchol o'r cynhyrchydd i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr yn uniongyrchol. At y dibenion hyn, mae swm bach yn cael ei ystyried yn gyfanswm o ddim mwy na 25 tunnell o gynhyrchion pysgodfeydd (heb gynnwys molysgiaid dwygragennog byw) mewn blwyddyn galendr. Er nad yw'r rheoliadau'n gymwys i'r lwfans hwn, mae'n rhaid i'r cyflenwr sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn bodloni'r gofynion diogelwch bwyd ar gyfer rhoi bwyd ar y farchnad.

#### 8.2.5 Canllawiau ychwanegol

Mae'r aide-mémoires a'r canllawiau canlynol ar gael ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB:

- aide-mémoire llong bysgota
- aide-mémoire llong rewi
- aide-mémoire llong ffatri
- aide-mémoire riffiwr

Caiff cynnwys y dogfennau hyn ei ystyried fel y lleiafswm sydd ei angen, ond gall Awdurdodau Cymwys eu haddasu yn ôl yr angen i fodloni gofynion lleol.

Mae canllawiau ar ofynion cyfraith y DU sy'n ymwneud â'r diwydiant bwyd môr ar gael gan Seafish.

### 8.3 Materion yn ymwneud â chig

#### 8.3.1 Cig – Cymeradwyo sefydliadau

Mae'r ASB yn gyfrifol am gymeradwyo sefydliadau sy'n ddarostyngedig i reolaeth filfeddygol (fel, lladd-dai, ffatrïoedd torri sy'n rhoi cig ffres ar y farchnad a sefydliadau trin helgig) yn ogystal ag unrhyw storfeydd oer, ffatrïoedd cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig, cig sydd wedi'i wahanu'n fecanyddol a ffatrïoedd cyd-gynhyrchion bwytadwy sydd wedi'u cydleoli â lladd-dai cymeradwy, ffatrïoedd torri neu sefydliadau trin helgig, neu farchnadoedd cig cyfanwerthol.

Mae Awdurdodau Cymwys yn gyfrifol am gymeradwyo pob safle bwyd arall sy'n trin POAO (ac eithrio'r safleoedd wedi'u cydleoli a ddisgrifir uchod) ac am gofrestru sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cymeradwyo.

#### 8.3.2 Gorfodi mewn sefydliadau cig

Mae'r ASB yn gyfrifol am orfodi mewn sefydliadau cig sydd angen rheolaeth filfeddygol (gweler uchod).

##### 8.3.2.1 Sefydliadau sydd wedi'u cydleoli

Mae'r ASB yn gyfrifol am orfodi hylendid mewn ffatrïoedd cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig, cig sydd wedi'i wahanu'n fecanyddol, storfeydd oer neu ffatrïoedd cyd-gynhyrchion bwytadwy sydd wedi'u cydleoli â lladd-dy cymeradwy, ffatri dorri neu sefydliad trin helgig. Pan nad oes angen cymeradwyaeth ar sefydliad cig wedi'i

gydleoli, er enghraifft cigydd manwerthu, mae gorfodaeth ddeuol yr Awdurdod Cymwys/ASB yn parhau i fod yn berthnasol.

#### 8.3.2.2 Sefydliadau annibynnol

Mae Awdurdodau Cymwys yn gyfrifol am orfodi mewn sefydliadau annibynnol sy'n cynhyrchu cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig a chig wedi'i wahanu'n fecanyddol, ac mewn sefydliadau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu cymeradwyo o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

#### 8.3.2.3 Cig o anifeiliaid hela gwyllt

Mae canllawiau'r ASB ar anifeiliaid hela gwyllt yn cynnwys canllawiau ar y gofynion cyfreithiol sy'n gymwys i drin, archwilio, paratoi, storio, cludo a chyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt i'w bwyta gan bobl. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw eithriadau o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 852/2004.

### 8.3.3 Eithriadau cymeradwyo

Mae Erthyglau 1 a 4 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn darparu'r eithriadau perthnasol o'r gofynion ar gyfer cymeradwyo. Mae manylion y rhain, ynghyd â phob eithriad arall mewn perthynas â chymeradwyo, i'w cael yng nghanllawiau'r ASB ar gymeradwyo sefydliadau: canllawiau i awdurdodau lleol.

#### 8.3.3.1 Lladd ar y fferm a thorri symiau bach o ddofednod a lagomorffiaid

Nid yw Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys i gyflenwi symiau bach o gig dofednod yn uniongyrchol o'r cynhyrchydd (adar a ffermir ac eithrio ratidau) neu lagomorffiaid (cwningod, ysgyfarnogod a chnofilod) a laddwyd ar y fferm i'r defnyddiwr terfynol neu i sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi cig o'r fath yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol.[44]

**Pa gynhyrchwyr sy'n elwa o'r eithriad hwn?**

Mae'r eithriad yn berthnasol i gynhyrchwyr dofednod neu lagomorffiaid sy'n lladd eu hanifeiliaid eu hunain ar y fferm gynhyrchu, cyn belled mai dim ond *symiau bach* o gig sy'n cael ei gyflenwi.

Mae'r DU yn dehongli 'symiau bach' fel:

- cynhyrchwyr sy'n lladd llai na 10,000 o adar neu lagomorffiaid bob blwyddyn
- cynhyrchwyr sy'n aelodau o gynllun sicrwydd priodol sy'n lladd dros 10,000 o adar neu lagomorffiaid bob blwyddyn ac sydd naill ai:
  - yn pluo'n sych â llaw
  - yn lladd am 40 diwrnod y flwyddyn neu lai

Gall y terfyn o 10,000 o adar neu lagomorffiaid yn y categori cyntaf ganiatáu ar gyfer rhywfaint o amrywiad mewn trwybwn blynyddol o amgylch y lefel honno ar yr amod nad yw fel arfer yn fwy na therfyn cyfun o 10,000 y flwyddyn.

[44] Erthygl 1(3)(d) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004

Er nad oes cyfyngiad ar nifer yr adar neu lagomorffiaid y gall cynhyrchwyr yn yr ail gategori eu lladd, mae'r ASB yn rhagweld y bydd y cyfyngiadau yn cyfyngu'r lefelau cynhyrchu i feintiau cymharol fach. Wrth farnu a yw cynllun sicrwydd yn briodol, argymhellir ystyried a oes gan y cynllun ofynion sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol lleiaf mewn perthynas â diogelwch a hylendid bwyd ac a oes ganddo drefniadau gwirio annibynnol. Gall yr ASB gynghori os oes amheuaeth.

**Ble gellir gwerthu'r cig?**

Gellir cyflenwi cig a gynhyrchir o dan yr eithriad hwn yn uniongyrchol i'r canlynol:

- y defnyddiwr terfynol
- sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi cig o'r fath yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol

Yn y categori cyntaf, mae cyflenwad uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol yn cynnwys archeb bost neu werthu dros y we, cyhyd â bod y cyflenwad yn *uniongyrchol* i'r defnyddiwr. Nid yw cyflenwadau o'r fath o reidrwydd yn gyfyngedig i gig ar ffurf cig ffres. Gallent fod ar ffurf cynhyrchion neu baratoadau cig.

Yn yr ail gategori, mae'r cyflenwad i fod yn uniongyrchol i sefydliadau manwerthu lleol (ar ffurf cig ffres, paratoadau cig neu gynhyrchion cig), ac fe allai gynnwys cyflenwad y cynhyrchydd i fwytai neu sefydliadau arlwyo eraill. Rhaid i'r sefydliadau manwerthu a gyflenwir fod yn *lleol* ('local'). Dehonglir bod cyflenwad 'lleol' yr un peth â chyflenwad 'lleoledig' ('localised') ac, yn ogystal, unrhyw le yn y DU yn ystod y pythefnos cyn

- y Nadolig
- Pasg
- Gŵyl Fihangel (diwedd mis Medi) – ar gyfer gwyddau yn unig

**Pa reolau sy'n gymwys?**

Mae Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 yn gymwys i gynhyrchwyr sy'n elwa o'r eithriad hwn. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, y gofyniad i gofrestru'r sefydliad gyda'r Awdurdod Cymwys lleol, i gynnal gweithdrefnau yn seiliedig ar egwyddorion HACCP ac i gydymffurfio â gofynion hylendid a hyfforddiant cyffredinol. Mae'r rheolau cenedlaethol yn Atodlen 5 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar labelu a chadw cofnodion hefyd yn gymwys.

Mae'r rheolau labelu yn ei gwneud yn ofynnol i'r cig ddwyn label neu farc arall sy'n nodi'n glir enw a chyfeiriad y fferm lle cafodd yr aderyn neu'r anifail ei ladd. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw wybodaeth am fwyd sy'n ofynnol gan Reoliad (UE) Rhif 1169/2011.

Mae Atodlen 5 i Reoliad Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynhyrchydd gadw cofnod ar ffurf ddigonol i ddangos nifer yr adar a nifer y lagomorffiaid a dderbynnir i'r safle, a faint o gig sy'n cael ei anfon o'r safle, yn ystod pob wythnos. Rhaid i gofnodion o'r fath, er mwyn bod yn ddigonol, gofnodi'r wybodaeth hon o leiaf yn ôl rhywogaethau o anifeiliaid sy'n cael eu lladd. Mae'r

cofnodion hefyd i'w cadw am flwyddyn a dylent fod ar gael i swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Cymwys lleol ar gais.

### 8.3.4 Cynhyrchion cig, briwgig a pharatoadau cig – Torri cig

Mae angen cymeradwyo safle sy'n torri cig yn gyfan gwbl ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion cig, briwgig, paratoadau cig neu gig wedi'i wahanu'n fecanyddol mewn perthynas â'u gweithgareddau gweithgynhyrchu a'r angen i gydymffurfio â gofynion perthnasol Atodiad III Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer ffatrïoedd torri cig coch neu wyn, ond ni fydd angen eu cymeradwyo fel ffatrïoedd torri.

### 8.3.5 Lladd da byw gartref

Pan fydd anifail da byw yn cael ei ladd gan ei berchennog ar ei safle i'w fwyta'n bersonol neu gan aelodau uniongyrchol o'u teulu sy'n byw yno, ac nad yw'r cig yn cael ei roi ar y farchnad (p'un a yw'n rhad ac am ddim ai peidio), mae gweithgarwch o'r fath yn disgyn y tu allan i gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Fodd bynnag, mae Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 yn gymwys lle bynnag y mae anifail sy'n agored i Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSEs) yn cael ei ladd (gan gynnwys lladd gartref). Mae hyn yn golygu, ar ôl lladd gwartheg, defaid neu eifr, fod angen tynnu, staenio a gwaredu deunydd risg penodedig (SRM) yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 999/2001 a Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (CE) Rhif 1069/2009. Mae rheoliadau lles anifeiliaid hefyd yn gymwys. Mae canllawiau manylach ar ladd gartref ar gael ar wefan yr ASB.

### 8.3.6 Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr (LTTC)

Ym mis Mawrth 2017, cyflwynwyd gofyniad penodol i sefydliadau sy'n cyflenwi briwgig a/neu baratoadau cig y bwriedir eu bwyta heb eu coginio'n drylwyr gael eu cymeradwyo gan naill ai'r ASB neu eu hawdurdod lleol. Mae cymeradwyo'r gweithgarwch hwn yn benodol yn gam pwysig wrth sicrhau lefel uchel o ddiogelwch i'r cyhoedd. Gellir gweld rhestr gyhoeddedig o sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo i ymgymryd â'r gweithgarwch hwn. Mae'r rhestr yn cynorthwyo gweithredwyr busnesau bwyd mewn sefydliadau arlwyo i nodi cynhyrchwyr briwgig a pharatoadau cig cymeradwy sy'n addas i'w defnyddio wrth gynhyrchu byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr.

Mae canllawiau i fusnesau bwyd a swyddogion awdurdodedig ar fyrgyrs cig eidion heb eu coginio'n drylwyr ar wefan yr ASB.

### 8.3.7 Canllawiau bwyd Halal

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar gyfer swyddogion gorfodi cyfraith bwyd ar ofynion bwyd Halal ar lwyfan Rhwydwaith Rhannu'r ASB.

## 8.4 Materion yn ymwneud â llaeth a chynhyrchion llaeth amrwd

### 8.4.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Cymwys mewn perthynas â llaeth amrwd a chynhyrchion llaeth amrwd ac yn egluro cyfrifoldebau gorfodi rhwng awdurdodau lleol a'r ASB.

### 8.4.2 Gorfodi

Awdurdodau lleol yw'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am gynnyrch llaeth mewn perthynas â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi gofynion samplu atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas â gwerthu llaeth yfed amrwd (RDM) i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl, o rywogaethau heblaw buwch – yn benodol paragraff 5 ac ar gyfer y gofynion rhybuddion iechyd ar gyfer RDM o rywogaethau heblaw buwch o dan atodlen 6.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am wirio cydymffurfiaeth â gofynion hylendid yn ystod prosesau potelu neu becynnu ar gyfer RDM o bob rhywogaeth i'w yfed yn uniongyrchol. Nhw hefyd yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer gwybodaeth gyffredinol am fwyd, gan gynnwys marcio dyddiadau para RDM o bob rhywogaeth.

Arolygwyr Hylendid Llaeth yr ASB sy'n delio â'r gofynion yn Rheoliad 5(2) (b) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 sy'n ymwneud â daliadau cynhyrchu llaeth a goruchwylio ac arolygu daliadau cynhyrchu yn ddilynol (ar wahân i wiriadau iechyd anifeiliaid – gweler isod).

Mae'r Arolygwyr Hylendid Llaeth hefyd yn gyfrifol am reolaethau o dan Reoliad 32 ac Atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 ar gyfyngiadau gwerthu llaeth buwch i'w yfed yn amrwd (RCDM), gan sicrhau:

- mai dim ond o ffermydd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr, mewn marchnadoedd ffermwyr cofrestredig neu drwy ddosbarthwyr y cyflenwir RCDM
- bod cynhyrchion yn cydymffurfio â'r gofynion labelu rhybuddion iechyd priodol sydd i'w cynnwys ar RCDM
- bod dulliau rheoli'r rhaglen samplu yn cadw at y safonau ar gyfer llaeth o'r fath fel y nodir yn atodlen 6

Mae'r ASB hefyd yn gyfrifol am orfodi atodlen 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 mewn perthynas ag RCDM i'w yfed yn uniongyrchol. Mae Arolygwyr Hylendid Llaeth yn gwirio cydymffurfiaeth â'r darpariaethau hynny, a nhw yw'r awdurdod gorfodi perthnasol os bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r canlynol:

- paramedrau meicro atodlen 6 ar gyfer RCDM
- cyfyngiadau ar lwybrau gwerthu ar gyfer RCDM i'w yfed yn uniongyrchol
- y gofynion rhybuddio iechyd ar gyfer RCDM o dan atodlen 6

Mae canllawiau'r ASB i gynhyrchwyr llaeth yfed amrwd i'w fwyta'n uniongyrchol gan bobl yn rhoi manylion ynghylch rhannu gwaith gorfodi a rheolaethau swyddogol rhwng yr ASB ac awdurdodau lleol.

Mae Defra, gan weithio gydag APHA, yn gyfrifol am gynnal profion swyddogol ar fuchesi gwartheg godro ar gyfer twbercwlosis buchol (TB) a brwcelosis lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys profion TB blynyddol ar fuchesi gwartheg sy'n cynhyrchu RDM i'w yfed gan bobl.

Mae gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gweithredu fel daliad cynhyrchu llaeth a sefydliad prosesu wedi'u cofrestru gyda'r ASB fel daliadau cynhyrchu a naill ai

wedi'u cofrestru neu wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cymwys fel sefydliad cynhyrchu llaeth ar gyfer gweithgareddau prosesu.

### 8.4.3 Gweithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu llaeth yfed amrwd a hufen i'w hyfed neu eu bwyta'n uniongyrchol gan bobl

Nid oes unrhyw gyfyngiadau tebyg ar lwybrau gwerthu RDM o rywogaethau eraill, er ei bod yn ofynnol i'r cynnyrch barhau i gydymffurfio â'r gofynion diogelwch bwyd ac olrhain a nodir yn Erthyglau 14 a 18 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

Mae'n ofynnol hefyd i bob RDM i'w yfed yn uniongyrchol gydymffurfio â'r meini prawf diogelwch bwyd o dan Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 2073/2005 mewn perthynas â bwyd parod i'w fwyta, a'r gofynion diogelwch ac olrhain cyfreithiol ar gyfer bwyd.

Os oes gan awdurdodau lleol bryderon am safon ficrobiolegol RCDM naill ai ar y cam potelu neu pan fydd yn cael ei gynnig i'w werthu (fel ar rownd laeth neu mewn siop fferm), gallant gynnal eu profion eu hunain am bathogenau penodol a chymryd camau gweithredu o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 os yw'n briodol. Argymhellir cydweithio agos â'r arolygwr hylendid llaeth lleol yn yr amgylchiadau hyn.

Gofynnir i awdurdodau lleol roi gwybod i'r ASB, drwy anfon e-bost i dairyops@food.gov.uk, cyn gynted â phosib os byddant yn dod yn ymwybodol o RCDM yn cael ei werthu heblaw o'r fferm, marchnadoedd ffermwyr cofrestredig neu drwy ddosbarthwr fel y caniateir o dan y rheoliadau hylendid bwyd, neu os cânt eu rhybuddio am ganlyniadau samplau microbiolegol aflwyddiannus a gymerwyd o RDM.

Mae'n ofynnol i fuchesi gwartheg sy'n cynhyrchu RDM i'w bwyta'n uniongyrchol gan bobl neu ddulliau cynhyrchu cynhyrchion llaeth amrwd fod yn rhydd rhag TB yn swyddogol ac yn destun profion TB blynyddol. Felly, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn gweithio'n agos â'r ASB a swyddfeydd rhanbarthol APHA i gynnal rhestr gyfoes o weithredwyr busnesau bwyd lleol sy'n gwerthu cynhyrchion llaeth amrwd a llaeth amrwd.

### 8.4.4 Cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Gall fod yn anodd cydymffurfio â'r gofynion i lanhau a diheintio'n fecanyddol gynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, yn enwedig ar gyfer rhai sefydliadau llai. Fel rheol, ni fydd angen cyfleusterau golchi poteli mecanyddol ar gyfer llaethdai sy'n cael poteli glân o unedau canolog, ar yr amod nad yw'r poteli glân yn agored i unrhyw risg o halogiad wrth eu storio a chyn eu llenwi yn y llaethdy. Gellir golchi a storio poteli yn yr un ystafell lle mae cynhyrchion yn cael eu trin, ond ar wahanol adegau neu mewn ardal ar wahân, ar yr amod nad yw hylendid yn cael ei gyfaddawdu.

### 8.4.5 Gofynion iechyd ar gyfer cynhyrchu llaeth amrwd

Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod gofynion Atodiad III, Adran IX, Pennod 1, Rhan 1 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004, yn cael eu bodloni trwy

arolygiadau milfeddygol preifat yn rheolaidd.[45] Bydd amlder arolygiadau o'r fath yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Gellir cynnal arolygiadau o'r fath pan fydd milfeddyg preifat ffermwr yn bresennol at ddibenion eraill. Bydd angen i weithredwyr busnesau bwyd gadw tystiolaeth o'r ymweliadau hyn, er enghraifft derbynneb/anfoneb, a thystiolaeth o unrhyw gamau dilynol a gymerir os bydd problemau'n codi, i'w gwirio gan swyddogion awdurdodedig. Mae'n ofynnol hefyd i brynwyr cyntaf llaeth amrwd sicrhau, er enghraifft trwy gontractau, fod gwiriadau wedi'u cynnal i asesu cydymffurfiaeth â safonau iechyd anifeiliaid perthnasol. Fel rheol, bydd yr ASB, APHA neu filfeddygon preifat yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol am broblemau uniongyrchol a allai effeithio ar ddiogelwch llaeth. Gellir hefyd gyfeirio materion tymor hirach sy'n codi o gofnodion at awdurdodau lleol. Pan fo awdurdodau lleol yn amau na chydymffurfir â gofynion, neu na chymerwyd camau dilynol, dylent godi'r mater gyda'r prynwr/prosesydd masnachol cyntaf, neu gyda'r cynhyrchydd yn uniongyrchol, a'u cynghori i gymryd cyngor priodol, er enghraifft gan eu milfeddyg preifat. Cynghorir awdurdodau lleol i hysbysu'r ASB hefyd fel y gall Arolygwyr Hylendid Llaeth weithredu os bydd atgyfeiriad neu gŵyn.

### 8.4.6 Meini prawf a safonau ar gyfer llaeth amrwd

Yn achos y safonau a nodir yn Atodiad III, Adran IX, Pennod I, Rhan 3 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer cyfrif platiau a chyfrif celloedd somatig, mae'r rheoliadau'n nodi isafswm yr amlder samplu gan y cynhyrchydd neu'r prynwr masnachol cyntaf. Mae angen i swyddogion awdurdodedig sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cyflawni'r rhaglen samplu benodedig. Gall swyddogion awdurdodedig wirio cofnodion gweithredwyr busnesau bwyd, ac, os oes ganddynt bryderon am ganlyniadau'r profion, dylent ystyried gwiriadau swyddogol ar hap er mwyn gwneud yn siŵr bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

### 8.4.7 Gofynion tymheredd ar gyfer llaeth a ddefnyddir i weithgynhyrchu cynhyrchion llaeth

Mae Atodiad III, Adran IX, Pennod II, Rhan 1, Paragraff 1 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi bod derbynioldeb llaeth amrwd yn gymwys o'r amser y mae'r llaeth yn cyrraedd y sefydliad prosesu.

### 8.4.8 Trin llaeth amrwd neu gynhyrchion llaeth â gwres

Nodir y gofynion ar gyfer pasteureiddio a thriniaeth uwch-wres yn Atodiad III, Adran IX, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

Mae paragraff 2 yn caniatáu mynd y tu hwnt i'r tymereddau a'r amserau a bennir ar gyfer trin llaeth amrwd am resymau 'technolegol'. Bydd y rhesymau hyn yn cynnwys achosion lle gallai tymereddau uwch fod yn hanfodol i weithgynhyrchu rhai cynhyrchion, er enghraifft cawsiau, ac ar adegau dros y penwythnos pan na all sefydliadau brosesu llaeth o fewn y cyfnod penodedig. Mae angen awdurdodiad gan yr awdurdod lleol pryd bynnag y rhagwelir yr eir y tu hwnt i'r amserau hyn.

[45] Erthygl 49 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627

### 8.4.9 Profi ffosffadas (‘phosphatase’)

Mae’r gofynion ar gyfer pennu gweithgaredd ffosffadas alcalïaidd mewn llaeth buwch wedi’i basteureiddio wedi’u nodi yn Atodiad III, Pennod II o Reoliad Gweithredu’r Comisiwn (UE) 2019/627.

### 8.4.10 Labelu cawsiau wedi’u gwneud o laeth amrwd

Mae’n ofynnol i gawsiau wedi’u gwneud o laeth amrwd sy’n cael eu gwerthu wedi’u pecynnu ymlaen llaw fod â label ar y deunydd pecynnu sy’n nodi ‘wedi’i wneud â llaeth amrwd’ / ‘made with raw milk’ ar y pwynt gwerthu. Mae’r ddeddfwriaeth yn darparu bod ‘labelu’ yn cynnwys unrhyw ddeunydd pecynnu, dogfen, rhybudd, label, cylch neu goler sy’n cyd-fynd â chynhyrchion o’r fath neu’n cyfeirio atynt.

Mae’n ofynnol i flociau o gaws sy’n cael eu harddangos mewn cownter delicatessen ac y bwriedir eu torri’n ddognau llai i’w gwerthu i’r defnyddiwr gael eu labelu fel ‘wedi’i wneud â llaeth amrwd’ / ‘made with raw milk’ naill ai drwy label ar y caws neu drwy arwydd sy’n nodi’r ffaith. Fodd bynnag, ar ôl i’r caws gael ei dorri a’i lapio a’i roi i’r defnyddiwr i’w brynu, nid oes angen ei labelu gyda’r geiriad rhagnodedig.

### 8.4.11 Statws ‘heb TB swyddogol’ a deddfwriaeth hylendid llaeth

#### 8.4.11.1 Cwmpas

Mae’r adran hon yn darparu gwybodaeth a chyngor i Awdurdodau Cymwys sydd â buchesi godro a/neu sefydliadau llaeth yn eu hardaloedd, gan gynnwys y rhai sy’n cynhyrchu llaeth yfed amrwd (sydd yn y cyd-destun hwn hefyd yn cynnwys llaeth byfflo amrwd) a/neu gynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio. Bydd y canllawiau o gymorth i’r rhai sy’n ymwneud â chamau gweithredu dilynol yn dilyn hysbysiad gan APHA o golli statws ‘heb TB swyddogol’ (OTF) mewn buchesi godro.

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer ac at ddibenion deddfwriaeth hylendid llaeth, bydd y fuches wedi colli statws OTF os:

- datgelir adweithydd drwy brawf twbercwlin
- nodir briwiau yr amheuir eu bod yn TB mewn arolygiad cig post-mortem arferol (achosion mewn lladd-dai)
- datgelir adweithyddion amhendant o fewn tair blynedd i ddigwyddiad TB blaenorol a gadarnhawyd yn yr un fuches
- yw prawf croen twbercwlin yn hwyr (statws wedi’i atal - (OTFS)); neu pan gadarnheir haint *M. bovis* mewn buches trwy archwiliad post-mortem a/neu feithriniad bacteriolegol (statws wedi’i dynnu’n ôl (OTFW))

#### 8.4.11.2 Cyflwyniad

Clefyd heintus ymysg pobl a llawer o rywogaethau o anifeiliaid yw TB, a achosir gan facteria o’r genws *Mycobacterium*. Caiff y rhan fwyaf o achosion o dwbercwlosis dynol eu hachosi gan *Mycobacterium tuberculosis (M. tuberculosis)*. Achosir TB mewn gwartheg yn bennaf gan *Mycobacterium bovis (M. bovis)* sydd, yn wahanol i *M. tuberculosis*, ag ystod letyol eang iawn. Mae APHA yn gyfrifol am gynnal profion gwyliadwriaeth ar fuchesi gwartheg godro ar gyfer twbercwlosis buchol (a brwselosis lle bo hynny’n briodol) ar sail risg clefyd.

### 8.4.11.3 Materion gorfodi Awdurdodau Cymwys

**Camau i'w cymryd yn sgil buches laeth yn colli statws OTF**

Pan roddir buches laeth o dan gyfyngiadau symud TB, am ba bynnag reswm, bydd APHA yn anfon hysbysiad at berchennog y fuches (gweithredwr y busnes bwyd), yr ASB a swyddog awdurdod lleol perthnasol. Gosodir cyfyngiadau TB ar berchennog y fuches o dan Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010, ac mae hyn i bob pwrpas yn atal (neu'n tynnu'n ôl) statws OTF y fuches honno nes bydd rhybudd pellach.

Pan fydd yr hysbysiad yn dod i law, bydd yr ASB yn cychwyn y broses o sicrhau na chaiff llaeth o'r fuches ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchion llaeth amrwd mwyach. Bydd yr ASB yn cysylltu â'r tîm Cyngor TB yn APHA i gadarnhau amgylchiadau'r achos a statws OTF y fuches.

Mae'r Hysbysiad a gyflwynir gan APHA ar weithredwr y busnes bwyd yn cynghori mai'r ASB yw'r Awdurdod Cymwys ar gyfer gorfodi Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 mewn daliadau cynhyrchu cynradd 'cofrestredig' yng Nghymru ac mai awdurdodau lleol sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Cymwys mewn llaethdai prosesu 'cymeradwy', canolfannau casglu a chanolfannau ail-lapio ac ail-becynnu.

Mae'r Hysbysiad yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- ni ddylid defnyddio llaeth o adweithyddion i'w yfed gan bobl. Rhaid dal llaeth o'r anifeiliaid hyn yn ôl o'r tanc mawr. Argymhellir na ddylai gweithredwr y busnes bwyd roi'r llaeth hwn i loi na da byw eraill ar y daliad. Os caiff llaeth adweithyddion ei ddefnyddio i fwydo, dim ond anifeiliaid ar yr un fferm fydd yn cael ei yfed, a hynny ar ôl triniaeth wres addas.
- rhaid i laeth o anifeiliaid (o fuches sydd wedi adweithio) nad ydynt wedi adweithio'n bositif i'r prawf TB gael ei drin â gwres cyn ei werthu i'w yfed gan bobl. Rhaid i weithredwr y busnes bwyd neu'r person sy'n gyfrifol yn y daliad cynhyrchu cynradd gysylltu â'i brynwr llaeth i wneud yn siŵr bod yr holl laeth yn cael ei drin â gwres
- rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sydd â chofrestriad ychwanegol yng Nghymru ac yn Lloegr sy'n gwerthu llaeth amrwd i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl roi'r gorau i werthu'r cynnyrch. Os yw gweithredwr y busnes bwyd yn bwriadu defnyddio llaeth amrwd o'r daliad cynhyrchu cynradd fel cynhwysyn i wneud hufen neu gaws, rhaid iddo sicrhau bod llaeth o'r fath yn cael ei drin â gwres cyn ei ddefnyddio
- gall llaeth o adweithyddion amhendant gael ei yfed gan bobl o hyd, ar yr amod ei fod yn cael ei drin â gwres cyn iddo gael ei werthu, fel y manylir ym mhwynt bwled 2 uchod

Ni ddylai proseswyr sy'n gwneud cynhyrchion â llaeth amrwd ddefnyddio llaeth o'r fuches yr effeithiwyd arni a dim ond drwy gael cyflenwad amgen o fuches OTF y gallant barhau i wneud cynhyrchion o'r fath.

Ar ôl i hysbysiad ddod i law, argymhellir y dylai awdurdodau lleol:

- gysylltu â phrynwr neu brynwyr cyntaf y llaeth i sefydlu eu bod yn ymwybodol o fanylion y fuches ac y bydd y llaeth o'r anifeiliaid nad ydynt wedi adweithio

i'r prawf TB yn cael ei drin â gwres cyn ei werthu neu ei ddefnyddio mewn cynhyrchion llaeth
- cadarnhau'r systemau glanhau sydd ar waith (CIP) ar gyfer y dull cludo

Gellir hwyluso'r ymchwiliadau hyn trwy gysylltu â'r swyddfa APHA ranbarthol sy'n gyfrifol am reoli'r dadansoddiad o TB, yr Arolygwyr Hylendid Llaeth ac unrhyw awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys awdurdod lleol y prynwr cyntaf y gallai fod angen iddo gyfrannu at yr ymchwiliadau lle bo hynny'n briodol.

Lle mae gan y fferm yr effeithir arni gyfleusterau trin â gwres wedi'u gosod, dylid cynnal rheolaethau swyddogol ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn cael eu cynnal, yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol ar sail risg i gadarnhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau HACCP ar waith yn effeithiol, gan gynnwys triniaeth gwres ddigonol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Tîm Digwyddiadau'r ASB ar unwaith os:

- darganfyddir bod llaeth o adweithyddion wedi mynd i mewn i'r gadwyn fwyd ar ôl colli statws OTF
- darganfyddir bod llaeth o'r anifeiliaid nad ydynt yn adweithyddion mewn buches nad yw'n OTF wedi mynd i mewn i'r gadwyn fwyd heb gael ei drin â gwres

**Camau i'w cymryd ar stociau o gynhyrchion llaeth amrwd ar ôl colli statws OTF**

Bydd swyddogion gorfodi awdurdodau lleol am ystyried y goblygiadau i iechyd y cyhoedd a gyflwynir gan gynhyrchion a wnaed cyn i'r fuches golli ei statws OTF, a hynny drwy gynnal asesiad risg yn lleol gyda'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC), swyddfa ranbarthol APHA a'r Arolygwyr Hylendid Llaeth. Argymhellir cael cyngor hefyd, lle bo'n briodol, gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Os, o ganlyniad i reoli risg, y deuir i'r casgliad ei bod hi'n briodol tynnu cynhyrchion o'r fath yn ôl neu eu dinistrio, gellid dilyn gweithdrefnau tynnu'r cynhyrchion yn ôl/dinistrio'r cynhyrchion (yn wirfoddol). Bydd rhaid i swyddogion awdurdodedig benderfynu ar gamau priodol yn seiliedig ar amgylchiadau achosion unigol.
Bydd y ffactorau y dylid eu hystyried yn yr asesiad risg yn cynnwys:

- y rhesymau dros golli statws OTF. Gall hyn fod o ganlyniad i ddatgelu anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB, anifeiliaid sydd wedi cael adwaith amhendant yn unig, achos mewn lladd-dy, neu brawf TB heb gael ei wneud mewn pryd
- nifer yr adweithyddion a nodwyd. Mae hyn yn golygu nifer yr anifeiliaid a adweithiodd i'r prawf TB mewn perthynas â maint y fuches gyfan a nifer y gwartheg a brofwyd. Gall un neu nifer bach o adweithyddion olygu bod y risg yn is, gan y gallai awgrymu nad yw'r haint wedi cael amser i ledaenu o fewn y fuches. Gallai nifer mawr o adweithyddion ddangos bod yr haint wedi lledaenu dros yr hirdymor o fewn y fuches neu fod mwy nag un haint yn gysylltiedig â ffynhonnell gyffredin. Mae buchesi lle ceir nifer mwy o adweithyddion yn y

prawf cyntaf yn fwy tebygol o ddatgelu rhagor o adweithyddion yn y prawf nesaf

- y mathau o wartheg sy'n adweithio i'r prawf. Er enghraifft, byddai heffrod gwyryf nad ydynt yn feichiog a theirw, fel anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu llaeth, yn llai arwyddocaol
- nifer a lleoliad unrhyw friwiau a ganfyddir yn ystod archwiliad post-mortem a chanlyniadau meithriniad meinwe. Os na chanfyddir briwiau TB, neu os yw'r briwiau'n gyfyngedig i un organ neu un rhan o'r corff ac eithrio'r chwarren laeth, ystyrir y byddai'r risg o fasili TB yn y llaeth yn isel. Os canfyddir briwiau TB yn y chwarren laeth neu mewn mwy nag un organ neu ran o'r corff mewn buwch odro sy'n llaetha, ystyrir y byddai'r risg o fasili TB yn y llaeth yn sylweddol. Gallai basili TB fod yn bresennol mewn llaeth hyd yn oed os nad oes clefyd amlwg ar y pwrs ('udder') pan fydd y clefyd wedi cael ei ddosbarthu'n systematig. Ar ôl archwiliad post-mortem, cesglir samplau meinwe o is-set fach o adweithyddion, gan gynnwys y rhai na welwyd briwiau amlwg arnynt yn absenoldeb gwartheg â briwiau. Mae meithrinad meinwe yn cymryd isafswm o 6 wythnos i gael cadarnhad o *M. bovis*, ac mae tua 10% o adweithyddion sydd heb friwiau amlwg yn yr archwiliad post-mortem a >90% o adweithyddion â briwiau yn arwain at feithriniad cadarnhaol o *M. bovis*.
- hanes profion ar y fuches unigol. Mae'r agweddau i'w hystyried yn cynnwys:
    - yr amser ers y prawf TB clir diwethaf
    - hanes TB blaenorol y fuches
    - y rheswm dros y prawf
- y gwaelodlin ar gyfer amlder y profion a gynhelir yn y plwyf sifil. Mae hyn yn dangos a yw'r fuches mewn ardal lle mae nifer mawr o achosion o TB. Bydd milfeddyg achos APHA yn rhoi barn broffesiynol ynghylch nifer yr achosion o TB yn yr ardal
- iechyd cyffredinol y fuches a bioddiogelwch y fuches. Dylid ystyried y canlynol hefyd:
    - cyfrifiadau celloedd somatig y llaeth – gallai cyfrifiadau celloedd uwch ddangos tebygrwydd uwch o bresenoldeb organebau TB yn y llaeth
    - cofnod masnachu anifeiliaid y fferm, sy'n dangos y nifer a ddygwyd i mewn, o ble y daethant a dyddiad y prawf TB diwethaf (mae hyn yn bwysig gan y gall gymryd isafswm o 6 wythnos rhwng yr amser y caiff anifail ei heintio a'r amser y bydd yn adweithio i'r prawf twbercwlin)
- y math(au) o gynnyrch llaeth a phrosesau cynhyrchu. Er enghraifft, gallai'r defnydd o laeth o'r tu allan ei gwneud yn anoddach cael yr wybodaeth angenrheidiol am y fuches. Dylid ystyried unrhyw dystiolaeth wyddonol, gan gynnwys y dystiolaeth a ddarperir gan y proseswyr llaeth, y gallai'r broses gynhyrchu ddileu'r pathogenau ac nad oes organebau TB yn y cynnyrch
- cynhyrchion llaeth ffres. Efallai y bydd oes silff y cynnyrch wedi dod i ben erbyn i'r adroddiad post-mortem neu ganlyniadau'r meithriniad meinwe ddod i law
- maint y fuches dan gyfyngiad TB. Mae tebygolrwydd, difrifoldeb a hyd digwyddiadau TB yn dueddol o gynyddu wrth i faint y fuches godi. Er bod y

duedd hon wedi'i nodi, mae'n anodd meintioli'r effaith ac felly mae'r ffactorau eraill a nodir uchod yn fwy arwyddocaol ar gyfer asesu'r risg

Lle ceir tystiolaeth o glefyd actif mewn anifail, mae'n debygol y byddai'n briodol tynnu sypiau o'r cynnyrch yn ôl a gynhyrchwyd cyn dyddiad y prawf TB fel cam rhagofalus. Yn aml y Swyddog Milfeddygol sy'n ymdrin â'r digwyddiad TB yw'r person gorau i ddarparu gwybodaeth ac i gynorthwyo'r Awdurdod Cymwys i asesu risg.

Nid yw Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gwahardd marchnata cynhyrchion a weithgynhyrchwyd cyn colli statws OTF. Os na ellir cytuno ar ddatrysiad gwirfoddol gyda'r cynhyrchydd, gallai swyddogion awdurdodedig ystyried cymryd camau gorfodi os byddant yn amau nad yw'r cynhyrchion dan sylw yn cydymffurfio â gofynion diogelwch bwyd, fel y'u diffinnir yn Erthygl 14 o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

**Camau i'w cymryd cyn i broblemau o ran statws OTF godi**

Mae'r ASB yn trafod ag APHA i sicrhau bod buchesi sy'n cyflenwi llaeth buwch i'w yfed yn amrwd (RCDM) a/neu sefydliadau neu broseswyr sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio yn cael profion twbercwlin bob blwyddyn. Mae'r ASB yn hysbysu APHA pan ddaw'n ymwybodol o RCDM yn cael ei werthu i'w yfed gan bobl. Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn hysbysu gweithgynhyrchwyr sy'n cynhyrchu cynhyrchion llaeth heb eu pasteureiddio fod y gyfraith yn mynnu bod y llaeth a ddefnyddir ganddynt yn dod o fuchesi OTF yn unig. Rhaid i swyddogion awdurdodedig gadarnhau bod y proseswyr hynny sy'n prynu llaeth yn gallu dangos tystiolaeth bod y llaeth maen nhw'n ei brynu yn dod o fuchesi llaeth OTF sy'n cael profion blynyddol ar gyfer TB. Gall awdurdodau lleol gysylltu ag APHA a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth am y materion hyn.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol drafod ag Arolygwyr Safonau Masnach Iechyd a Lles Anifeiliaid yr Awdurdod Cymwys gan fod eu cyfrifoldebau'n cynnwys gwirio cofnodion ffermydd dan ddeddfwriaeth iechyd anifeiliaid.

#### 8.4.11.4 Hysbysiad CCDC i'r Awdurdod Cymwys am berson â TB buchol wedi'i gadarnhau

Os rhoddir gwybod i CCDC fod achos wedi'i gadarnhau o TB buchol ar berson, ac y credir ei fod wedi dal yr haint yn ddiweddar, bydd y CCDC yn ceisio gweld a oes unrhyw gysylltiad â gwartheg sy'n dangos y gallai'r haint fod wedi'i ddal o anifail neu y gellir ei drosglwyddo i anifail. Os felly, byddant yn hysbysu'r Awdurdod Cymwys. Os oes risg y gallai buches a/neu stoc fferm arall gael ei heintio, dylai'r swyddog awdurdodedig hysbysu APHA fel y gellir gwneud gwiriadau ar y buchesi. Gallai hefyd fod yn briodol hysbysu Awdurdodau Cymwys perthnasol eraill, ffermwyr lleol, llaethdai a chynhyrchwyr, prynwyr neu ddosbarthwyr llaeth y gallai'r achos effeithio arnynt (gan roi sylw dyledus i gyfrinachedd y claf). I gael canllawiau manwl ar ddelio ag achosion o TB mewn pobl, cysylltwch â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) neu darllenwch ganllawiau perthnasol ar reoli iechyd y cyhoedd: twbercwlosis buchol (TB).

#### 8.4.11.5 Cysylltiadau a gwybodaeth bellach

Os bydd angen cyngor pellach ar y camau i'w cymryd ar stociau o gynhyrchion llaeth amrwd ar ôl colli statws OTF, gall Awdurdodau Cymwys gysylltu â Thîm Digwyddiadau Bwyd Cymru, a fydd yn gweithio gyda'r tîm ymchwilio lleol.

Os oes angen rhagor o wybodaeth am weithdrefnau Defra sy'n ymwneud â rheolaethau TB, gall Awdurdodau Cymwys gysylltu â'r Swyddog Milfeddygol ar ddyletswydd yn swyddfeydd lleol neu ranbarthol APHA.

Gallai'r gwefannau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Nodiadau gwybodaeth am TB mewn gwartheg
- Twbercwlosis (TB): diagnosis, sgrinio, rheoli a data

## 8.5 Materion yn ymwneud â chanolfannau pacio wyau

### 8.5.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Cymwys ar gyfer gorfodi Atodiad III, Adran X, Penodau I a II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004.

Yn ogystal â gofynion perthnasol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, mae'r rhan hon o'r Rheoliadau a enwyd uchod yn gosod gofynion ar gyfer canolfannau pacio wyau sy'n ymwneud â:

- gofynion hylendid a thymheredd ar gyfer storio a chludo wyau
- yr amser hiraf a ganiateir ar gyfer dosbarthu wyau i'r defnyddiwr

### 8.5.2 Cwmpas y rheoliadau

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- canolfannau pacio wyau – graddio, pacio, trin a storio wyau
- cyfanwerthwyr a manwerthwyr – trin a storio wyau

Mae cynhyrchu a chasglu wyau yn sefydliad y cynhyrchydd yn weithgareddau sy'n digwydd ar y lefel cynhyrchu cynradd.

O dan delerau deddfwriaeth hylendid, nid yw canolfannau pacio wyau yn cael eu dosbarthu fel cynhyrchwyr cynradd, gan eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd un cam oddi wrth gynhyrchu cynradd. Felly, yn ychwanegol at y darpariaethau hylendid wyau penodol yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, bydd canolfannau pacio wyau yn ddarostyngedig i ddarpariaethau priodol Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, gan gynnwys gofynion erthygl 5 HACCP a'r penodau perthnasol yn atodiad II.

Yn gyffredinol, bydd canolfannau pacio wyau yn cael wyau o unedau cynhyrchu cynradd. O'r ganolfan bacio, bydd wyau'n cael eu dosbarthu trwy'r gadwyn dosbarthu bwyd i gyfanwerthwyr, manwerthwyr a'r fasnach arlwyo. Efallai y bydd canolfannau pacio wedi'u lleoli ar yr un safle â'r daliad cynhyrchu, ond gallent hefyd fod yn cael wyau o nifer o wahanol safleoedd cynhyrchu a gallant hyd yn oed gymryd

cyflenwadau o wyau mewn sypiau o'r farchnad gyfanwerthu a'u hail-becynnu i gynwysyddion llai. Mae'r arferion hyn yn dderbyniol; fodd bynnag, dylai Awdurdodau Cymwys wirio bod canolfannau pacio wyau yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y rheoliadau hylendid bwyd a'r gyfraith fwyd gyffredinol.

Er bod cyfanwerthwyr wyau yn ddarostyngedig i ofynion Atodiad III, Adran X, Pennod I o Reoliad (CE) Rhif 853/2004, gellir eu dosbarthu fel sefydliadau 'manwerthu' yn unol â'r diffiniad yn Erthygl 3(7) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 a'u cynnwys yn yr eithriad manwerthu. Fodd bynnag, os yw cyfanwerthwr hefyd yn pacio wyau, mae angen cymeradwyaeth ar gyfer yr ardal yn y sefydliad sy'n ymwneud â phacio wyau.

### 8.5.3 Gofynion hylendid penodol ar gyfer wyau cregyn

Dyma'r gofynion penodol a nodir yn y Rheoliadau:

- yn sefydliad y cynhyrchydd, a hyd nes eu bod yn cael eu gwerthu i'r defnyddiwr, rhaid cadw wyau yn lân, yn sych, yn rhydd rhag aroglau allanol, allan o heulwen uniongyrchol, a rhaid eu diogelu'n effeithiol rhag siociau
- rhaid storio a chludo wyau ar dymheredd (cyson yn ddelfrydol) sydd fwyaf addas i sicrhau eu bod yn cadw eu priodweddau hylan
- rhaid dosbarthu wyau i'r defnyddiwr o fewn yr amser hiraf a ganiateir, sef 21 diwrnod ar ôl dodwy

Mae'r gofynion penodol hyn yn hunanesboniadol heblaw am y gofyniad i ddosbarthu wyau i'r defnyddiwr terfynol cyn pen 21 diwrnod ar ôl dodwy. Nid yw'n bosib pennu oedran wy yn uniongyrchol ac mae unrhyw ofyniad cyfreithiol i ddarparu dyddiad dodwy neu oedran wy wedi'i gwmpasu mewn deddfwriaeth marchnata wyau. Efallai y bydd wyau wedi'u stampio â'r 'dyddiadau ar ei orau cyn'. Yn achos wyau Dosbarth A, mae'n ofyniad cyfreithiol[46] rhoi 'dyddiad ar ei orau cyn' ar bob label/pecyn. O ystyried yr wybodaeth hon, os yw swyddog awdurdodedig yn amau bod wyau yn cael eu gwerthu y tu hwnt i'r terfyn amser sy'n ofynnol ar sail diogelwch bwyd, rhaid iddynt archwilio dogfennaeth gan y cynhyrchydd wyau i bennu oedran wy. Argymhellir bod y swyddog awdurdodedig hefyd yn cysylltu â'r Arolygydd Marchnata Wyau (EMI) perthnasol i gael canllawiau pellach a chymorth i gymryd y camau priodol.

Mae Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 yn cwmpasu'r rhan fwyaf o agweddau ar gynhyrchu, marcio, cludo, graddio, pacio a marchnata wyau.

Mae Rheoliadau Cofrestru Sefydliadau (Ieir Dodwy) (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad ieir dodwy sydd â 350 neu fwy o ieir dodwy – p'un ai o ieir cewyll, ieir ysgubor, ieir maes neu organig – gael eu cofrestru gydag APHA at ddibenion marchnata wyau. Mae'r Rheoliadau hyn ond yn ymwneud ag ieir *Gallus gallus*. Yr ASB yw'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am gofrestriadau hylendid bwyd a rheolaethau swyddogol yn y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, mae APHA yn cynnal y rheolaethau swyddogol hyn ar ran yr ASB. Mae hyn yn ychwanegol at y gofynion a

[46] Erthyglau 12 a 13 o Reoliad y Comisiwn (CE) Rhif 589/2008

nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 a Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 ynghylch cofrestru a chymeradwyo.

Rhaid i gynhyrchwyr hefyd gofrestru gydag APHA:

- os oes ganddynt 50 neu fwy o ieir a bod rhai o'r wyau'n cael eu marchnata mewn marchnad gyhoeddus leol
- os yw unrhyw rai o'r wyau'n cael eu marchnata i ganolfannau pacio cofrestredig

Sylwer: Os yw'r wyau'n cael eu cyflenwi i siopau, bwytai neu siopau bara, bydd angen i'r cynhyrchydd fod wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi fel canolfan bacio gan EMI er mwyn cael caniatâd i'w graddio fel wyau Dosbarth A.

Rhoddir rhif adnabod i bob sefydliad dodwy wyau sydd wedi'i gofrestru gydag APHA y mae'n rhaid ei stampio ar bob wy sydd wedi'i raddio fel wy Dosbarth A.

### 8.5.4 Marchnata wyau

Mae cynhyrchwyr wyau, gorsafoedd pacio, a chyfanwerthwyr hefyd yn ddarostyngedig i reoliadau ansawdd wyau a marchnata. Defra sy'n gyfrifol am y rheoliadau hyn. Cynhelir arolygiadau o dan y rheoliadau hyn gan EMI. Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn cysylltu â'u EMI priodol cyn arolygu gorsafoedd pacio wyau a chyfanwerthwyr.

## 8.6 Materion yn ymwneud â chynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif

### 8.6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau penodol i Awdurdodau Cymwys ar gyfer gorfodi Atodiad III, Adran X, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004. Mae hyn yn nodi rheolau iechyd y cyhoedd ar gyfer cynhyrchu a rhoi cynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif i'w bwyta gan bobl ar y farchnad.

Mae'r rheoliadau'n gosod gofynion ar gyfer:

- sefydliadau
- deunyddiau crai ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wy
- gofynion hylendid arbennig ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion wy
- manylebau dadansoddol
- labelu a marciau adnabod

### 8.6.2 Cwmpas y rheoliadau

Mae'r rheoliadau'n berthnasol i sefydliadau sy'n cynhyrchu cynhyrchion wyau ac wyau ar ffurf hylif i'w bwyta gan bobl, sy'n cynnwys busnesau bwyd sy'n ymwneud â chynhyrchu:

- cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n deillio o brosesu wyau, neu amryw gydrannau neu gymysgeddau wyau, neu o brosesu ymhellach y fath gynhyrchion sydd wedi'u prosesu
- wyau ar ffurf hylif i'w cludo ymlaen i sefydliadau prosesu cymeradwy

Mae angen cymeradwyo pob sefydliad os yw'r rheoliadau'n gymwys iddynt.

Nid yw unrhyw un o'r gofynion yn Atodiad III, Adran X, Pennod II o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn berthnasol i fanwerthu, fel y'i diffinnir gan Reoliad (CE) Rhif 178/2002, felly nid yw sefydliadau fel siopau bara ac arlwywyr sy'n prosesu wyau ac yn cyflenwi i'r defnyddiwr terfynol yn ddarostyngedig i unrhyw un o ofynion Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Fodd bynnag, mae'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth farchnata Defra i arlwywyr ddefnyddio wyau Dosbarth A yn unig, felly mae'n rhaid i wyau ddod o sefydliad pacio wyau cymeradwy sy'n bodloni'r gofynion yn Rheoliad (CE) Rhif 853/2004.

### 8.6.3 Mathau o safleoedd cymeradwy

Mae safleoedd y mae'n rhaid eu cymeradwyo yn syrthio i ddau gategori:

- i) safleoedd lle caiff cynhyrchion wyau eu cynhyrchu a'u rhoi ar y farchnad, er enghraifft, lle caiff wyau amrwd eu prosesu
- ii) safleoedd lle cynhyrchir wyau ar ffurf hylif i'w prosesu'n ddiweddarach gan weithgynhyrchwr cynnyrch wy cymeradwy

Mae categori (ii) yn bodoli oherwydd efallai y byddai'n well gan ganolfannau pacio dorri wyau, gan gynnwys wyau wedi cracio, i gynhyrchu wyau ar ffurf hylif yn hytrach na'r perygl bod wyau'n torri cyn eu hanfon i sefydliad prosesu a ddisgrifir yng nghategori (i). Rhaid i gymeradwyaethau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i'r wyau gael eu torri cyn gynted â phosib, yn unol â gweithdrefnau HACCP gweithredwr y busnes bwyd, a rhaid i'r wyau ar ffurf hylif sy'n deillio o'r broses gael eu rhewi neu eu hoeri i'w cludo i sefydliad cymeradwy arall. Os ydynt wedi'u hoeri, rhaid i'r tymheredd storio beidio â bod yn uwch na 4°C a rhaid i'r cyfnod storio cyn prosesu beidio â bod yn fwy na 48 awr. Rhaid i unrhyw sefydliad a gymeradwyir ar gyfer categori (ii) yn unig gydymffurfio â'r un gofynion ar gyfer cymeradwyaeth â gweithgynhyrchwyr cynhyrchu wyau yng nghategori (i). Wrth roi gwybod i'r ASB am gymeradwyaethau, dylai'r Awdurdod Cymwys nodi a yw'r gymeradwyaeth ar gyfer (i) neu (ii) ac a yw'r sefydliad hefyd yn ganolfan bacio.

### 8.6.4 Wyau budr

Ni cheir torri wyau oni bai eu bod yn lân ac yn sych. Gellir glanhau wyau budr (wyau nad ydynt yn wyau Dosbarth A), ond rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw waith golchi, sychu a diheintio wyau yn cael ei wahanu oddi wrth holl weithrediadau eraill y busnes.

### 8.6.5 Allgyrchu ('centrifuging') neu falu

Mae'r rheoliadau'n gwahardd defnyddio offer allgyrchu neu falu i gael cynnwys wyau neu gael gwynwyau o'r plisg i'w bwyta gan bobl. Fodd bynnag, gellir defnyddio offer allgyrchu i waredu gwastraff, ac mewn achosion o'r fath, rhaid i'r offer gael ei leoli mewn man hollol ar wahân i weithrediadau eraill y sefydliad cymeradwy. Rhaid i swyddogion awdurdodedig fod yn fodlon na all deunydd sydd wedi'i allgyrchu halogi cynhyrchion wyau y bwriedir eu bwyta gan bobl. Rhaid dadnatureiddio deunydd gwastraff wrth iddo fynd i mewn i'r offer allgyrchu, er enghraifft trwy ddefnyddio lliw ('dye').

### 8.6.6 Gofynion labelu

Rhaid cydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ar gyfer marciau adnabod a nodir yn Atodiad II, Adran I o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ac maent wedi'u nodi yn 2.7.3 o'r Cod. Fodd bynnag, mae gofynion penodol ychwanegol ar gyfer cynhyrchion wyau. Mae Atodiad III, Adran X, Pennod II, Rhan V o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn ei gwneud yn ofynnol i lwythi o gynhyrchion wyau sy'n cael eu defnyddio fel cynhwysyn wrth weithgynhyrchu cynnyrch arall fod â label sy'n nodi'r tymheredd gofynnol ar gyfer cynnal y cynhyrchion wyau a'r cyfnod y gellir sicrhau cadwraeth felly. Os yw'r wy dan sylw yn wy ar ffurf hylif, dylai'r label hefyd nodi'r geiriau 'wy ar ffurf hylif heb ei basteureiddio – i'w drin yn y gyrchfan' / 'non-pasteurised liquid egg – to be treated at place of destination' a nodi dyddiad ac awr torri'r wy.

### 8.6.7 Pasteureiddio a thrin â gwres

Nid yw'r rheoliadau'n rhagnodi cyfuniad amser/tymheredd ar gyfer trin wyau â gwres, ond maent yn nodi bod y dylai'r broses ddileu peryglon microbiolegol neu eu lleihau i lefel dderbyniol. Nid oes gofyn prosesu gwynnwy y bwriedir ei weithgynhyrchu ar gyfer albwmen wedi'i sychu neu wedi'i grisialu a fydd yn ei dro yn cael ei drin â gwres.

Bydd angen i Awdurdodau Cymwys fod yn fodlon bod y broses trin â gwres yn ddigonol i sicrhau gostyngiad yn lefel y micro-organebau yn y cynnyrch wyau i unrhyw lefelau a nodir yn neddfwriaeth y DU ar feini prawf microbiolegol.

Pan gynigir proses ansafonol, mae'r cyfrifoldeb ar y busnes bwyd i ddangos bod ymchwil ddigonol wedi'i chynnal ar effeithiolrwydd y broses. Mewn sefydliadau lle mae prosesu â gwres yn digwydd, mae angen i Awdurdodau Cymwys gadarnhau bod gan weithredwr y broses wres lefel dderbyniol a phriodol o arbenigedd.

### 8.6.8 Manylebau dadansoddol

Mae Atodiad III, Adran X, Pennod II, Rhan IV o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi manylebau dadansoddol na ddylai'r cynnyrch terfynol fynd y tu hwnt iddynt. Er nad oes unrhyw ddulliau rhagnodedig ar gyfer profi am asidau lactig neu fwtyrig, mae dulliau'n bodoli. Pan ddefnyddir dulliau o'r fath, dylid ystyried dibynadwyedd y canlyniadau. Pan brofir samplau, dylid cymharu'r canlyniadau â'r safonau a nodwyd.

Gall swyddogion awdurdodedig helpu busnesau bwyd i ddatblygu cynlluniau samplu nad ydynt wedi'u rhagnodi yn y rheoliadau.

### 8.6.9 Rheoli tymheredd

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchion nad ydynt wedi'u sefydlogi er mwyn eu cadw ar dymheredd ystafell, gael eu hoeri i ddim mwy na 4°C. Dylid rhewi cynhyrchion a wneir yn benodol i'w rhewi yn syth ar ôl eu prosesu.

### 8.6.10 Storio a chludo

Argymhellir bod sefydliadau'n cadw wyau a chynhyrchion wyau ar wahân er mwyn osgoi halogiad. Os nad oes ystafelloedd ar wahân ar gael, gellir storio cynhyrchion wyau mewn cynwysyddion ac ardaloedd ar wahân.

Dylai ystafelloedd storio allu cynnal unrhyw reolaethau tymheredd gofynnol.

Nid yw'r rheoliadau'n cynnwys cynhyrchion wyau sy'n cael eu storio mewn sefydliadau ar wahân fel depos neu warysau y tu allan i sefydliadau cynhyrchion wyau cymeradwy. Mae storfeydd o'r fath yn dod o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

## 8.7 Symiau bach

### 8.7.1 Symiau bach o gynhyrchion cynradd

Mae'r cynhyrchwyr hynny sy'n cynhyrchu symiau bach o gynhyrchion cynradd, a gaiff eu cyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol neu sefydliadau manwerthu lleol sy'n cyflenwi'r defnyddiwr terfynol yn uniongyrchol, wedi'u heithrio rhag gofynion deddfwriaethol yn unol ag Erthygl 1(2) o Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 852/2004 ac Erthygl 1(3) o Reoliad a gymathwyd (CE) Rhif 853/2004. Mae'r cynhyrchwyr hyn yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflenwi bwyd diogel o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.

Yn gyffredinol, mae'r syniad o symiau bach yn ddigon eang i ganiatáu, ymhlith pethau eraill:

- i ffermwyr werthu cynhyrchion cynradd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol, er enghraifft gwerthu wrth gât y fferm neu werthu mewn marchnadoedd lleol. Mae'r eithriad hwn hefyd yn cynnwys gwerthu i siopau manwerthu lleol a bwytai lleol sy'n cyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol ac eithrio llaeth yfed amrwd ac wyau (gweler isod)
- i bysgotwyr sy'n cynaeafu cynhyrchion pysgod cregyn byw a chynhyrchion pysgodfeydd fel crancod a chimychiaid eu danfon yn uniongyrchol at y defnyddiwr terfynol neu siopau manwerthu lleol a bwytai lleol i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol

Nid yw'r ymadrodd symiau bach wedi'i ddiffinio yn y rheoliadau – mae'r ASB felly yn awgrymu'r canlynol yn Nhabl 6 fel uchafsymiau, y gellid eu hystyried fel swm bach ar gyfer POAO unigol.

**Tabl 6 – Tabl sy'n dangos meintiau bach o POAO**

| Cynhyrchion | Uchafsymiau |
|---|---|
| Llaeth | Hyd at 24 peint o laeth yfed amrwd y dydd (tua 14 litr) |
| Wyau | Llai na 360 o wyau (hynny yw, llai nag un cas llawn) yr wythnos<br><br>Sylwer: Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r cynhyrchydd sy'n cyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol o'r fferm a marchnadoedd ffermwyr ac o ddrws i ddrws. Os yw'r cynhyrchydd yn gwerthu'r wyau, er enghraifft, i siopau, bwytai neu siopau bara lleol, rhaid iddynt fod wedi'u |

| | |
|---|---|
| | graddio fel wyau Dosbarth A yn gyntaf; ac, felly, rhaid i'r safle hefyd fod wedi'i gymeradwyo a'i awdurdodi fel canolfan bacio ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. |
| Cynhyrchion pysgodfeydd | Hyd at 25 tunnell mewn blwyddyn galendr |
| Molysgiaid dwygragennog byw a gastropodau morol | Gyda'i gilydd, hyd at 25 tunnell mewn blwyddyn galendr, ond yn amodol ar derfynau uchaf ar gyfer rhywogaethau unigol fel y nodir isod:<br>Cocos – 25 tunnell<br>Wystrys – 5 tunnell<br>Cregyn bylchog y brenin – 5 tunnell<br>Cregyn bylchog y frenhines – 10 tunnell<br>Cregyn gleision – 20 tunnell<br>Molysgiaid dwygragennog byw eraill – 10 tunnell<br>Gastropodau morol – 20 tunnell |

## 8.8 Bwyd ar gyfer grwpiau penodol

### 8.8.1 Canllawiau

Mae Rheoliad (UE) Rhif 609/2013 yn sefydlu gofynion o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar fwyd ar gyfer grwpiau penodol, sy'n cynnwys:

- fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol
- bwydydd wedi'u prosesu sy'n seiliedig ar rawnfwydydd a bwyd babanod
- bwyd at ddibenion meddygol arbennig
- bwydydd ar gyfer amnewid deiet yn llwyr ar gyfer rheoli pwysau

Mae'r DHSC wedi cynhyrchu taflen wybodaeth am y ddeddfwriaeth hon.

Mae canllawiau penodol hefyd ar gael ar Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2016/127 ynghylch fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol.

## 8.9 Darpariaethau rheoli tymheredd

### 8.9.1 Cyflwyniad

Nodir gofynion rheoli tymheredd ar gyfer bwyd yn y DU yn Atodiad II, Pennod IX, Paragraffau (5) a (6) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Rhoddir y gofynion hyn i rym gan Reoliad 30 ac Atodlen 4 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Nid yw Rheoliad 30 nac Atodlen 4 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithrediad y mae Rheoliad (CE) Rhif 853/2004 yn gymwys iddo.

Mewn perthynas ag amgylchiadau sydd wedi'u heithrio o ofynion Rheoliad 30 ac Atodlen 4, a lle mae'n ofynnol cadw bwyd o dan reolaeth tymheredd am resymau

diogelwch, byddai gofynion cyffredinol Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn dal i fod yn gymwys, fel y bo'n briodol, sy'n cynnwys:

- Pennod I, Paragraff 2 (d)
- Pennod III, Paragraff 2(g)
- Pennod IV, Paragraff 7
- Pennod V, Paragraff (2)
- Pennod IX, Paragraffau (2), (5), (6) a (7)

### 8.9.2 Dull cyffredinol o wirio tymheredd

Nid yw Atodlen 4 yn gymwys i unrhyw weithrediad busnes bwyd ar longau ac awyrennau. Lle bo'n gymwys, mae'r atodlen yn ei gwneud yn ofynnol i fathau penodol o fwydydd darfodus gael eu cynnal o fewn amrediadau tymheredd penodedig. Diben gwirio tymheredd y fath fwydydd at ddibenion gorfodi yw pennu a yw'r gofynion hyn yn cael eu bodloni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw eithriadau neu ffiniau goddefiant a allai fod yn gymwys.

Lle bo'n briodol, dylid ystyried unrhyw ofynion tymheredd perthnasol yn Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn defnyddio dull fesul cam i wirio cydymffurfiaeth â gofynion tymheredd y rheoliadau fel a ganlyn:

**Cam 1 – Monitro tymheredd yr aer**

Mae monitro tymheredd yr aer yn rhoi syniad o berfformiad system oeri dros amser, ac ni fydd un darlleniad ar unrhyw un adeg o reidrwydd yn nodi tymheredd y cynnyrch. Mae cofnodion monitro tymheredd yr aer yn arwydd o hanes tymheredd, gan gynnwys cylchredau dadmer, agor drysau ac offer yn torri. Rhaid eu hystyried fel canllaw i sut mae system benodol yn gweithredu.

**Cam 2 – Profi rhwng pecynnau**

Gellir defnyddio mesuriad tymheredd annistrywiol, neu brofion rhwng pecynnau, fel y cam nesaf yn y broses orfodi. Gwneir hyn â thermomedr/prôb pen fflat wedi'i oeri ymlaen llaw, sy'n addas ar gyfer mesur tymereddau arwynebau neu rwng pecynnau.

Mae'n bwysig sicrhau cyswllt thermol da rhwng y cynnyrch a'r prôb wrth gymryd mesuriadau rhwng pecynnau. Gellir caniatáu goddefiant llwyr o +2.8ºC (0.8ºC fel y nodir ar gyfer cywirdeb yr offeryn a 2ºC ar gyfer cyfyngiad y fethodoleg). Dylid cymryd gofal i ganiatáu amser i'r darlleniad sefydlogi, ac i sicrhau bod y darlleniad tymheredd yn berthnasol i'r cynnyrch, nid yr aer o'i amgylch, a all ddigwydd os nad yw'r prôb wedi'i osod yn iawn rhwng y pecynnau. Dylid cynnal profion gan aflonyddu cyn lleied â phosib ar y cynnyrch neu ei amgylchedd a reolir gan dymheredd, yn enwedig y patrymau llif aer mewn cabinetau arddangos cynhyrchion manwerthu. Ar gyfer cynhyrchion mewn casinau allanol, bydd angen agor y casin a rhoi'r prôb tymheredd rhwng pecynnau.

Nid yw pob pecyn neu ddeunydd pecynnu yn addas ar gyfer profi rhwng pecynnau. Mae pecynnau siâp afreolaidd lle nad yw'n bosib cael cyswllt thermol da, deunyddiau pecynnu sy'n gweithredu fel ynysydd a chynhyrchion mewn cartonau neu becynnau

swigen lle mae gofod aer mawr yn bodoli i gyd yn enghreifftiau lle na fyddai mesur y tymheredd rhwng pecynnau yn ddigon cywir i nodi tymheredd y cynnyrch. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd angen symud ymlaen yn uniongyrchol i fesur tymheredd y cynnyrch.

**Cam 3 – Profi cynnyrch (dinistriol)**

Os na fu'n bosib mesur tymheredd gan ddefnyddio 'cam 2', neu os oes amheuaeth resymol ar ôl prawf 'cam 2' o ran cydymffurfio â gofynion tymheredd, bydd angen symud ymlaen i brofion cynnyrch.

Gellir paratoi sampl a mesur tymheredd gyda'r sampl yn ei amgylchedd lle caiff y tymheredd ei reoli. Os nad yw hyn yn bosib, gellir symud y sampl i amgylchedd sydd wedi'i oeri'n briodol, ar yr amod nad yw'r cludo yn effeithio ar dymheredd y cynnyrch. Rhaid cludo'r cynnyrch cyn paratoi'r sampl. Mae cludo cynhyrchion o fewn y gadwyn oer arferol, er enghraifft o gerbyd i storfa oer, yn dderbyniol.

Pan fydd mesuriad 'cam 3' yn cael ei gynnal, gallai gosod y thermomedr tymheredd yn y bwyd olygu nad oes modd gwerthu'r bwyd mwyach. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r swyddog awdurdodedig ystyried prynu'r bwyd dan sylw.

Y swyddog sy'n dewis yr eitemau i'w profi. Fodd bynnag, os cynhaliwyd profion 'cam 2' ac ymddengys bod diffyg cydymffurfio â'r gofynion tymheredd perthnasol, nid oes angen dewis nifer mawr o eitemau i'w profi yng 'ngham 3'.

Yn y lle cyntaf, dylid cymryd eitemau ar gyfer profion 'cam 3' o ran gynhesaf y system oeri. Fel arfer, gellir nodi hyn trwy ddefnyddio dangosyddion tymheredd stribed thermocromig (crisial hylifol). Er nad yw'r rhain yn rhoi darlleniad tymheredd manwl gywir, gallant ddarparu canllaw defnyddiol ar ddosbarthiad tymheredd cymharol o fewn system oeri.

**Dull cyffredinol**

Os bydd swyddog awdurdodedig yn fodlon ar ôl 'cam 1' neu 'gam 2' fod y gofynion tymheredd perthnasol wedi'u bodloni, nid oes angen symud ymlaen i'r cam nesaf na chymryd unrhyw gamau pellach.

Os nad oes system monitro tymheredd, neu os oes gan y swyddog amheuaeth resymol am yr wybodaeth a gafwyd o'r system lle ceir un, argymhellir bod y swyddog yn cynnal gwiriad 'cam 2'.

Os yw'r tymheredd a fesurwyd yn ystod 'cam 2' yn rhoi amheuaeth resymol i swyddog awdurdodedig nad yw'r gofynion tymheredd perthnasol yn cael eu bodloni, argymhellir bod y swyddog yn symud ymlaen i 'gam 3' ac yn mesur tymheredd y bwyd ei hun.

Argymhellir defnyddio dulliau profi cynnyrch 'cam 3' i gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer camau gorfodi ffurfiol.

Argymhellir gwahodd gweithredwr y busnes bwyd neu'r rheolwr, os yw'n bresennol, i fod yn dyst wrth fesur y tymheredd. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan gaiff tystiolaeth ei chasglu gyda golwg ar gamau gorfodi ffurfiol posib.

### 8.9.3 Cymryd mesuriadau tymheredd

Ni ddylid rhagfarnu tymheredd cynnyrch trwy, er enghraifft, agor y drysau mewn cerbyd yn rhy aml neu am gyfnod rhy hir, aflonyddu'r llen aer mewn cabinet oeri, neu dynnu'r bwyd o amgylchedd oer am gyfnodau hir.

Dylid ail-selio unrhyw gasinau sydd wedi'u hagor, a'u labelu'n briodol neu eu marcio â dyddiad ac amser yr arolygiad, enw'r person a'i agorodd, ac enw'r Awdurdod Cymwys. Mae hyn er mwyn dangos bod y casin neu'r carton wedi'i agor ar gyfer rheolaeth swyddogol ac yn dileu unrhyw amheuaeth o ymyrraeth faleisus.

### 8.9.4 Lefelau goddefiant

Gallai darlleniadau tymheredd 'cam 2' fod hyd at 2ºC yn gynhesach na gwir dymheredd y cynnyrch, yn enwedig cynnyrch â deunydd pecynnu trwchus. Gall symudiad diweddar nwyddau, cylchredau dadmer neu anghywirdeb o ran yr offer fel y disgrifir isod hefyd effeithio arnynt.

Dylai swyddogion awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol mewn achosion ffiniol i benderfynu a oes angen mesuriadau 'cam 2' pellach cyn symud ymlaen i 'gam 3'.

### 8.9.5 Gwirio a graddnodi thermomedrau mesur a ddefnyddir at ddibenion gorfodi

Dylai profwr achrededig addas, er enghraifft gwneuthurwr yr offer neu labordy neu dŷ profi a achredir gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig, brofi a graddnodi thermomedrau ac offer mesur tymheredd eraill a ddefnyddir at ddibenion rheolaethau swyddogol a/neu orfodi yn gyfnodol, a hynny yn unol ag unrhyw argymhellion gan y gwneuthurwr neu'r cyflenwr, er mwyn sicrhau cywirdeb, cyfanrwydd a dibynadwyedd. Rhaid cael tystysgrif o'r fath broses raddnodi.

Dylai Awdurdodau Cymwys hefyd wirio offer yn rheolaidd rhwng pob graddnodiad i sicrhau cywirdeb, er enghraifft yn erbyn thermomedr cyfeirio a ddefnyddir at y diben hwnnw'n unig, ac i sicrhau eu bod yn aros o fewn ffiniau goddefiant perthnasol. Rhaid cofnodi manylion y gwiriadau hyn a chadw'r cofnodion yn unol â pholisïau cadw'r Awdurdod Cymwys.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn sicrhau eu bod yn defnyddio thermomedrau neu ddyfeisiau mesur eraill a chanddynt dystysgrif raddnodi gyfredol i gymryd mesuriadau tymheredd sydd i'w defnyddio fel tystiolaeth.

Dylid gwirio cywirdeb y thermomedr neu ddyfais mesur tymheredd arall, ac unrhyw brobau datodadwy, yn erbyn thermomedr cyfeirio neu raddnodwr sydd wedi'i ardystio i safon briodol, er enghraifft Labordy Ffisegol Cenedlaethol, a chofnodi'r canlyniad cyn ac ar ôl cymryd unrhyw fesuriadau tymheredd sy'n debygol o arwain at gamau gorfodi.

Wrth gofnodi'r fath wiriad, dylid ei gyfeirio at dystysgrif graddnodi'r offer a chynnwys rhifau cyfresol yr offer ac unrhyw brobau cyfnewidiol.

Os nad oes thermomedr cyfeirio ar gael, gellir gwirio'r synhwyrydd mewn cymysgedd iâ gwlyb. Yn yr achos hwn, mae'r system wedi'i graddnodi ar 0ºC. Tymheredd iâ gwlyb o ddŵr wedi'i ddistyllu yw 0ºC. Bydd dŵr yfed sydd â chynnwys halen o 0.1ºC

dim ond yn gostwng y pwynt toddi i -0.06ºC. Felly, yn y rhan fwyaf o achosion, gellir defnyddio dŵr yfed i wneud yr iâ ar gyfer y weithdrefn wirio. Dylid torri'r iâ yn ddarnau bach iawn, eu rhoi mewn fflasg dan wactod â gwddf llydan, eu gwlychu â dŵr oer a'u troi. Dylid gosod y synhwyrydd yng nghanol y fflasg ar ddyfnder o 5cm o leiaf, a'i symud yn aml a rhaid darllen y tymheredd ar ôl tri munud pan fydd wedi sefydlogi. Gellir gwirio'r offer alldarllen ar wahân gan ddefnyddio atodion graddnodi ar ddau neu dri thymheredd gwahanol. Dylai'r cyfuniad o wirio'r system ar 0ºC a gwirio'r offeryn sicrhau cywirdeb ar dymheredd uwch.

### 8.9.6 Oeri offer ymlaen llaw

Dylai'r thermomedr neu'r ddyfais mesur tymheredd arall a'r prôb treiddio gael eu hoeri ymlaen llaw cyn eu defnyddio i fesur tymheredd y cynnyrch i sicrhau bod offer mor agos â phosib at dymheredd y cynnyrch sy'n cael ei fesur. Mae oeri ymlaen llaw yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd tymheredd y cynnyrch yn codi oherwydd tymheredd y thermomedr a'r weithred o wneud y twll. Gellir oeri'r offer ymlaen llaw trwy adael yr offer a'r thermomedr yn yr un amgylchedd y rheolir ei dymheredd â'r sampl am tua 10 munud. Cyn belled â nad yw tymheredd yr offer neu'r prôb yn codi'n sylweddol, gellir gwneud mesuriadau dilynol ar ôl cyfnod oeri ymlaen llaw llawer byrrach.

### 8.9.7 Paratoi samplau ar gyfer mesur tymheredd

Dim ond probau mesur tymheredd sydd wedi'u cynllunio'n benodol at y diben y dylid eu defnyddio i wneud twll yn y cynnyrch. Os nad yw'r prôb wedi'i ddylunio at y diben hwn, dylid defnyddio teclyn treiddio cynnyrch wedi'i oeri ymlaen llaw ar wahân. Dylai diamedr y twll fod yn debyg i ddiamedr y prôb a bydd ei ddyfnder yn dibynnu ar y math o gynnyrch sy'n cael ei brofi (fel y disgrifir isod).

### 8.9.8 Mesur tymheredd cynnyrch

Dylid paratoi'r cynnyrch i'w brofi a mesur ei dymheredd yn ei amgylchedd a reolir gan dymheredd. Mae'r mesuriad fel a ganlyn:

- lle mae dimensiynau'r cynnyrch yn caniatáu, rhowch y prôb wedi'i oeri ymlaen llaw i ddyfnder sydd o leiaf 2.5cm o arwyneb allanol agosaf y cynnyrch
- lle nad yw hyn yn bosib, dylid rhoi'r prôb i ddyfnder lleiaf o'r wyneb sydd o leiaf 3 gwaith diamedr y prôb. Gyda rhai cynhyrchion, oherwydd eu maint bach, argymhellir cymryd mwy o ofal i osgoi codi tymheredd y cynnyrch yn ormodol o ganlyniad i drin y sampl yn ddiangen

Ni ellir treiddio'n foddhaol i rai bwydydd i bennu eu tymheredd mewnol, oherwydd eu maint neu eu cyfansoddiad. Yn yr achosion hyn, dylid pennu tymheredd mewnol y deunydd pecynnu bwyd trwy ddefnyddio prôb miniog addas wedi'i oeri ymlaen llaw i ganol y pecyn, i fesur y tymheredd mewn cysylltiad â'r bwyd.

Efallai na fydd bob amser yn bosib pennu tymheredd mewnol y cynnyrch yn gywir, yn enwedig cynhyrchion bregus neu gynhyrchion gwead agored. Dylid mesur tymheredd cynhyrchion o'r fath trwy dynnu'r cynnyrch yn ofalus o'i ddeunydd pecynnu a gosod prôb pen fflat wedi'i oeri ymlaen llaw rhwng dwy eitem o gynnyrch.

Ni ddylid cofnodi'r darlleniad tymheredd nes ei fod wedi sefydlogi.

### 8.9.9 Offer a ddefnyddir i fesur tymheredd cynnyrch wedi'i oeri

Dylai systemau mesur tymheredd a ddefnyddir at ddibenion gorfodi fodloni'r gofynion canlynol:

- dylai'r system gyrraedd 90% o'i darlleniad terfynol o fewn 3 munud
- dylai'r system fod â chywirdeb o +/- 0.5ºC, neu'n well pan fydd y synhwyrydd yn mesur o fewn yr ystod tymheredd -20ºC i + 30ºC
- ni ddylai'r cywirdeb newid mwy na +/- 0.3ºC pan weithredir yr offer mewn tymereddau o -20ºC i + 30ºC
- dylai dangosydd yr offer fod yn ddarllenadwy i o leiaf 0.1ºC
- dylai'r system fod yn gadarn ac yn ddiogel rhag sioc
- dylid adeiladu'r rhan o'r system sy'n sensitif i dymheredd i hwyluso cyswllt thermol da â'r bwyd a rhaid iddi fod yn hawdd ei glanhau

Dylai'r offer mesur gael ei bweru gan fatri cell sych, nid trydan prif gyflenwad. Dylai'r offer ymgorffori dull o wirio foltedd y batri i nodi pryd mae angen ei newid neu ei ail-wefru. Mae dyluniad y prôb yn dibynnu ar y math o dymheredd sy'n cael ei fesur:

- ar gyfer profi cynnyrch: coesyn anhyblyg cadarn â phwynt miniog sy'n addas i'w fewnosod yn y cynnyrch ac y gellir ei sterileiddio
- ar gyfer profion rhwng pecynnau: pen gwastad sy'n addas ar gyfer mesur rhwng pecynnau â chysylltiad wyneb da, màs thermol isel a dargludedd thermol uchel. Os nad oes prôb fflat addas ar gael, gellir adeiladu un gan ddefnyddio synhwyrydd wedi'i raddnodi sydd wedi'i grimpio yng nghanol sgwâr (tua 4cm o hyd) neu gylch (tua 4cm o ddiamedr) neu haen ddwbl o ffoil alwminiwm. Dylai unrhyw geblau rhyng-gysylltu fod yn hyblyg rhwng 0ºC a +30ºC

### 8.9.10 Bwyd sy'n gynhesach na'r tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn oer

Wrth fesur tymheredd y bwyd ei hun, dylai swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol bod y rheoliadau'n caniatáu i dymheredd bwyd y mae'n ofynnol ei gadw ar dymheredd oer godi'n uwch nag 8ºC am un cyfnod yn unig o lai na phedair awr tra bydd yn cael ei weini neu'n cael ei arddangos i'w werthu.[47]

Dylai'r swyddog fod yn fodlon bod gan weithredwr y busnes bwyd fesurau ar waith, fel sy'n briodol, i sicrhau na ragorir ar y ffin goddefiant a ddisgrifir uchod ar gyfer cadw bwyd yn oer.

### 8.9.11 Bwyd sy'n oerach na'r tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn boeth

Wrth fesur tymheredd y bwyd ei hun, dylai swyddogion awdurdodedig fod yn ymwybodol bod y rheoliadau'n caniatáu i dymheredd bwyd y mae'n ofynnol ei gadw

[47] Rheoliad 30 ac Atodlen 4, Paragraff 5 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

ar dymheredd poeth ddisgyn islaw 63ºC am un cyfnod yn unig o lai na dwy awr tra bydd yn cael ei weini neu'n cael ei arddangos i'w werthu.[48]

Dylai'r swyddog fod yn fodlon bod gan weithredwr y busnes bwyd fesurau ar waith, fel sy'n briodol, i sicrhau na ragorir ar y ffin goddefiant a ddisgrifir uchod ar gyfer cadw bwyd yn boeth.

#### 8.9.12 Gwyriadau oddi wrth y tymheredd

Lle bydd gweithredwr y busnes bwyd yn awgrymu na chydymffurfiwyd â thymereddau penodedig[49] am resymau nad oedd modd eu hosgoi, dylai'r swyddog awdurdodedig drafod y rhesymau â gweithredwr y busnes bwyd a, lle bo modd, geisio cytuno ar gamau i atal hynny rhag digwydd eto.

Dylai swyddogion awdurdodedig sicrhau bob amser fod unrhyw fesurau a gymerwyd gan weithredwr y busnes bwyd o ran bwyd a amlygwyd i dymereddau sy'n uwch, neu'n is, na'r rheiny a ganiateir gan y rheoliadau yn gyson â diogelwch bwyd, a chymryd camau priodol i waredu'r fath fwyd o'r gadwyn fwyd os bydd hynny'n ofynnol.

Os yw'r bwyd ei hun ar dymheredd uwch na'r tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn oer, neu dymheredd is na'r tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn boeth, a bod y swyddog awdurdodedig o'r farn na chafodd y bwyd ei gynhyrchu, ei brosesu na'i ddosbarthu yn unol â Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, dylai'r swyddog ymdrin â'r bwyd o dan Reoliad 27 o'r Rheoliadau (gweler Rheoliad 23 yn y cyd-destun hwn hefyd). Fodd bynnag, gellir defnyddio gweithdrefnau gwirfoddol i dynnu bwyd o'r gadwyn fwyd o dan amgylchiadau priodol.

Os yw bwyd ar dymheredd uwch nag 8ºC (y tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn oer) neu islaw 63ºC (y tymheredd rhagnodedig ar gyfer cadw bwyd yn boeth) ond nad yw'n methu'r gofynion o ran diogelwch bwyd, dylai'r swyddog awdurdodedig ddefnyddio barn broffesiynol i bennu'r camau mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau. Gall y bwyd barhau i fod yn addas i'w fwyta, hyd yn oed os yw wedi'i gadw ar dymheredd o fewn yr ystod hon.

Argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn ymholi o ran hanes y bwyd, yn arbennig i ganfod a allai fod wedi cael ei amlygu i dymereddau o'r fath yn y gorffennol. Dylai penderfyniadau gorfodi ystyried hanes y bwyd ac a yw'n gyson â diogelwch bwyd. Gall swyddogion awdurdodedig ddefnyddio dull addysgiadol fel cam cyntaf tuag at sicrhau cydymffurfiaeth, a thrafod gofynion y ddeddfwriaeth â gweithredwr y busnes bwyd i sicrhau ei fod yn deall y rheolaethau, pam y mae eu hangen a sut y gellir eu cyflawni. Wrth ystyried y dull i'w fabwysiadu, argymhellir bod swyddogion awdurdodedig yn ystyried pa mor debygol yw hi y gallai bwyd gael ei roi yn gyson ar y farchnad ar y tymereddau hyn.

### 8.10 Dŵr potel

[48] Rheoliad 30 ac Atodlen 4, Paragraff 7 o Reoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Cymru) 2006
[49] Rheoliad 30 ac Atodlen 4 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

### 8.10.1 Canllawiau

Mae canllawiau ynghylch dŵr potel, gan gynnwys dŵr mwynol naturiol a dŵr ffynnon, ar gael yng nghanllawiau canlynol yr ASB.

Gellir dod o hyd i'r rhestr ddiweddaraf o'r holl ffynonellau cydnabyddedig yn y DU yn dyfroedd mwynol naturiol: rhestrau o gynhyrchion cydnabyddedig.

## 8.11 Gwastraff bwyd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid

### 8.11.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau i Awdurdodau Cymwys ar reoli gwastraff bwyd a chael gwared ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid (ABP).

Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n rheoli'r broses o adnabod, categoreiddio, gwahanu, casglu a gwaredu gwastraff bwyd yn cynnwys rheoliadau a gorchmynion a wneir o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981 a Rheoliad (CE) 852/2004.

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer, mae 'gwastraff bwyd' yn cynnwys deunydd bwyd nad yw'n addas ar gyfer pobl neu nad yw wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl, ond mae'n bwysig nodi bod 'gwastraff bwyd' yn aml yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at fwyd sy'n weddill sy'n cael ei ailddosbarthu ac felly, yn yr achosion hynny, yn parhau 'ar y farchnad' yn nhermau cyfraith bwyd.

Gall bwyd sy'n weddill, lle nad yw'r bwyd, am resymau masnachol, wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl mwyach, gael ei gyflenwi ar gyfer bwyd anifeiliaid. Gall hyn gynnwys bwyd sydd wedi mynd heibio'r dyddiad defnyddio erbyn, sydd y tu hwnt i'r fanyleb, cynnyrch neu gynhwysion sy'n weddill, neu fwyd mewn deunydd pecynnu sydd wedi'i ddifrodi.

Bydd llawer o fusnesau bwyd yn ymdrechu i leihau gwastraff bwyd ac ailddosbarthu bwyd sy'n weddill. Mae'r ASB yn cefnogi ailddosbarthu bwyd sy'n weddill lle gellir gwneud hynny'n ddiogel. Mae dogfen ganllaw ar gael sydd â chyngor defnyddiol ar gyfer unrhyw fusnesau sy'n ailddosbarthu bwyd sy'n weddill. Enw'r ddogfen yw 'Arferion gorau ar labelu dyddiadau bwyd a chyngor ar storio' ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2017 gan WRAP mewn cydweithrediad â'r ASB a Defra.

### 8.11.2 Gwastraff arlwyo

Bydd yn rhaid i fusnesau bwyd yng Nghymru, sy'n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos, ystyried gofynion Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. Mae canllawiau ar y gofynion ar gael ar gyfer:

- y sector lletygarwch a bwyd
- busnesau bach a chanolig eu maint
- cyfleusterau hamdden a'r sector adloniant
- lleoliadau preswyl (gan gynnwys cartrefi gofal)

### 8.11.3 Rheolaethau swyddogol ar fusnesau bwyd

Gall rheolaeth swyddogol ar fusnes bwyd, gan gynnwys rheolaethau ar sefydliadau/safleoedd symudol, llongau, awyrennau a threnau, gynnwys gwiriad o'r trefniadau sydd gan y busnes ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff bwyd.

Gall gwiriadau:

- gynnwys y trefniadau mewn porthladdoedd a meysydd awyr ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff bwyd wedi'i fewnforio o longau ac awyrennau
- gwirio bod bygythiadau i iechyd pobl neu anifeiliaid, a all ddeillio o waredu gwastraff bwyd yn anghyfreithlon, yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy waredu'n briodol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth gymwys

### 8.11.4 Gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Yn ôl Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009, ystyr sgil-gynhyrchion anifeiliaid (neu 'ABP' i ddefnyddio'r acronym Saesneg) yw cyrff cyfan neu rannau o anifeiliaid, cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a geir o anifeiliaid (gan gynnwys wyau, llaeth a mêl), nad ydynt wedi'u bwriadu i'w bwyta gan bobl, gan gynnwys öocytau, embryonau a semen.[50] Mae Erthyglau 8-10 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 yn nodi'r hyn a gynhwysir gan ddeunyddiau Categori 1, 2 a 3.

Mae deunydd bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn troi'n sgil-gynhyrchion anifeiliaid pan fydd gweithdredwr y busnes bwyd yn penderfynu na ddylai'r cynnyrch gael ei fwyta gan bobl bellach. Unwaith y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud, nid oes modd newid y penderfyniad. Daw'r deunydd wedyn yn sgil-gynnyrch anifeiliaid risg isel (categori 3). Mae tarddiad a natur y deunydd bwyd hwn yn penderfynu sut y gellir ei waredu neu ei ddefnyddio, a'r cofnodion y mae'n rhaid eu cadw.

Lle bo'n briodol, argymhellir bod rheolaethau swyddogol yn cynnwys gwiriadau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn sicrhau bod eu system rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys gweithdrefn gofnodedig ar gyfer adnabod, labelu (categori 1, 2 neu 3), trin a gwaredu cynhyrchion o'r fath. Mae angen i gynwysyddion a ddefnyddir i gasglu sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu labelu'n glir a rhaid iddi fod yn hawdd eu gwahaniaethu oddi wrth gynwysyddion a ddefnyddir i gasglu cynhyrchion y bwriedir eu prosesu a'u bwyta gan bobl wedi hynny. Mae Erthyglau 12-14 o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 yn nodi gofynion ar gyfer gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid categori 1, 2 a 3.

Argymhellir bod gwiriadau hefyd yn cadarnhau bod y gweithdrefnau cofnodedig hyn yn cael eu cyflawni yn unol â hynny yn y sefydliad gan weithredwr y busnes bwyd.

### 8.11.5 Bwyd anifeiliaid – bwydydd blaenorol a chyd-gynhyrchion

Gall bwydydd blaenorol, y gellir eu disgrifio hefyd fel bwyd sy'n weddill, yn ddarostyngedig i reolau sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gael eu cyflenwi ar gyfer bwyd anifeiliaid lle nad yw'r bwyd bellach wedi'i fwriadu i'w fwyta gan bobl am resymau masnachol. Gall hyn gynnwys cynnyrch sydd wedi mynd heibio'r dyddiad, sydd y tu

[50] Erthygl 3(1) o Reoliad (CE) Rhif 1069/2009

hwnt i'r fanyleb, cynnyrch neu gynhwysion sy'n weddill, neu fwyd mewn deunydd pecynnu sydd wedi'i ddifrodi.

Gall cyd-gynhyrchion, sy'n dod i fodolaeth wrth brosesu bwyd, hefyd gael eu cyflenwi ar gyfer bwyd anifeiliaid, er enghraifft pwlp ffrwythau wrth gynhyrchu sudd ffrwythau a grawn bragu wrth gynhyrchu cwrw.

Gellir cyflenwi bwydydd blaenorol a chyd-gynhyrchion yn uniongyrchol i fferm neu eu hanfon i'w prosesu ymhellach.

Mae gweithredwyr busnesau bwyd sy'n cyflenwi blwyddyn blaenorol neu gyd-gynhyrchion hefyd yn weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid. Os ydynt yn ymwybodol bod eu cynhyrchion wedi'u bwriadu ar gyfer bwyd anifeiliaid, mae angen iddynt gofrestru fel busnes bwyd anifeiliaid gyda'u hawdurdod bwyd anifeiliaid a sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliad (CE) Rhif 183/2005 (hylendid bwyd anifeiliaid), Rheoliad (CE) Rhif 767/2009 (marchnata a defnyddio bwyd anifeiliaid gan gynnwys labelu), a Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 ar egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, gan gynnwys bwyd anifeiliaid.

Pan nodir, wrth gynnal rheolaeth swyddogol mewn safle bwyd, fod blwyddyn blaenorol neu gyd-gynhyrchion yn cael eu cyflenwi ar gyfer bwyd anifeiliaid, argymhellir bod y swyddog awdurdodedig yn cadarnhau a yw'r busnes wedi'i gofrestru fel busnes bwyd anifeiliaid gyda'i awdurdod bwyd anifeiliaid lleol. Os nad yw gweithredwr y busnes bwyd wedi'i gofrestru fel busnes bwyd anifeiliaid neu na ellir cadarnhau hynny, dylid hysbysu'r awdurdod bwyd anifeiliaid lleol.

### 8.11.6 Bwyd anifeiliaid – rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Os yw bwydydd blaenorol neu gyd-gynhyrchion yn cynnwys neu wedi'u halogi â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, byddant yn dod yn destun rheolaethau sgil-gynhyrchion anifeiliaid.[51] Yn gyffredinol, ni ellir defnyddio'r cynhyrchion hyn fel bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cael eu ffermio. Mae rhagor o wybodaeth am waredu bwyd a bwydydd blaenorol ar gael yng nghanllawiau APHA. Pan fydd gweithredwr y busnes bwyd yn penderfynu nad yw bwyd sy'n dod o anifail neu fwyd sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid bellach i'w fwyta gan bobl, daw'r bwydydd blaenorol yn sgil-gynnyrch anifail ac ni ellir gwrthdroi'r penderfyniad hwn.

### 8.11.7 Bwyd anifeiliaid – gwastraff arlwyo

Gwastraff arlwyo yw unrhyw fwyd gwastraff (gan gynnwys olew coginio wedi'i ddefnyddio) sy'n dod o fwytai, safleoedd arlwyo, ceginau masnachol neu geginau cartref. Ni ddylid anfon gwastraff arlwyo i'w ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid gan gynnwys ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes oherwydd y risg o groeshalogi â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, er enghraifft llaeth. Mae gwastraff arlwyo wedi'i brosesu, y cyfeirir ato fel 'golchion' (neu 'swil' yn Saesneg), hefyd wedi'i wahardd rhag ei fwydo i anifeiliaid.

[51] Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (CE) Rhif 1069/2009

### 8.11.8 Ymchwiliadau mawr

Efallai y bydd Awdurdodau Cymwys yn dod yn ymwybodol o achosion o dwyll bwyd amlwg yn ymwneud â chamddefnyddio gwastraff bwyd a allai fod â goblygiadau difrifol i iechyd y cyhoedd neu anifeiliaid, er enghraifft cig anaddas yn cael ei ddargyfeirio i'r gadwyn fwyd ddynol. Gweler pennod 5 am gyngor ar droseddau bwyd.

Gallai ymchwilio i achosion o'r fath gael effaith ddifrifol ar adnoddau Awdurdodau Cymwys, o ran amser ac adnoddau eraill. Serch hynny, gall yr achosion hyn arwain at risgiau difrifol iawn i iechyd pobl ac iechyd anifeiliaid, ac mae'n bwysig bod yr awdurdod gorfodi perthnasol yn ymwybodol ohonynt ac yn ymchwilio iddynt yn syth, a bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw'n drylwyr.

Gall yr adnoddau sydd eu hangen effeithio ar allu Awdurdod Cymwys i gynnal ei raglen rheolaethau swyddogol a gorfodi arferol. Os bydd amgylchiadau o'r fath yn codi, mae'n bwysig bod yr Awdurdod Cymwys yn cysylltu â'r ASB, drwy e-bostio pm.wales@food.gov.uk cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Yna bydd yr ASB a'r Awdurdod Cymwys yn gallu trafod opsiynau, gan gynnwys unrhyw gefnogaeth sydd ar gael, neu a ddylid ail-flaenoriaethu rhaglen rheolaethau swyddogol yr Awdurdod Cymwys i sicrhau bod arolygiadau o safleoedd risg uwch yn cael eu cynnal.

## 8.12 Gwerthu o bell/archebu drwy'r post

### 8.12.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau i Awdurdodau Cymwys ar orfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell, a gwybodaeth ar ofynion cyfreithiol cyffredinol eraill mewn perthynas â gwerthu o bell.

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer, mae 'gwerthu bwyd o bell' yn golygu hysbysebu bwyd i'w werthu'n uniongyrchol i ddefnyddwyr lle mae'r gwerthiant neu'r cyflenwad dilynol yn digwydd heb bresenoldeb y defnyddiwr ar yr un pryd. Mae enghreifftiau o werthu o bell yn cynnwys gwerthu bwyd trwy wefannau, archebu drwy'r post a gwerthu dros y ffôn.

Mae'r materion gorfodi ar gyfer Awdurdodau Cymwys sy'n ymwneud â gwerthu bwyd o bell yn dibynnu'n bennaf ar leoliad yr hysbysebwr a/neu'r gwerthwr. Mae'n bwysig cofio bod bwyd a brynir drwy wefan yn cynnwys gwerthiant lle gallai'r gwerthwr fod wedi'i leoli unrhyw le yn y byd.

Mae cyfraith generig sy'n rheoleiddio gwerthu o bell yn y DU wedi'i nodi yn Rheoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Chostau Ychwanegol) 2013.

Awdurdod Cymwys canolog y DU sy'n gyfrifol am y rheoliadau hyn yw'r Adran Busnes a Masnach (DBT). Cyfrifoldeb yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) a'r Adrannau Safonau Masnach yw gorfodi.

### 8.12.2 Gwerthu bwyd o bell o'r DU

Mae gwerthu bwyd o bell o'r DU yn digwydd pan fydd yr hysbyseb bwyd i'w werthu neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd o fewn awdurdodaeth system gyfreithiol y DU, hyd yn oed os yw'r prynwr wedi'i leoli dramor.

Mae gwerthu bwyd o bell o'r DU wedi'i gynnwys yn y gyfraith bwyd berthnasol. Felly rhaid i fwyd a gaiff ei werthu o bell o'r DU, a hysbysebion ar gyfer bwyd o'r fath, gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.

Mae'r Awdurdodau Cymwys yn gyfrifol am y canlynol:

- gorfodi cyfraith bwyd mewn perthynas â gwerthu bwyd o bell o'r DU, gan gynnwys bwyd a gaiff ei hysbysebu neu ei werthu trwy wefannau sydd wedi'u lleoli yn y DU
- bod â dull priodol o fonitro bwyd a werthir o bell gan fusnesau y maent yn brif awdurdod drostynt
- cynnwys asesiad o faterion hylendid bwyd, diogelwch, hysbysebu, cyfansoddiad a labelu perthnasol mewn rheolaethau swyddogol wedi'u rhaglennu o fusnesau sy'n ymwneud â gwerthu bwyd o bell o'r DU yn eu hardaloedd

### 8.12.3 Gwerthu bwyd o bell o'r tu allan i'r DU

Mae gwerthu bwyd o bell o'r tu allan i'r DU yn digwydd pan fydd yr hysbyseb bwyd i'w werthu neu'r trafodiad gwerthu ei hun yn digwydd y tu allan i awdurdodaeth y DU.

### 8.12.4 Canllawiau eraill

Mae'r ASB wedi cyhoeddi canllawiau ar fwyd a werthir ar-lein ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae Canllawiau ar Arferion Hylendid Da ar gyfer y diwydiant archebu bwyd drwy'r post, a ddatblygwyd yn unol ag Erthygl 8 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, hefyd ar gael.

## 8.13 Nodiadau canllaw ychwanegol i Awdurdodau Cymwys

Mae canllawiau ychwanegol ar amrywiaeth o faterion cyfraith bwyd ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

## Rhestr termau

**Ffosffadas alcalïaidd (ALP)**

O ran profion ffosffadas mewn llaeth, ensym cynhenid yw ALP a gaiff ei secretu mewn llaeth anifeiliaid cnoi cil (‘ruminants’). Caiff yr ensym ei ddadnatureiddio wrth basteureiddio’r llaeth, felly fe’i defnyddir i bennu effeithiolrwydd llaeth sy’n cael ei drin â gwres.

**Sgil-gynhyrchion anifeiliaid**

Mae’r rhain wedi’u diffinio yn Erthygl 3 o Reoliad (CE) Rhif 1 fel ‘cyrff cyfan neu rannau o anifeiliaid, cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a gafwyd o anifeiliaid nad ydynt wedi’u bwriadu i’w bwyta gan bobl’.

**Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)**

Asiantaeth weithredol o Defra yw APHA sy’n gweithredu ledled Prydain Fawr ac mae’n gyfrifol am ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid.

Mae gweithgareddau gorfodi bwyd anifeiliaid APHA yn canolbwyntio ar wahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid cnoi cil, o dan Reoliad (CE) Rhif 999/2001 (a elwir yn ‘Rheoliadau TSE’), gosod rheolaethau sy’n ymwneud â gwastraff arlwyo a golchion bwyd anifeiliaid o dan Reoliad (CE) Rhif 1069/2009 (a elwir yn ‘Rheoliadau ABP’) a chymeradwyo neu gofrestru safleoedd sy’n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

**Sefydliad cymeradwy**

Sefydliad sydd wedi’i gymeradwyo yn unol ag Erthygl 4 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 ar gyfer trin, paratoi a/neu gynhyrchu cynhyrchion sy’n dod o anifeiliaid.

**Sefydliadau trin helgig cymeradwy (AGHE)**

Sefydliad cymeradwy yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004. Lle mae busnes yn prosesu meintiau diderfyn o helgig o ffwr/carcasau plu sy’n dod i mewn a’i gyflenwi i gwsmeriaid manwerthu a chyfanwerthu.

**Archwiliad**

Yn ôl Erthygl 3(30) o Reoliad (UE) 2017/625, mae’n golygu archwiliad systematig ac annibynnol i benderfynu a yw gweithgareddau a chanlyniadau cysylltiedig yn cydymffurfio â threfniadau wedi’u cynllunio ac a yw’r trefniadau hyn yn cael eu gweithredu’n effeithiol gan weithredwr y busnes bwyd ac a ydynt yn addas o ran cyflawni amcanion.

Mae hyn yn cynnwys archwiliadau rhannol neu archwiliadau llawn wedi’u cynllunio:

- mae ‘archwiliad llawn’ yn archwiliad o’r trefniadau wedi’u cynllunio ac yn archwilio a ydynt yn cael eu gweithredu’n effeithiol. Mae’n ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwr y busnes bwyd
- mae ‘archwiliad rhannol’ yn archwiliad sy’n ymdrin â rhai agweddau ar weithrediad gweithredwr y busnes bwyd yn unig

**Swyddog awdurdodedig**

Unigolyn (boed yn un o swyddogion yr awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod Cymwys, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, i weithredu mewn perthynas â materion sy'n codi o dan gyfraith bwyd

**Cyrff dyfarnu**

O ran y Cod, y cyrff dyfarnu yw: Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH); Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) a Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST).

**Safle Rheoli ar y Ffin (BCP)**

Yr ystyr a ddiffinnir yn Erthygl 3(38) o Reoliad (UE) 2017/625 yw man, a'r cyfleusterau sy'n perthyn iddo, wedi'i ddynodi ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 47(1) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Yn cydymffurfio i raddau helaeth (Hylendid bwyd)**

Sefydliad sydd â sgôr ymyrryd o ddim mwy na deg pwynt o dan bob un o'r rhannau canlynol o atodiad 1: System sgorio hylendid bwyd Rhan 2: Lefel Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Hylendid a Lefel Gydymffurfiaeth (Gyfredol) – Strwythur; a Rhan 3: Hyder mewn Rheolwyr.

**Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaeth (Cefas)**

Asiantaeth weithredol o dan Defra yw Cefas sy'n casglu, rheoli a dehongli data ar yr amgylchedd dyfrol, bioamrywiaeth a physgodfeydd.

**Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (CIEH)**

Corff aelodaeth a dyfarnu ar gyfer sector iechyd yr amgylchedd.

**Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI)**

Corff aelodaeth a dyfarnu yw CTSI sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol safonau masnach sy'n gweithio yn y DU a thramor – mewn awdurdodau lleol, sectorau busnes a defnyddwyr a llywodraeth ganolog.

**Systemau glanhau sydd ar waith (CIP)**

Dull glanhau a ddefnyddir i dynnu gweddillion o eitemau cyflawn o offer ffatrïoedd heb ddatgymalu nac agor yr offer.

**Safon cymwyseddau**

Fersiwn 2 o ddogfen yr ASB sy'n nodi'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer cynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gweithgareddau eraill yn effeithiol.

**Hysbysiad cydymffurfio**

Hysbysiad a gyflwynir gan swyddog awdurdodedig lle mae ganddo sail resymol dros gredu nad yw unigolyn wedi cydymffurfio, nad yw'n cydymffurfio ar hyn o bryd, neu nad yw'n debygol o gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a bennir yng ngholofn gyntaf tabl 2 o Atodlen 1, 2, 3 neu 4 neu R eoliad 13(2) o Reoliadau

Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013.

**Yn cydymffurfio**

Yn bodloni gofynion y gyfraith.

**Cymeradwyaeth amodol**

Cymeradwyaeth a roddwir gan Awdurdod Cymwys yn unol ag Erthygl 148(4) o Reoliad (UE) 2017/625 os yw Awdurdod Cymwys yn nodi bod sefydliad yn bodloni'r holl ofynion o ran seilwaith ac offer. Rhaid i gymeradwyaeth amodol beidio â bod yn fwy na chwe mis, ac eithrio llongau ffatri a llongau rhewi, lle mae'n rhaid i'r gymeradwyaeth amodol beidio â bod yn fwy na 12 mis.

**Llwyth**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(37) o Reoliad (UE) 2017/625, mae'n golygu nifer yr anifeiliaid neu faint o nwyddau a gwmpesir gan yr un dystysgrif swyddogol, ardystiad swyddogol neu unrhyw ddogfen arall, a gludir trwy'r un dull cludo, ac sy'n dod o'r un diriogaeth neu wlad y tu allan i'r DU, ar wahân i'r nwyddau sy'n ddarostyngedig i'r rheolau y cyfeirir atynt ym Mhwynt (g) o Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, sydd o'r un math, dosbarth neu ddisgrifiad.

**Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy (CCDC)**

Rôl uwch o fewn y tîm diogelu iechyd sy'n darparu arweinyddiaeth, rheolaeth a goruchwyliaeth o'r swyddogaeth diogelu iechyd, gan gynnwys yr ymateb i ddigwyddiadau ac achosion.

**Ymgynghorydd Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd (CPHM)**

Rôl y CPHM, os bydd brigiad o achosion o wenwyn bwyd, yw penderfynu a oes brigiad o achosion gwirioneddol, a chychwyn a chydlynu unrhyw gamau angenrheidiol, gan gynnwys defnyddio'r cynllun rheoli achosion lleol. Mae hefyd yn cynghori'r person sy'n gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol sy'n angenrheidiol i reoli'r brigiad o achosion.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Sut mae aelodau o broffesiwn yn parhau i wella neu ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac yn datblygu'r rhinweddau sydd eu hangen arnynt yn eu bywydau proffesiynol.

**Gweithdrefnau dilysu rheolaethau**

Cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel gweithdrefnau monitro mewnol, ac fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(6) o Reoliad (UE) 2017/625, dyma'r trefniadau a roddir ar waith a'r camau a gyflawnir gan yr Awdurdodau Cymwys at ddibenion sicrhau bod rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn gyson ac yn effeithiol.

**Gallai**

Yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol i nodi'r darpariaethau hynny sydd ond yn argymelledig.

**Pwynt Rheoli Critigol (CCP)**

Unrhyw gam mewn proses lle gellir atal, dileu neu leihau peryglon i lefelau derbyniol. Mae enghraifft o bwyntiau rheoli critigol yn cynnwys coginio, oeri, e-gynhesu a chadw.

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)**

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, bwyd a'r diwydiant ffermio.

**Hysbysiad cadw**

Hysbysiad a roddir i weithredwr busnes bwyd neu gynrychiolydd awdurdodedig priodol lle mae angen cadw unrhyw anifail neu fwyd at ddibenion archwilio (gan gynnwys cymryd samplau) fel y nodir yn Rheoliad 9 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Gwiriad dogfennol**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(41) o Reoliad (UE) 2017/625, mae'n golygu archwilio'r tystysgrifau swyddogol, yr ardystiadau swyddogol a dogfennau eraill, gan gynnwys dogfennau masnachol eu natur, y mae'n ofynnol iddynt gyd-fynd â'r llwyth fel y darperir ar eu cyfer gan y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2), gan Erthygl 56(1) neu gan weithredoedd gweithredu a fabwysiadwyd yn unol ag Erthyglau 77(3), 126(3), 128(1) a 129(1).

**Safle domestig**

Tŷ annedd neu adeilad arall a ddefnyddir yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, fel annedd, a'i gwrtil ('curtilage').

**System Rhybuddio Cynnar (EWS)**

Adnodd canfod risgiau sy'n dod i'r amlwg i ragweld peryglon ar gyfer bwyd a bwyd anifeiliaid penodol.

**Gorchymyn Gwahardd Brys (EPO)**

Fel y'i diffinnir gan Reoliad 12(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, mae'n golygu, os yw swyddog awdurdodedig yn fodlon bod y risg iechyd yn cael ei chyflawni, y caiff, trwy rybudd, wasanaethu a gosod y gwaharddiad priodol ar berchennog y busnes.

**Awdurdod gorfodi**

Fel y'i diffinnir gan Reoliad 2(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, mae'n golygu'r awdurdod sy'n gyfrifol am weithredu a gorfodi'r Rheoliadau Hylendid.

**Bwrdd Cofrestru Iechyd yr Amgylchedd (EHRB)**

Corff dyfarnu yn y DU sy'n rhoi tystysgrifau cofrestru i'r rhai a oedd wedi cwblhau cwrs astudio cymeradwy yn llwyddiannus ym mhwnc iechyd yr amgylchedd a oedd yn cynnwys cwrs achrededig, dysgu yn y gwaith ac arholiadau proffesiynol.

**Escherichia coli O157 (E. coli O157)**

Straen VTEC a all achosi salwch mewn pobl. Gall symptomau amrywio o gastroenteritis ysgafn, dolur rhydd gwaedlyd difrifol, a niwed i'r arennau.

**Sefydliad**

Mae ei ystyr wedi'i ddiffinio yn Erthygl 2(1)(c) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 i olygu unrhyw uned o fusnes bwyd.

**Tystiolaeth**

Gwybodaeth neu eitemau sy'n darparu prawf o honiad.

**Allforio**

Y weithred o anfon neu gludo nwyddau y tu allan i diriogaeth berthnasol.

**Rhybudd bwyd**

Cyfathrebiad gan yr ASB i Awdurdod Cymwys sy'n ymwneud â pherygl bwyd neu ddigwyddiad bwyd arall, lle mae'n rhaid i'r Awdurdod Cymwys gymryd camau penodol wrth weithredu/ymateb. Dylid darllen 'Diweddariad ar Rybudd Bwyd' yn unol â hynny.

**Busnes bwyd**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, mae'n golygu cynnal gwaith, boed er elw neu beidio neu p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd.

**Gweithredwr busnes bwyd**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(3) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, mae'n golygu'r personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth.

Mae **person naturiol** yn fod dynol, yn hytrach na pherson artiffisial neu gyfreithiol.

Mae gan **berson cyfreithiol** enw cyfreithiol ac mae ganddo hawliau, amddiffyniadau, breintiau, cyfrifoldebau, a rhwymedigaethau o dan y gyfraith, yn union fel personau naturiol (bodau dynol). Mae personoliaeth gyfreithiol yn caniatáu i un neu fwy o bersonau naturiol weithredu fel un endid (fel cwmni cyfyngedig – a ystyrir o dan y gyfraith ar wahân i'w aelodau unigol neu ei gyfranddalwyr) at ddibenion cyfreithiol.

**Troseddau bwyd**

Twyll difrifol a throseddau cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd (mae hyn hefyd yn cynnwys diod a bwyd anifeiliaid).

**Archwiliwr bwyd**

Unrhyw berson sy'n meddu ar y cymwysterau gofynnol i gynnal archwiliadau.

**Perygl bwyd**

Sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd a all effeithio'n andwyol ar iechyd y cyhoedd.

### Hylendid bwyd

Mae hyn yn golygu'r mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl, gan ystyried y defnydd a fwriadwyd ar gyfer y bwyd, fel y nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004.

### Ymyriad hylendid bwyd

Ymyriad sy'n sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith hylendid bwyd, gan gynnwys:

- ansawdd microbiolegol
- absenoldeb micro-organebau pathogenig
- diogelwch i'w fwyta

### Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

Cynllun sy'n berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am yr hyn yr oedd pob busnes bwyd wedi'i gyflawni yn eu harolygiad hylendid bwyd diwethaf a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol. Rhoddir sgoriau ar raddfa  o 0 (angen gwella ar frys) i 5 (safonau hylendid da iawn).

### Digwyddiad bwyd

Unrhyw ddigwyddiad lle ceir pryderon, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, am fygythiadau gwirioneddol neu fygythiadau a amheuir i ddiogelwch, ansawdd neu uniondeb bwyd lle gall fod angen ymyrryd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

### Bwyd ar gyfer grwpiau penodol

Mae Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gofynion o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 yn sefydlu gofynion o ran cyfansoddiad a gwybodaeth ar gyfer y categorïau bwyd canlynol: fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol; bwyd babanod a bwyd seiliedig ar rawnfwyd sydd wedi'u prosesu; bwyd at ddibenion meddygol arbennig; amnewidiad deiet llwyr ar gyfer rheoli pwysau.

### Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)

Adran annibynnol, anweinidogol o'r llywodraeth sy'n gweithio ar draws Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Ein hamcanion yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n deillio o fwyta bwyd, a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

### Camau ffurfiol

Cymryd camau yn erbyn gweithredwr busnes bwyd fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, gan gynnwys cyflwyno hysbysiad statudol i ddatrys achos o ddiffyg cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a chychwyn achos cyfreithiol oherwydd torri gofynion cyfreithiol.

### Hysbysiad ffurfiol

Mae hyn yn golygu hysbysiad fel y'i diffinnir yn y gwahanol Ddeddfau Seneddol neu offerynnau statudol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd.

### Llwyfan cyfathrebu'r ASB

Y dull a ddefnyddir gan yr ASB i ledaenu cyfathrebiadau torfol i awdurdodau lleol

**Nwyddau**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(11) o Reoliad (UE) Rhif 2017/625, fel: *'goods means all that is subject to one or more of the rules referred to in Article 1(2), excluding animals;'*

Mae Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625 yn nodi (yn yr iaith wreiddiol): *'This Regulation shall apply to the official controls performed for the verification of compliance with the rules in the areas of:*

*(a) food and food safety, integrity and wholesomeness at any stage of production, processing and distribution of food, including rules aimed at ensuring fair practices in trade and protecting consumer interests and information, and the manufacture and use of materials and articles intended to come into contact with food;*

*(b) deliberate release into the environment of Genetically Modified Organisms (GMOs) for the purpose of food and feed production;*

*(c) feed and feed safety at any stage of production, processing and distribution of feed and the use of feed, including rules aimed at ensuring fair practices in trade and protecting consumer health, interests and information;*

*(d) animal health requirements;*
*(e) prevention and minimisation of risks to human and animal health arising from animal by-products and derived products;*
*(f) welfare requirements for animals;*
*(g) protective measures against pests of plants;*
*(h) requirements for the placing on the market and use of plant protection products and the sustainable use of pesticides, with the exception of pesticides application equipment;*
*(i) organic production and labelling of organic products;*
*(j) use and labelling of protected designations of origin, protected geographical indications and traditional specialities guaranteed'.*

**Perygl**

Fel y'i diffinnir gan Erthygl 3(14) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002, mae hyn yn golygu sylwedd biolegol, cemegol neu ffisegol mewn bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu gyflwr y naill neu'r llall o'r rhain, sydd â'r potensial i achosi effaith niweidiol ar iechyd.

**Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP)**

Mae HACCP yn ddull systematig tuag at ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid i atal peryglon biolegol, cemegol a ffisegol mewn prosesau cynhyrchu, a all achosi i'r cynnyrch terfynol fod yn anniogel, ac mae'n cynllunio mesuriad i leihau'r risgiau hyn i lefel ddiogel.

**Awdurdod Cartref**

Mae hyn yn golygu'r awdurdod ble mae canolfan gwneud penderfyniadau berthnasol y fenter wedi'i lleoli.

**Hylendid**

Y mesurau a'r amodau sy'n angenrheidiol i reoli peryglon ac i sicrhau bod bwyd yn addas i'w fwyta gan bobl gan ystyried y defnydd a fwriadwyd ar gyfer y bwyd.

**Hysbysiad Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid (HEPN)**

Hysbysiad a gyflwynir gan y swyddog awdurdodedig lle mae risg o niwed i iechyd ar fin digwydd sy'n gwahardd defnyddio proses, triniaeth, safle neu offer, fel y bo'n briodol, fel y nodir yn Rheoliad 8 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Hysbysiad Gwella Hylendid**

Hysbysiad a gyflwynir gan y swyddog awdurdodedig i weithredwr busnes bwyd lle mae wedi methu â chydymffurfio â'r rheoliadau hylendid fel y'u nodir yn Rheoliad 6 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Gorchymyn Gwahardd at ddibenion Hylendid (HPO)**

Gorchymyn a roddir gan y llys ynadon yn dilyn euogfarn yn erbyn gweithredwr busnes bwyd am drosedd o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 fel y nodir yn Rheoliad 7 o'r Rheoliadau hynny.

**Rheoliadau Hylendid**

Fel y'i diffinnir gan Reoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

**Mewnforio**

Y weithred o ddod â nwyddau a/neu wasanaethau i mewn o wlad arall y tu allan i Brydain Fawr.

**Hysbysiad gwella**

Hysbysiad a gyflwynir i weithredwr busnes bwyd gan swyddog awdurdodedig sydd â sail resymol dros gredu nad yw perchennog busnes bwyd yn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad rheoleiddiol, fel y nodir yn Adran 10 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

**Arolygiad**

Archwilio unrhyw agwedd ar fwyd, bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid er mwyn gwirio bod agwedd(au) o'r fath yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau iechyd a lles anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys arolygiadau rhannol neu lawn:

- mae 'arolygiad llawn' yn gwirio cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol ac yn ystyried pob agwedd ar weithrediadau gweithredwyr busnesau bwyd
- mae 'arolygiad rhannol' yn arolygiad sy'n cynnwys rhai agweddau ar weithrediadau gweithredwyr busnesau bwyd yn unig

**Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd (IFST)**

Corff proffesiynol sy'n ymwneud â phob agwedd ar wyddoniaeth a thechnoleg bwyd.

**Cudd-wybodaeth ('intelligence')**

Gwybodaeth sydd wedi'i gwerthuso i asesu ei pherthnasedd a'i dibynadwyedd ac wedi'i dilysu lle bo modd.

**Ymyriad**

Camau rheoleiddiol a gymerir gan lywodraeth er mwyn effeithio ar neu ymyrryd â phenderfyniadau a wneir gan unigolion, grwpiau neu sefydliadau ynghylch materion cymdeithasol ac economaidd. Mae ymyriadau'n cynnwys rheolaethau bwyd swyddogol ac ymyriadau eraill fel addysg, cyngor a hyfforddiant, a chasglu gwybodaeth (gan gynnwys samplu lle nad yw'r dadansoddiad i'w gynnal gan Labordy Swyddogol).

**Ymchwiliad**

Y camau a gymerir gan yr Awdurdod Cymwys i gasglu tystiolaeth lle mae amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio.

**Swyddog Bwyd Arweiniol (LFO)**

Y swyddog(ion) bwyd arweiniol awdurdodedig, a benodir gan yr Awdurdod Cymwys mewn perthynas â bwyd, sy'n arddangos y cymwyseddau perthnasol.

**Heb eu coginio'n drylwyr (LTTC)**

Byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr, sy'n cynnwys cig pinc yn y canol.

**Molysgiaid dwygragennog byw (LBM)**

Mae cyfeiriadau at folysgiaid dwygragennog byw hefyd yn cynnwys ecinodermiaid byw, tiwnigogion byw a gastropodau morol byw, yn unol ag Atodiad I, Paragraff 2 o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid (Rheoliad (CE) Rhif 853/2004) ac eithrio rhannau o'r Cod hwn sy'n ymdrin â phuro molysgiaid dwygragennog byw.

**Grŵp Gweithredu Lleol (LAG)**

Grŵp dielw, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol sy'n darparu cefnogaeth i'w priod ardaloedd gwledig, yn enwedig wrth weithredu prosiectau ar raddfa fach.

**Awdurdod lleol**

Fel y'i diffinnir yn Adran 270 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae hyn yn golygu cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, neu gyngor cymunedol.

**Y Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)**

Yr LGA yw llais cenedlaethol llywodraeth leol, gan weithio gydag chynghorau i gefnogi, hyrwyddo a gwella gwasanaethau llywodraeth leol.

**Ymyrraeth faleisus**

At ddibenion y Canllawiau Ymarfer, mae hyn yn golygu halogiad bwyd yn fwriadol gan weithgaredd terfysgol, neu gyda'r nod o flacmel neu gribddeiliaeth ('extortion').

**Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA)**

Asiantaeth weithredol yn yr Adran Drafnidiaeth yw'r MCA sy'n gweithio i atal colli bywydau ar yr arfordir ac ar y môr. Mae hefyd yn cynhyrchu deddfwriaeth a chanllawiau ar faterion morwrol ac yn darparu ardystiad i forwyr.

**Caiff/gallai ('may')**

Ar ei ben ei hun, mae'n dynodi ymarfer dewisol o bŵer neu swyddogaeth.

**Ni chaiff / Ni chaniateir / Efallai na fydd ('may not')**

Mae hyn yn nodi gwaharddiad.

**Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU)**

Cytundeb ysgrifenedig ar gyfnewid gwybodaeth rhwng dau barti neu fwy.

**Briwgig**

Mae hyn yn golygu cig oddi ar yr asgwrn sydd wedi'i friwio'n ddarnau ac sy'n cynnwys llai nag 1% o halen.

**Sefydliad symudol**

Safleoedd heblaw safleoedd parhaol, ac mae 'safleoedd symudol perthnasol' yn golygu safleoedd symudol, a ddefnyddir ar gyfer cludo neu baratoi bwyd neu fanwerthu bwyd am bum diwrnod neu fwy, boed yn olynol ai peidio, mewn unrhyw gyfnod o bum wythnos yn olynol.

**Monitro**

Cynnal cyfres o arsylwadau neu fesuriadau wedi'u cynllunio er mwyn cael trosolwg ar hyd a lled y gydymffurfiaeth â chyfraith bwyd.

**Rhaid/Mae'n rhaid**

Defnyddir hyn i gadarnhau rhwymedigaeth.

**Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol (NEPs)**

Mae'r NEPs ar gyfer bwyd anifeiliaid a hylendid bwyd ar y lefel cynhyrchu cynradd yn cynorthwyo Awdurdodau Cymwys a busnesau i gynnal safonau a diogelu iechyd y cyhoedd.

**Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU)**

Mae'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yn darparu ffocws ledled y wlad ar orfodi yn erbyn twyll difrifol a throseddoldeb cysylltiedig mewn cadwyni cyflenwi bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)**

Gwasanaeth gofal meddygol ac iechyd yn y DU a ariennir gan y llywodraeth.

**Diffyg cydymffurfiaeth**

Methiant i gydymffurfio ag un neu ragor o ofynion cyfraith bwyd.

**Rheolaethau answyddogol**

Unrhyw weithgaredd, nad yw’n rheolaeth swyddogol, neu weithgaredd swyddogol arall a gyflawnir gan yr Awdurdod Cymwys, nad yw’n gwirio cydymffurfiaeth. Bwriad y gweithgaredd yw cynnal cysylltiad â sefydliad busnes bwyd.

**Gwlad nad yw yn y DU**

Gwlad sydd y tu allan i’r Deyrnas Unedig.

**Ardystiad swyddogol**

Fel y’i diffinnir gan Erthygl 3(28) o Reoliad (UE) 2017/625, mae hyn yn golygu unrhyw label, marc neu fath arall o ardystiad a gyhoeddir gan y gweithredwyr o dan oruchwyliaeth, trwy reolaethau bwyd swyddogol pwrpasol, yr Awdurdodau Cymwys neu gan yr Awdurdodau Cymwys Bwyd eu hunain, ac yn darparu sicrwydd o ran cydymffurfio ag un neu fwy o’r gofynion a nodir yn y rheoliad hwn neu yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Tystysgrif swyddogol**

Fel y’i diffinnir gan Erthygl 3(27) o Reoliad (UE) 2017/625, mae hyn yn golygu papur neu ddogfen electronig wedi’i llofnodi gan y swyddog ardystio ac sy’n rhoi sicrwydd o ran cydymffurfio ag un neu fwy o’r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Rheolaeth swyddogol**

Fel y’i diffinnir gan Erthygl 2(1) o Reoliad (UE) 2017/625, mae hyn yn golygu gweithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdodau Cymwys, neu gan y cyrff dirprwyedig neu’r personau naturiol y dirprwywyd rhai tasgau rheolaethau swyddogol iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625 er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gan y gweithredwyr a gwirio bod anifeiliaid neu nwyddau yn bodloni’r gofynion a nodir yn y rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625, gan gynnwys ar gyfer cyhoeddi tystysgrif swyddogol neu ardystiad swyddogol.

**Labordy swyddogol**

Labordy wedi’i achredu at ddibenion dadansoddi, ac sy’n ymddangos ar y rhestr o labordai rheolaethau swyddogol.

**Milfeddyg Swyddogol**

Fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(32) o Reoliad (UE) 2017/625, mae hyn yn golygu milfeddyg a benodir gan Awdurdod Cymwys, naill ai fel aelod o staff neu fel arall, ac sydd â’r cymwysterau priodol i gynnal rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill yn unol â’r Rheoliad hwn a’r rheolau perthnasol y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Awdurdod gwreiddiol**

Mae hyn yn golygu’r awdurdod hwnnw y mae’r cynhyrchu bwyd terfynol yn digwydd yn ei ardal.

**Gweithgareddau swyddogol eraill**

Gweithgareddau, ac eithrio rheolaethau bwyd swyddogol, a gyflawnir gan yr Awdurdodau Cymwys, neu gan y cyrff dirprwyedig neu'r personau naturiol y dirprwywyd rhai gweithgareddau swyddogol eraill iddynt yn unol â Rheoliad (UE) 2017/625. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau sydd â'r nod o wirio presenoldeb afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion, atal neu ddal lledaeniad afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion o'r fath, cael gwared ar yr afiechydon anifeiliaid neu blâu planhigion, rhoi awdurdodiadau neu gymeradwyaethau, a chyhoeddi tystysgrifau swyddogol neu ardystiadau swyddogol.

**Brigiad o achosion ('outbreak')**

Digwyddiad lle mae dau neu fwy o bobl yn profi salwch tebyg sy'n gysylltiedig o ran amser neu leoliad, fel arfer clefyd a gludir gan fwyd a/neu glefyd perfeddol heintus.

**Cosb**

Y gosb a osodir gan lys wrth ddyfarnu euogfarn am dramgwydd o dan ddeddfwriaeth fwyd.

**Gwiriad ffisegol**

Fel y'i diffinnir yn Erthygl 3(43) o Reoliad (UE) 2017/625, mae hyn yn golygu gwiriad ar anifeiliaid neu nwyddau ac, fel y bo'n briodol, wiriadau ar ddeunydd pecynnu, y dull cludo, labelu a thymheredd, y samplu ar gyfer dadansoddi, profi neu ddiagnosio ac unrhyw wiriad arall sy'n angenrheidiol i wirio cydymffurfiaeth â'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2) o Reoliad (UE) 2017/625.

**Awdurdod Iechyd Porthladd (PHA)**

Fel y'i diffinnir yn Adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae hyn yn golygu porthladd neu ran o borthladd, unrhyw awdurdod lleol y mae ei ardal, neu unrhyw ran y mae ei ardal, yn rhan o, neu'n ffinio â'r porthladd hwnnw neu ran o borthladd, ac unrhyw gadwraethwyr, comisiynwyr neu bersonau eraill sydd ag awdurdod yn y porthladd hwnnw, dros y porthladd neu o fewn y porthladd, neu ran o borthladd.

**Prif Awdurdod**

Fel y darperir ar ei gyfer yn Adran 23A o Ddeddf Sancsiynau Gorfodi Rheoleiddiol 2008, mae hyn yn golygu awdurdod cymwys sydd wedi meithrin partneriaeth â busnes neu gydlynydd ac sydd wedi'i enwebu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i arfer swyddogaethau penodol drwy'r bartneriaeth honno.

**Cynhyrchu cynradd (Bwyd)**

Cynhyrchu, magu neu dyfu cynhyrchion cynradd, gan gynnwys cynaeafu, godro a chynhyrchu anifeiliaid sy'n cael eu ffermio cyn eu lladd. Mae hefyd yn cynnwys hela a physgota a chynaeafu cynhyrchion gwyllt fel y'u diffinnir yn Erthygl 3(17) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

**Gorchymyn Gwahardd (PO)**

Gorchymyn a gyflwynir gan y Llys yn gosod gwaharddiadau priodol ar fusnes bwyd pan gaiff ei ddyfarnu'n euog o drosedd o dan unrhyw reoliadau y mae Deddf

Diogelwch Bwyd 1990 yn berthnasol iddynt, a lle mae'r Llys wedi'i fodloni bod amod i risg iechyd yn cael ei fygwth gan y busnes hwnnw.

**Dadansoddwr Cyhoeddus**

Gwyddonwyr sy'n sicrhau diogelwch a disgrifiad cywir o fwyd trwy brofi am gydymffurfiaeth â deddfwriaeth fel y nodir yn Adran 27 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad 4 o Reoliadau Diogelwch Bwyd (Samplu a Chymwysterau) (Cymru) 2013.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd Genedlaethol, sy'n adrodd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon yn Senedd Cymru. Ei rôl yw amddiffyn a gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

**System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)**

Adnodd cyflym ac effeithiol yw RASFF ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng Awdurdodau Cymwys pan ganfyddir risgiau i iechyd pobl yn y gadwyn fwyd a bwyd anifeiliaid a chymerir mesurau, fel dal bwyd yn ôl, galw bwyd yn ôl, atafael neu wrthod y cynhyrchion dan sylw. Mae cyfnewid yr wybodaeth hon yn gyflym yn caniatáu i bob aelod o'r rhwydwaith wirio ar unwaith a yw'r broblem hefyd yn effeithio arnyn nhw. Pryd bynnag y mae'r cynnyrch eisoes ar y farchnad ac na ddylid ei ddefnyddio, mae'r awdurdodau wedyn mewn sefyllfa i gymryd pob mesur brys, gan gynnwys rhoi gwybodaeth uniongyrchol i'r cyhoedd, os oes angen.

**Llaeth buwch i'w yfed yn amrwd (RCDM)**

Llaeth buwch nad yw wedi cael ei drin â gwres uwchlaw 40°C (sef llaeth amrwd) ac sydd wedi'i fwriadu i'w yfed yn uniongyrchol gan bobl.

**Ar gael yn hawdd**

Mae unrhyw ddogfennau y mae'n ofynnol iddynt fod ar gael yn hawdd yn golygu y gall defnyddwyr a busnesau gael gafael arnynt yn gyflym ac yn hawdd, naill ai ar ffurf electronig neu fel copïau caled.

**Cofnodion**

Mae hyn yn golygu gwybodaeth sy'n cael ei chadw'n ysgrifenedig neu'n electronig/digidol.

**Awdurdod cofrestru**

Yr Awdurdod Cymwys lle mae gweithredwr y busnes bwyd wedi'i leoli. Mewn perthynas â sefydliad symudol, yr awdurdod cofrestru fydd yr ardal lle mae'n cael ei gadw fel arfer.

**Hysbysiad Camau Unioni (RAN)**

Hysbysiad a gyflwynir gan swyddog awdurdodedig i weithredwr busnes bwyd os yw unrhyw un o ofynion y 'Rheoliadau Hylendid', fel y'u diffinnir yn Rheoliad 2 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, yn cael eu torri, neu os yw arolygiad o dan y Rheoliadau Hylendid yn cael ei rwystro.

**Risg**

Y siawns neu'r tebygolrwydd y bydd person yn cael ei niweidio neu'n profi effaith iechyd andwyol os bydd yn dod i gysylltiad â pherygl.

**Llu Awyr Brenhinol**

Llu rhyfela awyr y DU.

**Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig**

Mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn asiantaeth weithredol sy'n gyfrifol am daliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i ffermwyr a masnachwyr yng Nghymru.

**Diogelwch**

Gwrthdroi neu beidio ag achosi anaf, perygl neu golled.

**Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell (SFBB)**

Gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd a rheoliadau hylendid bwyd ar gyfer busnesau bach.

**Samplu**

Dulliau sy'n cymryd bwyd anifeiliaid neu fwyd neu unrhyw sylwedd arall (gan gynnwys yr amgylchedd) sy'n berthnasol i gynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd anifeiliaid neu fwyd, neu i iechyd anifeiliaid, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd anifeiliaid neu fwyd neu reolau iechyd anifeiliaid drwy ddadansoddi.

**Sancsiwn/Cosb**

Y ddarpariaeth o fewn statud i gymryd camau cosbi am fethu â chydymffurfio â darpariaethau'r statud.

**Bwrdd Cofrestru Swyddogion Diogelwch Bwyd yr Alban (SFSORB)**

Pwyllgor Sefydliad Iechyd Amgylcheddol Brenhinol yr Alban, sy'n pennu'r safon academaidd cyn-gofrestru sydd ei hangen ar bobl sy'n gwneud cais am ddyfarniad o dan y Dystysgrif Uwch mewn Arolygu Safleoedd Bwyd, y Dystysgrif Gyffredin mewn Arolygu Safleoedd Bwyd a'r Dystysgrif Uwch mewn cymwysterau Arolygu Safonau Bwyd.

**Monitro amgylcheddol ar gyfer pysgod cregyn**

Casglu samplau rheolaethau swyddogol pysgod cregyn a dŵr o bwyntiau samplu dynodedig fel rhan o'r Rhaglenni Monitro Rheolaethau Swyddogol Pysgod Cregyn, yn unol ag Erthygl 57 a Phennod II o Deitl V o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/627.

**Dylid/Dylai ('Should')**

Fe'i defnyddir i nodi canllawiau statudol.

**Llofnodwyd**

Yn golygu cael llofnod wedi'i osod naill ai'n ysgrifenedig neu drwy ddulliau electronig.

**Safonau**

Rheolau neu egwyddorion a ddiffinnir yn y gyfraith diogelwch bwyd fel sail ar gyfer dyfarniad yn erbyn.

**Gwyliadwriaeth**

Arsylwi'n ofalus ar un neu fwy o fusnesau bwyd, neu weithredwyr busnesau bwyd neu eu gweithgareddau, er mwyn casglu gwybodaeth.

**Twbercwlosis (TB)**

Clefyd heintus a achosir fel arfer gan y bacteria *Mycobacterium tuberculosis* sy'n effeithio'n bennaf ar yr ysgyfaint.

**Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig**

Corff Achredu Cenedlaethol y DU, sy'n gyfrifol am bennu cymhwysedd technegol a chywirdeb sefydliadau er budd y cyhoedd.

**Dilysu**

Mae hyn yn golygu cadarnhad y cydymffurfiwyd â'r gofynion.

**Gwirio**

Gwirio a yw'r gofynion penodedig wedi'u bodloni drwy archwilio ac ystyried tystiolaeth wrthrychol.

**Ysgrifennu**

Fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 ac Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae hyn yn golygu bod teipio, argraffu, lithograffeg, ffotograffiaeth a dulliau eraill o gynrychioli neu atgynhyrchu geiriau ar ffurf weladwy, acr ymadroddion sy'n cyfeirio at ysgrifennu, yn cael eu dehongli yn unol â hynny.

# Atodiad 1: Templed cynllun gwasanaeth

| 1. Nodau ac amcanion y gwasanaeth | Manylion |
|---|---|
| 1.1 Nodau ac amcanion | • datganiad o nodau ac amcanion y gwasanaeth |
| 1.2 Cysylltiadau ag amcanion a chynlluniau corfforaethol | • mae'r adran hon yn nodi sut mae'r cynllun(iau) gwasanaeth yn cyd-fynd â phroses cynllunio corfforaethol yr Awdurdod Cymwys a sut mae'n chwarae ei ran wrth gyflawni amcanion yr Awdurdod Cymwys. Mae hyn yn cynnwys bodloni unrhyw ddangosydd cenedlaethol perthnasol<br>• mae hefyd yn nodi unrhyw groes-gysylltiadau â chynlluniau eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod Cymwys |

| 2. Cefndir | Manylion |
|---|---|
| 2.1 Proffil yr Awdurdod Cymwys | • mae'r adran hon yn cynnwys manylion am boblogaeth, maint a natur yr Awdurdod Cymwys |
| 2.2 Strwythur sefydliadol | • siart syml sy'n dangos gwasanaethau'r cyngor a strwythur y pwyllgor sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth bwyd yn chwarae rhan<br>• mae'r strwythur yn nodi'r rheolwr/rheolwyr sy'n gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol a'r swyddog(ion) sydd â chyfrifoldeb arbenigol dros hylendid bwyd a/neu safonau bwyd, os yw'n wahanol, a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer gwasanaethau arbenigol, er enghraifft, gan ddadansoddwyr cyhoeddus ac archwilwyr bwyd |
| 2.3 Cwmpas y gwasanaeth bwyd | • datganiad byr sy'n nodi cwmpas y cyfrifoldebau a'r gwasanaeth a ddarperir<br>• mae hyn yn nodi lle mae rhannau o'r gwasanaeth bwyd yn cael eu darparu gan sefydliad arall, er enghraifft, contractwyr<br>• gellir disgrifio yma unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir ochr yn ochr â'r gwasanaeth bwyd, er enghraifft, arolygiadau iechyd a diogelwch |
| 2.4 Gofynion ar y gwasanaeth | • mae'r adran hon yn cynnwys amlinelliad byr o'r canlynol: |

| 2. Cefndir | Manylion |
|---|---|
| bwyd | – proffil y sefydliad<br>– nifer y sefydliadau cymeradwy neu gofrestredig yn ardal yr Awdurdod Cymwys<br>– unrhyw ofynion lleol penodol sy’n gysylltiedig â phrosesau arbenigol neu gymhleth<br>– y pwyntiau darparu gwasanaeth a ddefnyddir gan yr Awdurdod Cymwys<br>– yr amserau y mae’r gwasanaeth ar gael o’r mannau hyn ac unrhyw ddarpariaethau y tu allan i oriau gwaith<br><br>• mae’r adran hon hefyd yn galluogi’r Awdurdod Cymwys i ddisgrifio unrhyw ffactorau allanol a allai effeithio ar ei wasanaeth, er enghraifft:<br><br>– canran y perchnogion busnesau nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf<br>– canran y sefydliadau bwyd sy’n cynhyrchu bwydydd<br>– cyfrifoldebau bwyd a fewnforir<br>– gweithgareddau tymhorol |
| 2.5 Polisi rheoleiddio | • Datganiad cyfeirio byr at bolisi gorfodi dogfenedig yr Awdurdod Cymwys |

| 3. Darparu gwasanaeth | Manylion |
|---|---|
| 3.1 Rheolaethau Swyddogol mewn sefydliadau bwyd | • datganiad mewn perthynas â pholisi’r Awdurdod Cymwys ar reolaethau swyddogol a rheolaethau nad ydynt yn rhai swyddogol, gweithgareddau swyddogol eraill a sut y cânt eu dewis mewn achosion unigol, gan gynnwys manylion y rhaglen o reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill i’w cynnal mewn sefydliadau bwyd. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>– proffil y sefydliad<br>– nifer y rheolaethau swyddogol a raglennwyd<br>– amcangyfrif o nifer yr ailymweliadau a fydd yn cael eu cynnal<br>– amcangyfrif o’r adnoddau sydd eu hangen, er enghraifft staffio |

| 3. Darparu gwasanaeth | Manylion |
|---|---|
| | • manylion unrhyw weithgaredd rheolaethau swyddogol targededig y mae'r Awdurdod Cymwys yn bwriadu ei gynnal, gan gynnwys unrhyw adnoddau ychwanegol sy'n deillio o hyn; gallai hyn gynnwys gwaith prosiect penodol<br>• nodi unrhyw flaenoriaethau sy'n ymwneud â chanlyniadau cenedlaethol neu leol, fel cydymffurfio â deddfwriaeth newydd neu gydymffurfiaeth well â deddfwriaeth bresennol a mentrau llywodraeth ganolog eraill<br>• cynnwys, lle bo'n briodol, y trefniadau y mae'r Awdurdod Cymwys wedi'u gwneud i sicrhau bod ganddo fynediad at arbenigedd priodol digonol i alluogi arolygu unrhyw brosesau arbenigol a nodwyd yn adran 2 yn gymwys |
| 3.2 Cwynion am fwyd | • datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Cymwys, ynghylch ymchwilio i gŵynion bwyd, gan gynnwys amcangyfrif yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd blaenorol o'r galw tebygol am y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau gofynnol |
| 3.3 Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod | • datganiad mewn perthynas â:<br>– pholisi'r Awdurdod Cymwys ar egwyddor yr Awdurdod Cartref a, lle bo'n berthnasol, y Prif Awdurdod, gan gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen mewn perthynas â chyfarfod â'r busnesau hynny y mae'n gweithredu drostynt a'u cynghori, datblygu cynlluniau arolygu ar gyfer y busnesau hynny y mae'n brif awdurdod drostynt, ac ymateb i hysbysiadau ac ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill<br>– sut y darperir adnoddau ar gyfer y gwaith gweithredu |
| 3.4 Cyngor i fusnesau | • datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Cymwys ynghylch cyngor i fusnesau (fel rhan o'r polisi ymyriadau cyffredinol) gan gynnwys amcangyfrif o nifer y cysylltiadau gan fusnesau a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth<br>• mae'r adran hon yn cynnwys, lle bo'n briodol, unrhyw fewnbwn sydd gan yr Awdurdod Cymwys i bartneriaethau neu fforymau busnesau |
| 3.5 Samplu bwyd | • datganiad mewn perthynas â pholisi samplu'r Awdurdod Cymwys, gan gynnwys sail y rhaglen samplu ac amcangyfrif o nifer y samplau a gymerir o sefydliadau, neu a gyflwynir, mewn perthynas â chŵynion, ac unrhyw ddyraniad adnoddau perthnasol, gan gynnwys staffio |

| 3. Darparu gwasanaeth | Manylion |
|---|---|
| | • manylion y trefniadau y mae'r Awdurdod wedi'u gwneud ar gyfer dadansoddi a/neu archwilio'r samplau |
| 3.6 Digwyddiadau diogelwch bwyd | • datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Cymwys ar drin rhybuddion bwyd, i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer perthnasol, gan gynnwys amcangyfrif o'r galw tebygol ar y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen |
| 3.7 Cyswllt â sefydliadau eraill | • y trefniadau y mae'r Awdurdod Cymwys wedi'u gwneud i sicrhau bod y camau a gymerir yn ei ardal yn gyson â rhai Awdurdodau Cymwys cyfagos, gan gynnwys:<br>– unrhyw gyswllt sydd gan yr Awdurdod Cymwys ag Awdurdodau Cymwys eraill<br>– unrhyw gyswllt, lle bo'n briodol, â Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch (OPSS)<br>– unrhyw drefniadau gyda chyrff rheoli swyddogol eraill neu arolygiaethau llywodraeth i gydlynu rheolaethau bwyd<br>– unrhyw gynrychiolaeth ar weithgorau neu bwyllgorau'r llywodraeth<br>– ymgysylltiad â gweithgorau cyrff proffesiynol<br>– ymgysylltiad a chyfranogiad â grwpiau cynghori cyswllt bwyd perthnasol a chyrff tebyg neu gysylltiedig<br>– unrhyw gyswllt ffurfiol â grwpiau gwirfoddol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus<br>– unrhyw gyswllt ffurfiol â gwasanaethau eraill o fewn yr Awdurdod Cymwys<br>– unrhyw ymrwymiad i grwpiau lleol/rhanbarthol<br>– amcangyfrif o'r dyraniad adnoddau |
| 3.8 Gwaith hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd | • datganiad o unrhyw waith hyrwyddo diogelwch/safonau bwyd, neu waith casglu gwybodaeth/cudd-wybodaeth, y mae'r Awdurdod Cymwys yn bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn, a'r mesurau y bydd yn eu defnyddio i werthuso ei effeithiolrwydd, gydag amcangyfrif o'r dyraniad adnoddau gan gynnwys niferoedd staffio i ymgymryd â'r gwaith hwn |
| 3.9 Rheoli ac ymchwilio i frigiadau o achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd | • datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod Cymwys ar ymchwilio i hysbysiadau o wenwyn bwyd a rheoli brigiadau o achosion, gan gynnwys amcangyfrif yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd blaenorol o'r galw tebygol am y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen |

| 4. Adnoddau | Manylion |
|---|---|
| 4.1 Dyraniad ariannol | • mae’r adran hon yn nodi’r lefel gyffredinol o wariant sy’n gysylltiedig â darparu’r gwasanaeth ac yn archwilio tueddiadau twf neu ostyngiad mewn termau real, gan gynnwys manylion mewn perthynas â’r canlynol:<br>– costau ansefydlog gan gynnwys staffio<br>– teithio a chynhaliaeth<br>– offer, gan gynnwys buddsoddi mewn TG<br>– cyllidebau samplu<br>– darpariaeth ariannol a wneir gan yr Awdurdod Cymwys ar gyfer unrhyw gamau cyfreithiol angenrheidiol, fel rhan o’i swyddogaeth gorfodi |
| 4.2 Dyrannu staff | • datganiad o:<br>– nifer y swyddi sydd eu hangen i ddarparu’r gwasanaeth<br>– nifer y staff sy’n gweithio ar orfodi cyfraith bwyd a materion cysylltiedig (o ran staff cyfwerth ag amser llawn), sy’n gwahaniaethu rhwng staff cymwysedig a staff cymorth<br>• nodir y ffigurau hyn o ran lefelau cymhwysedd gan gyfeirio at y Cod, gan gynnwys staff cymorth |
| 4.3 Cynllun datblygu staff | • datganiad mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant parhaus perthnasol, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn fewnol ac yn allanol ar gyfer swyddogion awdurdodedig a swyddogion dan hyfforddiant yn y flwyddyn sydd i ddod |

| 5. Asesiad Ansawdd | Gwybodaeth sydd ei hangen |
|---|---|
| 5.1 Asesu ansawdd a monitro mewnol | • datganiad yn nodi’r mesurau i’w cymryd i asesu ansawdd gwasanaeth yr Awdurdod Cymwys, gan gynnwys:<br>– unrhyw drefniadau monitro perthnasol a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Cymwys i asesu perfformiad yn erbyn y Safon |

| | |
|---|---|
| | – unrhyw drefniadau archwilio neu adolygu gan gymheiriaid y cytunwyd arnynt rhwng yr awdurdodau<br>– manylion unrhyw fodelau achrededig allanol neu hunanasesu a ddefnyddiwyd |

| **6. Adolygiad** | **Gwybodaeth sydd ei hangen** |
|---|---|
| 6.1 Adolygiad yn erbyn y cynllun gwasanaeth | • mae'r adran hon yn nodi'r broses ar gyfer adolygu ac adrodd ar ddarparu'r cynllun gwasanaeth, gan gynnwys:<br>– gwybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth<br>– unrhyw dargedau perfformiad penodedig a safonau perfformiad a chanlyniadau wedi'u targedu |
| 6.2 Nodi unrhyw amrywiad o'r cynllun gwasanaeth | • mae'r adran hon yn nodi lle'r oedd yr Awdurdod Cymwys yn gweithredu'n wahanol i'r cynllun gwasanaeth a, lle bo'n briodol, y rhesymau dros yr amrywiad hwnnw<br>• efallai y bydd gwaith ychwanegol a wnaed gan yr Awdurdod Cymwys mewn meysydd gorfodi eraill wedi cyflawni'r un amcan, ac os felly, caiff hynny ei nodi'n glir yn y rhan hon o'r cynllun |
| 6.3 Meysydd i'w gwella | • mae'r adran hon yn nodi cynlluniau'r Awdurdod Cymwys ar gyfer unrhyw ofynion perthnasol o ran gwella neu ddatblygu'r gwasanaeth a nodwyd gan yr adolygiad neu'r asesiad ansawdd |

# Atodiad 2: Cofrestru

## A2.1 Cofrestru sefydliadau bwyd

### A2.1.1 Pwy sy'n weithredwr busnes bwyd?

Wrth ystyried pwy i'w gofrestru fel y gweithredwr busnes bwyd o dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, gall Awdurdodau Cymwys ofyn i weithredwr y busnes bwyd nodi pwy ydynt, gan gynnwys enw'r gweithredwr yn achos personau cyfreithiol, cyfeiriad, a math o endid busnes ar y ffurflen gofrestru.

Diffinnir y mathau o endid busnes yn ôl y system gyfreithiol ar gyfer gwlad unigol ond gallant gynnwys elusen, cwmni cyfyngedig, sefydliad, neu ymddiriedolaeth sy'n ei weithredu, partneriaethau, a masnachwyr unigol.

### A2.1.2 Gofyniad i gofrestru sefydliad busnes bwyd

O dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru'r sefydliad(au) sydd o dan eu rheolaeth gyda'r Awdurdod Cymwys priodol.

Cynghorir gweithredwyr busnesau bwyd i gyflwyno cais i gofrestru sefydliad bwyd o leiaf 28 diwrnod cyn i'r busnes ddechrau masnachu neu cyn i'r gweithrediadau bwyd gychwyn.

Anogir Awdurdodau Cymwys i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i fusnesau am y gofynion sy'n ymwneud â chofrestru.

Efallai y bydd sefyllfaoedd pan fydd gweithredwr busnes bwyd yn cofrestru fel busnes bwyd 28 diwrnod cyn iddo fwriadu dechrau gweithredu. Safbwynt yr ASB, mewn amgylchiadau o'r fath, yw y gallai Awdurdodau Cymwys ei chael hi'n ddefnyddiol osgoi mewnbynnu cofrestriadau i'w cronfeydd data nes bod ganddynt gadarnhad bod y busnesau hynny wedi dechrau neu fod ganddynt ddyddiad gweithredu sy'n agos. Gallai hyn olygu cadw cofnod dros dro o fusnesau o'r fath gyda rhai gwiriadau cyfnodol i wirio a ydynt wedi dechrau gweithrediadau bwyd.

Os yw cais cofrestru'n ymwneud â busnes sydd â mwy nag un uned symudol, byddai angen manylion yr holl unedau symudol y mae gweithredwr y busnes bwyd yn berchen arnynt. Byddai'r manylion yn cynnwys:

- rhifau cofrestru/adnabod
- nodweddion adnabod
- mathau o gyfleusterau
- mathau o fwyd

### A2.1.3 Dulliau cofrestru

Wrth gofrestru, bydd yn angenrheidiol i weithredwyr busnesau bwyd roi manylion llawn i'r Awdurdodau Cymwys am y gweithgareddau a gynhelir yn y sefydliad(au) sydd dan eu rheolaeth.

O dan Reoliad 32(1) o Reoliadau Darparu Gwasanaethau 2009, mae'n ofynnol i Awdurdodau Cymwys fod â dull electronig i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru sefydliadau busnes bwyd. Ffefrir dull digidol ar gyfer cofrestru ac anogir gweithredwyr busnesau bwyd, lle bo modd, i gwblhau eu cais cofrestru ar-lein.

Mae'r gwasanaeth Cofrestru Busnesau Bwyd (RAFB) ar-lein yn adnodd i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru eu busnes bwyd gyda'r Awdurdod Cymwys sy'n gyfrifol am ddiogelwch bwyd yn eu hardal. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth hwn drwy wefan yr ASB, neu drwy wefan yr Awdurdod Cymwys perthnasol.

Anogir Awdurdodau Cymwys i helpu gweithredwyr y busnesau bwyd hynny sydd angen cymorth i gwblhau eu cofrestriad ar-lein. Gellir rhoi cefnogaeth wyneb yn wyneb yn y sefydliad, dros y ffôn neu drwy wahodd gweithredwr y busnes bwyd i'r swyddfa.

#### A2.1.4 Defnyddio gwybodaeth o ffynonellau eraill

Lle mae gwybodaeth am gyfeiriad y sefydliad a'r gweithgarwch a gyflawnir eisoes ar gael o ffynonellau eraill, gellir defnyddio'r wybodaeth honno at ddibenion cofrestru.[52]

#### A2.1.5 Cynhyrchu cynradd

Ystyrir bod sefydliadau ar lefel cynhyrchu cynradd sydd wedi'u cofrestru â Thaliadau Gwledig Cymru (RPW) cyn 1 Rhagfyr 2006 wedi'u cofrestru at ddibenion Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

#### A2.1.6 Llongau pysgota

Ystyrir bod llongau pysgota ar lefel cynhyrchu cynradd sydd wedi'u cofrestru gyda'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) wedi'u cofrestru at ddiben Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2204. Cyhoeddir y rhestr hon ar-lein gan yr MMO.

### A2.2 Eithriadau rhag cofrestru

#### A2.2.1 Graddau o drefnu a pharhad gweithgareddau

Nid yw sefydliadau sy'n ymgymryd â gweithgareddau bwyd nad ydynt yn cynnwys rhyw raddau o drefnu na pharhad gweithgareddau yn bodloni'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd, ac felly maent y tu hwnt i gwmpas Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Mae canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu rhai darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 ar hylendid bwydydd yn nodi (yn yr iaith wreiddiol), 'somebody who handles, prepares, stores or serves food occasionally and on a small scale cannot be considered as an 'undertaking''.

Wrth lunio barn am y ddwy elfen hyn, argymhellir nad yw Awdurdodau Cymwys yn ystyried parhad a threfnu ar wahân. Yn hytrach, dylent ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Er enghraifft, os yw gweithgaredd yn digwydd unwaith yn unig neu os mai dim ond bwyd risg isel a gaiff ei drin, nid yw o reidrwydd yn golygu ei fod wedi'i eithrio rhag gorfod cofrestru.

[52] Erthygl 10(2) o Reoliad (UE) 2017/625

Er y gall rhai sefydliadau a/neu weithgareddau fod wedi'u heithrio rhag gofynion cofrestru, maent, fodd bynnag, yn parhau i fod yn ddarostyngedig i rai o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a Rheoliad (CE) Rhif 178/2002.

### A2.2.2 Sefydliadau cymeradwy

Mae Erthygl 4(1)(b) o Reoliad (CE) Rhif 853/2004 yn nodi nad oes gofyn i sefydliadau bwyd sy'n destun cymeradwyaeth o dan Reoliad (CE) Rhif 853/2004 hefyd gofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys o dan Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

### A2.2.3 Eithriadau eraill


Mae Erthygl 1(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 yn nodi'r amgylchiadau lle na fyddai'r gofyniad i gofrestru o dan Erthygl 6(2) yn gymwys, sef:

- cynhyrchu cynradd ar gyfer defnydd domestig preifat
- paratoi, trin neu storio bwyd yn y cartref at ddefnydd domestig preifat
- canolfannau casglu a thanerdai sy'n dod o fewn y diffiniad o fusnes bwyd dim ond oherwydd eu bod yn trin deunydd crai ar gyfer cynhyrchu gelatin neu golagen

### A2.2.4 Siart lif cofrestru

Mae Ffigur 2 yn darparu coeden benderfynu i helpu i bennu pa weithgareddau bwyd sy'n golygu bod angen cofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys.

**Ffigur 2**



Nodiadau esboniadol:

1. Nid yw'r Rheoliadau'n gymwys i gynhyrchu cynradd ar gyfer defnydd domestig preifat, nac ar gyfer paratoi, trin na storio bwyd yn y cartref at ddefnydd domestig preifat.[53]
2. Mae hyn yn golygu unrhyw gam, gan gynnwys mewnforio, o'r cam cynhyrchu cynradd ar gyfer bwyd ac mae'n cynnwys y broses gynhyrchu, hyd at a chan gynnwys ei storio, ei gludo, ei werthu neu ei gyflenwi i'r defnyddiwr terfynol.[54]
3. Wrth ystyried 'ymgymeriad', argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn ystyried maint gweithrediad y busnes bwyd.
4. Parhad gweithgareddau – gellir ystyried nad yw gweithrediadau sy'n digwydd unwaith yn unig yn golygu parhad gweithgaredd.
5. Graddau'r trefnu – safbwynt yr ASB yw bod y bwydydd, eu risg a natur y digwyddiad yn cael eu hystyried wrth benderfynu i ba raddau y gellir dweud bod unrhyw weithrediad penodol wedi'i drefnu.
6. Mae'r Awdurdodau Cymwys yn cynghori, os bydd gweithrediadau bwyd yn newid, y dylid cysylltu â nhw i wirio a oes angen cofrestru wedi hynny.
7. Mae canllawiau cymeradwyo ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.
8. Mae canllawiau a ffurflen gofrestru ar-lein ar gael ar wefan yr ASB.

### A2.2.5 Camau i'w cymryd ar ôl i ffurflen gofrestru ddod i law

Pan fydd ffurflen gofrestru'n dod i law, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn gwneud nodyn o'r dyddiad dod i law. Pan fo unrhyw weithgareddau a nodir ar y ffurflen y tu allan i gylch gorchwyl, dylid hysbysu'r Awdurdod Cymwys perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Ar gyfer awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r gwasanaeth RAFB, bydd y system yn cofnodi'r dyddiad yn awtomatig.

Mae Awdurdodau Cymwys yn nodi gwybodaeth berthnasol o'r ffurflen gofrestru yn eu cronfa ddata o sefydliadau busnes bwyd cofrestredig. Yna, rhoddir y ffurflen gofrestru ar ffeil (electronig neu fel arall) mewn cysylltiad â phob sefydliad busnes bwyd.

Os yw sefydliad yn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd y gellid ei ystyried yn risg uchel, cymerir hyn i ystyriaeth wrth flaenoriaethu rheolaethau swyddogol cychwynnol.

---

[53] Erthygl 1(3) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 ac Erthygl 1(2)(b) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004

[54] Erthygl 3(16) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002

Mae Awdurdodau Cymwys yn cadw ffurflenni cais sefydliadau mewn fformat sy'n golygu y byddai modd eu defnyddio fel tystiolaeth pe bai angen.

Os bydd unrhyw wybodaeth yn cael ei hepgor o ffurflen gofrestru a gyflwynir gan weithredwr y busnes bwyd, bydd yr Awdurdod Cymwys naill ai'n cysylltu â gweithredwr y busnes bwyd i gael yr wybodaeth sydd ar goll neu, os oes llawer iawn o wybodaeth ar goll, bydd yn dychwelyd y ffurflen i weithredwr y busnes bwyd i'w llenwi'n llawn.

Ar ôl i ffurflen gais wedi'i chwblhau ddod i law, bydd Awdurdodau Cymwys yn cynnal rheolaeth swyddogol gychwynnol, os oes angen, gan ystyried Pennod 4 o'r Cod.

### A2.2.6 Cydnabod cais i gofrestru

Argymhellir bod yr Awdurdodau Cymwys yn cydnabod pan fydd cais i gofrestru busnes bwyd yn dod i law, a bod y cadarnhad hwn yn cynnwys nodyn atgoffa i weithredwr y busnes bwyd roi gwybod i'r Awdurdod Cymwys am unrhyw newidiadau dilynol i'r busnes, yn unol ag Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004.

Pan fydd Awdurdod Cymwys yn defnyddio'r gwasanaeth RAFB, anfonir cydnabyddiaeth o gais gweithredwr busnes bwyd i gofrestru yn awtomatig gan y gwasanaeth. Efallai y bydd yr Awdurdod Cymwys yn dymuno anfon ei gydnabyddiaeth ei hun yn ogystal.

### A2.2.7 Newidiadau i weithrediadau sefydliadau bwyd

O dan Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sicrhau bod gan yr Awdurdod Cymwys priodol yr wybodaeth ddiweddaraf am eu sefydliad(au) bwyd bob amser a hysbysu'r Awdurdod Cymwys a wnaeth eu cofrestru am unrhyw newidiadau sylweddol i'w gweithrediadau ac wrth gau sefydliadau.

Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys newidiadau i'r gweithrediad a'r gweithredwr.

Ystyrir bod newidiadau sylweddol yn cynnwys newidiadau i neu ddarfodiad:

- gweithgareddau bwyd
- perchnogaeth
- y manylion a ddarparwyd yn flaenorol

### A2.2.8 Newid perchnogaeth ar ôl cofrestru

Gall Awdurdodau Cymwys sylwi ar newidiadau o ran perchnogaeth yn ystod ymyriadau mewn sefydliadau busnesau bwyd. Mae'n ofynnol i weithredwr y busnes bwyd, yn rhinwedd Erthygl 6(2) o Reoliad (CE) Rhif 852/2004, roi gwybod i'r Awdurdod Cymwys am unrhyw newidiadau sylweddol, sy'n cynnwys newid perchnogaeth. Mae peidio â chydymffurfio â'r gofyniad hwn yn drosedd o dan Reoliad 17 o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r amgylchiadau lle bu newid perchnogaeth, ac felly byddai angen i weithredwr y busnes bwyd lenwi ffurflen gofrestru newydd.

**Tabl 7 – Senarios pan fydd gweithredwr y busnes bwyd yn newid – pan fydd angen cofrestru o'r newydd.**

| Gweithredwr presennol y busnes bwyd (fel y nodir yn y ddogfen gofrestru) | Newid gweithredwr y busnes bwyd (gan dybio nad oes unrhyw newidiadau eraill i'r busnes) | Sylwadau | Angen cofrestru o'r newydd? |
|---|---|---|---|
| Unig fasnachwr, partneriaeth, neu gwmni corfforedig (er enghraifft Cyf, PLC) | Unig fasnachwr, partneriaeth neu gwmni corfforedig gwahanol yn cymryd perchnogaeth | Terfynu gweithredwr/gweithredwyr | Ie |
| Unig fasnachwr neu bartneriaeth | Cwmni corfforedig (a chofrestredig), unig fasnachwr neu bartner(iaid) yn dod yn Gyfarwyddwr/wyr | Mae creu cwmni yn newid matrics cyfreithiol gweithredwyr busnes bwyd | Ie |
| Unig fasnachwr | Creu partneriaeth lle mae'r unig fasnachwr yn un o'r partneriaid | Y gweithredwr yn parhau | Na, ond dylid diweddaru'r System Gwybodaeth Reoli (MIS) |
| Partneriaeth | Wedi'i diddymu ac mae un o'r partneriaid yn cymryd perchnogaeth unigol ac yn unig fasnachwr | Y gweithredwr yn parhau | Na, ond dylid diweddaru'r System Gwybodaeth Reoli (MIS) |
| Partneriaeth | Mae partner newydd yn ymuno neu mae partner yn gadael cyhyd â bod o leiaf un partner yn parhau | Y gweithredwr yn parhau | Na, ond dylid diweddaru'r System Gwybodaeth Reoli (MIS) |
| Cwmni corfforedig | Mae'r cwmni'n mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ac yn cael ei redeg fel busnes gweithredol gan y gweinyddwyr | Terfynu gweithredwr/gweithredwyr | Ie |
| Cwmni corfforedig yn nwylo'r gweinyddwyr | Cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr yn cael ei gymryd drosodd gan unig fasnachwr, partneriaeth, neu gwmni corfforedig gwahanol | Terfynu gweithredwr/wyr, cofrestriad yn dod i ben | Ie |
| Unig fasnachwr, partneriaeth neu | Methdaliad, ansolfedd | | Amherthnasol |

| Gweithredwr presennol y busnes bwyd (fel y nodir yn y ddogfen gofrestru) | Newid gweithredwr y busnes bwyd (gan dybio nad oes unrhyw newidiadau eraill i'r busnes) | Sylwadau | Angen cofrestru o'r newydd? |
|---|---|---|---|
| gwmni corfforedig | ('insolvency') neu ddatodiad ('liquidation') (dirwyn i ben/diddymu) | | |

Argymhellir bod mathau eraill o fusnesau fel cwmnïau cydweithredol, elusennau cofrestredig, a mathau arbenigol eraill o sefydliadau (er enghraifft, sefydliadau dan reolaeth bwrdd/pwyllgor) yn cael eu trin fesul achos i nodi'r person naturiol neu'r person cyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â chyfraith bwyd o fewn y busnes bwyd dan eu rheolaeth.

Mae angen i Awdurdodau Cymwys benderfynu a oes unrhyw beth wedi newid yn ymarferol yn y sefydliad busnes bwyd neu a yw'r newid yn un gweinyddol yn unig a phenderfynu a yw ymyriad sgorio risg newydd yn briodol. Argymhellir bod penderfyniadau'n cael eu gwneud fesul achos ynghylch a fyddai cofrestriad newydd yn gofyn am ymyriad a sgôr risg ddilynol.

## A2.3 Gweithrediadau aml-safle a lloeren

### A2.3.1 Cofrestriad unigol ar gyfer sefydliadau cysylltiedig lluosog

Mae amgylchiadau lle mae modd cael un cofrestriad, o dan yr un gweithredwr busnes bwyd, ar gyfer yr hyn a ystyrir yn un busnes bwyd sy'n gweithredu ar sawl safle. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd yn well gan swyddogion awdurdodedig ystyried safleoedd a/neu leoliadau ar wahân fel rhan o un sefydliad at ddibenion cofrestru o dan Erthygl 6 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ac felly ddyrannu un sgôr ymyrryd yn unol â Phennod 4.

Yn y sefyllfaoedd hyn, byddai angen ei gwneud yn glir i weithredwr y busnes bwyd y gallai diffyg cydymffurfio ar un safle arwain at israddio'r sgôr gyffredinol (sgoriau ymyrryd a sgôr y CSHB) ar gyfer y gweithrediad cyfan.

Mae'r hyblygrwydd hwn yn golygu ymestyn yr eithriad manwerthu ar gyfer cymeradwyo busnesau bwyd llai lle nad yw'r broses o gynhyrchu cynhyrchion sy'n seiliedig ar POAO a'r elfen fanwerthu (sy'n golygu'r man neu'r pwynt cyflenwi i'r defnyddiwr terfynol) ar yr un 'safle', ond mae cysylltiad cryf rhwng safleoedd, i'r graddau bod pob safle yn ei hanfod yn gweithredu fel un busnes. Gall hefyd fod yn gymwys i weithrediadau lle na fyddai angen cymeradwyaeth ar yr un o'r safleoedd ond gallai leihau'r angen am gofrestriadau lluosog.

Dim ond pan fo prif ffocws gweithgareddau'r sefydliad ehangach yn rhai busnes manwerthu, hynny yw pan fo bwyd yn cael ei gyflenwi'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol y gellir defnyddio'r hyblygrwydd hwn.

Argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn ystyried busnesau o'r fath fesul achos er mwyn sicrhau bod y gweithrediad yn bodloni meini prawf sefydliad busnes bwyd unigol, ac yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- mae pob safle sy'n dod o dan yr hyblygrwydd o dan reolaeth yr un gweithredwr busnes bwyd
- mae un system rheoli diogelwch bwyd yn cwmpasu pob safle a'r gweithrediadau a wneir yn y safleoedd hynny
- mae'r holl safleoedd sy'n dod o dan yr hyblygrwydd wedi'u lleoli'n ddigon agos at ei gilydd fel y gellir eu hystyried yn rhan o un sefydliad sy'n destun un set o reolaethau swyddogol. Mae hyn yn golygu, pan fo arolygiad ar y gweill, fod yn rhaid i bob safle gael eu cynnwys yn yr arolygiad gan eu bod i gyd yn rhan o un sefydliad. Am y rheswm hwn, argymhellir mai dim ond i sefydliadau o fewn yr un ardal Awdurdod Cymwys y dylid cymhwyso'r hyblygrwydd

Lle na ellir bodloni un neu fwy o'r meini prawf a nodir uchod, ni ellir cymhwyso'r hyblygrwydd, a byddai pob safle'n cael ei gofrestru neu ei gymeradwyo yn y ffordd arferol.

Os prif weithgaredd y sefydliad yw cyflenwi POAO i fusnesau eraill, cyfeiriwch at y ddogfen Cymeradwyo Sefydliadau: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol

### A2.3.2 Gorfodi a goruchwylio safleoedd lluosog sy'n gweithredu o dan un cais cofrestru

Oherwydd ymarferoldeb swyddog yn cynnal y gwaith goruchwylio ac asesu parhaus angenrheidiol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gweithredu o dan un cais cofrestru, argymhellir mai dim ond i sefydliadau o fewn yr un ardal Awdurdod Cymwys y dylid cymhwyso'r hyblygrwydd hwn.

Mae'r hyblygrwydd hwn yn ddisgresiynol a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion awdurdodedig asesu fesul achos a yw busnes yn bodloni'r meini prawf ar gyfer sefydliad bwyd unigol. Argymhellir cofnodi'r asesiad a'r rhesymau ategol ar ffeiliau'r sefydliad perthnasol.

Caiff gweithredwr y busnes bwyd ddewis peidio â mabwysiadu'r trefniant hwn a gwneud cais i'r Awdurdod Cymwys gofrestru a/neu gymeradwyo pob safle ar wahân.

### A2.3.3 Enghreifftiau o pryd y gellir cofrestru sefydliad bwyd unigol

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn rhagnodol nac yn gyflawn mewn unrhyw ffordd, ac maent at ddibenion esbonio yn unig.

**Enghraifft 1 – Darparu ar gyfer safleoedd lloeren**

Sefydliad arlwyo neu 'gegin hyb' nad oes ganddi le gweini ar y safle ond sy'n paratoi bwyd i'w gludo i un neu fwy o safleoedd manwerthu lleol, neu 'geginau lloeren' a weithredir gan yr un gweithredwr busnes bwyd, i weini'r bwyd yn uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol heb unrhyw ddosbarthu ymhellach. Cyn belled â bod yr holl geginau hyb a cheginau lloeren yn dod o dan yr un system rheoli diogelwch bwyd a bod yr holl

geginau lloeren yn ddigon agos at ei gilydd i fod o dan yr un rheolaeth swyddogol, gellir eu cofrestru fel un sefydliad.

**Enghraifft 2 – Cyflenwi i safle manwerthu**

Uned weithgynhyrchu fach sy'n cynhyrchu caws arbenigol i'w werthu yn ei siop deli ar y stryd fawr gerllaw. Yr un gweithredwr busnes bwyd sy'n gweithredu'r ddau safle, sy'n manwerthu i'r defnyddiwr terfynol. Mae gweithredwr y busnes bwyd wedi datblygu system rheoli diogelwch bwyd ar gyfer y caws arbenigol, o'r broses gynhyrchu i weini yn y deli (safle manwerthu). O ystyried bod un gweithredwr busnes bwyd ac un system rheoli diogelwch bwyd, cyn belled â bod yr uned weithgynhyrchu a'r siop fanwerthu yn ddigon agos at ei gilydd i fod wedi'u cynnwys yn yr un ymyriad rheolaeth swyddogol, gellir eu cofrestru fel un sefydliad.

Sylwer: Os na chaiff yr hyblygrwydd ei gymhwyso, byddai angen ystyried cymeradwyo'r uned weithgynhyrchu. Cyfeiriwch at y ddogfen Cymeradwyo Sefydliadau: Canllawiau i Awdurdodau Lleol am gyngor pellach.

**Enghraifft 3 – Unedau lluosog ar yr un safle**

a) gwasanaethau traffordd: sawl uned manwerthu bwyd heb frand mewn gorsaf wasanaeth ar draffordd, gan gynnwys siop goffi, bar byrbrydau a bwyty sydd i gyd yn cael eu rhedeg gan un gweithredwr busnes bwyd. Mae'r holl fwyd a gyflenwir i'r unedau yn cael ei baratoi mewn cegin ganolog sydd wedi'i lleoli ar y safle, neu caiff bwyd ei brynu trwy restr cyflenwyr cymeradwy'r cwmni. Mae un system rheoli diogelwch bwyd yn cwmpasu pob uned

b) gwasanaethau traffordd: cadwyn goffi â brand sydd â phrif siop goffi, ynghyd â dwy uned lloeren sefydlog lai yn yr orsaf wasanaeth a cherbyd symudol sy'n gweithredu ar safle'r orsaf wasanaeth. Mae pob un yn cael ei weithredu gan yr un gweithredwr busnes bwyd ac yn gweithredu o dan yr un system rheoli diogelwch bwyd

c) archfarchnad: archfarchnad fawr sy'n cyflenwi ei gorsaf betrol ei hun ar y safle â bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw. Mae trosglwyddo, storio ac arddangos bwyd yn yr orsaf betrol wedi'u cynnwys yn system rheoli diogelwch bwyd y siop ac mae'r ddau yn cael eu gweithredu gan yr un gweithredwr busnes bwyd

### A2.3.4 Enghreifftiau o pryd na fydd cofrestru sefydliad bwyd unigol yn gymwys

**Enghraifft 1 – Darparu ar gyfer safleoedd lloeren**

Mae cwmni arlwyo yn cynhyrchu amrywiaeth o fwydydd ac yn cyflenwi dau fwyty. Er bod yr un gweithredwr busnes bwyd yn gweithredu'r ddau fwyty, mae gweithgareddau cynhyrchu bwyd pellach yn digwydd ym mhob bwyty sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob safle fod â system rheoli diogelwch bwyd ar wahân i reoli risgiau ar y safle yn ddigonol. Gan nad yw pob safle yn gweithredu o dan un system rheoli diogelwch bwyd, nid yw'r meini prawf yn cael eu bodloni ac ni ellir cymhwyso'r hyblygrwydd.

**Enghraifft 2 – Cyflenwi i safle manwerthu**

Mae becws yn cyflenwi cynhyrchion bwyd ffres wedi'u pobi fel pasteiod cig i amryw siopau manwerthu sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Mae'r becws cynhyrchu a'r holl siopau manwerthu yn cael eu gweithredu gan yr un gweithredwr busnes bwyd, ac mae un system rheoli diogelwch bwyd ar waith ar draws pob safle. Er bod un gweithredwr busnes bwyd ac un system rheoli diogelwch bwyd ar waith, nid yw'r safleoedd yn ddigon agos at ei gilydd i gael eu hystyried yn un sefydliad busnes bwyd y gellir ei gwmpasu gan yr un ymyriad rheolaeth swyddogol. Felly, ni ellir cymhwyso'r hyblygrwydd.

## A2.4 Sefydliadau busnes bwyd symudol

Mae'r adrannau canlynol yn cyfeirio at sefydliadau bwyd sy'n symud rhwng lleoliadau sefydlog ac fel arfer trwy lwybrau wedi'u trefnu.

Er bod llongau môr, awyrennau, trenau a bysys sy'n teithio'n bell yn destun darpariaethau Rheoliad (CE) Rhif 852/2004, mae eu natur symudol yn golygu nad yw hi fel arfer yn ymarferol cofrestru cerbydau unigol gydag Awdurdodau Cymwys y DU, gan nad ydynt bob amser yn bresennol yn yr un ardal awdurdodaeth. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer cofrestru sefydliadau symudol.

### A2.4.1 Llongau a chychod

Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd gofrestru llongau o dan eu rheolaeth sy'n bodloni'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd oni bai bod gofyn eu cymeradwyo (fel llongau rhewi, ffatri a riffiwr). Mae hyn yn cynnwys:

- llongau sydd wedi'u hangori'n barhaol yn y DU (bwytai sy'n arnofio)
- llongau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion dal, casglu a dosbarthu bwyd
- llongau teithwyr sy'n masnachu'n gyson ar ddyfrffyrdd mewndirol ac sy'n teithio'r un llwybrau, heb adael dyfroedd tiriogaethol, er enghraifft fferïau traws-sianel, fferïau afon a chychod pleser

Os yw'r llong yn galw'n rheolaidd mewn mwy nag un porthladd yn y DU, yr 'awdurdod cofrestru' fel arfer yw'r awdurdod iechyd porthladd (PHA) lle mae 'porthladd cartref' y llong wedi'i gofrestru gyda'r Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau.

### A2.4.2 Awyrennau

Byddai cwmnïau ac arlwywyr awyrennau sy'n fusnesau bwyd yn cofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys mwyaf priodol. Fel arfer, hwn fydd yr Awdurdod Cymwys neu'r PHA lle caiff penderfyniadau polisi a rheoli'r cwmni ar ddiogelwch bwyd eu gwneud.

### A2.4.3: Trenau a bysys

Byddai cwmnïau gweithredu trenau a bysys sy'n fusnesau bwyd yn cofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys mwyaf priodol. Fel arfer, hwn fydd yr Awdurdod Cymwys lle caiff penderfyniadau polisi a rheoli'r cwmni ar ddiogelwch bwyd eu gwneud.

Nid yw trenau a bysys unigol yn destun cofrestru ar wahân, ond byddai angen i weithredwr y busnes bwyd gofrestru unrhyw sefydliad neu uned sefydlog arall sy'n ymgymryd â gweithgareddau'r busnes bwyd.

Argymhellir bod yr Awdurdodau Cymwys hynny sy'n cofrestru'r prif sefydliad yn arolygu nifer cynrychioliadol o gerbydau trên sy'n darparu bwydydd (fel cerbydau bwffe a cherbydau sy'n gweini bwyd), lle mae'r unedau gweini bwyd ar draws y stoc yn edrych yn debyg ac yn gweithredu yn ôl gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd cyffredin. Lle mae prif sefydliadau a gweithrediadau trên (sy'n darparu bwyd) wedi'u cydleoli, gall yr Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru gynnal yr arolygiadau hyn.

### A2.4.4: Marchnadoedd

Yn achos cerbydau a stondinau (p'un a yw'r cyfleusterau hyn yn cael eu darparu gan reolwr y farchnad ai peidio) a ddefnyddir ar gyfer cludo, paratoi neu werthu bwyd i ddefnyddwyr o fewn ardal marchnad, bydd gweithredwr y busnes bwyd yn cofrestru'r sefydliad gyda'r Awdurdod Cymwys lle mae ei stociau bwyd yn cael eu storio fel arfer.

## A2.5 Sefydliadau bwyd symudol

Mae'r adrannau canlynol yn cyfeirio at sefydliadau bwyd sydd â'r symudedd i fasnachu mewn mwy nag un lleoliad, ac eithrio'r sefydliadau bwyd symudol hynny a ddisgrifir yn adran A2.4.

### A2.5.1 Gofynion cofrestru

Mae'n ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sefydliadau bwyd symudol gofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys (yr Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru) lle mae lleoliad y sefydliad fel arfer neu lle y dychwelir iddo rhwng masnachu. Er enghraifft, tŷ preswyl preifat perchennog y sefydliad bwyd symudol.

Ar ôl cofrestru, argymhellir na ofynnir i weithredwr y busnes bwyd gofrestru gydag unrhyw Awdurdod Cymwys arall y mae'n masnachu yn ei ardal.

### A2.5.2 Cyfrifoldebau'r Awdurdod Cymwys

Mae Awdurdodau Cymwys yn gyfrifol am gynnal rheolaethau swyddogol ar y gweithgareddau a gyflawnir gan sefydliad symudol sy'n gweithredu yn eu hardal.

Argymhellir bod yr Awdurdod Cymwys sy'n ymgymryd â'r rheolaeth swyddogol yn cysylltu â'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru cyn unrhyw ymyriad, er mwyn:

- cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefydliad
- penderfynu a yw'n bryd cynnal rheolaeth swyddogol
    - os oes angen rheolaeth swyddogol, mae angen iddo bennu'r math o ddulliau a thechnegau a allai fod yn briodol o dan yr amgylchiadau (er enghraifft arolygiad llawn, arolygiad rhannol, neu archwiliad)

O ran yr Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru, mae ganddo'r disgresiwn i benderfynu a oes angen iddo gynnal unrhyw reolaethau swyddogol penodol, er enghraifft mewn amgylchiadau lle mae arolygiad llawn wedi'i gynnal gan Awdurdod Cymwys y mae'r sefydliadau symudol yn gweithredu yn ei ardal.

Er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi sefyllfa lle cynhelir gormod o reolaethau swyddogol yn y sefydliad, byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n cynnal y rheolaeth swyddogol yn darparu gwybodaeth i'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru am unrhyw reolaeth(au) swyddogol a gynhaliwyd ar sefydliadau symudol sy'n gweithredu yn eu hardal.

Argymhellir trosglwyddo manylion rheolaethau swyddogol a chamau gorfodi i'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru cyn gynted â phosib. Byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru yn ystyried yr wybodaeth a gyflenwir wrth ddiwygio sgôr risg y sefydliad, yn unol â Phennod 4 o'r Cod, a byddai hyn yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata'r Awdurdod Cymwys o sefydliadau bwyd.

### A2.5.3 Trosglwyddo cyfrifoldeb rhwng Awdurdodau Cymwys

O dan rai amgylchiadau, efallai na fydd y sefydliad busnes bwyd symudol byth yn masnachu yn ardal yr Awdurdod Cymwys cofrestredig, felly efallai y byddai'n fwy priodol i Awdurdod Cymwys arall ymgymryd â chyfrifoldeb am sgôr risg y sefydliad symudol. Argymhellir y dylid ond trosglwyddo cyfrifoldeb pan fydd y ddau Awdurdod Cymwys yn cytuno i wneud hynny.

Yn yr achosion hyn, yr Awdurdod Cymwys sydd wedi derbyn cyfrifoldeb am y sgôr risg fydd yn gyfrifol am bennu'r amlder gofynnol ar gyfer y rheolaeth swyddogol ar gyfer y sefydliad hwnnw.

Byddai cadarnhad o unrhyw gytundeb o'r fath yn cael ei wneud yn ysgrifenedig a byddai'r Awdurdod Cymwys cofrestredig yn cofnodi ar ffeil fod cytundeb ar waith.

Os bydd unrhyw geisiadau am wybodaeth am y sefydliad yn dod i law'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru, gall gyfeirio'r rhain at yr Awdurdod Cymwys cyfrifol.

### A2.5.4 Trefn arferion gorau ar gyfer sgorio sefydliadau bwyd symudol

Gall Awdurdodau Cymwys ddefnyddio'r trefniadau canlynol fel arferion gorau wrth roi sgoriau (sgôr risg a'r CSHB) ar gyfer busnesau bwyd symudol yn eu hardal:

- **wedi'u cofrestru ac yn gweithredu o fewn yr un Awdurdod Cymwys –** mae'r awdurdod cofrestru yn cynnal rheolaethau swyddogol, ac yn sgorio'r uned ar gyfer y CSHB

- **wedi'u cofrestru mewn un Awdurdod Cymwys ond yn masnachu'n bennaf mewn ardal Awdurdod Cymwys arall –** byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n ymgymryd â'r rheolaeth swyddogol yn cysylltu â'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru ac yn cynnig y trefniant canlynol:
  - byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru yn gyfrifol am ddelio ag unrhyw apeliadau yn erbyn sgoriau, ceisiadau am arolygiadau ailsgorio a cheisiadau i gyhoeddi 'hawl i ymateb'
  - gall yr Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru barhau i gynnal rheolaethau swyddogol, ond peidio â rhoi sgôr CSHB er mwyn osgoi dyblygu (y

rhesymau dros hyn yw bod y cyhoedd yn fwy tebygol o chwilio gwefan y CSHB am fusnesau bwyd yn eu cyfeiriad masnachu ac efallai nad yw'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru wedi gweld y busnes bwyd yn gweithredu)

- mae'r Awdurdod Cymwys sy'n cynnal y rheolaethau swyddogol pan fydd y sefydliad bwyd symudol yn masnachu yn anfon copi o'r 'adroddiad ar y rheolaeth swyddogol' at yr Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru
- os/pan fydd yn cynnal rheolaeth swyddogol, bydd yr Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru yn anfon copi o'i adroddiad at yr Awdurdod Cymwys lle mae'r sefydliad bwyd symudol yn masnachu'n bennaf, fel y gellir ystyried hyn wrth gyfrifo sgôr y CSHB

- **wedi'u cofrestru mewn un Awdurdod Cymwys ond yn masnachu mewn nifer o wahanol safleoedd ar draws nifer o Awdurdodau Cymwys –**
  - byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru, os yn bosib, yn cynnal rheolaeth swyddogol o'r uned ac yn rhoi sgôr CSHB
  - pe na bai hyn yn bosib, byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru yn cofnodi canfyddiadau'r Awdurdod Cymwys sy'n cynnal y rheolaeth(au) swyddogol ac yn rhoi'r sgôr hylendid bwyd yn unol â hynny
  - byddai'r Awdurdod Cymwys sy'n cynnal rheolaeth swyddogol yn parhau i fod yn gyfrifol am gysylltu â'r Awdurdod Cymwys sy'n cofrestru ac anfon copi o unrhyw 'adroddiad ar reolaeth swyddogol' er mwyn osgoi dyblygu, lle bo modd

### A2.5.5 Busnes bwyd symudol ag unedau lluosog

Pan fo busnes bwyd yn gweithredu mwy nag un sefydliad symudol, argymhellir bod Awdurdodau Cymwys yn ystyried a yw'n briodol cofrestru'r busnes fel un sefydliad unigol (hynny yw lle mae un 'meddwl rheoli'), neu gofrestru pob sefydliad symudol unigol, gan ystyried y meini prawf yn adran A2.3.1. Dim ond pan fydd y tri maen prawf yn cael eu bodloni y bydd cofrestriad unigol ar gyfer busnes bwyd yn briodol.

### A2.5.6 Sgorio risg sefydliadau symudol

Mae Awdurdodau Cymwys yn sgorio risg sefydliadau symudol sydd wedi cofrestru gyda nhw pan fyddant yn ddyledus ac maent yn gwneud hynny yn seiliedig ar eu rheolaethau swyddogol eu hunain, gan ystyried gwybodaeth a ddarperir gan Awdurdodau Cymwys eraill sydd wedi cynnal rheolaethau swyddogol priodol. Lle bo modd, byddai'r sgôr risg yn seiliedig ar reolaethau swyddogol sy'n cynnwys arsylwadau o'r busnes ar waith.

## A2.6 Mathau eraill o sefydliadau

### A2.6.1 Busnesau bwyd sy'n gweithredu o safleoedd domestig fel arlwywyr cartref a lletai gwely a brecwast

Mae paratoi, trin neu storio bwyd yn y cartref sydd i'w roi ar y farchnad (boed yn rhad ac am ddim ai peidio), ac sy'n bodloni'r diffiniad o 'fusnes bwyd', yn ddarostyngedig i

ofynion cofrestru, ac yn gofyn am gofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys lle mae'r gweithgaredd yn digwydd.

### A2.6.2 Gofal cartref/gofal byw â chymorth

Bydd angen cofrestru fel busnes bwyd pan ystyrir bod gweithrediadau'r gwasanaeth gofal yn dod o fewn cwmpas y diffiniad cyfreithiol o 'fusnes bwyd'. Os oes angen cofrestru, byddai angen cofrestru'r sefydliad ei hun hyd yn oed os nad oes angen i rai gweithrediadau a gyflawnir ffurfio rhan o'r cais cofrestru, er enghraifft, yn y senario lle mae gan gartref preswyl gleientiaid sy'n gwneud paratoadau domestig a phobl sy'n trin a pharatoi bwyd ar ran eraill.

### A2.6.3 Banciau bwyd

Os yw banciau bwyd sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr cymunedol yn bodloni'r diffiniad o fusnes bwyd, mae angen iddynt gofrestru a chydymffurfio â chyfraith bwyd yn gymesur. Efallai y bydd rhai banciau bwyd yn gallu cael eu heithrio rhag cofrestru os nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o 'ymgymeriad' a roddir yng Nghronicliad 9 o Reoliad (CE) Rhif 852/2004 ac Erthygl 3(2) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002.

### A2.6.4 Broceriaid bwyd

Busnesau bwyd sy'n gweithredu fel cyfryngwyr yn y gadwyn gyflenwi yw broceriaid bwyd, ac maent yn gweithredu mewn amrywiol gamau rhwng busnesau bwyd eraill a'r defnyddiwr terfynol neu'r arlwywr.

Er eu bod o bosib yn trefnu symud bwyd rhwng cyflenwyr neu i fanwerthwyr, nid ydynt o reidrwydd yn trin y bwyd nac yn ei storio yn eu sefydliad (a all fod yn swyddfa i bob pwrpas). Cyn belled â'u bod yn bodloni'r diffiniad o 'fusnes bwyd' a 'gweithredwr busnes bwyd', mae angen cofrestru, a byddai angen iddynt fod wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys lle mae'r brocer bwyd wedi'i leoli. O ran POAO, mae Erthygl 3 o Reoliad (UE) Rhif 931/2011 ar ofynion olrheiniadwyedd ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid yn gosod dyletswydd ar weithredwr y busnes bwyd, gan gynnwys broceriaid bwyd, i allu nodi a darparu gwybodaeth olrheiniadwyedd benodol i'r Awdurdod Cymwys.

Mae canllawiau i swyddogion awdurdodedig ar froceriaid bwyd yn cynnwys gwybodaeth am y gwahaniaeth rhwng broceriaid bwyd ac asiantau bwyd, sy'n gweithredu fel cynrychiolydd gweithredwr busnes bwyd heb unrhyw awdurdod i fasnachu yn eu henw eu hunain ac nad ydynt yn cymryd perchnogaeth o'r bwyd, nac yn gofalu amdano, yn gyfreithiol nac yn ffisegol ar unrhyw adeg.

### A2.6.5 Gwerthu dros y rhyngrwyd

Mae rhai busnesau'n gwerthu eu nwyddau dros y rhyngrwyd, ond nid oes cyfeiriad penodol at fasnach o'r fath yn Rheoliad (CE) Rhif 852/2004. Os yw busnesau o'r fath yn dod o fewn y diffiniad o fusnes bwyd fel yr amlinellir yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002, bydd gofynion perthnasol cyfraith bwyd yn gymwys iddynt.

Byddai angen i fusnesau o'r fath gofrestru gyda'r Awdurdod Cymwys mwyaf priodol. Efallai y bydd hyn lle maent yn byw, lle mae eu swyddfa wedi'i lleoli neu lle mae'r stociau bwyd yn cael eu storio.

O ran busnesau bwyd, fel y rheiny sy'n sefydlu gwefannau sy'n darparu bwydlenni arlwywyr i ddefnyddwyr, sy'n hwyluso gwerthu'r bwyd a threfnu ei ddosbarthu o'r arlwywr i'r defnyddiwr, efallai y bydd angen iddynt gael eu cofrestru fel busnes bwyd hefyd.

Mae canllawiau i Awdurdodau Cymwys ynghylch gwerthu bwyd ar-lein ar gael ar lwyfan cyfathrebu'r ASB.

### A2.6.6 Sefydliadau busnesau bwyd dros dro

Sefydliadau sydd ar agor am gyfnod byr yn unig yw busnesau bwyd dros dro neu fusnesau bwyd 'pop-up'. Gall yr amser agor amrywio o ychydig oriau i ychydig fisoedd, yn dibynnu ar natur y busnes bwyd. Caiff y busnesau hyn eu trin yn yr un modd â sefydliadau bwyd symudol at ddibenion cofrestru.

Byddai angen i Awdurdodau Cymwys flaenoriaethu'r gwaith o gynnal rheolaethau swyddogol cychwynnol ar y busnesau hyn yn seiliedig ar risg ac yn unol â'u cynllun gwasanaeth a'u rhaglen rheolaethau swyddogol.

### A2.6.7 Peiriannau gwerthu

Mae peiriannau gwerthu yn ddarostyngedig i ddarpariaethau perthnasol Atodiad II i Reoliad (CE) Rhif 852/2004. Nid yw'r ASB yn gweld gwerth ymarferol mewn cofrestru peiriannau gwerthu unigol na'r sefydliad lle maent wedi'u lleoli os yw'r unig weithgaredd bwyd sy'n digwydd yn y sefydliadau hynny'n gysylltiedig â pheiriannau gwerthu ar gyfer cynhyrchion risg isel. Ar gyfer cynhyrchion risg uwch, dylai Awdurdodau Cymwys ystyried y risgiau a chymryd y camau priodol.

Fodd bynnag, byddai angen cofrestru canolfannau dosbarthu lle cedwir y bwyd i lenwi'r peiriannau gwerthu a/neu o ble mae'r bwyd yn cael ei gludo i'r peiriannau gwerthu, a hynny gyda'r Awdurdod Cymwys perthnasol. Byddai'r cerbydau dosbarthu a ddefnyddir i gludo'r bwyd i lenwi'r peiriannau gwerthu yn cael eu cynnwys yn y rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau o'r fath.

### A2.6.8 Sefydliadau anfasnachol

O ran gweithgareddau bwyd nad ydynt yn gweithredu o safle masnachol yn bennaf ond sy'n bodloni'r diffiniad o 'fusnes bwyd', byddai angen cofrestru'r rhain fel sefydliad busnes bwyd. Efallai y bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, fusnes bwyd sy'n gweithredu o safle domestig, a ddefnyddir yn bennaf fel annedd.

# Atodiad 3: Canllawiau ar Adran 4 o'r Cynllun Sgorio Ymyriadau Hylendid Bwyd

## A3.1 Lefel y gydymffurfiaeth (gyfredol) – gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| 25 | Braidd dim cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol | • tystiolaeth o braidd dim cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol<br>• risgiau difrifol sydd ar fin digwydd<br>• camau dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn cynnwys llythyr rhybudd, ac ailymweld â'r safle yn fuan i sicrhau cydymffurfiaeth. Dylai hyn gynnwys ystyried gweithdrefnau gwahardd lle mae risg ar fin digwydd<br>• arferion hylendid bwyd gwael iawn, risgiau halogi bwyd difrifol, prosesau rheoli tymheredd annigonol ar gyfer bwydydd risg uchel, ac angen gwella yn sylweddol ym mhob maes<br>• braidd dim cydymffurfio â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (er enghraifft, tystiolaeth o groeshalogi, cadw bwyd ar y tymheredd anghywir, oergell heb fod yn gweithio ar y tymheredd cywir)<br>• methu â gweithredu unrhyw un (hynny yw, pob un) o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi<br>• braidd dim cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel<br>• tystiolaeth o braidd dim cydymffurfio ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd |
| 20 | Methiant cyffredinol i fodloni'r rhwymedigaethau | • tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd<br>• risgiau eang a sylweddol |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | statudol – safonau yn gyffredinol isel | • camau dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn cynnwys llythyr rhybudd, ac ailymweld â'r safle yn fuan i sicrhau cydymffurfiaeth. Dylai hyn hefyd gynnwys ystyried camau gorfodi ffurfiol, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni a gweithdrefnau gwahardd posib pan fo peryglon eang a sylweddol<br>• annigonolrwydd wrth weithredu llawer o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi<br>• diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel (er enghraifft amserau coginio annigonol)<br>• tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd |
| 15 | Peth diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – angen mwy o ymdrech i atal safonau rhag gostwng | • tystiolaeth o beth diffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd<br>• rhai risgiau sylweddol wedi'u nodi<br>• camau dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn cynnwys llythyr rhybudd, ac ailymweld â'r safle i sicrhau cydymffurfiaeth. Gellir hefyd ystyried camau gorfodi ffurfiol, er enghraifft amgylchiadau a all gyfiawnhau cyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid<br>• camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd – mynd i'r afael â'r holl achosion a nodwyd o ddiffyg cydymffurfio yn unol ag amserlen benodedig<br>• gall enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio gynnwys cylchdroi stoc mewn ffordd wael neu lanweithdra personol gwael<br>• annigonolrwydd wrth weithredu rhai o'r mesurau rheoli sydd eu hangen i atal croeshalogi<br>• peth diffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion ar gyfer paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri neu storio bwyd yn ddiogel |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | | • tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd |
| 10 | Peth diffyg cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant – safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella | • tystiolaeth o rai achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (hynny yw nid ydynt yn sylweddol ond gallant ddatblygu i fod yn sylweddol os na chânt eu hunioni) ond, yn gyffredinol, mae safon cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol yn foddhaol<br>• annhebygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr o safbwynt trin bwyd mewn ffordd hylan, rheoli tymheredd a hylendid personol staff, ond gall wneud hynny os na roddir sylw i'r diffyg cydymffurfio<br>• camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi ond yn debygol o fod yn ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr sy'n nodi'r problemau). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad<br>• rhai camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd (mewn perthynas â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd nac yn debygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr ond sydd â'r gallu i wneud hynny os na roddir sylw iddynt) mewn perthynas ag arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff neu reoli tymheredd<br>• mae safonau'n cael eu cynnal neu'n gwella<br>• rhai diffygion mewn gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd wedi'u nodi (er enghraifft, mae bwyd risg uchel yn cael ei storio mewn oergell o dan 8°C fel arfer, ond mae rhywfaint o dystiolaeth bod y tymheredd yn codi'n uwch na hyn ar adegau prysur, rhai diffygion o ran monitro pwyntiau rheoli critigol)<br>• mesurau rheoli digonol ar waith i atal croeshalogi. Mae arferion paratoi, coginio, ailgynhesu, oeri a storio bwyd yn foddhaol yn gyffredinol, ond gall rhai diffygion ddod i'r amlwg dros gyfnodau byr |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | | • tystiolaeth o gydymffurfio boddhaol cyffredinol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd |
| 5 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant, a mân achosion o dorri'r rheoliadau hylendid bwyd | • tystiolaeth o gydymffurfio da iawn â'r gofynion cyfreithiol, a dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd<br>• dim camau dilynol gan yr awdurdod lleol ac eithrio'r adroddiad arolygu a ddarperir i weithredwr y busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a raglennir<br>• dim ond mân gamau gweithredu sydd wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd (mewn perthynas â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd) mewn perthynas ag arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff neu reoli tymheredd<br>• dim ond mân ddiffygion mewn gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd (er enghraifft, nid yw rhai dillad diogelwch yn lân iawn ac mae angen eu golchi)<br>• mae'r holl fesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi. Tystiolaeth bod bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio'n ddiogel<br>• tystiolaeth o lefel gydymffurfio da iawn ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau arfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant; yn cydymffurfio ag arferion da derbyniol yn y diwydiant | • tystiolaeth o fodloni'r gofynion cyfreithiol neu ragori ar y gofynion cyfreithiol<br>• Dim camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys, ac eithrio'r adroddiad arolygu a ddarparwyd i weithredwr y busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a raglennir<br>• dim camau dilynol ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff neu reoli tymheredd<br>• mae'r holl fesurau rheoli gofynnol ar waith i atal croeshalogi. Tystiolaeth bod bwyd yn cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio'n ddiogel |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | | Tystiolaeth o fodloni neu ragori ar arferion da yn y diwydiant a/neu'r gofynion o ran arferion da sydd wedi'u cynnwys mewn canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt arferion a gweithdrefnau trin bwyd, hylendid personol staff a rheoli tymheredd. |

## A3.2 Lefel y gydymffurfiaeth (gyfredol) – gofynion strwythurol

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| 25 | Braidd dim cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol | • tystiolaeth o braidd dim cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol<br>• risgiau difrifol sydd ar fin digwydd<br>• camau dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o ystyried gweithdrefnau gwahardd os oes risg sydd ar fin digwydd, camau gorfodi ffurfiol parhaus ac ailymweliadau o fewn amserlen dynn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth<br>• camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd – mae angen camau gweithredu uniongyrchol a sylweddol ar gyfer pob risg ddifrifol. Mae hefyd angen mynd i'r afael â'r holl faterion eraill yn ymwneud â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru a chyfleusterau yn unol ag amserlen benodedig<br>• mae'r sefydliad a'r cyfarpar yn fudr, gyda phroblemau strwythurol sylweddol<br>• diffyg lle i weithredu'n ddiogel<br>• braidd dim cydymffurfio â gofynion strwythurol (er enghraifft, problemau â'r cyflenwad dŵr poeth neu broblemau draenio, diffyg sinc golchi dwylo hanfodol, sefydliad budr â hen weddillion bwyd ar y lloriau, budreddi ar arwynebau gwaith)<br>• tystiolaeth o bresenoldeb eang plâu ar y pryd neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff gwbl annigonol<br>• braidd dim cydymffurfio ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| 20 | Methiant cyffredinol i fodloni'r rhwymedigaethau statudol – safonau yn gyffredinol isel | • tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â'r gofynion cyfreithiol<br>• risgiau eang a sylweddol wedi'u nodi<br>• camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gyflwyno camau gorfodi ffurfiol, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth<br>• camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd – rhaid iddo fynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru a chyfleusterau, a hynny ar fyrder yn unol ag amserlen benodedig<br>• safon wael o lanhau'r strwythur a'r cyfarpar. Gwaith cynnal a chadw gwael a chyflwr gwael. Nid yw'r holl gyfleusterau priodol ar gyfer golchi dwylo a glanhau cyfarpar wedi'u darparu<br>• mae cynllun gwael y safle yn debygol o arwain at groeshalogi a pheryglu diogelwch bwyd<br>• diffyg cydymffurfio sylweddol ac eang â gofynion strwythurol (er enghraifft, rhai strwythurau'n dadfeilio neu arwynebau gwaith gwael, prinder sinciau golchi dwylo, budreddi'n ymgasglu). Tystiolaeth o bresenoldeb plâu ar y pryd neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff annigonol<br>• tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ac eang ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol |
| 15 | Peth diffyg cydymffurfio sylweddol â rhwymedigaethau statudol – angen mwy o ymdrech i atal safonau rhag gostwng | • tystiolaeth o rywfaint o ddiffyg cydymffurfio sylweddol â'r gofynion cyfreithiol<br>• rhai risgiau sylweddol<br>• camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi gan ddefnyddio dull gweithredu graddol ond yn debygol o gynnwys llythyr rhybudd ac |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | | ystyried camau gorfodi ffurfiol, gan roi blaenoriaeth i'r sefydliad ar gyfer ailymweliad i sicrhau cydymffurfiaeth<br>• camau gweithredu dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd – rhaid iddo fynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru a chyfleusterau golchi dwylo a chyfarpar, yn unol ag amserlen benodedig<br>• mae angen gwelliannau sylweddol o ran safon y strwythur, glanhau offer, cynnal, cadw a thrwsio, neu gyfleusterau golchi dwylo ac offer<br>• gall cynllun gwael arwain at groeshalogi a pheryglu diogelwch bwyd<br>• diffyg cydymffurfio sylweddol â gofynion strwythurol (er enghraifft, gall fod difrod i arwynebau gwaith, rhywfaint o fudreddi arwyddocaol). Tystiolaeth o weithgarwch plâu presennol neu ddarpariaeth gwaredu gwastraff annigonol<br>• tystiolaeth o rywfaint o ddiffyg cydymffurfio sylweddol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol |
| 10 | Peth diffyg cydymffurfio â'r rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant – safonau'n cael eu cynnal neu eu gwella | • tystiolaeth o rai achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (hynny yw, nid ydynt yn arwyddocaol ond gallant ddatblygu i fod yn arwyddocaol os na roddir sylw iddynt)<br>• annhebygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr, ond gall wneud hynny os na roddir sylw i'r diffyg cydymffurfio<br>• camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi, ond yn debygol o fod yn ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr yn nodi'r problemau). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | | • rhai camau gweithredu dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd yn ymwneud â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd (ond a allai droi'n gritigol os na roddir sylw iddynt) mewn perthynas â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau<br>• mae safon glanhau'r strwythur a'r cyfarpar yn foddhaol ar y cyfan. Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cymharol dda. Mae cyfleusterau priodol yn cael eu darparu ond mae rhai enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio<br>• mae safonau'n cael eu cynnal neu'n gwella<br>• mae'n bosib y bydd angen rhywfaint o waith atgyweirio (er enghraifft, rhai teils ar y wal ger yr arwyneb paratoi bwyd ar goll neu wedi'u hollti, tystiolaeth bod arwynebau sy'n dod i gysylltiad â bwyd yn cael eu glanhau'n drylwyr ond rhai mannau lle nad yw'r gwaith glanhau yn ddigonol a bydd angen ei wella)<br>• tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli'n foddhaol (efallai y bydd angen mân brofion plâu, ond nid oes tystiolaeth o weithgarwch plâu)<br>• tystiolaeth o ddarpariaeth gwaredu gwastraff foddhaol (biniau taclus â chaeadau a threfniadau casglu digonol)<br>• tystiolaeth o gydymffurfio boddhaol cyffredinol ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol |
| 5 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant, a mân achosion o dorri'r rheoliadau hylendid bwyd | • tystiolaeth o gydymffurfio da iawn â'r gofynion cyfreithiol, a dim ond mân achosion o ddiffyg cydymffurfio nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd<br>• dim camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys, ac eithrio'r adroddiad arolygu a ddarparwyd i weithredwr y busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a raglennir<br>• dim ond mân gamau dilynol sydd wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd (yn ymwneud â materion nad ydynt yn gritigol i ddiogelwch bwyd) mewn perthynas |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | | â gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau<br>• mân atgyweiriadau yn unig sydd eu hangen (er enghraifft ychydig o deils wedi'u hollti ar y wal mewn ardal nad yw'n gritigol i ddiogelwch bwyd, mân ddiffygion wrth lanhau ardal anodd ei chyrraedd/anhygyrch)<br>• tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod darpariaeth gwaredu gwastraff effeithiol ar waith<br>• tystiolaeth o lefel gydymffurfio da iawn ag elfennau cydymffurfio'r canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol |
| 0 | Safon uchel o gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a chodau ymarfer a argymhellir ar gyfer y diwydiant; yn cydymffurfio ag arferion da derbyniol yn y diwydiant | • tystiolaeth o fodloni'r gofynion cyfreithiol neu ragori ar y gofynion cyfreithiol<br>• dim camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys, ac eithrio'r adroddiad arolygu a ddarparwyd i weithredwr y busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a raglennir<br>• dim camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd o safbwynt gofynion strwythurol gan gynnwys glendid, cynllun, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyru, cyfleusterau<br>• nid oes angen unrhyw atgyweiriadau ac ni nodwyd unrhyw welliannau posib, neu mae gweithdrefnau cadarn ar waith i wneud mân atgyweiriadau yn rheolaidd<br>• mae'r safle a'r cyfarpar yn lân ac mewn cyflwr da<br>• tystiolaeth bod plâu'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod darpariaeth gwaredu gwastraff effeithiol ar waith<br><br>Tystiolaeth o fodloni neu ragori ar arferion da yn y diwydiant a/neu'r gofynion o ran arferion da sydd wedi'u cynnwys mewn canllawiau i'r diwydiant ar arferion hylendid da (sydd wedi'u cydnabod yn ffurfiol gan yr ASB) o safbwynt gofynion strwythurol |

## A3.3 Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| 30 | Hanes gwael o gydymffurfio.<br>Ychydig neu ddim gwybodaeth dechnegol.<br>Ychydig neu ddim gwerthfawrogiad o beryglon neu o reoli ansawdd.<br>Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd.<br>Nid yw'r rheolwr yn cydnabod nac yn derbyn yr angen am reolaethau diogelwch a hylendid bwyd | • mae camau dilynol yr Awdurdod Cymwys yn debygol o gynnwys gweithdrefnau gwahardd os oes risg sydd ar fin digwydd ynghyd â chamau gorfodi ffurfiol parhaus, gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Cymwys. Caiff y sefydliad ailymweliad o fewn amserlen dynn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth<br>• camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd – mae angen camau gweithredu uniongyrchol a sylweddol ar gyfer pob risg ddifrifol. Rhaid mynd i'r afael â'r holl faterion eraill sy'n ymwneud â datblygu prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd, goruchwylio, cyfarwyddyd a hyfforddiant yn unol ag amserlen benodedig<br>• dim tystiolaeth o weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau wedi'u dogfennu fel sy'n briodol ar gyfer maint a natur y busnes (er enghraifft SFBB/Safe Catering), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd<br>• nid oes dealltwriaeth o beryglon sylweddol ac nid oes unrhyw fesurau rheoli effeithiol ar waith<br>• mae angen gwelliannau sylweddol mewn gweithdrefnau diogelwch bwyd/gweithredu mesurau rheoli<br>• nid oes unrhyw weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd, neu maent yn gwbl annigonol<br>• nid yw staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo na/neu eu hyfforddi ym maes hylendid bwyd ac nid ydynt yn gwerthfawrogi peryglon neu fesurau rheoli bwyd. Nid yw staff priodol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP<br>• hanes cydymffurfio gwael – efallai y bydd rhywfaint o dystiolaeth o broblemau blaenorol |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| 20 | Hanes amrywiol iawn o gydymffurfio. Gwerthfawrogiad gwael o beryglon a mesurau rheoli. Dim gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd. Peth amharodrwydd i gydnabod neu dderbyn bod angen rheolaethau diogelwch a hylendid bwyd | • mae camau dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn debygol o gynnwys cyflwyno camau gorfodi ffurfiol, gan ddefnyddio dull gweithredu graddol yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod Cymwys, ac ailymweliad â'r sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth<br>• camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd – rhaid iddo fynd i'r afael â'r holl achosion o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn perthynas â datblygu prosesau rheoli/gweithdrefnau diogelwch bwyd, goruchwylio, cyfarwyddyd a hyfforddiant, a hynny ar frys yn unol ag amserlen benodedig<br>• systemau rheoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau wedi'u dogfennu yn amhriodol neu'n annigonol ar gyfer maint a natur y busnes (er enghraifft SFBB/Safe Catering), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd. Ychydig neu ddim cynnydd o ran datblygu, cofnodi a chyflwyno gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ers yr ymyriad diwethaf<br>• nid oes dealltwriaeth llwyr o'r peryglon sylweddol, ac nid yw'r holl fesurau rheoli ar waith<br>• mae angen gwelliannau sylweddol mewn gweithdrefnau diogelwch bwyd/gweithredu mesurau rheoli<br>• nid yw rhai o'r staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo na/neu eu hyfforddi'n briodol ym maes hylendid bwyd. Nid yw staff priodol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP<br>• hanes amrywiol – efallai y bydd rhywfaint o dystiolaeth o broblemau blaenorol |
| 10 | Hanes boddhaol o gydymffurfio. Mynediad at gyngor technegol perthnasol a/neu Ganllawiau ar | • camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys yn unol â'i bolisi gorfodi ond yn debygol o fod yn ystyried camau gweithredu anffurfiol (adroddiad arolygu/llythyr yn nodi'r problemau). Y sefydliad yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailymweliad |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | Arferion Da neu gynllun sicrwydd. Dealltwriaeth o beryglon sylweddol a mesurau rheoli ar waith. Gwneud cynnydd boddhaol tuag at weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd dogfenedig sy'n gymesur â'r math o fusnes. Sylwer: Ni ellir ond ystyried bod 'gwneud cynnydd' yn briodol unwaith. Os nad yw'r gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn foddhaol ar adeg yr ymyriad nesaf, nid yw sgôr o 10 yn briodol | • rhai camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd mewn perthynas â datblygu a chwblhau gweithdrefnau dogfenedig sy'n gymesur â maint a natur y busnes a lle nad yw'r materion yn gritigol i ddiogelwch bwyd ond efallai y byddant yn troi'n gritigol os na roddir sylw iddynt, ac nid ydynt yn debygol o beri risg annerbyniol i ddefnyddwyr<br>• yn gyffredinol, mae mesurau rheoli diogelwch bwyd boddhaol ar waith sy'n briodol i faint a natur y busnes, ac mae cynnydd boddhaol yn cael ei wneud gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd<br>• mae dealltwriaeth o'r holl beryglon arwyddocaol ac mae mesurau rheoli ar waith. Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys pob gweithgaredd yn foddhaol, ond mae angen rhywfaint o waith datblygu/cwblhau pellach<br>• mae'r cofnodion rheoli diogelwch bwyd yn briodol ar gyfer maint a natur y busnes, ac maent yn cael eu cynnal yn gyffredinol ond gyda rhai diffygion/bylchau<br>• yn gyffredinol, mae staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi yn briodol ym maes hylendid bwyd, ond efallai y bydd rhai problemau bach, er enghraifft, nid yw pob aelod o staff yn gwbl ymwybodol<br>• mae staff priodol wedi cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP<br>• hanes cydymffurfio boddhaol, ond ni ddylai busnesau newydd neu fusnesau presennol y mae eu hamgylchiadau wedi newid (er enghraifft, rheolwyr newydd) gael eu cosbi ar sail eu hanes os oes ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith. Gallai hyn gynnwys busnesau presennol â hanes blaenorol da ond â rhai mân ddiffygion diweddar |
| 5 | Hanes da o gydymffurfio. Cyngor technegol | • dim camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys, ac eithrio'r adroddiad arolygu a ddarparwyd i weithredwr y busnes bwyd. Nid oes |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| | ar gael yn fewnol neu gellir cael mynediad at, a defnyddio cyngor technegol gan Brif Awdurdod, cymdeithasau masnach a/neu Ganllawiau Arferion Da neu gynllun sicrwydd. Rheoli peryglon yn effeithiol. Mae hunanwiriadau effeithiol ar waith, ynghyd â gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd boddhaol wedi'u dogfennu sy'n gymesur â'r math o fusnes. Archwiliad gan yr Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth gyffredinol â'r gweithdrefnau. | angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a raglennir<br>• dim ond mân gamau gweithredu dilynol (heb fod yn gritigol i ddiogelwch bwyd) a nodwyd ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd, a'r rheiny mewn perthynas â'r system rheoli diogelwch bwyd (er enghraifft, mân broblemau o ran cadw cofnodion sy'n cael sylw gan y rheolwyr)<br>• systemau rheoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau ar waith ac yn briodol ar gyfer maint a natur y busnes (er enghraifft SFBB/Safe Catering), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd<br>• mae dealltwriaeth o'r peryglon, ac maent yn cael eu rheoli a'u hadolygu'n briodol gyda thystiolaeth ategol<br>• mae gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn cynnwys pob gweithgaredd yn ddigonol. Mae'r cofnodion rheoli diogelwch bwyd yn briodol ar gyfer maint a natur y busnes ac, yn gyffredinol, maent yn cael eu cynnal – ond gyda rhai diffygion/bylchau<br>• mae cyngor technegol ar gael yn fewnol neu gellir cael mynediad at, a defnyddio cyngor technegol gan Brif Awdurdod, cymdeithasau masnach neu gynllun sicrwydd, neu ffynonellau eraill fel swyddog gorfodi'r Awdurdod Cymwys a/neu Ganllawiau Arferion Da<br>• mae staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi'n briodol ym maes hylendid bwyd, ac mae staff newydd yn cael hyfforddiant cynefino. Mae staff priodol yn cael hyfforddiant digonol mewn gweithredu egwyddorion HACCP<br>• hanes cydymffurfio da, ond ni ddylai busnesau newydd neu fusnesau cyfredol y mae eu hamgylchiadau wedi newid (er enghraifft, rheolwyr newydd) gael eu cosbi ar sail eu hanes os oes ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith |

| Sgôr | Disgrifiad yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Disgrifiad o sut y gellid disgwyl i'r sgôr edrych yn ymarferol |
|---|---|---|
| 0 | Hanes rhagorol o gydymffurfio. Mynediad at gyngor technegol neu reolwr sy'n wybodus ac yn gymwys. Yn rhagweithiol ac yn gallu hunan-reoleiddio. Gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd dogfenedig boddhaol sy'n gymesur â'r math o fusnes. Efallai y bydd y busnes hefyd yn destun proses archwilio allanol. Archwiliad gan yr Awdurdod Cymwys yn cadarnhau cydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau dogfenedig, gydag ychydig/mân achosion o ddiffyg cydymffurfio na nodwyd eu bod yn bwyntiau rheoli critigol | • dim camau gweithredu dilynol gan yr Awdurdod Cymwys, ac eithrio'r adroddiad arolygu a ddarparwyd i weithredwr y busnes bwyd. Nid oes angen ailymweliad cyn yr ymyriad nesaf a raglennir<br>• dim camau dilynol wedi'u nodi ar gyfer gweithredwr y busnes bwyd o safbwynt gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd<br>• systemau rheoli diogelwch bwyd/gweithdrefnau ar waith ac yn briodol ar gyfer maint a natur y busnes (er enghraifft SFBB/Safe Catering), gan ystyried yr hyblygrwydd sy'n deillio o Erthygl 5 o Reoliad (CE) 852/2004 ar hylendid bwyd a Dogfen Ganllaw gysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd ar weithredu gweithdrefnau sy'n seiliedig ar egwyddorion HACCP, a hwyluso egwyddorion HACCP mewn rhai busnesau bwyd<br><br>Archwiliad allanol o weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd.<br>Mae dealltwriaeth o'r peryglon, ac maent yn cael eu rheoli a'u hadolygu'n briodol gyda thystiolaeth ategol. Mae'r gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn cwmpasu pob gweithgaredd yn ddigonol. Mae'r cofnodion rheoli diogelwch bwyd yn briodol ar gyfer maint a natur y busnes ac maent yn cael eu cynnal.<br><br>Mynediad at gyngor technegol yn y sefydliad.<br>Mae'r holl staff yn cael eu goruchwylio, eu cyfarwyddo a/neu eu hyfforddi'n briodol ym maes hylendid bwyd. Mae staff perthnasol wedi cael hyfforddiant mewn gweithredu egwyddorion HACCP. Hanes cydymffurfio da iawn, ond ni ddylai busnesau newydd neu fusnesau cyfredol y mae eu hamgylchiadau wedi newid (er enghraifft, rheolwyr newydd) gael eu cosbi ar sail eu hanes os oes ganddynt weithdrefnau rheoli diogelwch bwyd ar waith. |

SWYDDOGOL